




**RHAN DAU:**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2007/08

**Arolwg ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC**

# 07|08

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol | 01 |
| Ynglŷn â r BBC | 02 |
| BBC a minnau | 04 |
| Bwrdd Gweithredol y BBC | 24 |
| Cipolwg ar y BBC | 26 |

**Arolwg o r gwasanaethau**

| | |
|---|---|
| Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol | 29 |
| Gwasanaethau Gweledol | 32 |
| Sain a Cherddoriaeth | 38 |
| Newyddiaduraeth | 44 |
| Gweithgareddau masnachol | 52 |
| Ymgysylltu â chynulleidfaoedd | 54 |

**Perfformiad**

| | |
|---|---|
| BBC People | 58 |
| Gweithrediadau | 62 |
| Ymrwymiadau'r Datganiadau o Bolisi Rhaglenni 2007/08 | 70 |

**Cyllid**

| | |
|---|---|
| Trosolwg ariannol | 82 |
| Llywodraethedd a r datganiadau ariannol | 86 |
| Cysylltu â r BBC | 148 |
| Gwybodaeth arall | Tu mewn y clawr cefn |

"rhaglennu o ansawdd sy'n ein hysbysu, ein haddysgu ac yn amlach na pheidio, yn ein diddanu. Mae'r tair elfen hynny yr un mor bwysig heddiw â phan gawsant eu crybwyll gyntaf ryw 80 mlynedd yn ôl."



# CROESO

Pan ysgrifennais atoch flwyddyn yn ôl, roedd ein gohebydd clodwiw yn Gaza, Alan Johnston, ar goll o hyd. Ni wyddem os byddem yn ei weld eto. Ac yna, gwelsom yr hyn yr oeddem wedi bod yn ei obeithio, yn gweithio ar ei gyfer ac yn gweddïo amdano: wyneb blinedig ond hapus Alan wrth iddo gael ei arwain i ryddid.

Ond o fewn ychydig ddyddiau, roedd gennym broblemau newydd i ddelio â hwy: cyfres o broblemau gyda phleidleisiau a chystadlaethau ffonio i mewn, a cham-olygu clip hyrwyddo ar gyfer ein cyfres *Monarchy*. Heb ymddiriedaeth y cyhoedd, nid yw'r BBC yn ddim, felly'r ennyd y cododd y problemau hyn gwyddem fod angen i ni weithredu'n gyflym ac yn bendant.

Yn fuan, roeddem wedi cynllunio a lansio'r cwrs hyfforddiant mwyaf yn hanes y BBC – nid 'seminarau ar uniondeb' fel y nodwyd yn gellweirus mewn rhai papurau newydd, ond sgwrs yn cynnwys dim llai na 17,000 o bobl y BBC yn ymchwilio i'r materion moesegol a'r achosion o gyfyng-gyngor sy'n wynebu'r byd darlledu modern. Erbyn hyn rydym hefyd wedi sefydlu llawer o reolaethau a mesurau diogelwch newydd, ond y peth pwysicaf yw ein bod wedi ategu rhywbeth yr oedd y mwyafrif helaeth o'r rheini sy'n gweithio i'r BBC wedi ei wybod erioed: ein bod yn gwasanaethu'r cyhoedd ac mai gonestrwydd ac uniondeb sydd bwysicaf wrth ymdrin â hwy.

Mae'r cyhoedd yn disgwyl mwy gan y BBC, a hynny'n haeddiannol. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd tystiolaeth o arolygon yn awgrymu bod ymddiriedaeth y cyhoedd yn y BBC wedi'i hadfer yn llwyr.

Er gwaethaf yr anawsterau hyn, cafodd y BBC flwyddyn o adfywiad creadigol eithriadol. O *Cranford* i *Sacred Music* i *Gavin and Stacey*, llwyddodd teledu i gyrraedd ein nod – rhoi boddhad i gynulleidfaoedd. A gwelsom y genedl yn rhannu rhai o'r digwyddiadau sy'n ein huno bob un ohonom – o'r *Concert for Diana* i fuddugoliaeth Cymru ym mhencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad.

Mae allbwn creadigol presennol y BBC ymhlith y gorau a welais erioed. Ar draws drama, newyddion a materion cyfoes, comedi a rhaglenni dogfen, mae'r BBC yn cyflawni allbwn o safon i bob un o'n cynulleidfaoedd beth bynnag fo'u diddordebau.

Mae radio yn ffynnu o dan Jenny Abramsky, a fydd yn ein gadael eleni ar ôl cael effaith anhygoel yn ystod ei chyfnod o 39 mlynedd yma. Mae'n briodol na fu radio'r BBC erioed cyn gryfed; mae Radio 4 wedi addasu – ac wedi ennill canmoliaeth y diwydiant cyfan; mae gwrandawyr Radio 2 yn cynyddu'n ddyddiol – gydag 8.1 miliwn yn gwrando ar Terry Wogan bob bore; ac mae ein gorsafoedd digidol yn tyfu ac yn estyn allan i gynulleidfaoedd newydd.

Bydd sut y mae'r BBC yn addasu i'r byd digidol ac ar alw newydd yn llywio dyfodol y Gorfforaeth yn ystod y deng mlynedd nesaf. Adeg y Nadolig, lansiwyd BBC iPlayer gennym, sy'n cyflwyno allbwn y BBC a ddarlledwyd ar y teledu ac ar y radio dros y saith diwrnod blaenorol. Croesawyd y gwasanaeth gan gynulleidfaoedd o bob oed yn gyflym ac erbyn mis Mawrth, roedd dros 17 miliwn o eitemau yn cael eu llwytho i lawr a'u darlledu bob mis – ffigur sy'n cynyddu o hyd. Nid oes unrhyw dystiolaeth fod hynny yn effeithio ar ein cyfraddau teledu a radio llinellol sy'n parhau yn gadarn iawn.

Gyda Freesat bellach wedi'i lansio, ochr yn ochr â'n gwasanaeth Freeview poblogaidd, mae'n amlwg y bydd partneriaethau a chydweithredu yn gynyddol bwysig i'r BBC. Mae darlledu cyhoeddus gwirioneddol yn golygu BBC cryf yn gweithio ochr yn ochr â darlledwyr eraill fel ITV, Channel 4 a five. BBC sy'n gwario incwm talwyr ffi'r drwydded yn ddoeth, gan gadw costau i isafswm fel y gellir buddsoddi'r mwyafrif helaeth ohono mewn rhaglennu o ansawdd sy'n ein hysbysu, ein haddysgu ac yn amlach na pheidio, yn ein diddanu. Mae'r tair elfen hynny yr un mor bwysig heddiw â phan gawsant eu crybwyll gyntaf ryw 80 mlynedd yn ôl.

Yn ystod y 12 mis nesaf, bydd y BBC yn parhau i gyflwyno cynnwys i gynulleidfaoedd, ni waeth lle y bônt, ac ni waeth sut y dewisant ei dderbyn. O bob rhan o'r DU, drwy BBC iPlayer, bbc.co.uk, radio DAB a darlledu traddodiadol, bydd y BBC yn cynrychioli Prydain ar ei gorau.



**Mark Thompson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
19 Mehefin 2008

# Ynglŷn â'r BBC

Y BBC yw'r meincnod o hyd ar gyfer pob darlledwr, ble bynnag y bônt. Mae ansawdd ac integredd ei newyddion a'i allbwn ffeithiol heb ei ail, ac mae ei greadigrwydd mewn rhaglenni eraill – mae ei ddrama o'r radd flaenaf, ac mae'n gartref i'r comedi a'r adloniant mwyaf eiconig erioed – yn golygu mai dyma yr anelwn oll ato.

Dylai'r DU ymfalchïo'n sylweddol yn y ffaith ei fod yn llwyddo i gyflawni hyn yn gyson ar lwyfan cenedlaethol a byd-eang flwyddyn ar ôl blwyddyn ar radio, teledu ac ar-lein.

Fritz F. Pleitgen
**Llywydd yr Undeb Darlledu Ewropeaidd**

Gan adeiladu ar y sylfaen o 'hysbysu, addysgu a diddanu', mae gan y BBC chwe phwrpas cyhoeddus – a amlinellir yma – sy'n rhoi ffocws i ni o ran creu cynnwys cofiadwy a gwasanaethau gwych, a chynnig profiad o'r BBC i bawb yn y DU sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau.

## Dinasyddiaeth
**Bydd Newyddion a Materion Cyfoes yn parhau'n rhan o amserlenni oriau brig, gan gynnwys BBC One**

## Dysgu
**Caiff allbwn addysgol a rhyngweithiol ei gynnig i blant mewn amgylchedd diogel**

## Creadigrwydd
**Byddwn yn datblygu talent newydd – a bydd y goreuon o'r sianelau digidol yn cael eu cyflwyno ar deledu daearol**

## Cymuned
**Bydd newyddion a gwybodaeth leol a newyddion a gwybodaeth i'r gwledydd yn adlewyrchu pryderon a blaenoriaethau'r ardal**

## Byd-eang
**Bydd ein cynnwys yn cynnig goreuon y DU i'r byd yn ogystal â chyflwyno goreuon y byd i'r DU**

## Digidol
**Byddwn yn cynnig gwasanaethau a chynnwys ar lwyfannau digidol, er mwyn ennyn diddordeb mewn mabwysiadu digidol**

Pwrpasau cyhoeddus y BBC yw:
**Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas waraidd:** mae gan newyddiaduraeth y BBC statws byd-eang heb ei ail ym maes casglu newyddion, arbenigedd a dadansoddi arbenigol, gohebiaeth llygaid dystion, cyflwyniad proffesiynol a chyfweliadau proffil uchel – gan gyflwyno newyddiaduraeth annibynnol o ansawdd uchel, y gellir ymddiried ynddi i'n cynulleidfaoedd sy'n egluro'r straeon sy'n bwysig iddynt. Mae ein sianelau a'n gwasanaethau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol i'r DU gyfan yn cwmpasu amrywiaeth eang o straeon wedi'u teilwra ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, ac wedi'u hategu gan ein prif sianel genedlaethol BBC News. Yn newydd eleni, mae ein crynodeb am 8pm yn ystod yr wythnos ar BBC One sydd wedi llwyddo i gynyddu cyrhaeddiad ein cynnwys newyddion i gynulleidfaoedd ifancach.

Hefyd, mae gennym ymrwymiad cadarn i drafod ac egluro prosesau democrataidd y DU, gan gynnwys y sefydliadau datganoledig a senedd San Steffan, gan roi cyd-destun a dadansoddiadau i helpu i feithrin gwell dealltwriaeth. Mae gwasanaethau Lleol a gwasanaethau'r Gwledydd yn darparu allfeydd pwysig ar gyfer sicrhau atebolrwydd gwleidyddion lleol.

**Hyrwyddo addysg a dysgu:** mae'r BBC yn hyrwyddo ac yn cefnogi addysg ffurfiol ac anffurfiol i blant, pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion – gan gynnwys allbwn radio i blant ar BBC 7 sy'n meithrin gwybodaeth, sgiliau a hyder, caiff nodau cwricwlaidd Cyfnod Allweddol 1 eu hategu'n anffurfiol drwy *CBeebies*, adolygu ar-lein *Bitesize* i ddisgyblion ysgol hŷn (yn arbennig o boblogaidd adeg arholiadau!), oedolion sy'n dysgu Cymraeg, Gaeleg neu Wyddeleg gyda *Colin and Cumberland* ar-lein, a rhaglenni ffeithiol cyffredinol neu arbenigol – megis y cyfresi rheolaidd *Horizon* a *The Culture Show*, neu *Life in Cold Blood* a ddarlledwyd eleni.

Mae galluogi pobl i ddysgu am bynciau newydd, neu i ddysgu mwy am ddiddordeb sy'n bodoli eisoes, mewn ffyrdd a fydd yn eu denu, eu diddanu a'u herio, yn hanfodol i'r hyn a wna'r BBC.

**Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol:** mae gan y BBC enw da sydd wedi hen ymsefydlu am gynnwys creadigol ac arloesol sy'n torri tir newydd ac yn pennu tueddiadau – megis *That Was The Week That Was* gyda David Frost yn cyflwyno cyfres ddychan ar y teledu yn y 1960au ac a ailymddangosodd eleni. Roedd *TW3* yn gyfrifol am ddatblygu a lansio gyrfaoedd y rheini a aeth yn eu blaenau i ymddangos yn *The Two Ronnies* a *Monty Python*, ymhlith eraill, gan helpu i sefydlu amgylchedd ar gyfer datblygu comedi y gellir ei olrhain i *The Mighty Boosh* a *Gavin and Stacey* ar BBC Three ac arlwy comedi eclectig Radio 4 gan gynnwys *The Now Show* a *Down the Line*. Mae'r BBC yn parhau yn gartref i lawer o dalent gorau'r DU.

**Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau:** mae'r DU fodern yn lle amrywiol iawn, yn gartref i amrywiaeth cyfoethog o ddiwylliannau a chymunedau. Mae'r BBC yn portreadu ac yn dathlu'r amrywiaeth hwn ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Rydym yn darlledu yn Gymraeg, Saesneg a Gaeleg, ac yn cynnig amrywiaeth o raglenni mewn ieithoedd brodorol eraill. Er enghraifft, mae'r Asian Network yn darlledu yn Saesneg yn bennaf, ond hefyd mewn wyth o ieithoedd eraill o is-gyfandir India – gan ddarparu anadl einioes i wrandawyr hŷn nad oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r Saesneg o bosibl.

Rydym hefyd yn annog pobl i rannu profiadau, o'r achlysuron gwladol pwysig i ddigwyddiadau pwysig yn y byd chwaraeon. Bydd ein gwasanaeth teledu HD newydd yn profi ei werth ym mis Awst gyda Gemau Olympaidd Beijing, gan gynnig y lluniau chwaraeon o'r ansawdd gorau a welwyd erioed yn y DU.

**Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU:** Cyflwynodd gwasanaethau newyddion byd-eang y BBC newyddion a dadansoddiadau annibynnol a berchir yn rhyngwladol i gynulleidfaoedd ledled y byd. Rydym hefyd yn gwerthu cynnwys a fformatau fel *Strictly Come Dancing* a *The Weakest Link* yn y farchnad fyd-eang.

Rydym hefyd yn cyflwyno cynnwys neu'n cyflwyno cynnwys gan bartneriaid i lywio trafodaethau yn y DU ar faterion o bwys ar raddfa fyd-eang. Eleni ar fore Sul ar BBC Parliament, cyflwynwyd darllediadau a dadansoddiadau helaeth o rownd gyntaf yr ymgyrch i ddod yn Arlywydd yr UD. Darlledodd Radio 2 a Radio 3 wyliau a pherfformiadau cerddorol pwysig – gan gynnwys *Glastonbury, T in the Park* ac opera o'r Metropolitan Opera House yn Efrog Newydd. Erys BBC Four yn gartref i ffilm ryngwladol ar deledu Prydain.

**Chwarae rhan flaenllaw yn y broses o newid i deledu digidol:** mae'r broses o newid i ddigidol bellach yn mynd rhagddi yn y DU. Bydd y BBC yn parhau i hyrwyddo a chyflwyno budd technolegau a gwasanaethau cyfathrebu sy'n dod i'r amlwg – megis Freeview, Freesat a'r BBC iPlayer a HDTV a lansiwyd yn ddiweddar – i bob cynulleidfa.

Ar y tudalennau canlynol, cewch straeon am y berthynas rhwng rhai unigolion a'r BBC eleni. Mae pob un ohonynt yn gysylltiedig â 'hysbysu, addysgu a diddanu'.

BBC a minnau
Y NEWYDDIADURWR






**Mishal Husain,**
**CYFLWYNYDD NEWYDDION**

Rwyf yn gweithio ar draws rhaglenni newyddion ar y teledu a r radio, er mai ein sianel ryngwladol, BBC World News, yw fy mhrif gartref ar hyn o bryd. Mae n fraint gennyf weithio i sefydliad sy n cynnig cymaint o wahanol fathau o wasanaethau i n defnyddwyr ac sydd felly n rhoi cyfle i mi herio fy hun ac archwilio fy mhotensial. Ni waeth lle y byddaf yn y byd, mae r tair llythyren B.B.C. yn golygu rhywbeth i bobl. Wrth gwrs, mae cyfrifoldeb mawr yn mynd law yn llaw â chydnabyddiaeth o r fath – mae n rhaid i bob un ohonom fodloni safonau uchel fel wynebau neu leisiau r Beeb. Credaf fod dyfodol BBC Newyddion yn gryf, ar yr amod ein bod ar flaen y gad o ran sut i gyflwyno cynnwys a beth sy n rhan o r cynnwys hwnnw ni ddylem osgoi darlledu straeon rhyngwladol ar y newyddion cenedlaethol, cyhyd â u bod yn taro naw â chynulleidfaoedd y DU. Mae angen i ni sicrhau drwy r straeon a ddarlledir gennym ein bod yn cysylltu â r rheini sy n ein gwylio, yn gwrando arnom neu n defnyddio ein gwasanaethau. Dyna r allwedd o ran diogelu ein dyfodol.

*Mae newyddion byd eang yn elfen hanfodol o weithgareddau casglu newyddion a gohebu r BBC ledled y byd. Eleni lansiwyd BBC Arabic TV gennym – ac rydym yn bwriadu lansio BBC Persian TV yn ddiweddarach yn 2008. Mae r ddau wasanaeth yn rhan o fuddsoddiad ailstrwythuro Cymorth Grant gwerth £30miliwn yn y World Service. Ymhlith gwelliannau eraill mae gwella gwasanaethau cyfryngau newydd (gan gynnwys Sbaeneg ac Wrdw), dosbarthiad FM ehangach ar gyfer ein gwasanaethau radio, gwell cyfleusterau casglu newyddion rhyngwladol y bydd pob un ohonynt yn gwella enw da r BBC fel llais y gellir ymddiried ynddo ym maes newyddion byd eang. Mewn meysydd allweddol eraill, lansiwyd darllediad newyddion nosol gennym, BBC World News America, ar BBC World News, ac elfen safle newyddion rhyngwladol bbc.com*


BBC a minnau
Y plant
“Rhaglenni plant heb hysbysebion? Mae hynny’n wych!”



**Cormac (6) a Rory (4), BRIGHTON**

Dywed eu mam, Louise, Mae n waith caled bod eu hoedran nhw. Bob man yr edrychant, gwelant doreth o deganau a losin na allant, yn ôl pob tebyg, fyw hebddynt. Mae diffyg hysbysebion ar y BBC yn fendith go iawn, rhywbeth nad oeddwn yn ei werthfawrogi n llawn pan oeddwn yn gweithio yno a chyn i mi ddod yn fam llawn amser, yn rhyfedd ddigon*. Ac mae hefyd yn rhyfedd sut y mae fy nheimladau tuag at y lle wedi esblygu dros y blynyddoedd wrth i m blaenoriaethau newid o wyliwr i gyflogai i riant. Heddiw, rydym yn gwylio CBeebies a CBBC ar Freeview ac yn defnyddio gwefan CBeebies, yn bennaf ar gyfer karaoke *Balamory* er fy mod hefyd yn edrych ar y negesfwrdd i oedolion i weld beth y mae rhieni yn ei drafod ar hyn o bryd. Mae n ardderchog bod sianelau penodol ar gael, yn arbennig i blant cyn oed ysgol pan fyddwch yn aml gartref drwy r dydd. Mae ansawdd rhaglenni yn uchel ac mae amrywiaeth eang ohonynt nid dim ond cartwnau. Justin Fletcher (neu *Mr Tumble*) yw r cyflwynydd gorau ar deledu plant. Mae n wych; ac nid yw n nawddoglyd o gwbl. Ef yw ffefryn y mamau ar y negesfwrdd! Rydym yn eistedd i lawr gyda n gilydd i wylio *The Sarah Jane Adventures a Jackanory*. Rwyf yn hoff iawn o allu gwneud hyn a sicrhau bod pawb yn cael budd, ac nawr eu bod yn hŷn, gallwn wneud hynny.

* *Gadawodd Louise y BBC ddechrau 2006.*

*Mae Justin gyda i ffrind Mr Tumble yn cyflwyno Something Special, rhaglen a ategir gan arwyddion Makaton a symbolau i sicrhau bod ei chynnwys yn groesawgar ac yn hygyrch i blant yn ystod cyfnodau cynnar eu datblygiad ieithyddol, ac yn arbennig y rheini ag anghenion cyfathrebu arbennig. Roedd yr hyn a gynigiodd y BBC y llynedd i blant yn cynnwys dros 10,000 o oriau o gynnwys teledu yn unig blociau a ailddarlledwyd ar CBBC a CBeebies, yn ogystal â slotiau ar BBC One a BBC Two, gwefannau, BBCi a gwasanaethau ar alw. Roedd dros 1,000 o oriau ar draws amrywiaeth o genres drama, ffeithiol, adloniant a newyddion yn gynyrchiadau gwreiddiol gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol ac adrannau mewnol. Ceir dros 20 o sianelau i blant yn y DU, ond mae ein diben yn syml: sicrhau bod ein plant yn gallu manteisio ar y rhaglenni a r gwasanaethau gorau. Ymddengys fod y 17 miliwn o blant sy n defnyddio ein gwasanaethau bob wythnos gan gynnwys y llu sy n hoff o wylio Justin a Mr Tumble – yn cytuno.*

BBC *a minnau*

DILYNWYR 'STRICTLY'

# "Mae unrhyw beth sy'n UNO CYMUNEDAU *yn ei gwneud yn werth mynd i* firi dawns a chân"



**Ute Scholl ac Anna Leatherdale,**
**ATHRAWON TANGO R ARIANNIN, DYFNAINT**

Ute: Dechreuais ddawnsio gan fy mod yn awyddus i allu symud yn well i gerddoriaeth. Nawr, wrth gwrs, rwyf yn dwli ar *Strictly Come Dancing*. Mae n denu sylw cynulleidfa eang ac amrywiol, ac o ganlyniad i r rhaglen, mae mwy o bobl wedi datblygu diddordeb mewn dawns. Mae pob cyfres newydd yn dod â myfyrwyr newydd i n dosbarthiadau.

Anna: Dechreuais ddawnsio gan fy mod yn mwynhau'r rhyngweithio cymdeithasol sy n gysylltiedig ag ef – rhywbeth y bu *Strictly* yn gatalydd ar ei gyfer yn yr ardal hon, fel y dywed Ute.

Ute: Mae r rhan fwyaf o n myfyrwyr wedi u cymell i ddysgu dawnsio, neu ddawnsio n well, gan y sioe. Yr anfantais, wrth gwrs, yw bod llawer ohonynt yn disgwyl y byddant yn dysgu dawns yn berffaith mewn wythnos!

Anna: Mae ein swyddi yn cymryd llawer o n hamser, ond pan na fyddwn yn dawnsio, rydym yn mwynhau gwylio ffilmiau, rhaglenni dogfen a dramâu cyfnod. Rydym yn hoff iawn o Radio 4. Rydym yn gwrando ar *Women s Hour*, *The Archers* ac *In Living Memory*. Rydym yn falch iawn fod y BBC yn parhau i fuddsoddi mewn cynhyrchu dramâu radio da.

*Radio 4 yw un o gomisiynwyr drama a darlleniadau mwyaf y byd – gyda dros 730 o oriau gwreiddiol y llynedd. Ym maes drama yn unig, mae'r BBC yn cynnig rhywbeth i bawb. Ceir drama i'r teulu ar y teledu fel Dr Who a Robin Hood ar nos Sadwrn, er enghraifft, a drama sy'n fwy addas i oedolion yn hwyrach yn yr amserlenni fel Waking the Dead a Spooks. Ac rydym yn dal i gynnig y rhaglenni adloniant gorau fel Strictly neu gynnwys ffeithiol fel Andrew Marr's History of Modern Britain sy'n rhoi testun trafod i bawb dros yr wythnos i ddod.*

*Y llynedd, cawsom ein henwebu am 489 o wobrau cenedlaethol a rhyngwladol – gan gynnwys BAFTA, RTS, Webby, Grierson, Prix Europa a Prix Italia – ac enillwyd 213 ohonynt gennym. Mae enwebiadau a gwobrau yn cydnabod gweledigaeth, ymdrech a thalentau llawer o unigolion, ac rydym yn falch o bob un sy'n gweithio ar ein rhan i wneud rhaglenni a chynnwys o ansawdd uchel. Ni allai'r BBC hysbysu, addysgu na diddanu ei gynulleidfaoedd hebddynt.*





# CERDYN POST

"Arlwy ar gyfer fy ~~nheulu~~ a'm cymuned!"

**Cathy Mary MacMillan,**
**DOUNE CARLOWAY AR YNYS LEWIS**

"Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn pobl, sy'n lliwio'r math o raglenni rwyf yn eu gwylio ac yn gwrando arnynt. Wrth gwrs, rydym yn siarad Gaeleg yma ac yn gwylio ac yn gwrando ar beth bynnag y gallwn – mae'r plant yn gwneud hynny hefyd, o'r cartwnau ar BBC Two bob bore i nos Iau ar BBC Two. Rydym yn mwynhau rhaglenni o'r gymuned, am gymunedau, ac sy'n cael eu darlledu ar amseroedd synhwyrol. Cynhyrchodd Radio nan Gàidheal gyfres ddogfen am ein pentref. Lle bach ydyw ac roedd gan bob un ohonom ran i'w chwarae. Ystyriodd ein hanes, ond cawsom ein portreadu fel diwylliant deinamig sy'n datblygu ac yn tyfu o brofiad i brofiad. Pethau cadarnhaol iawn. Ac mae Coinneach MacIomhair (Kenny MacIver) fel ffrind yr wyf yn gwrando arno bob dydd. Mae cyffro mawr o ran y gwasanaeth teledu digidol newydd a bydd hwnnw'n darparu rhaglenni sy'n apelio at bobl nad ydynt yn siarad Gaeleg hefyd. Mae *Eòrpa* yn boblogaidd iawn yn barod gyda llawer o bobl yn yr Alban. Wrth gwrs, mae newyddion y BBC i'r Alban *(Reporting Scotland)* yn rhan sefydlog o'r arlwy: a *Question Time* hefyd. Mae'r BBC yn deall y gwahanol lefelau o gymuned."

*Mae'r BBC yn ymwneud â'r cymunedau lle y mae'n gweithio mewn sawl gwahanol ffordd. Yn ogystal â gwneud rhaglenni a chynnwys sy'n adlewyrchu profiad lleol a chenedlaethol, rydym yn darparu cyfleoedd i greu atgofion newydd i'w rhannu drwy ddigwyddiadau a chyngherddau byw, y gall pobl fynychu llawer ohonynt am ddim. Rydym hefyd yn gysylltiedig â sawl elusen gofrestredig ac mae eraill yn cael cefnogaeth gennym drwy ddarllediadau. Y llynedd, fel rhan o'n gweithgareddau elusennol:*

- *Cododd apêl Plant mewn Angen y BBC £36miliwn*
- *Cododd apeliadau Radio 4 a Lifeline bron i £1.5miliwn*
- *Derbyniodd Cronfa Celfyddydau Perfformio'r BBC dros £450,000 o linellau ffôn Dance X ac Any Dream Will Do*
- *Cododd Cronfa Bywyd Gwyllt y BBC dros £1.6miliwn*
- *Ym mis Mawrth 2008 cododd Sport Relief dros £20miliwn*
- *Cyflwynodd Ymddiriedolaeth BBC World Service grantiau allanol a chyfraniadau gwirfoddol gwerth tua £18miliwn o'r Adran Datblygu Rhyngwladol a'r UE, ymhlith sefydliadau eraill*

*I weld rhagor am ein gwaith cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, ewch i www.bbc.co.uk/outreach*



BBC a minnau

Y CYNHYRCHYDD ANNIBYNNOL

# "Y BBC A CHYNHYRCHWYR ANNIBYNNOL: PARTNERIAID MEWN CREADIGRWYDD"





**Claire Parker,**
**CYNHYRCHYDD GWEITHREDOL,**
**KUDOS FILM AND TV**

Fel gwyliwr, rwyf yn gyfarwydd â r wefr o wylio drama newydd sbon am y tro cyntaf, gan obeithio y bydd yn eich hudo a ch denu i w byd. Fel cynhyrchydd, gwn fod datblygu dramâu fel *Hustle* a *Life On Mars*, sy n anelu at wneud hynny, yn cymryd amser ac ymrwymiad. Rhaid i chi deimlo n angerddol tuag at bob prosiect. Dros y saith mlynedd diwethaf, rydym wedi bod yn uchelgeisiol o ran gwneud rhaglenni yn y fath fodd, wrth i ni esblygu o gwmni bach i gyflenwr drama mawr. Mae n bwysig iawn bod sector creadigol iach sy n diddanu, yn ysbrydoli ac yn herio yn parhau yn y DU. Mae darlledu drama sy n adlewyrchu gwahanol leisiau a safbwyntiau r byd yn hanfodol er mwyn adlewyrchu profiadau gwylwyr yn llawn. Mae pob darlledwr yn y DU yn deall hyn ac mae n hanfodol bod cynhyrchwyr annibynnol fel ni yn sefydlu cydberthnasau parhaus a chadarn gyda r BBC, ond hefyd gyda Channel Four ac ITV. Mae lle i bawb mae cystadleuaeth lem rhwng cyflenwyr a phrynwyr yn sicr o fudd i gynulleidfaoedd.

---

*Mae gan Wasanaethau Gweledol y BBC ofyniad statudol i sicrhau bod 25% o r oriau cymwys yn cael ei chynhyrchu gan gynhyrchwyr annibynnol. Yn ogystal, am y flwyddyn lawn gyntaf y llynedd, galluogwyd cwmnïau annibynnol ac eraill (fel darlledwyr eraill) i wneud cais am hyd at 25% yn rhagor. Yn ystod blwyddyn galendr 2007*, cynhyrchodd cwmnïau annibynnol 39% o r oriau cymwys i r BBC (o gymharu â 35% yn 2006). Cynhyrchwyd 1.4% pellach gan gyflenwyr allanol eraill. Gan gynnwys cynhyrchwyr rhaglenni allanol, gwariodd y BBC bron i £1.2biliwn y llynedd yn economi greadigol y DU tua £33miliwn yn fwy na r flwyddyn flaenorol.*

*Kudos oedd cyflenwr annibynnol mwyaf Gwasanaethau Gweledol y BBC yn ôl gwariant yn 2007. Ymhlith y deg uchaf roedd: Tiger Aspect Productions, Endemol, Hat Trick Television, talkback THAMES, Lion Television, Shed Productions, Wall to Wall Television, 12 Yard Productions, a Carnival Films. Nid oedd pedwar o r cwmnïau hyn yn y deg uchaf yn 2006.*

*Mae gennym ymrwymiad gwirfoddol hefyd i 10% o r oriau cymwys o raglennu radio ar gyfer rhwydweithiau r DU yn 2007/08, cyflawnwyd 13% (13.5% yn 2006).*

** Yn unol â gofynion Ofcom, caiff ffigurau teledu eu mesur ar sail blwyddyn galendr.*


BBC a minnau
Y band
EDICINE SHOW
DIRECTIO
LECTRIC CINEMA
Nos Lun 26ain Mai
"Hyrwyddo talent newydd"
£6/5 (Thu-Sa t) £5/
Nearest tube:Camden tow



**Kids in Glass Houses,**
**CAERDYDD**

Dywed Aled, y canwr: "Stereophonics oedd y band go iawn cyntaf yr oeddwn yn ymwybodol ohono, ac roedd y ffaith eu bod yn lleol yn golygu bod gobaith y gallwn innau ddod yn gerddor. Felly dysgais chwarae. Fel llawer o fandiau, nid oedd gennym unrhyw gontract pan chwaraeodd Bethan a Huw* ein cerddoriaeth ar yr awyr am y tro cyntaf. Llwyddodd Bethan i ennyn diddordeb Jo Whiley ddigon i chwarae ein cerddoriaeth ar rwydwaith Radio 1. Nid ydym wedi edrych nôl ers hynny. Rydym bellach wedi cael cryn dipyn o sylw – Radio 1 yn bennaf ond hefyd ar sioe Lily Allen ar BBC Three. A dweud y gwir, mae angen mwy o sioeau teledu sy'n seiliedig ar gerddoriaeth gan fod llu o fandiau da y mae angen ychydig o hwb arnynt. Gall ar-lein fod yn fendith yn ogystal â melltith – mae'n anodd iawn sefyll allan neu gael effaith. Rydym wedi cael ychydig o gefnogaeth gan y BBC ac ychydig o lwc, a bellach mae gennym gontract. Byddwn yn rhyddhau ein halbwm cyntaf *Smart Casual* ym mis Mai."

** Bellach yn dwyn yr enw BBC Introducing…in Wales, rhaglen ddewisol sydd ar gael yng Nghymru yn unig. Mae fersiynau cenedlaethol ar gael yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd sy'n ymrwymedig i dalent newydd sydd heb gontract.*

*Mae'r BBC yn gadarn o blaid cerddoriaeth fyw a gwreiddiol. Y llynedd, darlledwyd o amrywiaeth o ddigwyddiadau a chyngherddau byw ledled y DU – gan gynnwys Radio 1's Big Weekend yn Preston, T in the Park yn yr Alban, 1Xtra Live o Coventry, Gŵyl Werin Caergrawnt a Gŵyl Jazz Llundain – ac o bedwar ban byd: UDA, Ciwba, Jordan a Georgia ymhlith eraill. Cwmpaswyd cymysgedd eclectig o gerddoriaeth, gan gynnwys gwerin, cerddorfaol, R'n'B, Bhangra, a siart. Cynigiodd Radio 1 ar ei ben ei hun dros 300 o sesiynau stiwdio byw newydd, a darlledodd Radio 3 dros 500 o gyngherddau – yn ogystal â thymor cyfan y Proms (darlledwyd dros 500 o oriau o gynnwys o'r Proms ar radio a theledu yn y DU).*

*Er mwyn gwrando ar y gerddoriaeth orau – cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth a ddarlledwyd yn ddiweddar – ewch i Radioplayer drwy www.bbc.co.uk/music/listen/. Er mwyn clywed rhai o'r goreuon o blith cerddoriaeth newydd heb gontract ewch i www.bbc.co.uk/music/introducing/*

BBC a minnau

# Y golygydd





**Tim Levell,**
**GOLYGYDD BLUE PETER**

Roedd dechrau r llynedd yn gyfnod braidd yn anodd i r BBC, ac i *Blue Peter*. Rhoesom brawf ar ymddiriedaeth ein gwylwyr a bu'n rhaid i ni weithio n galed i w hadennill. Fel y digwyddodd, bu n gatalydd ar gyfer gwella. Cymerasom ran yn y seminar Safeguarding Trust ac rydym bellach yn cydweithio mwy fel tîm. Rydym yn llawer mwy cydweithredol yn yr hyn a wnawn oddi ar y sgrîn ac ar y sgrîn. Ac mae r gwylwyr fel petaent yn hoffi hynny. Mae n fwy cyffrous iddynt, ac i r cyflwynwyr sy n cael cyfle i wneud mwy o weithgareddau grŵp dringo mynyddoedd, cystadlu i gasglu cryno ddisgiau ar gyfer ein hapêl a hyd yn oed rasio pwmpenni. Rydym hyd yn oed wedi dechrau ailgyflwyno cystadlaethau: bydd dau wyliwr yn rhan o r trosglwyddiadau i Lundain yn y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn Beijing ym mis Awst. Rydym yn helpu i greu atgofion mae gan bawb o dan 50 oed atgof da o *Blue Peter*, onid oes? Gobeithio, pan ddaw r amser, y bydd yr un peth yn wir am fy mhlant innau. Ond yn y cyfamser, pan fyddant yn y gwely, daw fy atgofion diweddaraf o r teledu o wylio *Spooks*, *Heroes* a *The Apprentice* ar fy PVR.

*Gyda chymaint o gynnwys a gwasanaethau ar gael i wylwyr a gwrandawyr rydym wedi gorfod defnyddio ein dychymyg wrth sicrhau sut, ble a phryd y mae cynnwys y BBC ar gael – ac mae hynny'n golygu mynd ati i gysylltu â phobl ble bynnag y maent yn dymuno bod ynddo. Mae bbc.co.uk bellach yn denu 17.5 miliwn o ddefnyddwyr unigol yn y DU bob wythnos (Nielsen, Mawrth 2008), ac eleni mae cynnwys fideo y BBC wedi bod ar gael i gynulleidfaoedd drwy YouTube, Bebo, MSN ac Yahoo. Rydym yn denu cynulleidfaoedd newydd ac iau drwy'r safleoedd hyn ac yn eu galluogi i gymryd ein cynnwys a'i ymgorffori yn eu blogiau a'u proffiliau rhwydweithiau cymdeithasol eu hunain. Drwy ehangu ffiniau darlledu llinellol traddodiadol ac arbrofi yn y meysydd newydd hyn rydym wedi gwella pa mor berthnasol yr ydym i rai grwpiau cynulleidfaoedd, fel pobl ifanc, yn ogystal â meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn mae'n ei olygu i ddarlledwr weithredu yn y mathau hyn o lefydd.*





BBC a minnau
Y myfyriwr
"Helpu i wneud fy nhaith yn brofiad a rennir"





**Qasim Ahmed,**
**MYFYRIWR Y GYFRAITH,**
**CAERLOYW**

Clywais am *Video Nation* gan fy athro pan oeddwn yn gwneud prosiect hanes personol yn yr ysgol. Credai y byddai gan y BBC ddiddordeb, o bosibl, yn fy stori, ac roedd yn iawn. Ond roedd elfen hefyd o fod yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Roedd a wnelo fy mhrosiect â r Rhaniad, ac roedd adeg coffa r cyfnod yn nesáu, felly roedd yn addas. Drigain mlynedd yn ôl, roedd fy nheulu yn byw yn rhan o r Pwnjab a elwir bellach yn India. Rydym yn Fwslemiaid, felly bu n rhaid i ni symud i Bacistan. Rwyf wedi bod yno sawl gwaith, ond y trip *Video Nation* oedd y tro cyntaf i mi ymweld ag India. Gwnaeth i mi sylweddoli fod gan y ddwy wlad gryn dipyn o dreftadaeth gyffredin, a bod mwy yn gyffredin ganddynt nag y gwyddwn. Roedd yn fraint wirioneddol. Nid oedd gennyf rhyw lawer o feddwl o r BBC cyn hynny. Ond bellach rwyf yn sylweddoli pa mor eang ydyw. Nid dim ond BBC One a Radio 1 mohono, ac nid yw n canolbwyntio ar Lundain. Ac mae fy marn yn bendant wedi newid. Pe byddent yn gofyn i mi ddychwelyd, byddwn yn cytuno mewn eiliad.

*Mae gan dros 60% o boblogaeth y DU gyfrifiadur personol yn y cartref (ONS, Awst) – sy n golygu nad oes gan y gweddill – dwy ran o bump o r boblogaeth. I rai, diffyg hyder sy n gyfrifol am hyn mae n cyfateb yn ddigidol i fethu â gweithio eich recordydd fideo a bod â gormod o gywilydd i gyfaddef hynny. Bu r BBC bob amser yn awyddus i gefnogi gallu cyfryngol er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gallu cyfryngol i r economi ehangach, yn ogystal â chefnogi pobl wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau a u gwybodaeth am y cyfryngau. Felly er mai cynnig cyfleoedd i gynulleidfaoedd rannu profiadau ac atgofion drwy ein rhaglenni a n cynnwys a wnawn yn bennaf, rydym hefyd yn cefnogi profiadau personol a theithiau dysgu, fel y gwnaethom gyda Qasim. Os ydych yn ddibrofiad, dechreuwch arni drwy www.bbc.co.uk/webwise/.*

*Dylai defnyddwyr ifancach sy n awyddus i arbrofi ymweld â www.bbc.co.uk/blast*

*I ddarllen dyddiaduron personol eraill ewch i bbc.co.uk/videonation*

*Yn ogystal, rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein rhaglenni a n gwasanaethau mor hygyrch ag sy n rhesymol bosibl i bobl anabl. Mae canllawiau golygyddol yn dangos sut y gallwn wella mynediad i n gwasanaethau ac annog ymagweddau ac atebion creadigol. Y llynedd, rhagorwyd ar ein targedau ar gyfer isdeitlo, disgrifiadau sain ac arwyddeg ar gyfer rhaglenni teledu. (Gweler tudalen 57). Gallwch deilwra eich hafan drwy www.bbc.co.uk neu edrychwch ar yr amrywiaeth o gynnwys ar www.bbc.co.uk/ouch/*

BBC a minnau

Y PEIRIANNYDD DARLLEDU




# “RYDYM YN BAROD AM Y NEWID MAWR”



**Steve Longhurst,**
**RHEOLWR DOSBARTHU R BBC**

Bûm yn ymwneud â throsglwyddyddion teledu a radio ers dros 20 mlynedd, yn gweithio n bennaf yn adran ymchwil a datblygu r BBC yn Kingswood Warren yn Surrey, lle y datblygwyd pethau fel Teletestun, Nicam a gwefan y BBC. Yn sicr, y newid i deledu digidol yw r prosiect peirianneg darlledu mwyaf a welwyd erioed yn y DU. Mae n syml i r gwylwyr, ond mae n fwy cymhleth i r trosglwyddyddion mae n fwy o broses na chysylltu blwch Freeview. Bu llawer o ymdrech i sicrhau bod y broses yn hawdd i r defnyddiwr, gan gynnwys rhaglen ranbarthol dreigl i adnewyddu symiau helaeth o gyfarpar darlledu. Mae dros 1,100 o orsafoedd trosglwyddo teledu y bydd yn rhaid iddynt newid i ddigidol dros y pedair blynedd nesaf. Unwaith y bydd y gwaith wedi i gwblhau, byddwn yn defnyddio hofrennydd i asesu perfformiad safleoedd pwysicaf yr antenau newydd sy n cael eu hadeiladu er mwyn newid i ddigidol. Mae hyn yn golygu teithio ar hyd a lled Prydain er mwyn hedfan o amgylch y mastiau tal hyn yn casglu data ac wedyn yn ei ddadansoddi i brofi ei fod yn gweithio fel y bwriadodd y gweithgynhyrchwr.

*Mae’r BBC yn chwarae rhan arweiniol yn y broses o baratoi’r DU ar gyfer y cyfnod pan fydd gwasanaethau daearol yn diffodd yn llwyr, pan fydd pob teledu yn y DU yn newid i signal digidol. Tua 25,000 o gartrefi yn Cumbria oedd y cyntaf i golli eu signalau teledu daearol (ym mis Hydref 2007). Bydd gweddill y rhanbarth hwn yn newid yn 2008, a bydd y broses gyfan yn dod i ben yn 2012 pan fydd Ulster, Tyne Tees a Llundain yn newid. Rhwng nawr a bryd hynny, bydd y BBC wedi buddsoddi tua £1biliwn ar hwyluso’r broses o gyflwyno gwasanaethau digidol yn y DU.*
*I gael rhagor o wybodaeth am y broses o newid i ddigidol a sut y bydd yn effeithio arnoch chi, ewch i www.bbc.co.uk/digital*




BBC a chi
0107 0170



Caiff tua 2 filiwn o bobl yn y DU gyswllt wyneb yn wyneb â r BBC bob blwyddyn. Cawn wybod beth y mae r 58 miliwn arall yn ei hoffi ac yn ei ddisgwyl drwy ymchwil a dadansoddiadau helaeth o r farchnad…

…nad yw n bwysig, yn ôl pob tebyg, i The Stig. Fodd bynnag, mae gan wyliwr *Top Gear* nodweddiadol ddiddordeb yn y canlyniad a gallai ddweud y canlynol:

Nid wyf byth yn meddwl am y peth, ond mae n debyg bod fy nghyswllt â r BBC yn newid yn gyson. Bu yno erioed, ond rwyf yn ei wylio erbyn hyn mewn ffordd fwy beirniadol. Rwyf yn disgwyl i ffi r drwydded o dua 40c y dydd warantu rhaglenni o ansawdd uchel gyda r syniadau gorau a r dalent orau. Hefyd, rwyf am iddynt fod yn berthnasol i mi ac i m bywyd, ac nid oes a wnelo hynny â rhaglenni yn unig ond hefyd â r ffordd yr wyf yn eu derbyn. Gartref yn y bore, mae radio amser brecwast yn fy mharatoi ar gyfer y diwrnod, ac yn y car rwyf yn gwrando ar Radio 5 live. Ac ar benwythnosau, pan rwyf yn debygol o fod allan, rwyf yn llwytho *Fighting Talk* i lawr i fy Mp3. Wedyn gallaf wrando pryd y mynnaf ar y bws i r dref, neu wrth aros i m cariad ymbincio – er mai dim ond awr o hyd ydyw… Bob wythnos yn ddi ffael, rwyf hefyd yn ffrydio *Top Gear*, wrth gwrs, *Match of the Day* a *The Apprentice*. Diolch i BBC iPlayer, mae r BBC yn gyfleus i mi.

*Y llynedd, roedd ffi r drwydded yn £135.50 fesul cartref telir yr un faint pa un a ydych yn byw ar eich pen eich hun neu n rhan o deulu mawr. Y drwydded deledu sy n ariannu r mwyafrif o sianelau darlledu cyhoeddus y BBC: deg sianel deledu, deg gorsaf radio rhwydwaith i r DU gyfan (gan gynnwys pump ar ddigidol yn unig), 46 o wasanaethau radio i r gwledydd a rhanbarthau lleol, a dewisiadau rhanbarthol ar BBC One, BBC Two, Radio 1 ac ar bump gorsaf radio leol yn Lloegr. Yn ogystal, mae n talu am bbc.co.uk, gwasanaethau rhyngweithiol ar BBCi, a r BBC iPlayer newydd ac arlwy HDTV. Rydym yn buddsoddi arian mewn gweithgareddau mor uniongyrchol â rhaglenni cylchgrawn dyddiol ar y radio yn ogystal ag yn yr hirdymor yn y seilwaith a fydd yn cynnal darlledu ym Mhrydain yn y dyfodol. Rydym yn cynnig rhywbeth i bawb, gyda gwasanaethau heb hysbysebion ac yn annibynnol ar hysbysebwyr, cyfranddeiliaid a buddiannau gwleidyddol.*

*Ariennir BBC World Service drwy grant gan y llywodraeth ac nid ffi r drwydded deledu. Mae elw gwasanaethau masnachol ar wahân y BBC yn helpu i gadw ffi r drwydded yn isel.*

*Roedd 93% o boblogaeth y DU wedi gwylio teledu r BBC, wedi gwrando ar radio r BBC neu wedi defnyddio gwasanaethau ar lein y BBC ar gyfartaledd bob wythnos y llynedd.*

Y BWRDD GWEITHREDOL

“

Mae’r Bwrdd Gweithredol yn rheoli’r BBC. Fe’i cadeirir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ac mae ganddo leiafrif sylweddol o gyfarwyddwyr anweithredol.

Ategir y Bwrdd Gweithredol gan bedwar is-bwyllgor: Enwebiadau, Cydnabyddiaeth, Archwilio a Masnachu Teg, a hefyd nifer o grwpiau rheoli, gan gynnwys Grŵp Cyfarwyddyd y BBC, y Pwyllgor Cyllid a phedwar Bwrdd Grŵp sy’n cwmpasu Gwasanaethau Gweledol, Sain a Cherddoriaeth, Newyddiaduraeth, a Chyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol. Mae Byrddau BBC Commercial Holdings a BBC Worldwide yn rhoi cymorth i’r Bwrdd Gweithredol ar faterion masnachol.

Mae’r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau’r BBC ac am weithrediadau o ddydd i ddydd ar draws y sefydliad yn erbyn y cynlluniau y cytunwyd arnynt gydag Ymddiriedolaeth y BBC. Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn dal y Bwrdd Gweithredol i gyfrif.

”



**01 MARK THOMPSON**
Cyfarwyddwr Cyffredinol ers mis Mehefin 2004. Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol a Grŵp Cyfarwyddyd y BBC, sy'n cynnwys holl gyfarwyddwyr adrannol y BBC.
"Mae gwefan BBC News yn fy nifyrru bob awr o'r dydd, ond i'm teulu uchafbwynt yr wythnos – boed hynny'n fyw neu ar BBC iPlayer – yw'r anhygoel *Doctor Who* o hyd."

**02 MARK BYFORD**
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol. Aelod o'r Bwrdd ers 1998. Cadeirydd y Bwrdd Newyddiaduraeth. Cadeirydd y Bwrdd Safonau Golygyddol, y Bwrdd Rheoli Cwynion, y Bwrdd Dysgu a Grŵp Cydlynu Gemau Olympaidd Llundain 2012.
"Robert Peston yn datgelu sefyllfa Northern Rock; adroddiadau John Simpson o Baghdad a Zimbabwe a ddaeth â'r sefyllfa yno'n fyw; darlledu gwych o'r ornest rhwng Federer a Nadal yng Ngêm Derfynol Wimbledon i'r dynion; a rôl gyhoeddus eithriadol Radio Lleol yn ystod y llifogydd."

**03 JENNY ABRAMSKY CBE**
Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth. Aelod o'r Bwrdd ers mis Ebrill 1998.
"Roedd gan *Reunion* ar Radio 4, gyda Sue MacGregor, ar Fom Brighton, gast anhygoel: Patrick Magee, a osododd y bom, oedd yn edrych yn ôl ar y diwrnod a'i sgîl-effeithiau gydag Arglwydd Hurd (Ysgrifennydd Gogledd Iwerddon ar y pryd), cynhyrchydd y gynhadledd Harvey Thomas, a Jo Berry, y cafodd ei thad, Syr Anthony Berry, ei ladd."

**04 JANA BENNETT OBE**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweledol. Aelod o'r Bwrdd ers mis Ebrill 2002. Cyfarwyddwr anweithredol BBC Worldwide Limited.
"Mae ystod ac amrywiaeth ein cynnwys wedi bod yn glodwiw, o *Cranford* i *Gavin and Stacey* i *Earth: The Power of the Planet* i *In the Night Garden*, i ddewis ond ychydig o'm huchafbwyntiau – ac rydym wrthi'n datblygu rhai gemau go iawn fel rhan o'n harlwy aml-lwyfan fel *Springwatch, Long Way Down, Doctor Who,* a *The White Season.*

**05 TIM DAVIE**
Cyfarwyddwr Marchnata, Cysylltiadau a Chynulleidfaoedd ers mis Ebrill 2005. Ymddiriedolwr, apêl Plant mewn Angen y BBC. Cyfarwyddwr Freesat (UK) Limited a chyfarwyddwr anweithredol Digital UK.
"Mark Ronson yn yr *Electric Proms.* Gig eithriadol a oedd yn rhan o ychwanegiad diweddar gwych i amserlenni'r BBC."

**06 ASHLEY HIGHFIELD**
Cyfarwyddwr Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol y BBC. Aelod o'r Bwrdd ers mis Hydref 2000.
"Newidiodd BBC iPlayer y ffordd y gwyliais *The Apprentice* yn llwyr eleni. Rwyf hefyd yn hoffi hafan bbc.co.uk ar ei newydd wedd, a'r gwasanaeth bbc.co.uk/switch i bobl ifanc yn eu harddegau."

**07 STEPHEN KELLY**
Cyfarwyddwr BBC People ers mis Hydref 2006. Un o ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC.
"Mae rhaglen *Today* Radio 4 yn y bore, a *Chris Evans* ar Radio 2 ar fy ffordd adref, ill dwy yn rhan sefydlog o'm dewis."

**08 ZARIN PATEL**
Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp ers mis Ionawr 2005. Un o ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC a chyfarwyddwr anweithredol BBC Worldwide Limited.
"Mae'r cyfle i allu gweld a chlywed mwy o'm hoff bethau gan eu bod ar gael ar BBC iPlayer neu fel podlediadau i'w llwytho i lawr yn wych."

**09 JOHN SMITH**
Prif Weithredwr BBC Worldwide Limited. Aelod o'r Bwrdd ers 1997.
"Y tro cyntaf i mi weld *Wild China* oedd pan lansiwyd y gyfres gennym yn Beijing ym mis Mawrth gyda'n cyd-gynhyrchydd Tsieineaidd. Roedd y rhan a oedd yn dangos chwilwyr mêl yn dilyn gwenyn drwy gyfrwng plu a lynwyd i gyrff y gwenyn yn arbennig."

**10 CAROLINE THOMSON**
Prif Swyddog Gweithredu. Aelod o'r Bwrdd ers mis Mai 2000. Un o ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC. Cyfarwyddwr anweithredol Digital UK.
"Roeddwn yn gwneud yn siŵr fy mod gartref ar nos Wener i weld *The Choir – Boys Don't Sing* – rhaglen deledu gymhellol."

**11 MARCUS AGIUS**
Penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ac yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Rhagfyr 2006. Yn cadeirio Pwyllgor Cydnabyddiaeth Bwrdd Gweithredol y BBC. Cadeirydd Barclays PLC. Un o ymddiriedolwyr y Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew a Chadeirydd Sefydliad a Chyfeillion y Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew.
"Rwyf wrth fy modd yn garddio, a bob blwyddyn rwyf yn mwynhau'r holl ddarllediadau o Sioe Flodau Chelsea yr RHS."

**12 DR MIKE LYNCH OBE**
Penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Entrepreneur technoleg a sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol Autonomy plc.
"Roedd *Coast* ac *Andrew Marr's History of Britain* heb eu hail, ac roedd fy mhlant wrth eu boddau gydag *In the Night Garden*, er eu bod wedi methu ei egluro i mi."

**13 DAVID ROBBIE**
Penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Yn cadeirio Pwyllgor Archwilio Bwrdd Gweithredol y BBC. Cyfarwyddwr Cyllid Grŵp yn Rexam PLC. Un o ymddiriedolwyr Theatr Almeida.
"Roedd *Cranford* a *Gavin and Stacey* yn gyfresi o safon eleni. Ac mae'r comedi ar Radio 4 bob amser yn gwneud i mi chwerthin, fel *The News Quiz* ar ddydd Gwener."

**14 DR SAMIR SHAH OBE**
Penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Prif Weithredwr Juniper Communications Limited. Cadeirydd Ymddiriedolaeth Runnymede, un o ymddiriedolwyr Amgueddfa Victoria ac Albert ac Athro Arbennig mewn Astudiaethau Ôl-Gwrthdaro yn Ysgol Ieithoedd a Diwylliannau Modern, Prifysgol Nottingham.
"Trevor Eve yn *Waking The Dead* ac fel *Hughie Green* – actor ar ei anterth. Ac ar y radio, mae Charles Wheeler heb ei ail."

**15 ROBERT WEBB CF**
Penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Yn cadeirio Pwyllgor Masnachu Teg Bwrdd Gweithredol y BBC. Penodwyd yn CF yn 1988. Cwnsler Cyffredinol ar gyfer British Airways. Hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol Cyfnewidfa Stoc Llundain a Hakluyt & Co Ltd ac yn Aelod o Fwrdd London First. Cymrawd Anrhydeddus UNICEF.
"Fy uchafbwynt oedd rhifyn y Nadolig o *Doctor Who*, a wnaed yng Nghymru ac a oedd yn cynnwys Kylie ac actorion enwog eraill."

**16 VAL GOODING CBE**
Penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2008. Prif Weithredwr BUPA. Hefyd yn aelod anweithredol o fwrdd Standard Chartered a J Sainsbury, Aelod Ymgynghorol o Fwrdd Ysgol Fusnes Warwig, Ymddiriedolwr Amgueddfa Prydain, cyfarwyddwr anweithredol y Gymdeithas Tenis Lawnt.
"Mae rhaglenni busnes ar Radio 5 live a *Bottom Line* ar Radio 4 yn ffefrynnau cyson. Ac roeddwn wrth fy modd â *Lark Rise to Candleford*."

*Mae contractau cyflogaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o 12 mis, a gellir eu terfynu yn gynt am achos. Ar 31 Mawrth 2008, roedd tymor a chyfnod rhybudd heb ddarfod pob aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn uchafswm o 12 mis, er bod Jenny Abramsky ac Ashley Highfield wedi cyhoeddi eu bwriad i adael y BBC ers hynny.*

*Penodir Cyfarwyddwyr anweithredol am gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd, ac eithrio'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, a benodir am gyfnod cychwynnol o dair blynedd.*

*Nid oes unrhyw hawl i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar ac eithrio lle y terfynir y contract mewn perthynas â dileu swydd.*

*Gall Cyfarwyddwyr Gweithredol ddal swyddi heb dâl hefyd y tu allan i'r BBC.*

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn mesur perfformiad rheolwyr y BBC a'i wasanaethau, a amlinellir ar y tudalennau hyn. Gweler Rhan Un o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC am ei harolwg o 2007/08. Gallwch weld y ddogfen hon ar lein yn bbc.co.uk/annual report

## Gwasanaethau Gweledol

Nod BBC One yw sicrhau mai hi yw'r sianel deledu a werthfawrogir fwyaf yn y DU, gyda'r amrywiaeth ehangaf o raglenni o ansawdd o blith unrhyw rwydwaith prif ffrwd yn y DU

Mae BBC Two yn cyflwyno teledu heriol a deallus i gynulleidfa eang drwy gyfuno pynciau ffeithiol difrifol ac arbenigol â chomedi arloesol a drama nodedig

Mae BBC Three yn ymroddedig i gynnwys a thalent Brydeinig arloesol, gan ddarparu cymysgedd eang o raglenni a anelir at gynulleidfaoedd ifancach yn bennaf

Nod BBC Four yw sicrhau mai hi yw'r sianel deledu orau o ran cyfoeth deallusol a diwylliannol ym Mhrydain, gan gynnig cymysgedd nodedig o raglenni dogfen, perfformiadau, cerddoriaeth, ffilm a rhaglenni nodwedd cyfoes

Mae CBeebies yn cynnig cymysgedd o raglenni o ansawdd uchel a gynhyrchir yn y DU a gynllunnir i annog dysgu drwy chwarae i blant cyn oed ysgol, mewn amgylchedd cyson ddiogel

Mae sianel CBBC yn cynnig amserlen gymysg arbennig i blant 6-12 mlwydd oed, gan eu hannog i ddatblygu diddordebau sydd ganddynt eisoes a diddordebau newydd, a helpu plant i ddeall y byd o'u hamgylch

Mae BBC HD yn llwyfan i deledu manylder uwch i amrywiaeth o raglennu o bob rhan o bortffolio'r BBC

## Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol

Mae BBCi yn cynnig y cynnwys a'r wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y dydd i gynulleidfaoedd teledu digidol gan gynnwys newyddion, y tywydd, dysgu, adloniant a rhaglennu rhyngweithiol

Mae bbc.co.uk yn darparu cynnwys ar-lein arloesol a nodedig, gyda llawer ohono yn gysylltiedig ag allbwn rhaglenni neu'n adeiladu ar gynnwys sy'n bodoli eisoes, gan hyrwyddo cydberthynas agosach â thalwyr ffi'r drwydded

Mae BBC iPlayer yn cynnig gwasanaeth dal i fyny ar ôl darlledu ar gyfer cynnwys penodol ar deledu a radio, sy'n sicrhau na chaiff dim ei golli

## Sain a Cherddoriaeth

BBC RADIO 1

Mae BBC Radio 1 yn cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd ifanc sy'n cyfuno'r gerddoriaeth newydd orau, amrywiaeth cynhwysfawr o sesiynau stiwdio byw, cyngherddau a gwyliau, ac allbwn llafar wedi'i deilwra

BBC RADIO 2

Mae BBC Radio 2 yn cyflwyno amrywiaeth eang o gerddoriaeth boblogaidd ac arbenigol i wrandawyr sy'n canolbwyntio ar dalent Brydeinig a pherfformiadau byw, a ategir gan amrywiaeth eang o allbwn llafar

BBC RADIO 3

Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, ac mae hefyd yn darparu amrywiaeth eang o gerddoriaeth jazz a cherddoriaeth y byd, drama a'r celfyddydau, ac yn cynnwys perfformiadau byw a pherfformiadau wedi'u recordio'n arbennig

BBC RADIO 4

Mae BBC Radio 4 yn defnyddio grym y gair llafar i gynnig rhaglennu sylweddol sy'n ceisio ymgysylltu ac ysbrydoli gyda chymysgedd unigryw o raglenni ffeithiol, drama, darlleniadau a chomedi

BBC RADIO 5 live

Mae BBC Radio 5 live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw 24 awr y dydd, gan gyflwyno digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd mewn modd hygyrch

BBC RADIO 5 live sports extra

Rhwydwaith rhan amser yw BBC 5 live Sports Extra sy'n darparu darllediadau chwaraeon ychwanegol drwy hawliau sydd eisoes yn eiddo i BBC Radio 5 live er mwyn sicrhau gwerth uwch i dalwyr ffi'r drwydded

BBC RADIO 1Xtra

Mae 1Xtra yn chwarae'r goreuon o blith cerddoriaeth ddu gyfoes, gyda phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd o Brydain

BBC RADIO 6 music

Mae BBC 6 Music yn ymgysylltu â phobl sy'n mwynhau cerddoriaeth boblogaidd drwy gynnig y gerddoriaeth orau o archif sain y BBC a cherddoriaeth gyfredol nad yw'n brif ffrwd, newyddion a rhaglenni dogfen am gerddoriaeth

BBC RADIO 7

Gwasanaeth radio digidol llafar yw BBC 7 sy'n cynnig comedi, drama a darlleniadau o archif sain y BBC yn bennaf. Dyma gartref radio llafar i blant hefyd

BBC RADIO Asian Network

Ar BBC Asian Network ceir trafodaethau heriol, newyddiaduraeth hyddysg, cerddoriaeth, chwaraeon, adloniant a drama i gynulleidfaoedd Asiaidd Prydeinig o bob oed

## Newyddiaduraeth

BBC NEWS

Nod BBC News yw darparu'r newyddiaduraeth orau yn y byd a chadw ei statws fel y sefydliad newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd: cynnwys newyddion cywir, diduedd ac annibynnol ar draws amrywiaeth eang o sianelau a gwasanaethau'r BBC

Mae BBC News yn darparu newyddion, dadansoddiadau a mewnwelediad, gyda chymorth gweithrediadau casglu newyddion y BBC, drwy gydol y dydd, bob diwrnod o'r flwyddyn

BBC WORLD SERVICE

Mae BBC World Service yn darparu newyddion byd-eang, dadansoddiadau a gwybodaeth yn Saesneg a 32 o ieithoedd eraill ar y radio a'r rhyngrwyd, ac mae hefyd yn darparu newyddion ar y teledu yn Arabeg

BBC WORLD

Sianel deledu sy'n darlledu newyddion a gwybodaeth 24 awr ledled y byd ac a ariennir yn fasnachol yw BBC World News

BBC PARLIAMENT

BBC Parliament yw'r unig sianel yn y DU sy'n ymroddedig i ddarllediadau o fyd gwleidyddiaeth, gan gynnwys trafodaethau, pwyllgorau a gwaith siambrau datganoledig y DU

BBC SPORT

Mae BBC Chwaraeon yn darparu darllediadau rhwydwaith o chwaraeon yn y DU, gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol pwysig ac amrywiaeth eang o chwaraeon arbenigol ac Olympaidd ar deledu, radio a chyfryngau rhyngweithiol. Mae hefyd yn darparu newyddion chwaraeon cynhwysfawr

## Newyddiaduraeth Y Gwledydd a'r Rhanbarthau

BBC English Regions

Mae BBC English Regions yn gwasanaethu amrywiaeth eang o gymunedau trefol a gwledig a'i nod yw sicrhau mai ef yw'r darlledwr lleol mwyaf creadigol a'r un yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn Lloegr

BBC Northern Ireland

Mae BBC Northern Ireland yn darparu rhywbeth o werth i bawb yn y gymuned drwy ei bortffolio eang o raglenni a gwasanaethau sy'n adlewyrchu diddordebau a phrofiadau lleol

BBC Cymru Wales

Mae BBC Cymru yn ymrwymedig i gynhyrchu gwasanaethau sy'n adlewyrchu diwylliant a hanes unigryw Cymru, a'i thirlun cymdeithasol a gwleidyddol

BBC Scotland

Mae BBC Scotland yn cynhyrchu amrywiaeth eang o raglenni teledu a radio nodedig ar gyfer pob grŵp oedran sy'n adlewyrchu natur amrywiol yr Alban yn briodol, gan gynnwys y gwasanaeth Gaeleg newydd, BBC ALBA

# Arolwg o wasanaethau







| | |
|---|---|
| Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol | 29 |
| Gwasanaethau Gweledol | 32 |
| Sain a Cherddoriaeth | 38 |
| Newyddiaduraeth | 44 |
| Gweithgareddau masnachol | 52 |
| Ymgysylltu â chynulleidfaoedd | 58 |

# Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol

"Hon oedd un o'r blynyddoedd mwyaf dylanwadol yn dechnolegol erioed yn y cyfryngau – a bu'r BBC yn arwain o'r blaen. Mae BBC iPlayer yn arwain newid aruthrol o ran sut a phryd y gall pob un ohonom – o wrandawyr brwd Radio 3 i ddilynwyr *EastEnders* – ddewis gwrando ar ein 'radio' a gwylio ein 'teledu'. Mae mwy i greadigrwydd, medrusrwydd ac arloesedd na chynnwys yn unig."

Ashley Highfield
**Cyfarwyddwr Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol**



Ceir elfennau rhyngweithiol poblogaidd yn llawer o r allbwn i blant, fel y ffefryn *Charlie and Lola*.

11 MILIWN

Cyrhaeddiad wythnosol blynyddol BBCi ar gyfartaledd.



Mae BBCi yn boblogaidd iawn ar gyfer digwyddiadau chwaraeon pwysig fel Wimbledon, a cherddoriaeth fyw fel Glastonbury.

Unwaith eto rydym wedi gweld ein gwasanaethau ar-lein, rhyngweithiol ac ar alw yn tyfu'n barhaus:

- Ceir dros 3.6 biliwn o ymweliadau â thudalennau bbc.co.uk bob mis – gyda thros 33 miliwn o ddefnyddwyr unigryw wythnosol ar gyfartaledd ledled y byd.
- Mae BBCi yn cynnig mwy o gynnwys nag erioed gyda'i gyrhaeddiad misol yn tyfu i 15.0 miliwn eleni ar gyfartaledd.
- BBC Mobile yw'r porwr newyddion a chyfryngau a ddefnyddir fwyaf yn y DU – mae 45% o ddefnyddwyr newyddion, chwaraeon a'r tywydd yn manteisio ar y gwasanaeth.

Ond stori fawr ein blwyddyn yw lansio BBC iPlayer sydd, gyda'n gwasanaeth sain wedi'i ffrydio sef Radio Player, bellach yn cynnig cynnwys ar-lein i'r rhai a wnaeth ei golli'r tro cyntaf ar deledu neu radio llinellol. Mae gwylwyr a gwrandawyr yn cael budd o newid mawr mewn grym sydd o'u plaid ym maes y cyfryngau.

Mae cynulleidfaoedd o bob math – o frodyr a chwiorydd yn eu harddegau sy'n hoffi cerddoriaeth wahanol i'w neiniau a'u teidiau sydd am basio hanner awr cyn mynd allan i'w dosbarth tango ganol wythnos – yn disgwyl mwy gennym ac yn dod yn fwy soffistigedig o ran eu hanghenion cynnwys. Mae hefyd yn dod yn fwy heriol i ddarlledwyr allu rhoi'r cynnwys hwnnw iddynt gan fodloni gofynion o ran sut, pryd ac ymhle maent am ei weld neu wrando arno. Mae disgwyliadau marchnadoedd a chynulleidfaoedd yn datblygu'n gyflym.

Mae BBC iPlayer a Radio Player yn cynnig cynnwys o'r radd flaenaf i bawb, ar adeg ac mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt. Gall gwasanaethau arloesol o'r radd flaenaf fel y rhain gynnig rhywbeth i bawb ac maent yn helpu'r BBC i gyflawni gwerth gwirioneddol am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Mae'r gwerth am arian hwn yn gwella wrth i fwy o bobl fabwysiadu a defnyddio'r gwasanaethau.

Mae gwasanaethau newydd yn diogelu ein cenhadaeth graidd i gynnig rhaglenni a chynnwys sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu, ac yn ategu ein pwrpasau mewn cyfnod o newid technolegol cyflym.

Mae'r dyfodol digidol yn debygol o ddod yn fwyfwy anlinellol – a bydd y BBC yn cynnal profion cyhoeddus ar wasanaethau anlinellol eraill megis iPlayer yn y blynyddoedd i ddod.

Mae BBCi, gwasanaeth teledu rhyngweithiol y BBC, yn galluogi gwylwyr teledu digidol i gael gafael ar newyddion, gwybodaeth, addysg ac adloniant ar ffurf fideo, sain, lluniau a thestun rhyngweithiol mewn modd parhaus a ddiweddarir yn gyson. Gyda thua dau o bob pum person yn y DU heb fynd ar-lein eto, mae BBCi yn wasanaeth pwysig i ran fawr o'n cynulleidfa, gan orffen y flwyddyn fel y gwasanaeth rhyngweithiol mwyaf poblogaidd ar y tair llwyfan y mae ar gael arnynt: Freeview, lloeren a chebl.

Mae BBCi yn boblogaidd iawn ymhlith dilynwyr chwaraeon ymrwymedig – ymhlith y digwyddiadau a gynhaliwyd y llynedd roedd Rygbi rhyngwladol, Pêl-droed Cwpan Affrica a Dartiau'r Byd – ond mae hefyd yn denu'r rhai sy'n dilyn chwaraeon yn achlysurol – y llynedd gwyliodd dros 3 miliwn o bobl Wimbledon ar loeren ddigidol yn unig. Un o'n blaenoriaethau yw datblygu o fod yn wasanaeth digwyddiadau i wasanaeth cyfunol i gynulleidfaoedd chwaraeon rhyngweithiol sy'n cynnig gwasanaeth chwaraeon siop-un-stop cydlynol i gynulleidfaoedd. Dyma a ddywed y dilynwyr chwaraeon eu bod am ei gael.

Mae apêl BBCi yn mynd y tu hwnt i chwaraeon, a chaiff y botwm coch ei ddefnyddio fwyfwy gan gynulleidfaoedd sy'n chwilio am raglennu cerddoriaeth ac adloniant rhyngweithiol. Defnyddiodd dros 2.6 miliwn ein gwasanaeth i wylio Glastonbury yn rhyngweithiol a gwasgodd dros 1.5 miliwn y botwm coch ar gyfer *Celebrity Fame Academy*. Ymunodd nifer debyg yn y canu yn yr *Eurovision Song Contest*. Roedd *The Proms* yn uchafbwynt i gynulleidfaoedd, yn enwedig yr un a roddodd lwyfan i un o gyn-gystadleuwyr yr Eurovision sef Michael Ball.

Mae BBCi hefyd yn apelio i'n gwylwyr iau, gyda CBeebies a CBBC Extra yn cyfrif am bron 10% o'n cynulleidfa. Mae *Charlie and Lola* wedi ymddangos ymhlith pum rhaglen ryngweithiol fwyaf poblogaidd y BBC ar y teledu ddwywaith.

Cyflwynwyd BBC iPlayer i ystafelloedd byw y DU drwy ei lansio ar Nintendo Wii, a byddwn yn ei lansio ychydig yn hwyrach na'r disgwyl ar Virgin Media ym mis Mai. Mae cynlluniau hefyd ar waith i gynnig BBCi ar Freesat, ac rydym yn parhau i ystyried y defnydd o dechnolegau newydd megis IPTV i gynyddu gwerth ein gwasanaethau i gynulleidfaoedd.

*Cyrhaeddiad wythnosol blynyddol BBCi ar gyfartaledd oedd 11 miliwn (30% o oedolion â theledu digidol), gan dyfu mewn termau real yn unol â defnydd digidol o 10.2 miliwn (30%) yn 2006/07.*

Dathlodd bbc.co.uk ei ben-blwydd yn ddeg oed eleni – ac nid oes unrhyw arwydd ei fod yn arafu. Ni yw'r safle cynnwys mwyaf poblogaidd yn y DU o hyd, gan gynnig rhywbeth i bawb gyda'n hamrywiaeth unigryw o gynnwys a gwasanaethau o ansawdd uchel gan gynnwys, am y tro cyntaf eleni, amrywiaeth parhaol o bodlediadau. Mae'r rhain yn boblogaidd gyda'n cynulleidfaoedd drwy'r amser. Yn y DU yn unig gwnaeth 7.7 miliwn o bobl lwytho ein podlediadau i lawr yn llwyddiannus ym mis Mawrth o gymharu â chyfanswm byd-eang y BBC ar gyfer y mis o 16.4 miliwn. Yn yr un mis cafwyd cyfanswm o 12.5 miliwn awr o wrando byw yn y DU drwy Radio Player, a 17.2 miliwn awr ledled y byd. Hefyd gwrandawodd cynulleidfaoedd y DU ar 4.3 miliwn awr o gynnwys radio ar alw yn y mis hwnnw – gyda 3 miliwn awr ychwanegol ledled y byd.



Mae gwefannau n ategu llawer o raglenni r BBC, ac yn cynnig profiad gwell na gwylio neu wrando yn unig.

# 44%

O ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy n oedolion yn y DU sy n defnyddio bbc.co.uk



Mae BBC iPlayer yn cynnig cyfle arall i wylio rhaglenni y byddech yn eu colli fel arall.

Mae cyfran fawr o'n safleoedd yn ategu rhaglenni'r BBC. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd *Doctor Who*; ehangodd *White* dymor BBC Two ar ddosbarth gweithiol gwyn Prydain gyda darllediadau o'r archif a thrafodaeth gynhyrfus ar-lein; a galluogodd *Long Way Down* gynulleidfaoedd i ddilyn taith Ewan McGregor a Charley Boorman ar feiciau modur o'r Alban i Dde Affrica cyn ei darlledu drwy ddyddiadur ar-lein, clipiau fideo a map o'r daith. Roedd dros hanner (52%) y gynulleidfa ar gyfer y rhaglen deledu wedi gwylio ar-lein cyn ei darlledu.

Ategwyd digwyddiadau mawr megis yr *Electric Proms* a Glastonbury ar bbc.co.uk yn ogystal â thudalennau swyddogol y BBC oddi ar y safle ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Defnyddiwyd ffotograffau a delweddau eraill mewn ffordd effeithiol iawn ar ein safle ar gyfer *The Making of Music*, gan gynnwys llinell amser ryngweithiol a alluogodd defnyddwyr i astudio 1,000 o flynyddoedd o gerddoriaeth glasurol, darllen naratifau a phroffiliau, a deall y gerddoriaeth yn ei chyd-destun hanesyddol cywir.

Manteisiwyd ar dechnoleg ddigidol i fynd i'r afael â'r mater difrifol sy'n ymwneud â delwedd y corff mewn ffordd hygyrch ar gyfer Radio 1, gan ddenu tua 1.5 miliwn o ddefnyddwyr unigryw i ymgyrch wythnos o hyd a welodd ddelweddau o Kelly Osbourne a thîm Chris Moyles yn cael eu newid er mwyn gweld i ba raddau y caiff delweddau yn y cyfryngau eu haddasu.

I'n defnyddwyr iau, cyflwynwyd *My CBBC* (siop un stop i blant i gyfuno eu holl weithgareddau ar-lein), *Adventure Rock* (gêm greadigol sy'n arwain y blaen ac y gellir ei llwytho i lawr) a rhaglen gwneud ffilm i blant *Me and My Movie*.

Mewn ymateb i'r galw gan gynulleidfaoedd, rydym wedi lansio fersiwn beta o /programmes (sef siop un stop i gael gwybodaeth am raglenni) a thudalennau /topics (sy'n dwyn ynghyd lawer o wybodaeth mewn un man am ddigwyddiadau mawr megis y gwrthdaro yn Irac, neu bobl fel Gordon Brown, neu bynciau fel newid yn yr hinsawdd). Mae'r straeon a'r bobl sy'n effeithio ar ein cynulleidfaoedd yn eu diddori hefyd. Roedd newyddion, chwaraeon a'r tywydd yn cyfrif am tua hanner yr holl ymweliadau â thudalennau yn ystod y flwyddyn.

*Yn 2007/08 cyrhaeddiad wythnosol bbc.co.uk ar gyfartaledd ymhlith oedolion 16+ oed a ddefnyddiai'r rhyngrwyd oedd 12.0 miliwn/44% (cynnydd o gymharu â 10.2 miliwn/41% yn 2006/07). Cafwyd y cyrhaeddiad mwyaf ym mis Chwefror, a wnaeth gyd-daro â chyflwyno iPlayer a mis cryf i'r safle Newyddion.*

Yn dilyn cymeradwyaeth Ymddiriedolaeth y BBC, lansiodd y BBC wasanaeth ar alw BBC iPlayer ym mis Rhagfyr sy'n sicrhau na chaiff dim ei golli drwy alluogi cynulleidfaoedd i ddal i fyny â rhaglenni a ddarlledwyd yn ystod y saith diwrnod blaenorol. Lansiwyd y gwasanaeth mewn da bryd ar gyfer y Nadolig, a bu'n llwyddiant yn syth gan ragori ar ein holl ddisgwyliadau.

Ym mis Mawrth, ar ôl dim ond tri mis, gwnaed 17.2 miliwn o geisiadau gan ddefnyddwyr am gael llwytho rhaglenni'r BBC i lawr ac am ffrydiau rhaglenni, a oedd yn uwch na'r ffigurau misol cychwynnol ar gyfer mis Ionawr sef 11.2 miliwn (tua 25% o dwf cyfansawdd misol). Dros y tri mis gwyliwyd cyfanswm o 42 miliwn o raglenni.

Erbyn diwedd 2007/08, roedd gennym 1.1 miliwn o ddefnyddwyr yr wythnos ar gyfartaledd. Ar yr un pryd, aethpwyd heibio i'r ffigur o hanner miliwn, gan gofrestru dros 550,000 o geisiadau dyddiol am ffrydiau rhaglenni neu am gael llwytho rhaglenni i lawr.

Daw'r llwyddiannau mawr ar BBC iPlayer o bob genre: mae rhaglennu adloniant, comedi, ffeithiol a drama oll yn boblogaidd. Y rhaglen fwyaf poblogaidd o ran ffrydio yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf oedd pennod o *The Apprentice* ar BBC One, tra daeth y rhaglen *Louis Theroux: Behind Bars* ar gyfer BBC Two, lle mae'r gwneuthurwr rhaglenni dogfen yn ymchwilio i system gosbi America, yn ail. Ymhlith y rhaglenni mwyaf poblogaidd eraill mae *Gavin and Stacey*, *Ashes to Ashes*, *EastEnders* a *Torchwood*.

Dangoswyd Pencampwriaeth y Chwe Gwlad ym mis Chwefror a fu'n llwyddiant ysgubol, a gobeithiwn gynyddu ein cynnwys chwaraeon yn y dyfodol (yn amodol ar hawliau). Mae amrywiaeth eang o raglenni newyddion gan News 24 a BBC Parliament ar gael eisoes ynghyd â rhaglenni materion cyfoes proffil uchel megis *Newsnight* a *Panorama*. A'r prif fwletinau newyddion gan BBC One. Mae'r amser a dreulir yn sicrhau bod deunydd darlledu ar gael ar BBC iPlayer hefyd yn lleihau, a fydd yn ein galluogi i ddarparu'r newyddion diweddaraf yn barhaus cyn gynted ag y bydd wedi'i ddangos ar y teledu.

Rydym yn anelu at sicrhau bod BBC iPlayer ar gael yn ehangach fel gwasanaeth llwytho i lawr, drwy ei gynnig i ddefnyddwyr Apple Mac a Linux. Rydym eisoes wedi darparu'r gwasanaeth ffrydio ar y llwyfannau hyn, yn ogystal ag iPhone a dyfeisiau cyffwrdd.

Rydym wedi cynllunio blwyddyn uchelgeisiol. Ein nod yw sicrhau bod mwy o'r amserlen ar gyfer rhaglenni teledu a ddarlledir ar gael drwy BBC iPlayer, a gaiff ei hintegreiddio'n llawn â'r gwasanaeth radio mwy sefydledig, gan gynnwys cyd-ffrydio. Byddwn yn gwella'r gefnogaeth i gynnwys hygyrchedd ac yn cyflwyno HD. Hefyd bwriadwn hwyluso'r broses o ddod o hyd i gynnwys, gan fynd â chynulleidfaoedd ar daith o un maes diddordeb i un arall a gadael iddynt wneud eu cynnwys ar alw a ddarperir gan y BBC yn bersonol iddynt hwy a chreu rhestrau chwarae yn ogystal ag argymell, rhannu a thrafod eu hoff raglenni ar y BBC gydag eraill.

*Nid oes ffigurau cyrhaeddiad cadarn ar gael eto ar gyfer BBC iPlayer – byddwn yn eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2008/09.*

# Gwasanaethau Gweledol

Mae cynulleidfaoedd yn haeddu cynnwys o ansawdd uchel – rhaglenni gwreiddiol, nodedig a chofiadwy gyda gwerthoedd cynhyrchu uchel. Ond mae'n rhaid i ni gynnig mwy na dim ond y rhannau hyn at ei gilydd. Dylem adlewyrchu eu bywydau a'u profiadau, ac adeiladu arnynt – gan ddangos delweddau iddynt a'u hamlygu i syniadau newydd na fyddent wedi'u gweld o'r blaen.

Jana Bennett
**Cyfarwyddwr**
**Gwasanaethau Gweledol**



Roedd *Cranford* yn un o n huchafbwyntiau eleni o ran dramâu.

44 MILIWN

Nifer y bobl yn y DU sy n gwylio BBC One bob wythnos.



Roedd cyfresi nodedig yn cwmpasu meysydd mor amrywiol â byd natur, gwyddoniaeth a phensaernïaeth.

Bu'n flwyddyn gref iawn i Wasanaethau Gweledol y BBC, o ran ystod ac ansawdd – o swyn *Cranford* ar BBC One i'r gyfres nodweddiadol o BBC Two, *Andrew Marr's History of Modern Britain*, o lwyddiant aruthrol *Gavin and Stacey* ar BBC Three *i Genius of Photography* ar BBC Four. Ar draws pob un o'r saith sianel, gan gynnwys y sianel HD mwyaf newydd, ac yn ein darpariaeth aml-lwyfan rydym wedi cyflwyno cyfoeth o brofiadau newydd a chyffrous i'n cynulleidfaoedd. Mae gwylwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r amrywiaeth o ddewisiadau a gynigir ar draws ein portffolio.

Bu'n flwyddyn eithriadol i ddrama, gyda dramâu unigol nodedig ar BBC One a BBC Two, gan gynnwys *Coming Down The Mountain* gan Mark Haddon a *Joe's Palace* gan Stephen Poliakoff. Disgleiriodd BBC One fel y sianel orau o ran drama gyda lefelau hynod uchel o werthfawrogiad gan y gynulleidfa. Trosglwyddodd poblogrwydd aruthrol *Cranford* i gyfresi llwyddiannus eraill gan gynnwys *Oliver Twist* a *Lark Rise to Candleford*.

Gwasanaethau Gweledol y BBC yw'r buddsoddwr mwyaf mewn comedi Prydeinig gwreiddiol o hyd, gan ddatblygu awduron newydd a thalent newydd gan gynnwys James Corden a Ruth Jones, y ddeuawd awdura y tu ôl i *Gavin and Stacey*. Ymhlith llwyddiannau eraill eleni mae'r digrifwr Prydeinig-Iranaidd *Omid Djalili*, *Mitchell and Webb*, a *Catherine Tate*, rhan o dymor Nadolig a werthfawrogwyd yn fawr ar BBC One.

Bu hon yn flwyddyn gyfoethog ac amrywiol i raglennu ffeithiol. Ymhlith y cyfresi nodedig roedd *Life in Cold Blood* gyda Syr David Attenborough, *Earth: The Power of the Planet* gyda Dr Iain Stewart a *How We Built Britain* gyda David Dimbleby.

Bu BBC Two yn bwrw ati'n ddewr i foderneiddio ei harlwy ffeithiol, gan adfywio ei phortffolio ac estyn allan i gynulleidfaoedd ifancach gyda rhaglenni fel *Top Gear*, *Louis Theroux*, *Long Way Down* ac *Everest: Doctors in the Death Zone*.

Cyflawnodd BBC Three uchelfannau newydd o ran ystod ac ansawdd. Yn dilyn ail-lansio'n llwyddiannus ar ddechrau 2008, mae BBC Three bellach yn cyfuno teledu o ansawdd uchel a'r we i gynnig un arlwy integredig i bobl ifanc.

Mae cynulleidfaoedd newydd hefyd yn cael eu denu i BBC Four sy'n parhau i fod yn ddyfeisgar iawn, o ddrama i raglennu ffeithiol arbenigol neilltuol megis *Atom* a *Medical Mavericks*.

Mae'r pedair sianel wedi caffael cymysgedd doeth o raglenni hynod nodedig sy'n ategu arlwy pob sianel: er enghraifft, *Damages* ar BBC One, *Heroes* ar BBC Two, *Family Guy* ar BBC Three a *Mad Men* ar BBC Four, y maent oll wedi denu cynulleidfaoedd teyrngar.

Mae ein hymrwymiad i blant a chynulleidfaoedd ifancach yn parhau drwy'r sianelau hynod llwyddiannus CBeebies a CBBC, ac eleni rydym hefyd wedi lansio ein gwasanaeth i bobl ifanc yn eu harddegau, BBC Switch.

Gwasanaethau Gweledol y BBC yw'r ganolfan gomisiynu a chynhyrchu integredig fwyaf o'i bath yn y byd, gan alluogi cynhyrchwyr i gynyddu potensial creadigol eu cynnwys i'r eithaf drwy gyflwyno profiad llawn, ategol i gynulleidfaoedd ar draws sianelau a llwyfannau. Ymhlith yr uchafbwyntiau o fewn ein harlwy aml-lwyfan eleni roedd tymor India a Phacistan, *Sport Relief 2008*, a *The Apprentice*, trysor go iawn ar draws BBC One, BBC Two a'r we.

Eleni cawsom ganiatâd i lansio ein gwasanaeth Manylder Uwch newydd. Bydd yn canolbwyntio ar rai o'r rhaglenni mwyaf uchelgeisiol ac arloesol ar draws ein portffolio, yn cynnwys chwaraeon, drama, cerddoriaeth ac adloniant, a digwyddiadau cenedlaethol allweddol.

Mae BBC iPlayer wedi chwarae rhan bwysig wrth gynyddu amlygrwydd ac argaeledd ystod lawn ein hallbwn, gan ddarparu cyfleoedd ychwanegol i wylwyr ddod o hyd i raglenni a'u gwylio y byddent o bosibl wedi'u colli fel arall yn yr amserlenni llinellol (mae sioeau BBC Four a BBC Three yn ymddangos yn gyson yn yr 20 rhaglen uchaf).

Bu'n flwyddyn gadarn i raglenni – ond bu hefyd yn flwyddyn o rai diffygion proffil uchel mewn safonau golygyddol a effeithiodd ar bob rhan o'r BBC, gan gynnwys Gwasanaethau Gweledol y BBC. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i atgyfnerthu ein prosesau golygyddol, er mwyn sicrhau mai cynnwys y BBC yw'r cynnwys yr ymddiriedir ynddo ac a werthfawrogir fwyaf o hyd gan ein cynulleidfaoedd.


BBC one

BBC One yw gwasanaeth mwyaf poblogaidd y genedl – gyda dros 44 miliwn o ymwelwyr bob wythnos. Mae gan bron i bawb yn y DU berthynas uniongyrchol â'r sianel, ac felly rydym yn cynnig rhywbeth i bawb.

BBC One yw cartref drama ansawdd uchel, effaith uchel. Cawsom flwyddyn eithriadol, gyda'r *Cranford* godidog, a ysgrifennwyd gan Heidi Thomas yn amlwg seiliedig ar lyfrau Elizabeth Gaskell, a dramâu unigol nodedig o *Coming Down the Mountain* gan Mark Haddon i *Joe's Palace* gan Stephen Poliakoff. Ymhlith uchafbwyntiau pellach roedd *The Passion*, a ddangoswyd dros wythnos y Pasg, *Lark Rise to Candleford* ac *Ashes to Ashes*, cyfres ddilynol i *Life on Mars*. Roedd *The No 1 Ladies Detective Agency* gan Anthony Minghella a Richard Curtis, a ffilmiwyd yn llwyr ar leoliad yn Botswana, yn boblogaidd gyda'r gwylwyr. Roedd yn deyrnged briodol i Anthony.

Roedd y cyfresi hyn yn rhan o'r llu o ddramâu a oedd yn apelio i gynulleidfa eang. Ymhlith eraill roedd *Waking the Dead*, *Hustle*, *Hotel Babylon*, *Spooks* a *The Street*. Gwasanaethwyd gwylwyr iau llawn cystal eleni gyda *Doctor Who*, *Robin Hood* a *Waterloo Road* oll yn dychwelyd ac yn denu plant o dan 16 oed gyda'u cymeriadau cyfarwydd a'u straeon cymhellol. Cafodd *EastEnders* adfywiad, ac mae gwylwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i fuddsoddiad helaeth y rhaglen mewn talent ysgrifennu newydd.

Cawsom dymor Nadolig eithriadol, ein cryfaf ers sawl blwyddyn, gan gyflwyno detholiad addas o raglenni ar gyfer yr ŵyl, o ddramâu fel *Ballet Shoes*, *Doctor Who* llawn sêr, i benodau arbennig o raglenni comedi: *Extras*, *My Family* a dychwelodd *To the Manor Born* i groeso mawr. Darparodd y rhain oll enghreifftiau o deledu gwerth ei weld i'r teulu cyfan.



Aeth Andrew Marr â gwylwyr ar daith drwy Brydain fodern – gan ennill gwobrau yn y broses.

£1 FILIWN

Yr arian a godwyd ar gyfer apêl *Plant Mewn* Angen drwy bleidleisiau ffôn *Strictly Come Dancing*.



Darlledwyd tymor o raglenni yn archwilio effaith barhaus rhaniad India a Phacistan yn 1947.

Mae *The ONE Show*, a lansiwyd y llynedd, yn ymrwymiad parhaus, pwysig i gynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r rhaglen bellach yn denu bron i 5 miliwn o wylwyr bob dydd ac mae wedi rhoi gwell strwythur i amserlen y sianel fin nos yn ystod yr wythnos. Mae Adrian Chiles, Christine Bleakley a'u cydweithwyr yn llwyddo i ennyn diddordeb eu cynulleidfa min nos mewn pynciau mor amrywiol â byd natur, gwyddoniaeth a meddygaeth. Mae gwylwyr wedi ymateb yn gadarnhaol – ac mae ffigurau'r gynulleidfa yn y slot 7pm ar BBC One yn sylweddol gryfach nag o'r blaen.

Cyflwynodd ein hamserlen hefyd gomedi ac adloniant eithriadol. Parhaodd rhaglenni fel *Have I Got News For You* a *Friday Night with Jonathan Ross* i ddisgleirio. Ar nos Sadwrn, cyflwynodd *Doctor Who*, *Strictly Come Dancing* ac *Any Dream Will Do* werth arbennig a phrofiad cynnes iawn i'r gynulleidfa.

Manteisiwyd hefyd gennym ar y cyfle i sefydlu amserlen fwy cyson a oedd yn canolbwyntio ar y gynulleidfa ar nos Sul y llynedd. Bellach mae *Antiques Roadshow* wedi symud i'w slot newydd yn ystod oriau brig, a chaiff ei dilyn yn rheolaidd gan ddrama boblogaidd. Am y tro cyntaf, arbrofwyd gyda sioe canlyniadau *Strictly Come Dancing* ar nos Sul, gyda chyfartaledd o 8.4 miliwn yn gwylio bob wythnos i weld pwy fyddai'n dawnsio hyd y diwedd. Mae'r sioe wedi llwyddo i ddal dychymyg gwylwyr, yn ogystal â chodi ymhell dros £1filiwn i apêl *Plant mewn Angen*. Mae pawb yn edrych ymlaen at gyfres chwech yn ddiweddarach eleni.

Y llynedd, gwelwyd detholiad wedi'i adfywio o raglenni comedi, gyda thair sioe sgets newydd yn cychwyn yn addawol: *The Armstrong and Miller Show*, *The Omid Djalili Show* a *Ruddy Hell! It's Harry and Paul*. Gwnaeth y comedi sefyllfa i'r teulu *Outnumbered*, gyda'i ddefnydd swynol o fyrfyfyr gan y plant, ddechrau da a chafodd ganmoliaeth uchel. Byddant oll yn dychwelyd yn 2008.

Mae ein hamserlen yn ystod y dydd yn parhau i berfformio'n dda er gwaethaf colli *Neighbours*, gyda'r ddrama o'r DU *Doctors* yn llwyddo'n gyson i ddenu tua chwarter y gynulleidfa ddechrau'r prynhawn. Cafwyd llwyddiant hefyd gyda rhaglennu byw yn ystod y bore, yn arbennig *Missing Live*, rhaglen a ganmolwyd yn Nhŷ'r Cyffredin.

Parhaodd y BBC Ten O'Clock News i berfformio'n gadarn mewn ymateb i benderfyniad ITV i symud ei raglen hwyrnos i'r un slot. Mae newyddion yn bwysig i'n cynulleidfaoedd, a dyna pam mae'r sianel yn ei gynnig ar amseroedd cyson yn ystod yr amserlen. Rydym wedi ehangu'r hyn a gynigir gennym gyda chrynodeb newydd am 8pm wedi'i gynllunio i roi diweddariad cyflym ar brif ddigwyddiadau'r dydd. Bu'n arbennig o ddefnyddiol wrth gyflwyno'r agenda newyddion i wylwyr ifancach ac eraill na fyddent o bosibl fel arall yn gweld unrhyw newyddion teledu. Mae cysondeb yn yr amserlen hefyd yn golygu bod *Question Time* a *This Week* wedi parhau i ddenu cynulleidfa deyrngar ar nos Iau.

Eleni ailsefydlodd *Panorama* ei hun ar nos Lun, gan gyflwyno straeon heriol, llawn effaith fel Affganistan yn ystod oriau brig a chyflawni ei chynulleidfaoedd uchaf ers pum mlynedd. Yn ogystal, cynhyrchodd y sianel nifer o raglenni materion cyfoes arbennig, effaith uchel gan gynnwys *Iraq: No Plan No Peace*, *The Blair Years*, *Midwives Undercover* a *Taking on the Taliban: The Soldiers' Story*.

Ymhlith cyfresi nodedig roedd *Life in Cold Blood* gyda Syr David Attenborough, *Mountain* gyda Griff Rhys Jones, *How We Built Britain* gyda David Dimbleby a *Michael Palin's New Europe*. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn gwyddoniaeth o ansawdd uchel gyda chyfresi fel *Child of Our Time* a *Fight for Life*, a byddwn yn parhau i ddatblygu ein portffolio o syniadau ffeithiol a gwyddonol effaith uchel yn ystod y flwyddyn nesaf.

Rydym yn adfywio'r hyn a gynigir gan y sianel yn gyson. Mae ailddarllediadau yn ystod oriau brig wedi gostwng ychydig eto eleni, i 8.3%, yn is na'r targed o 8.4% (2006/07 8.4%).

*Cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud BBC One i wylwyr 4+ oed oedd 78.2% neu tua 44.1 miliwn o bobl yn 2007/08 (yn unol â'r 78.4% neu 43.9 miliwn o bobl yn y flwyddyn flaenorol).*

BBC TWO

Cafodd rhaglenni BBC Two flwyddyn ardderchog ar draws y genres, gan ein helpu i gynyddu ein cyrhaeddiad cyffredinol, a chafodd lwyddiant go iawn o ran cyrraedd gwylwyr ifancach (25–44 oed) gyda theitlau fel *QI*, *Top Gear*, *Heroes*, *Long Way Down* a *Dragons' Den*. Ni oedd yr unig sianel ddaearol i gynyddu ein cyrhaeddiad wythnosol y llynedd a chynyddu ein cyfran ymhlith cynulleidfaoedd ifancach (16–34 oed).

Mae gan BBC Two enw da am sicrhau bod syniadau cymhleth yn hygyrch ac yn gymhellol i wylwyr. Ymhlith yr uchafbwyntiau o'n hamserlen a wnaeth hyn roedd *Andrew Marr's History of Modern Britain*, disgrifiad epig o ddigwyddiadau sydd wedi llunio ein bywydau ers diwedd yr Ail Ryfel Byd ac, yn cwmpasu cyfnod hwy o amser, adroddodd *Earth: The Power of the Planet* gyda Dr Iain Stewart, hanes ein planed o'i geni 4.6 biliwn o flynyddoedd yn ôl. Roedd *India & Pakistan 07* yn dymor uchelgeisiol yn dathlu 60 mlynedd ers i'r ddwy wlad ennill annibyniaeth, gan gynnwys cyfres nodedig arbennig Michael Wood, *The Story of India*, yn ogystal â chyfresi mwy personol fel *India With Sanjeev Bhaskar*. Roedd y tymor yn hynod lwyddiannus gyda gwylwyr Asiaidd, gan gyrraedd dros hanner holl bobl Indiaidd a Phacistanaidd y DU.

Darparodd y gyfres ddogfen newydd *Wonderland* lwyfan ar gyfer archwilio amrywiaeth bywyd ym Mhrydain heddiw, tra roedd *White Season* yn gasgliad cythruddol o ffilmiau yn amlygu'r dosbarth gweithiol gwyn ym Mhrydain heddiw: ymhlith y rhaglenni roedd *Last Orders* am Wibsey Working Men's Club yn Bradford, sydd o dan fygythiad, yn ogystal â *The Poles Are Coming*, *Rivers Of Blood*, ac *All White in Barking*.



Cyflwynodd y gyfres hynod lwyddiannus *Gavin and Stacey* rai o r goreuon o blith talent newydd yn y DU.

# 600,000

Nifer y gwylwyr ychwanegol a wyliodd BBC Two y llynedd, o gymharu â r flwyddyn flaenorol.



*Sacred Music*, golwg uchelgeisiol ar esblygiad cerddoriaeth grefyddol Ewropeaidd yn y traddodiad Cristnogol.

Roedd y tymor hefyd yn cynnwys *White Girl*, drama a ysgrifennwyd gan Abi Morgan, gyda pherfformiad canolog hynod aeddfed gan Holly Kenny ifanc. Ymhlith cynigion ffuglen eraill nodedig ar y sianel eleni roedd dramâu unigol *Stuart: A Life Backwards* a *Capturing Mary* gan Stephen Poliakoff, yn ogystal â'r cyfresi poblogaidd *The Tudors* a *Torchwood*. Roedd *10 Days to War* yn ddilyniant arloesol o ddramâu byr yn cofnodi pum mlynedd ers i Brydain fynd i Irac, gydag actorion blaenllaw o'r DU gan gynnwys Kenneth Branagh, Juliet Stevenson ac Art Malik yn cymryd rhan yn y cydweithrediad cyntaf o'i fath rhwng Gwasanaethau Gweledol y BBC a BBC Newyddion.

Ym maes comedi, roedd *Never Mind the Buzzcocks* yn llwyddiant gyda gwylwyr ifancach, felly hefyd y cyfresi comedi a ddychwelodd am gyfresi newydd, *Lead Balloon* a *That Mitchell & Webb Look*. Mae datblygu comedi newydd yn waith beichus, ac mae risgiau mawr ynghlwm, ac er na lwyddodd *Roman's Empire* a *The Life and Times of Vivien Vyle* i ddal dychymyg y gynulleidfa, er gwaethaf ysgrifennu, actio a chynhyrchu o safon, rydym yn parhau'n ymrwymedig i ddatblygu ein comedi ein hunain, yn ogystal â chynnig cartref daearol i rai o'r goreuon gan BBC Three.

Crëwyd nifer o fformatau nodwedd ac adloniant ffeithiol newydd gennym ar gyfer y slot allweddol yn ystod oriau brig, sef 8pm, gan gynnwys *James May's 20th Century*, *Nigella Express* a *The Restaurant*. Symudodd *Masterchef* i oriau brig, ac ar ôl blynyddoedd yn dangos i ni sut i wneud pethau'n iawn, ildiodd *Delia* o'r diwedd a dysgodd i ni sut i dwyllo yn y gegin.

*Y llynedd, cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud BBC Two i wylwyr 4+ oed ymhob cartref oedd 57.6% neu 32.5 miliwn o bobl, ychydig yn uwch na 2006/07 (57.0%/31.9 miliwn).*

## BBC three

Eleni gweddnewidiwyd BBC Three a chyflwynwyd amrywiaeth cyffrous o raglenni a fu o gymorth i ni wrth gyflawni ein cylch gwaith fel rhwydwaith mwyaf arloesol a chreadigol y DU i gynulleidfaoedd ifanc – gan gyfuno teledu a'r we i gynnig un gwasanaeth integredig.

Bu'n flwyddyn arbennig o gryf i gomedi. Enillodd *Gavin and Stacey* lu o wobrau – gan gynnwys dwy BAFTA – gan blesio cynulleidfaoedd mawr gyda sgriptiau a pherfformiadau ardderchog gan genhedlaeth newydd o dalent Brydeinig ifanc. Bydd y sioe bellach yn symud i BBC One – gan gadarnhau gallu BBC Three i ddatblygu a thyfu rhaglenni comedi newydd tra'n gweithredu hefyd fel 'tŷ gwydr' ar gyfer rhaglenni a fydd yn symud i sianelau daearol y BBC yn y pen draw. Ymhlith uchafbwyntiau comedi eraill roedd *The Mighty Boosh*, a oedd yn ffefryn arbennig gyda chynulleidfa darged y sianel o bobl ifanc 16–34 oed.

Ym maes drama, bu ffocws tebyg ar dalent Brydeinig newydd. Darlledwyd tymor o ddramâu peilot i gyflwyno amrywiaeth o dalent actio a chynhyrchu ifanc – a gwahoddwyd cynulleidfaoedd i roi adborth ar ba raglenni yr oeddent yn eu hoffi fwyaf. Arweiniodd un o'r dramâu, *Being Human*, at ddeiseb gyda miloedd o lofnodwyr yn mynnu y dylid comisiynu cyfres lawn; ac roedd pobl o'r farn bod eraill, fel *W10 LDN*, yn arbennig o bwysig i gynulleidfaoedd amrywiol.

Cynyddodd cryfder Materion Cyfoes hefyd yn ystod y flwyddyn, wrth i ni geisio mynd i'r afael â phynciau anodd mewn ffyrdd hygyrch i wylwyr ifanc. Darparodd *Kizzy: Mum At 14* olwg agos ar feichiogrwydd ymhlith merched ifanc yn eu harddegau, ac roedd yn rhan o'r tymor *Born Survivors* – golwg agos ati ar rai o'r problemau y mae aelodau iau cymdeithas yn ddewr yn eu hwynebu. Roedd y tymor hefyd yn cynnwys rhaglenni dogfen ar dlodi plant, hunan-niweidio a phobl ifanc sy'n gofalu am rieni sâl.


Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, cawsom ein henwebu am wobr BAFTA am y Rhaglen Ddogfen Orau am ein hymchwiliad dwy ran i lofruddiaethau parch, *Honour Kills*. Ymhlith rhaglennu ffeithiol arall nodedig yn ystod y cyfnod hwn roedd yr arbrawf addysg *Leave Us Kids Alone*, a *Bizarre ER*, a ganfu ffordd boblogaidd o archwilio problemau meddygol a'r atebion a oedd weithiau'n syfrdanol.

Gan anelu at gynulleidfaoedd amrywiol, cyfoethogwyd ein harlwy Newyddion yn sylweddol, gyda *60Seconds News* yn darparu bwletinau bob nos ar newyddion y byd, ochr yn ochr â rhaglenni arbennig ar wyddoniaeth a thechnoleg, a'r amgylchedd.

Roedd y llynedd hefyd yn flwyddyn fawr i ni o ran ein hymrwymiad i gyfryngau newydd a thechnoleg. Ym mis Chwefror, ailwampiwyd y sianel, gan ganolbwyntio ar uno ein helfennau teledu a'r we i greu un gwasanaeth unedig. Bellach caiff pob rhaglen ei chyd-ddarlledu ar y we yn bbc.co.uk/bbcthree, ac rydym yn cynnig slotiau rheolaidd ar gyfer cynnwys a gynhyrchwyd gan ddefnyddwyr yn ystod oriau brig. Ochr yn ochr â'r arloesedd hwn, aeth BBC Three ati i chwilio am syniadau a oedd yn dod â theledu a'r we ynghyd, gyda *Lily Allen and Friends* yn cael adborth cadarnhaol iawn gan gynulleidfaoedd ifanc.

O ganlyniad i hyn oll, cafodd BBC Three flwyddyn dda o ran cyrhaeddiad a thwf ymhlith y gynulleidfa. Mae'r sianel yn llwyddo'n rheolaidd i gyflawni'r gyfran uchaf o blith unrhyw sianel annaearol yn ystod yr oriau y mae'n darlledu (2.2% ar gyfer pob unigolyn – a 3.5% ar gyfer y gynulleidfa darged, sef 16–34 oed).

*Cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud yn ystod y flwyddyn ymhob cartref oedd 17.3% – i fyny o 14.0% y flwyddyn flaenorol (9.7 miliwn yn 2007/08, i fyny o 7.8 miliwn).*



Mae Mr Tumble yn defnyddio iaith arwyddion syml i gyfathrebu â i wylwyr ifanc.

25%

Y cynnydd yng nghyrhaeddiad BBC Four y llynedd.



*In the Night Garden* yw rhaglen fwyaf poblogaidd Cbeebies erioed.

BBC FOUR

Dathlodd BBC Four ei chweched phen-blwydd, a phrofodd hynny yn gyfnod pwysig o ran cynulleidfaoedd i'r sianel – mae tua un o bob deg o'r boblogaeth mewn cartrefi digidol bellach yn gwylio BBC Four bob wythnos.

Gan barhau â'n gweledigaeth wreiddiol, ein nod oedd gwella awdurdod ac effaith ein rhaglenni dogfen drwy symud tuag at fwy o gyfresi byr ac osgoi rhaglenni unigol. O ganlyniad, crëwyd un o uchafbwyntiau'r flwyddyn, *The Genius of Photography*, ein cyfres chwe awr gyntaf, a archwiliodd ein cydberthynas 170 mlynedd â chrefft ffotograffiaeth, ac a rannodd y straeon y tu ôl i'r delweddau a gymerwyd gan yr ymarferwyr mwyaf eiconig. Hefyd ym maes y Celfyddydau, edrychodd *Masterpieces of the East* a *The Art of Spain* ar amgylcheddau penodol a ysgogodd creadigrwydd artistig, a'r gelfyddyd a ddatblygodd yn sgîl hynny.

Ym maes cerddoriaeth, cyflwynwyd *Classical Britannia*, *Brasil! Brasil!* a *Soul Britannia* i'n gwylwyr, sef archwiliad manwl o effaith seiniau Du Americanaidd a Charibïaidd ar gerddoriaeth a chymdeithas Brydeinig. Daeth y flwyddyn i ben gyda'r actor a'r cyn-gorydd Simon Russell Beale yn archwilio esblygiad cerddoriaeth grefyddol y gorllewin yn *Sacred Music*, ein cyfres gerddoriaeth glasurol fwyaf hyd yma. Archwiliodd y datblygiadau o blaengan y 12fed ganrif i'r cyfansoddwr enwocaf o ran cerddoriaeth yr eglwys Gristnogol, JS Bach. Cafodd groeso cynnes.

Roedd ein harlwy gwyddoniaeth yn eang eleni, gan gynnwys *Visions of the Future*, *Medical Mavericks*, *Atom* ac *Absolute Zero* – yn ogystal â *Parallel Worlds*, *Parallel Lives* a ddilynodd Mark Everett, canwr y band roc Eels, ar ei daith ar draws America i ddysgu am y tad nad oedd mewn gwirionedd yn ei adnabod o gwbl, y ffisegydd cwantwm Hugh Everett III. Enillodd wobr RTS am y rhaglen ddogfen unigol orau. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i sicrhau bod lle yn yr amserlen ar gyfer rhaglenni unigol nodedig o'r fath, ond rydym yn bwriadu parhau i ehangu rhai cyfresi i greu cyfresi hirach.

Mae ein harbrofion gyda thymhorau a nosweithiau thema eisoes wedi profi'n llwyddiannus. Roedd *Edwardians: The Birth of Now* yn gasgliad chwe wythnos sylweddol o ddramâu, rhaglenni dogfen ac adloniant yn dathlu datblygiadau ar ddechrau'r 20fed ganrif a oedd yn wirioneddol chwyldroadol. Ymhlith eraill eleni roedd *Children's TV on Trial*, *British Birds*, *Motorways* a *Viennese art*. Roedd y tymor *Why Democracy?* gan *Storyville* yn ddigwyddiad aml-gyfrwng mawr a archwiliodd gyflwr democratiaeth yn yr oes sydd ohoni. Roedd yn cynnwys dros 40 o ddarlledwyr, mewn tua 200 o wledydd a thiriogaethau – gyda'r posibilrwydd o gyrraedd 300 miliwn o bobl. Gwerthfawrogwyd ein tymhorau gan feirniaid a gwylwyr fel ei gilydd.

Mae rhaglennu ffeithiol yn greiddiol i'r hyn a gynigir gennym – ond rydym yn parhau i arbrofi ym maes ffuglen. Y llynedd, roedd ein hymgais ar gomedi – *The Thick Of It* a *Lead Balloon* – a drama – addasiad Andrew Davies o Fanny Hill – yn llwyddiannus iawn gan arwain at benderfyniad cyflym i'w dangos ar deledu daearol ar BBC Two.

*Cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud BBC Four i wylwyr 4+ oed ymhob cartref oedd 7.0% neu 4.0 miliwn o bobl (o gymharu â 5.6% neu 3.2 miliwn o bobl yn 2006/07).*

CBeebies BBC

Mae bron hanner y gynulleidfa darged (44.4% o blant 2–6 oed) yn gwylio CBeebies bob wythnos. Ac mae'n dal i dyfu.

Daeth rhaglenni newydd fel *Mister Maker* a *Space Pirates* yn ffefrynnau cyflym gyda'n gwylwyr. Ond ein llwyddiant mwyaf eleni oedd *In the Night Garden*, a enillodd ei phlwyf fel ein rhaglen fwyaf poblogaidd erioed. Nid oes unrhyw beth tebyg i'r byd dychmygus hwn i blant bach cyn oed ysgol. Chwaraeodd y wefan gymhellol, sy'n cynnwys gemau a gwe-gam y *Ninky Nonk*, ran bwysig wrth helpu gwefan CBeebies i ddenu dros dri chwarter miliwn o ddefnyddwyr unigryw bob wythnos.

Cyflwynodd *Nina and the Neurons* wyddoniaeth i'n gwylwyr mewn ffordd hwyliog mewn slotiau 15 munud. Mae Nina yn niwrowyddonydd ac mae'r Niwrons yn byw yn ei hymennydd gan anfon negeseuon o'i hymennydd i'r rhannau o'r corff sy'n rheoli ei synhwyrau. Maent yn gwneud sylwadau am y byd lle y mae Nina'n byw tra'n 'edrych allan' ar y byd hwnnw o ymennydd Nina.

Aethom â'n gwylwyr ifanc allan ar deithiau eleni i amrywiaeth o leoedd diddorol fel ffermydd, traethau a chestyll gyda *Something Special*. Mae'r rhaglen yn dilyn fformat syml, hwyliog ac addysgiadol, gan ganolbwyntio ar agweddau ar y byd y mae plant yn gweld o'u hamgylch. Mae'n defnyddio iaith arwyddion Makaton i helpu plant ag anghenion cyfathrebu arbennig i ymgysylltu, ond mae hefyd yn apelio'n eang.

Dyma oedd blwyddyn lawn gyntaf CBeebies ar y radio. Er bod y cyrhaeddiad yn isel yn y slot dyddiol yn ystod y prynhawn ar BBC 7, bu ffrydio ar-lein a phodledu yn fwy effeithiol o ran cyrraedd ein gwrandawyr.


*Cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud CBeebies i wylwyr 4+ oed y llynedd oedd 7.7% neu 4.3 miliwn o bobl (o gymharu â 6.6% neu 3.7 miliwn o bobl y flwyddyn flaenorol). Enillodd Wobr BAFTA am Sianel y Flwyddyn i Blant yn 2007.*



Cynhyrchir cyfran fawr o allbwn plant y tu allan i Lundain.

35

Nifer y blynyddoedd y mae *Newsround* wedi cyflwyno newyddion a materion wedi u hanelu at wylwyr ifanc.



*MI High*: sioe gyntaf CBBC a ffilmiwyd mewn HD, sy n dod â styntiau anhygoel yn fyw.

Erbyn hyn, Sianel CBBC, fwy neu lai, yw'r unig ffynhonnell o gynnwys newydd gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU i blant 6–12 oed ym maes newyddion, ffeithiol, drama ac adloniant. Un o gryfderau allweddol y sianel yw'r ffaith ei bod yn cynnig genres cymysg, heb ddibynnu'n ormodol ar animeiddio.

Eleni dathlodd ein gwasanaeth newyddion dyddiol *Newsround* ei ben-blwydd yn 35 oed – ac ef o hyd yw'r unig wasanaeth newyddion drwy gydol y flwyddyn wedi'i gynllunio'n arbennig i blant ar y teledu, gyda gwasanaeth newyddion ar-lein ategol yn rhoi mwy o gefndir i'r straeon pwysig. Enillodd ei ymchwiliad i dlodi plant, *The Wrong Trainers*, wobr BAFTA. Un o blith pum gwobr o'r fath a enillodd y sianel y llynedd. Aeth rhifynnau arbennig eraill o *Newsround* i'r afael â throseddau yn gysylltiedig â chyllyll ac ysgariad. Mae mwy yn yr arfaeth.

Ym maes ffeithiol, dangosodd *Extreme Animals* yr anifeiliaid rhyfeddaf, craffaf, mwyaf hynod a mwyaf ffiaidd – yn naturiol! – o archif Uned Byd Natur y BBC. Lleisiau'r gyfres oedd Reggie Yates a Caroline Flack. Aeth *Serious Andes*, a enillodd wobr RTS, â grŵp o blant anturus i gopa Mynydd Cotopaxi ac yn ddiweddarach eleni byddwn yn parhau â'r thema byd natur eto yn *Serious Ocean*, a fydd yn mynd â grŵp o blant i Bentir De Affrica.

Mae dramâu fel *The Sarah Jane Adventures*, *MI High* a *Tracy Beaker* yn boblogaidd gyda'n gwylwyr, sydd hefyd yn mwynhau ymweld â safleoedd y rhaglenni ar-lein i gael gwybod mwy am eu hoff gymeriadau, llwytho gemau i lawr, a sgwrsio gyda'u ffrindiau. Mae'r safleoedd ar-lein yn gynyddol bwysig i'n gwylwyr, a byddwn yn parhau i gynnig cynnwys diddorol i'w diddanu yno. Ymhlith y safleoedd newydd a lansiwyd eleni roedd digwyddiad ar-lein amser real o'r enw *Run!*, byd rhithwir y gellid ei lwytho i lawr o'r enw *Adventure Rock* a safle ar-lein bersonol o'r enw *Mycbbc*. Caiff holl wefannau'r BBC i blant eu cyfryngu ac maent yn llefydd diogel i bobl ifanc ymweld â hwy.

Mae sioeau adloniant fel *Trapped*, *The Slammer* a *Raven* yn parhau'n boblogaidd iawn ar y sianel. Eleni, cyflwynwyd cyfres 7 *Raven* – ac mae gwylwyr yn dal yn awyddus i brofi eu gallu a'u sgiliau yn erbyn ei gilydd, yn sicr ddigon nad hwy fydd yn syrthio i ddyfroedd oer y Deep Loch. Mae *Stake Out* yn newydd i'n hamserlen, sioe gêm camera cudd sy'n profi pa mor dda rydych yn adnabod eich ffrindiau ac yn chwarae jôcs ymarferol dyfeisgar.

Mae plant ymhob man yn erfyn ar eu rhieni i roi'r gorau i ysmygu – felly gwnaethom raglen o'r enw *Smokehouse* gan roi cymorth i'r plant hynny a oedd yn awyddus i annog Mam neu Dad i roi'r gorau i'r arfer. Llwythwyd dros 150,000 o becynnau 'rhoi'r gorau i ysmygu' i lawr o'r wefan.


Yn dilyn ail-lansio'r sianel gydag amserlen newydd sbon a gwefan newydd, ac er gwaethaf cystadleuaeth lem, a'r ffaith bod ein hamser gorffen o 7pm yn gynyddol anghydnaws ag amseroedd gwylio plant, 2007/08 oedd blwyddyn gryfaf sianel CBBC hyd yma. Mae penwythnosau yn parhau'n heriol i CBBC, gyda chystadleuaeth gref gan ddarlledwyr eraill, yn arbennig ar fore Sadwrn, ond mae'n parhau'n lle ardderchog i roi cyfle i gyflwynwyr talentog fel Barney Harwood, Sam a Mark, a Basil Brush.

*Cyfartaledd y cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i wylwyr 4+ oed oedd 5.6% neu 3.1 miliwn o bobl (4.4% neu 2.4 miliwn o bobl yn 2006/07).*

# Sain a Cherddoriaeth

"Mewn byd aml-sianel, lle ceir arloesedd technolegol, symudedd a dewis cynyddol, mae'r BBC yn gwneud gwahaniaeth o hyd. Mae'n cefnogi talent Brydeinig yn ei hystyr ehangaf – awduron, cerddorion, perfformwyr wrth gwrs, ond hefyd newyddiadurwyr, peirianwyr ac eraill. Helpodd i gyflwyno radio daearol a nawr radio digidol yn y DU. Ac mae'n galluogi amrywiaeth diwylliannol a chreadigol i ddod o hyd i lais ac i ffynnu."

Jenny Abramsky
**Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth**



Gwrandawodd y nifer uchaf erioed ar Chris Moyles ar Radio 1 eleni.

25%+

Roedd cyfran Radio 1 o wrandawyr 15 29 oed dros 25%, y gyfran orau ers saith mlynedd.



Roedd y *Big Weekend* yn Preston yn un o sawl digwyddiad byw ar y BBC.

BBC RADIO 1

Ar gyfartaledd, gwrandawodd tua dwy ran o dair o boblogaeth 15+ oed y DU ar orsafoedd radio'r BBC bob wythnos y llynedd am o leiaf 15 munud. Roedd hyn yn gymharol gyson â'r flwyddyn flaenorol, ac yn berfformiad cryf mewn marchnad cynyddol gystadleuol.

Mae cyfran uchel o'r gwrandawyr hyn yn gwrando ar ein gwasanaethau analog – Radio 1, 2, 3, 4 a 5 live – ond mae ymwybyddiaeth o'n sianelau digidol a nifer y bobl sy'n gwrando arnynt yn cynyddu: mae gan bob un ohonynt dros hanner miliwn o wrandawyr wythnosol ac yn C1 2008, cyflawnodd 6 Music, 1Xtra ac Asian Network oll eu cyrhaeddiad uchaf erioed.

Stori radio fawr y flwyddyn yw'r twf yn nifer y bobl sy'n gwrando ar radio digidol – mae mwy na 10 miliwn o bobl bellach yn gwrando ar radio'r BBC yn ddigidol bob wythnos drwy DAB, DTV neu'r rhyngrwyd.

Mae darlledu digidol yn cynnig cyfleoedd aruthrol i ddefnyddwyr cynnwys sain a cherddoriaeth. Mae gwrando ar alw wedi parhau i dyfu a cheir archwaeth go iawn am bodledu. Mae rhai o'n podlediadau yn fwy llwyddiannus nag eraill, a byddwn yn parhau i weithio i wella ac ehangu'r arlwy hwn ar draws ein gwasanaethau.

Mae radio yn gyfrwng agos atoch – mae gan lawer o wrandawyr berthynas gadarn â'u hoff orsaf. Mae cyflwynwyr yn allweddol i lwyddiant y berthynas hon. Byddwn yn datblygu talent neu'n rhoi cyfleoedd newydd i dalent sefydledig er mwyn cyflwyno'r cymysgedd gorau o greadigrwydd a gwerth ag y gallwn i'n gwrandawyr.

Er bod Radio 1 wedi dathlu ei phen-blwydd yn 40 oed ym mis Medi – ni yw un o'r brandiau ieuenctid mwyaf adnabyddus ac a ddefnyddir amlaf yn y DU.

Er gwaethaf marchnad gystadleuol iawn (mae gan radio masnachol gyfran o 50% o wrandawyr radio 15-29 oed) a'r ffaith bod y grŵp oedran targed yn cael ei demtio fwyfwy oddi wrth radio o blaid ffurfiau mwy newydd ar gyfryngau – safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a gemau, er enghraifft – llwyddodd Radio 1 i ddenu dros 11 miliwn yn ystod y chwarter o Ionawr i Fawrth am y tro cyntaf ers dros chwe blynedd ac ar-lein, mae gennym y nifer uchaf o bell ffordd o ddefnyddwyr unigryw o blith holl orsafoedd y BBC – gyda chyfartaledd o 1 filiwn yn ystod y flwyddyn (i fyny 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol).

Ei garu neu beidio – ac mae'n rhannu barn – chwaraeodd Chris Moyles ei ran yn y perfformiad cryf hwn. Llwyddodd ei sioe amser brecwast unwaith eto i gynyddu ei chyrhaeddiad a'i chyfran, gyda 7.7 miliwn o wrandawyr wythnosol, i fyny bron i 700,000 o gymharu â blwyddyn yn ôl (15+ oed) – y nifer uchaf erioed.

Ategir rhaglennu yn ystod y dydd gan amrywiaeth o sioeau arbenigol a symleiddiwyd ein hamserlen gennym yn 2007 er mwyn cynnig arlwy cliriach: mae nos Wener, er enghraifft, bellach yn canolbwyntio ar gerddoriaeth ddawns, gan ddechrau gyda *Friday Floor Fillers* fin nos, a pharhau gyda *Pete Tong* ac *Annie Mac's Mash-Up*; mae nos Sadwrn yn benodol ar gyfer cerddoriaeth drefol, gan ddechrau gyda *Trevor Nelson* (a gaiff ei chyd-ddarlledu ar 1Xtra), wedi'i dilyn gan *Westwood* a *Reggae Dancehall*.

Ceir ffocws newydd hefyd ar lai o syniadau mwy a gwell: er enghraifft, dathlwyd ein pen-blwydd gydag *Established 1967*. Bob noson yn ystod yr wythnos am bythefnos, gwahoddwyd rhai o'r enwau mwyaf blaenllaw ym maes cerddoriaeth o'r gorffennol a'r presennol i gyflwyno eu sioe eu hunain gan chwarae'r gerddoriaeth a'u hysbrydolodd. Roedd y sawl a gymerodd ran yn cynnwys Paul McCartney, the Arctic Monkeys, Debbie Harry a Paul Weller. Yn ogystal, gofynnwyd i 40 o fandiau cyfoes recordio 40 o draciau o bob blwyddyn o'n hanes, gan ddechrau gyda Kaiser Chiefs yn perfformio *Flowers In The Rain* gan The Move, y gân gyntaf a chwaraewyd erioed ar yr orsaf.

Roedd y darllediadau o ddigwyddiadau byw eleni yn cynnwys *Radio 1's Big Weekend* yn Preston, *Download*, *Global Gathering*, *T in the Park*, a'r *BBC Electric Proms*. Ynghyd â *Jo Whiley's Live Lounge Tour* a *Radio 1 Presents…*, yn ogystal â thros 300 o sesiynau stiwdio byw newydd, unwaith eto, dangoswyd ymrwymiad sylweddol gennym i gerddoriaeth fyw.

A daeth bandiau newydd o hyd i lwyfan drwy *BBC Introducing*, a lansiwyd yn ystod y flwyddyn ar draws nifer o wasanaethau fel ffordd bwysig o hyrwyddo artistiaid newydd heb gontractau.

Mae gan raglennu llafar le allweddol yn yr amserlen – y llynedd cyflwynwyd 300+ o oriau o newyddion gennym wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer ein cynulleidfa ifanc, gan gynnwys yr ymweliad cyntaf erioed y tu ôl i lenni pencadlys MI6. Byddwn hefyd yn parhau i gynnig ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol ag effaith – nod ein hymgyrch rhyw diogel *Bare All* yn 2007 oedd annog gwrandawyr i drafod rhyw a'i ganlyniadau mewn ffordd gyfrifol ac fe'i hamserwyd yn fwriadol i gyd-daro â chyfnod gwyliau'r haf. Ac ar nos Sul, penodwyd Kelly Osbourne yn gyflwynydd newydd i *The Surgery*, yn cynnig cyngor ar faterion sy'n peri pryder i bobl ifanc.


*Ar y cyfan, mae Radio 1 yn llwyddo i ddenu dros 10% o'r holl wrandawyr radio o hyd yn 2007/08 – ac roedd ganddo gyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud o 21.5% (tua 10.8 miliwn o bobl) – i fyny ychydig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 21.4% a 10.5 miliwn.*



Roedd Russell Brand yn boblogaidd yn syth ar y radio, ac ef sydd ag un o n podlediadau mwyaf poblogaidd.

8.1 MILIWN

Nifer y TOGs sy n gwrando ar *Wake Up to Wogan*.



Mae r Proms yn rhan hanfodol o ymrwymiad Radio 3 i gerddoriaeth fyw.

Mae cymysgedd Radio 2 o gerddoriaeth ac eitemau llafar yn golygu mai ni yw gorsaf radio fwyaf poblogaidd y DU, gyda'r gwrandäwr cyffredin yn gwrando am tua 12 awr a hanner bob wythnos; a *Wake up to Wogan* yw'r sioe frecwast y gwrandewir arni fwyaf yn y DU o hyd, gan gyrraedd ei nifer uchaf o wrandawyr erioed, sef 8.1 miliwn, yn C1 2008.

Mae rhaglenni yn ystod y dydd yn yr wythnos yn parhau i berfformio'n dda. Llwyddodd Chris Evans i ymsefydlu ei hun ymhellach yn y slot oriau cymudo; gyda'i newyddion busnes gwreiddiol a difyrrus bob awr yn symleiddio datblygiadau yn y byd ariannol ac yn rhoi cyngor ac awgrymiadau i ddefnyddwyr. Eleni enillodd ddwy Wobr Aur Sony – *The Entertainment Award* a *Music Radio Personality of the Year* – rhan o gyfanswm i'r orsaf a oedd yn cynnwys tair gwobr Aur arall yn ogystal â gwobrau eraill.

Mae Russell Brand yn esblygu'n ffigwr pwysig ar y radio. Mae podlediad wythnosol poblogaidd iawn yn gysylltiedig â'i sioe hwyrnos ar y penwythnos, a gafodd ei lwytho i lawr gan gyfartaledd o dros 540,000 o bobl bob mis yn y DU yn ystod chwarter olaf y flwyddyn.

Mae Aled Jones wedi ffynnu yn cyflwyno *Good Morning Sunday*, gyda'i gymysgedd bywiog o sgwrs a cherddoriaeth ysbrydoledig. Ymhlith ei westeion roedd Archesgob Efrog, y Gwir Barchedig a'r Gwir Anrhydeddus Dr John Sentamu adeg y Pasg a'r cyn Ysgrifennydd Cartref, David Blunkett. Mae sawl perfformiwr poblogaidd wedi trafod eu ffydd gydag ef, gan gynnwys Belinda Carlisle ac Englebert Humperdinck.

Mae cerddoriaeth fyw yn allweddol i gymysgedd Radio 2, gan gynnwys eleni gyngerdd gan REM, cydweithrediad rhwng Annie Lennox a Cherddorfa Gyngerdd y BBC, a Simply Red yn perfformio eu halbwm eiconig *Stars* fel cyfanwaith. Ymhlith ein darllediadau o wyliau, roedd ymrwymiad parhaus i Ŵyl Werin Caergrawnt a digwyddiadau unigol megis *Concert for Diana* a *Live Earth*.

Cyflwynodd *The Music Club* y sioe *Music Club Live* ym mis Rhagfyr, gan ddathlu llwyddiant artistiaid newydd a hyrwyddwyd ganddo gan gynnwys James Blunt, Newton Faulkner, Amy Macdonald, Tom Baxter, The Hoosiers a KT Tunstall. Recordiwyd y sioe i'r teledu ac roedd deunydd arbennig o gefn y llwyfan ar gael ar-lein ar wefan *The Music Club*.

I ddathlu 40 mlynedd ers rhyddhau albwm diffiniol The Beatles, Sgt Pepper's Lonely Hearts Club Band, comisiynwyd artistiaid cyfoes, gan gynnwys Oasis a The Kaiser Chiefs, i ail-recordio caneuon. Cynigiwyd deunydd fideo o'r tu ôl i'r llenni drwy BBCi. Darlledwyd tymor cynhwysfawr ar y 60au i gyd-fynd â'r fenter gerddorol hon ac roedd yn un o uchafbwyntiau llafar y flwyddyn.

Mae sioe Jeremy Vine yn ystod yr wythnos wedi hen ennill ei phlwyf yn ein hamserlen, gyda 5.7 miliwn o wrandawyr wythnosol eleni. Mae ei ddull diddorol o gyflwyno pynciau mor amrywiol ag archwilio diwylliant 'yob' a holi'r Ysgrifennydd Tramor ar deithiau trosglwyddo ('rendition flights'), yn cynnig materion cyfoes mewn ffordd hygyrch i wrandawyr.

*Yn 2007/08 roedd gan Radio 2 gyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed o 26.2% neu 13.2 miliwn o bobl (yn unol â ffigurau'r flwyddyn flaenorol, sef 26.5% a 13.2 miliwn).*

Bu amserlen ddiwygiedig Radio 3 bellach ar waith ers dros flwyddyn ac mae wedi cyflwyno dewis wedi'i atgyfnerthu o berfformiadau cerddorol: mae cerddoriaeth a recordiwyd mewn cyngherddau a digwyddiadau eraill bellach yn gyfrifol am dros 55% o'r allbwn cerddorol, i fyny o 52% yn 2006/07. Rydym yn anelu at ddenu amrywiaeth eang o wrandawyr, ond rydym bob amser yn barod i gyflwyno deunydd heriol ochr yn ochr â deunydd mwy cyfarwydd – cofiwyd Pavarotti a Stockhausen drwy raglennu arbennig. Erys gwerthfawrogiad y gynulleidfa ar lefel uchel, gyda *Composer of the Week* a *Classical Collection* yn arbennig yn cael sgoriau cadarnhaol iawn.


Yn ogystal â Phroms y BBC, trefnwyd llawer o'n 500 o gyngherddau yn ystod y flwyddyn yn uniongyrchol gan Radio 3 a grwpiau perfformio'r BBC. Rhoddodd adeg coffáu Elgar, er enghraifft, gyfle pwysig i ail-archwilio'r cyfansoddwr enigmatig hwn, gan gynnwys y darn *Starlight Express* nas clywir yn aml. Clywyd darn arall nas clywir yn aml am y tro cyntaf mewn wyth degawd ar noswyl Dydd Sul y Cofio, sef *A World Requiem* gan John Foulds. Neilltuwyd penwythnos cyfan gennym i gyngherddau o gerddoriaeth gan Judith Weir. Daeth ein hallbwn cerddoriaeth y byd o bob cwr o'r byd, gan gynnwys ymweliadau â Chiwba, Jordan a Georgia i glywed y traddodiadau cerddorol hynny yn eu lleoliadau gwreiddiol.

Mae partneriaethau yn hanfodol i'r orsaf. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda gwyliau pwysig fel WOMAD a Gŵyl Jazz Llundain, gyda thai opera fel y Metropolitan Opera, a chyda grwpiau perfformio – mae gennym gydberthynas newydd gyffrous â'r New York Philharmonic. Am y tro cyntaf, buom yn cydweithredu â Radio 4 i gyflwyno hanes cynhwysfawr cerddoriaeth orllewinol, gydag *Afternoon on 3* ar Radio 3 yn ystod yr wythnos yn cynnig perfformiadau o gerddoriaeth y cyfeiriwyd ati yng nghyfres James Naughtie ar Radio 4, *The Making of Music*.

Mae ein hallbwn llafar a drama yn cynnig gwaith clasurol a myfyrdodau cyfoes. Roedd gan WH Auden le amlwg yn ystod ei ganmlwyddiant, a dathlwyd pen-blwydd Tom Stoppard yn 70 oed drwy gynhyrchiad o'i ddrama ddiweddar, *Rock 'n' Roll*. Roedd gŵyl syniadau Radio 3, *Free Thinking*, a gynhaliwyd unwaith eto yn Lerpwl, yn cynnwys y cyhoedd a meddylwyr o fyd y celfyddydau, gwyddoniaeth, athroniaeth a thechnoleg. Roedd y thema Rhyddid yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn coffáu'r cyfnod pan ddiddymwyd y fasnach caethweision ar draws yr Iwerydd.



25



Mae *Today* yn un enghraifft o newyddiaduraeth o r radd flaenaf ar y radio yn ein hamserlenni.

O flynyddoedd ers gwrthdaro r Falklands – un o sawl digwyddiad pwysig a gofnodwyd ar Radio 4 eleni.

Bu r diweddar Humphrey Lyttleton yn cadeirio *I m Sorry I Haven t a Clue* ers 1972.

Mae'r tirlun digidol newydd yn cynnig cyfleoedd gwych, sydd wedi'u cyfyngu i raddau gan faterion rheoliadol ym maes cerddoriaeth glasurol. Fodd bynnag, roeddem yn falch o allu cyflwyno fideo arloesol o *Carmen* gan Opera Genedlaethol Lloegr ar alw. Mae ein hamrywiaeth cynyddol o bodlediadau, a lansiwyd ddechrau 2008, yn ehangu cyrhaeddiad yr orsaf ac mae wedi perfformio'n llwyddiannus yn erbyn cynigion eraill yn y byd celfyddydol a cherddorol.

*Am y flwyddyn ddiwethaf, roedd cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud yn 3.7% (1.9 miliwn) – yn debyg i 3.8% (1.9 miliwn) yn 2006/07. Yr oriau gwrando ar gyfartaledd oedd ychydig dros chwech awr yr wythnos. Parhaodd gwrando byw ar-lein yn sefydlog ar lefel o 1.4 miliwn o oriau (cyfartaledd chwarterol).*

Mae Radio 4 yn fwyaf adnabyddus am ansawdd ac ystod ei newyddiaduraeth, gydag uchafbwyntiau eleni yn cynnwys dau gyfweliad gyda'r prif weinidog oedd ar fin ymadael Tony Blair – radio cymhellol gan John Humphrys – a chyfweliad cyntaf y Farwnes Thatcher ers sawl blwyddyn i *Hong Kong, a Decade of Change*.

Roedd yn flwyddyn i gyfresi dogfen cryf, gan gynnwys *The Clinton Years* gyda Gavin Esler, *The Price of Property* gydag Evan Davis a *Death to America* gyda Justin Webb, a heriodd ymagwedd gwrth-Americaniaeth. Gwnaethom ymateb i ddigwyddiadau cyfoes drwy gomisiynu rhaglenni yn gyflym ar faterion a oedd yn dod i'r amlwg megis y llifogydd yn yr haf, yr argyfwng credyd yn yr UD, gweinyddiaeth gyntaf Cenedlaetholwyr yr Alban yn yr Alban a digwyddiadau ym Mhacistan.

Cofnodwyd adegau pwysig gyda thymhorau o ddrama, rhaglenni dogfen a thrafodaethau: 60 mlynedd ers dyfarnu annibyniaeth i India a Phacistan; *The Falklands: 25 Years On*, gan gynnwys rhaglennu o safbwynt yr Ariannin; a'r rhyfel chwe dydd rhwng yr Arabiaid a'r Israeliaid, gyda Jeremy Bowen yn ailadrodd hanes y gwrthdaro fesul dydd; tra yr archwiliodd *The Sex Lives of Us* rywioldeb ym Mhrydain 50 mlynedd ar ôl adroddiad Wolfenden. Roedd *The Reunion* gan Sue McGregor yn cynnwys eitem gofiadwy ar fom Brighton yn 1984 pan gyfarfu'r Arglwydd Hurd, Ysgrifennydd Gogledd Iwerddon ar y pryd, â Patrick Magee, un o fomwyr yr IRA.

Aeth cyfresi hanes naratif i'r afael â themâu mawr ar raddfa heb ei hail. Yn *The Making of Music* dilynodd James Naughtie ddatblygiad cerddoriaeth orllewinol o lafarganu Gregoraidd i Philip Glass. Ategwyd y gyfres 60 rhan gan gerddoriaeth gysylltiedig ar Radio 3. Adroddodd cyfres deg rhan a gyflwynwyd gan Anna Chen hanes *The Chinese in Britain*.

*World on the Move*, a ddechreuodd ddechrau 2008, yw'r prosiect byd natur mwyaf erioed ar y radio, gyda dimensiwn ar-lein helaeth a chan weithio'n agos gyda *Springwatch* ac *Autumnwatch* gan Wasanaethau Gweledol y BBC. Mae'r gyfres 40 wythnos o raglenni byw yn olrhain rhywogaethau o anifeiliaid, mawr a bach, ar bob cyfandir, yn mudo, ac yn gwahodd gwrandawyr i gyfrannu unrhyw beth a welwyd ganddynt hwy.

Radio 4 yw'r comisiynydd drama a darlleniadau radio mwyaf yn unrhyw le o hyd. Ein nod yw cynyddu effaith drama, gyda mwy o gyfresi yn hytrach na dramâu unigol, a chyfresi cynaliadwy yn dychwelyd. Rydym yn arbrofi gyda *Writing the Century*, prosiect 18 mis o hyd yn seiliedig ar lythyrau a dyddiaduron teuluol, gyda rhai ohonynt wedi'u cyfrannu gan wrandawyr. Darlledwyd mwy o ddrama gennym yn amlygu digwyddiadau cyfoes hefyd: dim ond chwe wythnos a gymerwyd gennym i gynhyrchu *When Greed Becomes Fear* a *Soul Motel* o'r syniad cychwynnol i'w darlledu, ac roedd *Avoid London* yn wythnos o ddramâu yn cofnodi blwyddyn ers ymgyrch fomio 7/7 yn Llundain.


Ymhlith comedi newydd roedd *The Unbelievable Truth* a *The Museum of Curiosity*. Comedi sefyllfa newydd oedd *Fags, Mags and Bags* wedi'i lleoli mewn siop gornel Asiaidd yn Glasgow, gan Sanjeev Kohli a Donald McLeary.

Mae sain Radio 4 yn parhau i esblygu drwy leisiau newydd, neu leisiau cyfarwydd yn gwneud pethau newydd. Mae Kirsty Young wedi cynyddu cynulleidfa *Desert Island Discs*; mae Sandi Toksvig yn gadeirydd clodwiw ar *The News Quiz*; ac mae ymagwedd ffres Evan Davis tuag at fusnes, *The Bottom Line*, wedi ymsefydlu ei hun fel rhan o'r amserlen.

Cydnabuwyd ein gallu i wneud rhaglenni nodwedd drwy lwyddiant *Don't Hang Up*, y rhaglen nodwedd gyntaf ar y radio i ennill pob un o'r tair prif wobr ryngwladol – Prix Italia, Prix Europa a Third Coast – yn yr un flwyddyn.

*Roedd gan Radio 4 gyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed o 18.7% neu 9.4 miliwn o bobl, yn debyg i ffigurau 2006/07 (18.7% neu 9.3 miliwn o bobl).*


Mae 5 Live yn cynnig cymysgedd dyddiol o newyddion a darllediadau heb eu hail o chwaraeon yn y DU a chwaraeon rhyngwladol ar draws amrywiaeth o lwyfannau. Erys dibyniaeth barhaus y gwasanaeth ar ei amlder AM daearol yn broblem, o ran cwmpas ac ansawdd sain, er ein bod yn denu nifer gynyddol o wrandawyr drwy gyfryngau digidol – mae 31% o wrandawyr bellach yn gwrando'n ddigidol (C1 2008) – ac rydym yn darlledu mwy o gynnwys drwy ffonau symudol, podlediadau ac ar deledu digidol gyda'r botwm coch (lle y gellir bellach ddod o hyd i *606 Interactive*). Cyrhaeddodd gwrando ar-lein byw uchafbwynt newydd yn C1 2008 gyda chyfanswm o 6.1 miliwn o oriau, i fyny 25% ar yr un cyfnod yn 2007.



Mae gennym amrywiaeth heb ei ail o sylwebwyr chwaraeon ar draws pob disgyblaeth, o bêl droed i griced.

2/3

Cyfran gwrandawyr 1Xtra sy n 15 29 oed.



Cynyddodd cynulleidfaoedd holl sianelau digidol y BBC eleni.

Cynyddwyd swm ein rhaglennu chwaraeon eleni tuag 80 awr, i gyfanswm o dros 2,100 o oriau. Erys ansawdd yn ddigyffelyb, gyda thîm eithriadol o sylwebwyr a newyddiadurwyr chwaraeon megis Alan Green, Garry Richardson a Mark Pougatch.

Ym maes newyddion, mae'r penderfyniad i greu tîm newyddion craidd i ddilyn a datblygu straeon newyddion drwy gydol y dydd yn arwain at arlwy newyddion dyddiol mwy cydlynus, o Nicky Campbell a Shelagh Fogarty yn y bore i Richard Bacon gyda'r nos. Yn ogystal, darlledwyd cyfres o raglenni dogfen ymchwiliol yn gysylltiedig â Chwaraeon a gyflwynwyd gan Brian Alexander.

Byddwn yn datblygu enw da *Breakfast* ymhellach o ran cyflwyno'r rhaglen o leoliadau annisgwyl. Roedd y lleoliadau yn ystod y 12 mis diwethaf yn cynnwys Coleg Heddlu Hendon ac Eton. Aeth blog y sioe â'r broses o ryngweithio â'r gynulleidfa i gyfeiriad newydd.

Ar draws yr allbwn, defnyddiwyd deunydd gan wrandawyr ar gyfer diwrnodau arbennig yn gysylltiedig â'r GIG ac Addysg – dwy enghraifft yn unig o'r ffordd yr arweiniodd twf parhaus rhyngweithio â'r gynulleidfa at ddarlledu mwy o straeon gan wrandawyr, a mwy o straeon gwreiddiol, y llynedd nag erioed o'r blaen. Byddwn yn parhau i archwilio mwy o gyfleoedd i wneud hyn.

*Roedd gan Radio 5 live gyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed o 11.7% neu 5.9 miliwn o bobl (o gymharu â 12.0% neu 6 miliwn o bobl yn 2006/07).*

Mae 5 live Sports Extra yn darparu darllediadau yn seiliedig ar sylwebaeth o amrywiaeth eang o chwaraeon, gan gynnig mwy o ddewis o ran gemau byw i ddilynwyr chwaraeon. Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein henw da fel cartref criced byw gyda darllediadau di-dor o gemau Prawf Rhyngwladol a phencampwriaeth Twenty20 y Byd ymhlith yr uchafbwyntiau.

Yn ogystal, cyflwynwyd naw gêm yng Nghwpan Rygbi'r Byd gennym a rhai yng nghystadleuaeth y Chwe Gwlad. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddilyn rowndiau ymarfer a chymhwyso Fformiwla 1. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, darlledwyd tenis, nofio, rygbi'r gynghrair, bocsio, athletau a golff gennym.

*Mae llawer o chwaraeon yn dymhorol – ac felly mae oriau darlledu wythnosol, ac felly oriau gwrando, yn amrywio drwy'r flwyddyn. Ar gyfartaledd yn ystod 2007/08, roedd gan Radio 5 live Sports Extra gyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed o 1.5% neu 0.7 miliwn o unigolion, ychydig yn uwch na lefelau 2006/07 (1.3% neu 0.7 miliwn o bobl). Cyflawnwyd ein cyrhaeddiad uchaf erioed – bron i 900,000 o wrandawyr – ar gyfer Cwpan Criced y Byd yn 2007.*

Eleni ailwampiwyd ein hamserlen, gan ei gwneud yn symlach a lansiwyd prif raglenni amser brecwast a gyda'r nos blaenllaw newydd ym mis Hydref. Ni fu unrhyw newid i'r polisi cerddoriaeth presennol, nad oes ganddo lawer yn gyffredin â gorsafoedd masnachol gyda'i ymrwymiad digyffelyb i gerddoriaeth ddu o'r DU, gan gynnwys llawer o artistiaid a gaiff eu hanwybyddu i raddau helaeth gan orsafoedd radio (cyfreithlon) eraill. Mae hyn yn galluogi 1Xtra i ddenu cynulleidfaoedd a danwasanaethir yn aml gan rannau eraill o'r BBC: mae dwy ran o dair ohonynt yn oedolion ifanc 15–29 oed, gyda bron i un rhan o dair yn dod o grŵp ethnig lleiafrifol. Mae'n gymysgedd unigryw yn y BBC.

Ymhlith ein hamrywiaeth eang o ddarllediadau o ddigwyddiadau byw o bob cwr o'r DU a thu hwnt yn ystod y 12 mis diwethaf roedd Carnifal Notting Hill a Charnifal Leeds, 1Xtra yn Efrog Newydd (gyda DJ Semtex yn fyw o swyddfeydd yr enwog Def Jam Records) a Chwpan Gwledydd Affrica. Roedd *1Xtra Live*, ein cyngerdd byw mawr cyntaf, yn llwyddiant – a chafodd 4,000 o bobl noson fythgofiadwy yn Coventry o ganlyniad. Ein nod yw defnyddio *1Xtra Live* fel llwyfan rheolaidd i gerddoriaeth ddu yn y DU, ac rydym eisoes yn cynllunio'r cyngerdd nesaf.

Mae 1Xtra yn gartref i rai o'r DJs arbenigol mwyaf brwdfrydig a gwybodus yn y DU, gan gynnwys MistaJam, Ras Kwame a Westwood. Gan roi cyfle i bob un ohonynt gyflwyno eu cerddoriaeth, mae ffocws 1Xtra bellach ar lai o syniadau creadigol mwy a gwell. Roedd *Dancehall After Dark*, er enghraifft, yn wythnos fanwl o raglennu a chyfweliadau gydag artistiaid allweddol yn y genre. Dangosodd ehangder ein hallbwn arbenigol.

Gan nad yw pobl ifancach yn prynu setiau radio digidol i'r fath raddau â gwrandawyr hŷn, rydym yn defnyddio gwasanaethau ar-lein i gynyddu ein cynulleidfa. Rydym wedi cynyddu cynnwys rhyngweithiol a phodlediadau. Ac rydym yn gobeithio cyrraedd gofodau cyfryngol newydd drwy syndicadu, ffonau symudol neu beiriannau gemau.

*Denodd 1Xtra ei gynulleidfa uchaf erioed y llynedd. Yn ystod y 12 mis hyd at fis Mawrth, roedd ein cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed yn 1.0% neu 0.5 miliwn o bobl y llynedd (0.8% neu 0.4m 2006/07).*

Roedd yn ddechrau anodd i'r flwyddyn i 6 Music, gyda'r datgeliad bod rhai cystadlaethau ffonio i mewn wedi camarwain ein cynulleidfa. Gwnaethom ymddiheuro, ac ers hynny rydym wedi sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff rhaglenni wedi cwblhau'r cwrs 'Safeguarding Trust'. Rydym yn hyderus na fydd yr un peth yn digwydd eto.

Ar nodyn cadarnhaol, yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi datblygu ein hamrywiaeth o gyflwynwyr ac mae bellach yn cynnwys Adam & Joe, Stephen Merchant, George Lamb a Don Letts. Ymsefydlodd Shaun Keavney yn y slot Brecwast.



853,000



Amrywiad newydd ar hen thema, mae *Electric Proms* bellach wedi sefydlu ar draws portffolio r BBC.

BBC7 yw gorsaf ddigidol fwyaf poblogaidd y BBC gyda chyrhaeddiad uchaf o 853,000.

Mae rhaglenni cerddoriaeth arbenigol fel *Future Friction* yn bwysig i amrywiaeth arlwy cyffredinol y BBC.

Gwellwyd ein gwasanaeth newyddion cerddoriaeth, a lansiwyd podlediad *Music Week* gennym. Mae'r cyfryngau digidol yn cynnig posibiliadau cyffrous iawn i 6 Music: gwnaethom gynhyrchu podlediad o ohebu newyddion cerddoriaeth o'r *Electric Proms* ar gyfer gweddill y BBC eleni; a sioe *Introducing* Tom Robinson oedd y rhaglen radio genedlaethol gyntaf i ddod o hyd i'w holl artistiaid heb gontract o'r rhyngrwyd.

Rydym yn archwilio cyfleoedd pellach i ddatblygu cysylltiadau *The Hub* gyda cherddoriaeth fyw gan artistiaid newydd o'r DU gan fwyaf, yn arbennig mewn gwyliau, ac fel gofod rhithwir ar-lein.

*Yn ystod y flwyddyn, mae BBC 6 Music wedi parhau i ddenu gwrandawyr newydd, gyda'i gyrhaeddiad uchaf erioed, sef 520,000, yn ystod chwarter cyntaf 2008– gan olygu bod dros un o bob pedwar o'n gwrandawyr yn newydd i'r sianel, a'i chymysgedd arbennig o hen a newydd. Roedd cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed yn 1.0% neu 0.5 miliwn o bobl (0.9% neu 0.4m o bobl yn 2006/07). Roeddem yn hynod falch o ennill Gorsaf y Flwyddyn yn y Gwobrau Cerddoriaeth Ddigidol.*

Parhaodd BBC 7 i ddarparu cymysgedd eclectig o ddeunydd archif a deunydd newydd wedi'i anelu at gynulleidfa graff yn ystod 2007/08.

Ymhlith uchafbwyntiau eleni roedd cyfres o raglenni fel rhan o'r gweithgareddau i goffáu canmlwyddiant Daphne du Maurier a thymor *Stars and Stripes* yn cynnwys comedi a drama Americanaidd. Darlledwyd comedi a gomisiynwyd o'r newydd gennym hefyd ar ffurf *The Penny Dreadfuls* a *Chain Gang*, drama ryngweithiol a ddatblygwyd yn seiliedig ar awgrymiadau gwrandawyr.

Darparodd CBeebies yn y slot prynhawn gymysgedd nodedig o straeon, eitemau nodwedd a cherddoriaeth i blant cyn oedran ysgol, gan gynnwys *Charlie and Lola*, *Doodle Doo a Wiggly Park*. I blant hŷn, bob dydd amser brecwast, cynigiodd *Big Toe Books* ddarlleniadau o'r archif, gyda'r teitlau eleni yn cynnwys *Oliver Twist* a *The Chronicles of Narnia*.

Eleni, roedd ein slot *7th Dimension* dyddiol yn cynnwys *Blake's 7* a thymor *Doctor Who*. A darlledwyd sioe radio *Heroes* gennym, a oedd hefyd ar gael fel podlediad, i gyd-fynd â'r gyfres gwlt ar BBC Two. Ffuglen wyddonol yw ein math mwyaf poblogaidd o ddrama o hyd ac rydym yn awyddus i ddatblygu hyn ymhellach, gan weithio gyda Radio 3 a Radio 4 ar dymor ar y cyd yn ddiweddarach yn 2008.

*BBC 7 yw gorsaf ddigidol fwyaf poblogaidd y BBC, gyda'r cyrhaeddiad uchaf o 853,000 yn C4 2007. Roedd oriau gwrando ar gyfartaledd yn gymharol sefydlog yn ystod y flwyddyn ac o gymharu â 2006/07 ar lefel o 5 awr a 24 munud yr wythnos. (C1 2007) Roedd ein cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed ar gyfer 2007/08 yn 1.6% neu 0.8 miliwn o bobl, cynnydd bach ar y flwyddyn flaenorol (1.4% neu 0.7 miliwn o bobl).*

Mae BBC Asian Network wrth wraidd adloniant Asiaidd yn y DU – fel darlledwr ac fel un o brif bartneriaid y London Mela, drwy bresenoldeb mewn gwyliau eraill, a chyda'n taith ein hunain o Brifysgolion.

Mae cerddoriaeth yn bwysig ar draws pob diwylliant o fewn bywyd Asiaidd. Er mwyn adlewyrchu hyn, gwnaethom ychwanegu rhaglenni cerddoriaeth newydd i'r amserlen eleni: Adil Ray yn y slot oriau cymudo yn ystod yr wythnos a *The Bhangra Mixtape* gyda Sonny Ji ar nos Sadwrn. Cynhwyswyd talent newydd a thalent sy'n dod i'r amlwg yn *Future Friction*, gyda Bobby Friction yn ennill gwobr Aur Sony yn y categori Cerddoriaeth Arbenigol.

Cydweithredwyd â BBC Two ar *Desi DNA*, ar bynciau fel y celfyddydau a cherddoriaeth, a meysydd llai amlwg yn amrywio o fagu cyhyrau i freninesau 'drag', gan gyfeirio at bêl-droed wrth fynd heibio. Roedd cynnwys unigryw ychwanegol ar gael drwy'r botwm coch.

Gwnaethom weithio'n galed i gynyddu effaith ein newyddiaduraeth gyda straeon pwerus yn *Asian Network Reports* ar unigolion yn cael eu gorfodi i drosi eu ffydd ac ar fod yn hoyw mewn cymunedau Asiaidd, ymhlith eraill. Cafwyd darllediadau helaeth o ddychweliad Benazir Bhutto i Bacistan a'i llofruddiaeth yn dilyn hynny.

Darparodd adeg coffáu 60 mlynedd ers y Rhaniad destun trafod, ac roedd llawer o'n rhaglennu yn adlewyrchu amrywiaeth profiadau a barn o fewn cymunedau Asiaidd Prydeinig. Rhoddodd y prosiect aml-gyfrwng *Asian Nation* lwyfan i'n gwrandawyr rannu eu straeon eu hunain.

*Y llynedd roedd gan BBC Asian Network gyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i oedolion 15+ oed o 1.0% neu 0.5 miliwn y llynedd. Roedd hyn yn gyson â 2006/07 (0.9% neu 0.5 miliwn). Erys ffigurau gwrando ar y donfedd AM yn gryf yng Nghanolbarth Lloegr.*

# Newyddiaduraeth

"Mae'n nod aruthrol, sicrhau mai ni yw'r gorau. Ond BBC Newyddion yw'r darparwr newyddion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y DU, gan gynnig y newyddiaduraeth orau yn y byd. Byddwn o dan fygythiad onid addaswn i ddiwallu anghenion cyfnewidiol ein cynulleidfaoedd o ran gwell cyfleustra, personoleiddio a chyfranogi. Mae'r chwyldro digidol yn ein herio i beidio â llaesu dwylo."


Mark Byford
**Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd Newyddiaduraeth**



Mae cyfweliadau ag amrywiaeth eang yn sicrhau bod ein dadansoddiad o r newyddion yn cynnig safbwyntiau amrywiol ac yn parhau'n ddiduedd.

99%

O aelodau perthnasol o staff a fynychodd y cwrs hyfforddiant Safeguarding Trust .



Mae Materion Cyfoes yn ystod oriau brig yn ymrwymiad i n cynulleidfaoedd.

# NEWYDDIADURAETH: NEWYDDION

Mae'r BBC yn darparu'r gwasanaeth newyddion a gaiff ei wylio, y gwrandewir arno ac a gaiff ei ddefnyddio fwyaf yn y DU – gwnaeth dros 80% o boblogaeth 15+ oed y DU ddefnyddio ein newyddion mewn wythnos nodweddiadol drwy gydol y llynedd.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i drawsnewid BBC Newyddion yn radical – er mwyn ymateb yn well i newidiadau yn anghenion y gynulleidfa. Am y tro cyntaf, daeth newyddion radio, teledu ac ar-lein ynghyd i leihau achosion o ddyblygu ac i sicrhau bod newyddiaduraeth wreiddiol gan y BBC yn cael yr effaith orau drwy greu Ystafell Newyddion Aml-Gyfrwng. Mae'r Ystafell Newyddion newydd yn gweithio'n agos gyda'r adran Rhaglenni Aml-Gyfrwng newydd sy'n dwyn rhaglenni ymchwiliadol a ffurf hir allweddol y BBC fel *Today* ar Radio 4, a *Newsnight* a *Panorama* ar y teledu ynghyd. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn helpu i gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn ystod y chwe blynedd nesaf.

Bydd cywirdeb, natur ddiduedd ac annibyniaeth newyddiadurol yn parhau'n gonglfaen i strategaeth newyddion barhaus y BBC. Gwelwyd y gwerthoedd allweddol hyn ar draws ein hallbwn newyddion eleni ar bob llwyfan.

Ymhlith straeon domestig blaenllaw'r flwyddyn roedd:

- O ran yr economi a busnes, gwnaethom dorri stori argyfwng Northern Rock, ac wedyn gwnaethom ohebu ar y broses o'i wladoli, gan gynnwys darllediadau helaeth ar radio lleol yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, lle roedd y rhan fwyaf o'r staff yr effeithiwyd arnynt yn byw ac yn gweithio, a'r cyfweliad cyntaf â'r prif weithredwr Adam Applegarth cyn iddo ymddiswyddo. Dim ond un elfen o broblemau benthyciadau Sub Prime yn UDA yn cael effaith ar y DU ac yn siglo marchnadoedd ariannol y byd oedd hon, ac y gohebwyd arni'n helaeth ar draws ein gwasanaethau lleol, cenedlaethol a byd-eang.
- Gohebwyd yn hyderus ar y broses o drosglwyddo pŵer gan Tony Blair i Gordon Brown gan ein gohebwyr arbenigol.
- Roedd ymgyrchoedd bomio ar Lundain a Glasgow yn cynnwys darllediadau yn y fan a'r lle a chyfweliadau â thystion allweddol.
- Mae mewnfudo wedi troi'n bryder allweddol i'r cyhoedd ym Mhrydain. Rydym yn sicrhau ein bod yn ymdrin â materion mewn ffordd wrthrychol yn ogystal â darparu lefel ddyfnach o ddadansoddi, er enghraifft, ar ystadegau mewnfudo.

Roedd yr agenda ryngwladol hefyd yn llywio'r hyn a gwmpaswyd gennym. Ymhlith y straeon mawr o bob cwr o'r byd roedd:

- Marwolaeth Benazir Bhutto mewn rali wleidyddol – a gwmpaswyd yn helaeth yn ein gwasanaethau domestig a rhyngwladol.
- O ran y trais yn Tibet, golygai cyfreithiau diogelwch mewnol Tsieina na allai'r BBC deithio i Tibet, felly ceisiom ddilysu gwybodaeth gan 'dystion llygaid' a oedd yno.
- Anghydfod gwleidyddol yn Zimbabwe wrth i'r wlad wynebu etholiad creiddiol. Llwyddasom i bortreadu bywyd mewn gwahanol rannau o'r wlad er gwaethaf gwaharddiad ar deithio i'r wlad, gan gynnwys gohebu cudd o'r tu mewn i'r ffin.
- Yn ystod yr aflonyddwch parhaus yn Irac ac Affganistan, gwnaethom barhau i gynnig darlun diduedd o'r hyn a oedd yn digwydd yno, gan amrywiaeth o leisiau.
- Rownd gyntaf yr ymgyrch i ddod yn arlywydd yn America – caiff yr etholiadau i ddod yn arlywydd hefyd eu cwmpasu'n fanwl yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn ystod ei flwyddyn weithredu lawn gyntaf, cadarnhaodd y Coleg Newyddiaduraeth, gwasanaeth dysgu newyddiaduraeth cydgysylltiedig cyntaf y BBC sy'n cynnig ac yn datblygu amrywiaeth eang o gyrsiau a modiwlau, ei bwysigrwydd i'r BBC. Roedd y Coleg yn bartner arweiniol ym modiwlau hyfforddi ar-lein ac wyneb-yn-wyneb Ymddiriedolaeth y BBC, *Safeguarding Trust*, a gwblhawyd gan 99% o'r holl aelodau perthnasol o staff yn ystod y flwyddyn ariannol (dros 17,000 o unigolion).

Bellach cyflwynwyd fersiwn wedi'i haddasu'n benodol o'r modiwlau i sefydliadau cyflenwi ac unigolion yn y sector cynhyrchu annibynnol er mwyn sicrhau bod rhaglenni ffeithiol yn arbennig yn bodloni gwerthoedd y BBC, a byddant ar gael am ddim i'r boblogaeth ehangach yn y DU ar bbc.co.uk yn yr haf fel rhan o ymdrech allgyrch llythrennedd cyfryngol ehangach y BBC.

Mae'r Coleg hefyd yn sicrhau bod newyddiadurwyr y BBC, waeth ble y bônt neu ym mha iaith y maent yn gohebu, yn deall gwerthoedd newyddiadurol y BBC.

*Gwrandawodd dros hanner yr oedolion 15+ oed (52.1%) yn y DU ar newyddion ar y radio bob wythnos y llynedd (15 munud) – tua 26.2 miliwn o bobl. Roedd y ffigur hwn ychydig yn uwch na 2006/07 (25.6 miliwn/51.4%). Ar ddiwedd mis Mawrth roedd 8.0 miliwn o bobl wedi ymweld â ni ar-lein – cynnydd o un rhan o dair o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (6.0 miliwn).*



Mae llawer o newyddiadurwyr y BBC, fel Lyse Doucet, yn gweithio ar y radio a r teledu, ac yn gynyddol ar lein hefyd.

233 MILIWN

Cynulleidfa newyddion y BBC yn fyd eang.



Merched yn Affganistan yn defnyddio radio plentyn i wrando ar World Service.

# BBC GLOBAL NEWS

## BBC NEWS

Dathlwyd deng mlynedd ers cyflwyno gwasanaeth newyddion treigl gennym ym mis Tachwedd. Mae achlysur pwysig o'r fath yn gyfle i fyfyrio ac yn ystod y flwyddyn rydym wedi ystyried y sianel o fewn cyd-destun yr arlwy newyddion ehangach gan ddod i'r casgliad ei bod yn adeg briodol i adfywio'r brand a'i osod wrth wraidd BBC Newyddion. Fodd bynnag, nid yw'r newid brand yn golygu unrhyw newid sylfaenol yn yr hyn a gynigir gan y sianel – mae'n cadw ei phenawdau newyddion bob awr a'r pwyslais ar newyddiaduraeth, sylwebaeth a dadansoddiadau difrifol yr ymddiriedir ynddynt.

Roedd arbrofion cynharach gyda'r defnydd o ofod stiwdio ac adnoddau eraill wedi bod yn galonogol. Er enghraifft, gwnaethom gyd-gyflwyno ar draws News 24, BBC World a'r rhwydweithiau daearol o ddau safle ym Mhacistan o fewn oriau i farwolaeth Benazir Bhutto: Lyse Doucet o gartref teuluol Bhutto yn Larkana a Mishal Husain o Islamabad.

Ymhlith datblygiadau eraill roedd *Question Time Extra*, sy'n ymateb i wylwyr yn union ar ôl *Question Time* ar BBC One. A chyflwynodd Gethin Jones o *Blue Peter* y rhaglen *E24*, peilot newyddion adloniant a brofodd yn llwyddiant cynnar ac yr estynnwyd hyd ei rediad cychwynnol o naw wythnos.

*Mae ffigurau gwylio wedi cynyddu 21% flwyddyn ar flwyddyn ac mae gan y sianel ffigur cyrhaeddiad wythnosol 15 munud o 4.2 miliwn (7.5% o bob cartref – o gymharu â 3.2 miliwn a 5.7% ar gyfer 2006/07), a chynyddodd ei chyfran o 0.5% i 0.7%, sy'n uwch na holl sianelau newyddion eraill y DU. Cyflwynwyd Golden Nymph glodwiw iddi yn ystod y flwyddyn.*

## BBC PARLIAMENT

BBC Parliament yw'r unig sianel yn y DU sydd ond yn darlledu gwleidyddiaeth, gan gynnwys dadleuon, pwyllgorau a gwaith siambrau datganoledig y DU. Adroddir hanes seneddol y dydd yn *The Record*.

Mae'r sianel yn llawer mwy na chofnod o ddadleuon a gwrandawiadau ac mae'n ddigon bywiog i arbrofi ac arloesi. Y llynedd, er enghraifft, cymerwyd detholiad o raglenni o'r gyfres *Storyville* ar BBC Two a chrëwyd nosweithiau themâu am ddemocratiaeth ledled y byd. Enillodd un stori – *Taxi to the Dark Side* – Oscar yn 2008 yn y categori Rhaglen Ddogfen Nodwedd, ac fe'i darlledwyd yn ddi-oed yn y DU yn dilyn y fuddugoliaeth hon ar BBC Parliament.

Roedd digwyddiadau archif yn cynnwys darllediad – a gyflwynwyd gan Cliff Michelmore – o raglenni newyddion gwreiddiol ar argyfwng dibrisio 1967. Ar ddydd Sul, gwyliodd gwylwyr ddarllediadau o areithiau a chynadleddau i'r wasg gan yr ymgeiswyr yn yr ymgyrch i ddod yn arlywydd yr UD fesul wythnos.

2007/08 oedd blwyddyn lawn gyntaf y sianel gyda sgrîn lawn ar Freeview, sydd wedi helpu i sicrhau bod y sianel yn fwy deniadol. Yn ystod y flwyddyn, bu'r cyfartaledd cyrhaeddiad misol dros 1 miliwn, gyda thua 200,000 yn gwylio dadl San Steffan ar Gytundeb Lisbon ym mis Mawrth.

*Mae cyrhaeddiad wythnosol 15 munud ymhob cartref wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn o 0.2% i 0.3% – cynnydd o dros draean o 260,000 i 360,000.*

## BBC GLOBAL NEWS

Mae isadran BBC Global News yn cwmpasu Saesneg a 32 o ieithoedd, ac roedd ganddi gyrhaeddiad cyfun ar radio, teledu ac ar-lein y llynedd o 233 miliwn, yn unol â'r flwyddyn flaenorol, a chan gadw safle'r BBC fel gwasanaeth newyddion rhyngwladol mwyaf blaenllaw'r byd.

Rydym yn cwmpasu radio BBC World Service, teledu BBC World News, gwasanaethau newyddion ar-lein rhyngwladol y BBC, BBC Monitoring ac Ymddiriedolaeth BBC World Service.

Eleni lansiodd BBC World Service BBC Arabic TV, y gwasanaeth teledu cyntaf nad yw'n Saesneg i gael ei ariannu'n gyhoeddus gan y BBC.

Bu'r Dwyrain Canol yn rhanbarth pwysig o ran newyddion am y rhan fwyaf o'r 50 mlynedd diwethaf. Er y bu'r BBC yn darlledu radio Arabeg ers 1938, a'i fod wedi cynnig gwefan glodwiw ers 2001 – y mae'r ddau ohonynt wedi llwyddo i ddenu cynulleidfaoedd gan sicrhau bod y BBC yn llais y gellir ymddiried ynddo yn y rhanbarth – yn ddiau, teledu yw'r brif ffordd y mae cynulleidfaoedd yn y byd Arabaidd yn derbyn eu newyddion ar hyn o bryd. Mae'n allweddol o ran cyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Gan ddarlledu i ddechrau am 12 awr bob dydd, caiff BBC Arabic TV ei ehangu i wasanaeth treigl 24 awr yn ystod 2008. Bydd hyn yn helpu'r BBC i wella ei gyrhaeddiad a'i effaith yn y rhanbarth drwy gynnig ei newyddion a'i wybodaeth i 200 miliwn o bobl ledled y byd Arabaidd. Eleni cawsom ganiatâd hefyd i lansio BBC Persian TV, a fydd ar gael yn ddiweddarach yn 2008. Mae'r ddwy sianel newydd yn gweithredu o dan awenau BBC World Service.



38%



Arbenigwyr yn cynnig gwybodaeth a phrofiad arbenigol i gynulleidfaoedd.

Cyrhaeddiad BBC Chwaraeon ymysg oedolion yn y DU mewn wythnos arferol.

Darlledir y gorau o fyd snwcer fel rhan o n harlwy chwaraeon rheolaidd.

# NEWYDDIADURAETH: CHWARAEON

Ar draws ein holl wasanaethau eleni, rydym wedi gohebu'n fanwl ar y prif straeon newyddion rhyngwladol. Ac rydym wedi cynnig dadansoddiadau a barn i ategu newyddion dyddiol a newyddion sy'n torri.

Roedd ein prosiect clodwiw *Bangladesh Boat* yn un enghraifft allweddol o BBC Global News yn cydweithio fel isadran gyfan ac yn gweithio gyda rhannau eraill o'r BBC, megis yr Asian Network. Gwnaethom dreulio mis yn teithio ar hyd afonydd Bangladesh fel rhan o brosiect pwysig i olrhain a thrafod newid yn yr hinsawdd fel y mae'n digwydd mewn gwlad sydd o dan fygythiad difrifol yn ystod y 40 mlynedd nesaf o ganlyniad i'r ffaith bod lefelau'r môr yn codi. Cymerodd 17 o wasanaethau iaith ran gan gyflwyno amrywiaeth o raglenni'n cwmpasu'r ystod barn y mae'r pwnc yn ei hysbrydoli.

Roedd amcangyfrif o gynulleidfa fyd-eang wythnosol BBC World Service, a grëir yn seiliedig ar arolygon annibynnol, yn 182 miliwn y llynedd, yn unol â lefel uchaf y flwyddyn flaenorol, sef 183 miliwn.

Mae BBC World News, y sianel newyddion a gwybodaeth Saesneg a ariennir yn fasnachol, ar gael drwy'r dydd bob dydd mewn 153 miliwn o gartrefi. Gall 118 miliwn o gartrefi eraill ei derbyn ar adegau eraill, gan roi cyfanswm dosbarthiad cyfun o 271 miliwn o gartrefi. Bob wythnos, mae 78 miliwn o bobl yn gwylio BBC World News, gan olygu mai hi yw sianel newyddion fwyaf poblogaidd y BBC.

Unwaith eto, roedd cyrhaeddiad i'n safleoedd newyddion rhyngwladol ar ei lefelau uchaf erioed yn ystod y flwyddyn – gydag 808 miliwn o ymweliadau â thudalennau ym mis Mawrth, i fyny o uchafbwynt y llynedd o 763 miliwn. Cawsom 42.5 miliwn o ddefnyddwyr ar-lein unigryw yn ystod mis Mawrth 2008, cynnydd o 10% ar 38.5 miliwn flwyddyn yn ôl.

Monitrodd BBC Monitoring dros 3,000 o ffynonellau radio, teledu, y wasg, rhyngrwyd ac asiantaethau newyddion mewn tua 100 o ieithoedd yn systematig, er mwyn darparu golwg awdurdodol o ddigwyddiadau'r byd i randdeiliaid.

Mae Ymddiriedolaeth BBC World Service yn defnyddio'r cyfryngau a chyfathrebu i leihau tlodi a hyrwyddo hawliau dynol. Ariennir yr Ymddiriedolaeth gan roddion elusennol o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys rhaglenni cymorth y llywodraeth, sefydliadau elusennol rhyngwladol a'r Cenhedloedd Unedig. Nid yw'n cael unrhyw arian o ffi'r drwydded. Y llynedd gweithiodd ochr yn ochr â chyfryngau lleol a chenedlaethol mewn dros 40 o wledydd yn Affrica, Asia, y Dwyrain Canol ac Ewrop, gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid fel Al Mirbad, gorsaf radio leol annibynnol yn Basra sydd ar hyn o bryd yn gweithredu fel yr unig ffynhonnell wybodaeth am wasanaethau sylfaenol yn y ddinas, a Sefydliad Bill a Melinda Gates yn India.

Gellir gweld Arolwg Blynyddol BBC World Service yn bbc.co.uk/worldservice/us/annual_review.

BBC SPORT

Rhydd BBC Chwaraeon ddewis gwirioneddol i gynulleidfaoedd o ran chwaraeon a newyddion chwaraeon pryd bynnag a lle bynnag y mynnont. Bob wythnos, mae 38% o'r gynulleidfa sy'n oedolion yn defnyddio BBC Chwaraeon ar y teledu, ar y radio neu ar-lein.

Mae gwasanaethau digidol ac ar-lein yn ysgogwyr allweddol yn hyn o beth. Eleni, cynyddodd poblogrwydd bbc.co.uk/sport gyda thros 6 miliwn o ddefnyddwyr unigryw yn y DU. Ac ym mis Tachwedd, cadwyd negesfyrddau *606* yn brysur wrth i fethiant Lloegr i gymhwyso ar gyfer Euro 2008 annog 3.9 miliwn o wahanol ddefnyddwyr i ddefnyddio ei dudalennau, y nifer uchaf erioed. Llwyddwyd hefyd i lansio digwyddiadau chwaraeon pwysig ar BBC iPlayer, a hynny'n llwyddiannus iawn: roedd bron i un o bob saith (13.5%) o'r holl geisiadau BBC iPlayer ar un dydd Sul ym mis Chwefror 2008 ar gyfer gêm ryngwladol y noson gynt rhwng Ffrainc a Lloegr ym Mhencampwriaeth rygbi'r Chwe Gwlad.


Yn ystod y flwyddyn hefyd, gwelwyd poblogrwydd y blog yn cynyddu. Ysgogodd sylwadau gan olygyddion a chyfranwyr lefelau newydd o drafodaeth. Er enghraifft, torrodd blog Tom Fordyce a Ben Dir o'u taith mewn fan wersylla drwy Ffrainc yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd bob record, gyda thua 10 miliwn o ymweliadau â thudalennau. Mae blogiau yn un ffordd y mae BBC Chwaraeon yn darparu arlwy mwy cydlynus ar draws pob llwyfan wrth ddarlledu digwyddiadau fel Cwpan Criced y Byd a Chwpan Rygbi'r Byd.



Mae *Match of the Day* yn cyflwyno gemau pêl droed byw a dadansoddiadau i gefnogwyr.

39

Nifer gorsafoedd radio lleol y BBC yn Lloegr.



*Inside Out* – ymchwiliadau rhanbarthol a threftadaeth ychydig yn wahanol yn ystod oriau brig ar BBC One yn Lloegr.

O ran teledu, parhawyd i atgyfnerthu newyddiaduraeth o fewn ein darllediadau chwaraeon gyda chyfres bellach o *Inside Sport* ar BBC One wedi'i chyflwyno gan Gabby Logan. Mae'r rhaglen yn ymchwilio i benawdau chwaraeon ac yn meithrin dealltwriaeth o'r prif drafodaethau chwaraeon, ac eleni roedd yn cynnwys amrywiaeth o gyfweliadau ag enwogion o'r maes megis Sven-Goran Eriksson, Dwain Chambers a Christine Ohuruogo. Roedd rhaglen arbennig o Beijing hefyd wrth i'r ddinas baratoi i gynnal y Gemau Olympaidd.

Parhawyd â'n hymrwymiad i gynnal *Sports Personality of the Year* y tu allan i Lundain, gydag ail flwyddyn yn yr NEC yn Birmingham. Roedd cynulleidfa fwy o 8,000 yn y sioe fyw, gyda 9.3 miliwn yn gwylio i weld y paffiwr sy'n bencampwr y byd, Joe Calzaghe, yn ennill y brif wobr. Eleni mae'r digwyddiad yn symud i Lerpwl.

Gwellwyd cydweithrediad ar draws yr amrywiol wasanaethau – ar deledu, radio ac ar-lein – drwy greu canolfan newyddion chwaraeon aml-gyfrwng newydd, gyda newyddiadurwyr yn gweithio ar straeon ar gyfer pob llwyfan. Arweiniodd hyn hefyd at fwy o gomisiynu aml-gyfrwng sydd wedi cynyddu'r gallu i rannu syniadau, adnoddau a deunydd rhwng gwahanol allfeydd y BBC ym maes chwaraeon.

Erys caffael hawliau darlledu i ddigwyddiadau chwaraeon mawr, ac ar draws pob cyfrwng, yn un o'r gweithgareddau cydbwyso anos i'r BBC: rhaid i ni gyflwyno gwasanaeth o ansawdd, ond am bris derbyniol. Yn anochel, weithiau bydd darlledwyr eraill yn cynnig pris uwch neu bydd y pris y gofynnir amdano yn rhy uchel. Fodd bynnag, eleni roedd yn bleser gennym allu ychwanegu Fformiwla Un a'r Gynghrair Pêl-droed i'n portffolio teledu o 2009. Llwyddwyd hefyd i adnewyddu ein contractau gyda'r All-England Club yn Wimbledon, rygbi'r Chwe Gwlad, Golff y Meistri a Chwpan Her Rygbi'r Gynghrair. Cafodd ein darllediadau cyntaf o'r Super Bowl groeso cynnes gan ddilynwyr Pêl-droed Americanaidd, gyda thua 400,000 ohonynt yn dal i wylio'n fyw am 3am.

*Roedd cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud BBC Chwaraeon ar deledu i wylwyr 4+ oed yn 2007/08 yn 28.9% neu 16.3 miliwn o bobl (i lawr o 31.8% neu 17.8 miliwn o bobl yn 2006/07). Roedd y cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol drwy BBC Radio 5 live ar ddiwedd y flwyddyn yn sefydlog flwyddyn ar ôl blwyddyn sef 3.8 miliwn/7.5% (o gymharu â 3.7 miliwn/7.4%). Ar-lein, cyrhaeddodd BBC Chwaraeon 6.3 miliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2008, cynnydd o 28% o 4.9 miliwn y llynedd.*

# NEWYDDIADURAETH: Y GWLEDYDD A'R RHANBARTHAU

## BBC English Regions

Mae'r farchnad radio lleol yn gystadleuol iawn. Ond o fewn yr amgylchedd hwn, mae Radio Lleol y BBC yn Lloegr yn parhau i gyrraedd bron i un o bob pump o oedolion. Mae cyfanswm y gynulleidfa wedi gostwng ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae rhai gorsafoedd trefol mwy – Manceinion a WM (Gorllewin Canolbarth Lloegr) er enghraifft – yn cael eu hadfywio er mwyn ymdrin â'r potensial i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Mae ein 39 o orsafoedd yn cynnig rhaglennu lleol gydag eitemau llafar yn bennaf ynghyd â cherddoriaeth gydag apêl eang y tu allan i'r rhaglenni brecwast lle ceir dim ond siarad. Eleni rydym wedi gwella ansawdd ac amlder ein gwybodaeth teithio, ac rydym bellach yn gwneud yr un peth gyda rhagolygon y tywydd.

Erys chwaraeon yn arbennig o bwysig i'n gwrandawyr er bod y cyllidebau ar gyfer hawliau sylwebu pêl-droed yn parhau o dan bwysau. Yn ddiweddar, tynnodd Leeds United yr hawliau sylwebu oddi wrth BBC Radio Leeds ar ôl 40 mlynedd, gan ddewis eu rhoi i orsaf radio DAB yn unig yr oedd y clwb yn berchen arni yn lle hynny. Bellach mae staff chwaraeon radio lleol yn cyhoeddi eu straeon ar-lein, sydd wedi gwella'r gwasanaeth yn ystod y misoedd diwethaf.



Cyflwynodd Stephen Fry gyfres ar HIV ac AIDS, fel rhan o ymgyrch codi ymwybyddiaeth BBC Learning.

50

Nifer y blynyddoedd rydym wedi bod yn cynnig bwletin newyddion cenedlaethol ar y teledu yn yr Alban.



Archwilia rhaglenni gwyddoniaeth fel *Parallel Worlds Parallel Lives* straeon anarferol ac edrycha eraill ar brif ddatblygiadau o ran gwybodaeth.

Mae pob gorsaf yn cynnig rhaglennu crefyddol ar fore dydd Sul. Rhoddodd BBC Radio Solent sylw helaeth i ddrama gyfoes a dathliad yn gysylltiedig â'r Dioddefaint a wyliwyd gan filoedd o bobl yn Winchester.

Mae gan Radio Lleol y BBC hefyd ran arbennig i'w chwarae ar adegau o argyfwng sifil. Cawsom ganmoliaeth aruthrol gan gynulleidfaoedd a'r gwasanaethau brys am ein hymateb yn ystod llifogydd haf y llynedd: rhoddodd BBC Radio Gloucestershire wybodaeth hanfodol am ddod o hyd i ddŵr croyw ar ôl i'r system bibellau fethu; helpodd BBC Hereford & Worcester bobl i brynu eitemau yn lle eitemau a ddifrodwyd gan y llifogydd.

Erys newyddiaduraeth yn asgwrn cefn i'n cynnwys llafar. Sicrhaodd BBC Radio Newcastle y cyfweliad darlledu cyntaf ag Adam Applegarth, prif weithredwr Northern Rock ar y pryd; datgelodd ymatebion Rhyddid Gwybodaeth gan heddluoedd Dwyrain Canolbarth Lloegr eu bod yn cofnodi troseddau wedi'u cyflawni gan blant mor ifanc â phedair oed a bod plant sy'n rhy ifanc i gael eu herlyn yn cyflawni cannoedd o droseddau bob blwyddyn.

Trafodwyd y stori hon ar holl orsafoedd radio'r BBC yn y rhanbarth; ac aeth y Comisiwn Hawliau Anabledd a'r cyngor lleol i'r afael ag adroddiad ar Radio Berkshire am glwb yn Basingstoke a oedd yn gwahardd pobl ag anableddau ar benwythnosau.

Cawsom ganlyniadau cymysg o ran ein podlediadau, ond ymhlith ein llwyddiannau roedd chwaraeon, crynodebau o'r newyddion a pheth cynnwys yn seiliedig ar gyflwynwyr. Cafodd y podlediad *UK Black*, a oedd yn dwyn ynghyd y goreuon o blith rhaglenni Affricanaidd a Charibïaidd Radio Lleol y BBC, groeso cynnes gan y cymunedau a wasanaethir ganddo. Rydym yn datblygu ein gwasanaeth podlediadau ymhellach.

Ar deledu, rydym yn parhau i ddarparu'r bwletin newyddion min nos lleol yn ystod yr wythnos a gaiff ei wylio fwyaf (BBC One am 6.30pm – gyda chyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 3 munud o 12.5 miliwn y llynedd) ac yn archwilio straeon o arwyddocâd lleol yn fanylach yn *Inside Out*.

*Roedd y cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol ymhlith oedolion 15+ oed i Radio Lleol y BBC yn 18.6% neu 7.5 miliwn o wrandawyr (o gymharu ag 18.8% neu 7.7 miliwn yn 2006/07).*

## BBC Scotland

Y llynedd, cyflwynwyd cymysgedd cyfoethog o genres gennym i gynulleidfaoedd rhwydwaith a chynulleidfaoedd yn yr Alban. Ar deledu, enillodd rhaglenni ffeithiol mor amrywiol â *HIV and Me* gyda Stephen Fry, archwiliad o ffiseg cwantwm, *Parallel Worlds, Parallel Lives*, ac astudiaeth ddadleuol o fechgyn mewn gofal, *Boys Behind Bars*, wobrau. Dathlodd ein rhaglen newyddion genedlaethol, *Reporting Scotland*, 50 mlynedd o ddarlledu, ac adlewyrchwyd y symudiad i fand eang drwy hawliau newydd i ddarlledu pêl-droed Uwch Gynghrair yr Alban a chynulleidfaoedd uwch ar y we ar gyfer darllediadau o ddigwyddiadau byw, fel *T in the Park*.

Talodd buddsoddiad mewn datblygu ar ei ganfed. Darlledodd y comedi poblogaidd *Still Game* ei chweched gyfres, a datblygodd olynydd, *Dear Green Place*. Ar sodlau'r sioe adloniant, *Lottery Jet Set*, comisiynwyd sioe gwis ar nos Sadwrn. Cyflwynwyd drama arloesol gennym i BBC Three yn *Phoo Action*, tra'n ennill comisiynau newydd wedi'u lleoli yn yr Alban. Denodd yr opera sebon oriau brig *River City* dros hanner poblogaeth yr Alban yn ystod y flwyddyn.

Dathlwyd cerddoriaeth yr Alban ar draws teledu, radio ac ar-lein, mewn cyngherddau gan y BBC Scottish Symphony Orchestra ac mewn prosiectau partneriaeth gyda'r Theatr Genedlaethol, ymhlith eraill. Ymgorfforodd y dathliad Flwyddyn Diwylliant Ucheldiroedd yr Alban, gyda chyfleoedd i'r gynulleidfa gyfrannu at eu ffilmiau eu hunain. Cymeradwywyd ein gwasanaeth digidol Gaeleg i'w lansio yn 2008, gan ategu ein gwasanaeth presennol, Radio nan Gàidheal.



30



Gan fod *Coal House* wedi llwyddo i gyfuno teledu realiti a hanes mor effeithiol, comisiynwyd ail gyfres.

Mlynedd ers dechrau r opera sebon Gymraeg boblogaidd *Pobol y Cwm*.

Mae *Doctor Who, Torchwood* a *The Sarah Jane Adventures* yn cynnig rhywbeth i wylwyr o bob oedran.

Cynigiodd Radio Scotland y cymysgedd mwyaf o raglenni a mwy o gerddoriaeth fyw na'r holl orsafoedd eraill yn yr Alban gan gynnwys, ar y cyd â theledu ac ar-lein, *Celtic Connections*, Pencampwriaeth Bandiau Pib y Byd a'r Mod Cenedlaethol. Eleni comisiynodd Radio Scotland 12 o ddramâu newydd, a chyflwynodd BBC Scotland tua 75 awr yn fwy o ddrama i rwydweithiau radio eraill.

Ymhlith darllediadau cynhwysfawr o etholiadau lleol a seneddol yr Alban roedd tair rhaglen *Big Debates* a ddangoswyd ar y teledu, *Leaders' Debate* ac ymchwiliad *Newsnight Scotland* yn *Does Your Vote Count?* a enillodd wobr BAFTA. Cafwyd darllediadau dros nos o'r canlyniadau ar bob llwyfan, gyda chamera ymhob canolfan gyfrif. Ategwyd darllediadau gwleidyddol gyda darllediadau estynedig ar y we o gynadleddau'r pleidiau yn yr Alban, gan gynnwys ffrydio byw o'r prif areithiau a'r dadleuon.

*Gostyngodd cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol ar gyfer Radio Scotland yn sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn i 21.5% (cyfwerth â 915,000 o unigolion) o 23.1% (981,000). Fodd bynnag, roedd y rheini a ddewisodd wrando yn debygol o aros yn hwy eleni na'r flwyddyn flaenorol. Lansiwyd amserlen newydd ym mis Mai, a cheir arwyddion bod nifer y gwrandawyr bellach yn dechrau cynyddu eto.*

## BBC Cymru Wales

Mae BBC Cymru wedi parhau i adeiladu ar lwyddiannau'r blynyddoedd diwethaf o ran ei raglennu lleol a'i gyfraniad i rwydweithiau'r DU – lle, ym maes drama yn unig, dychwelodd *Doctor Who* a *Torchwood*, a lansiwyd *The Sarah Jane Adventures* gennym a ddaeth yn gyflym yn un o'r rhaglenni teledu mwyaf poblogaidd i blant ar y BBC. Dechreuwyd y gwaith ar nawfed gyfres, a'r gyfres olaf, o'r ddrama deledu leol lwyddiannus *Belonging*, ac mae dod o hyd i olynydd teilwng yn flaenoriaeth allweddol. Cyflwynwyd amrywiaeth eang o ddrama hefyd i Radio 4 a Radio 3.

O ran rhaglennu ffeithiol, dychwelodd *Tribe* a gyflwynwyd gan Bruce Parry i'r sgrîn, felly hefyd *The Trees That Made Britain* a'r gyfres arsylwadol hyfryd *A Year At Kew*. Un o lwyddiannau lleol mawr BBC Cymru y llynedd oedd *Coal House*, a aeth â thri theulu ar daith drwy'r gorffennol i brofi realiti bywyd y pyllau yn 1927. Ategwyd y gyfres gan drafodaethau radio, gwefannau, digwyddiadau cymunedol a rhaglennu teledu ychwanegol. Arweiniodd at ymateb cadarnhaol iawn gan y gynulleidfa. Comisiynwyd ail gyfres.

Yn ystod Etholiad Cynulliad Cymru ym mis Mai 2007, roedd ein rhaglennu newyddion a materion cyfoes yn flaenllaw wrth gyflwyno'r dadleuon yn y ddwy iaith ac wrth sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o holl hynt a helyntion yr ymgyrch. Crëwyd grŵp o bleidleiswyr gennym hefyd, 60 Cymru, i gynrychioli amrywiaeth cytbwys o safbwyntiau o bob cwr o'r wlad i roi eu hymateb i'r polisïau, y gwleidyddion a'r ymgyrchoedd. Cynhaliodd *Dragon's Eye* a'r rhaglen trafod gwleidyddol newydd ar gyfer S4C *CF99*, y momentwm ar ôl creu llywodraeth glymblaid yng Nghymru.

Unwaith eto, roedd ein cyfraniad cerddorol yn cynnwys darllediadau o BBC *Cardiff Singer of the World*. Darparwyd darllediadau parhaus gennym hefyd o'r Eisteddfod Genedlaethol ar S4C yn ystod mis Awst. Dathlodd yr opera sebon *Pobol y Cwm* a Radio Cymru eu pen-blwyddi yn 30 eleni.

Mae'r ffaith nad yw BBC Radio Wales a Radio Cymru ar gael ar radio digidol DAB ar draws rhannau helaeth o Gymru yn dal i beri pryder, ac anghyfleustra i lawer o wrandawyr.

*Gostyngodd cyfartaledd ffigurau cyrhaeddiad wythnosol Radio Wales i 17.9%, o 18.3% (437,000 a 449,000 yn y drefn honno). Roedd cyrhaeddiad Radio Cymru ymhlith yr un grŵp oedran – pob oedolyn 15+ oed yng Nghymru – ychydig yn is ar 6.2%/151,000, o gymharu â 6.5%/160,000 yn 2006/07. Wales Today yw'r rhaglen newyddion fwyaf poblogaidd yng Nghymru o hyd gyda chyrhaeddiad wythnosol 3 munud o 26% eleni (713,000 o wylwyr), ac erys Newyddion yn gonglfaen yn amserlen S4C.*



Bydd dros 12% o wariant cymwys Teledu Rhwydwaith yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon erbyn 2012.

6,000

O bobl a fynychodd y digwyddiad *Springwatch* yn Guildhall Square yn Londonderry.




Gogledd Iwerddon heb law? Dangosodd y gyfres hanes *Blueprint* i hynny ddigwydd unwaith.

## BBC Northern Ireland

Mae technolegau a llwyfannau cyflwyno newydd yn creu amgylchedd darlledu cynyddol gymhleth yng Ngogledd Iwerddon. Er gwaethaf hyn, cyflawnwyd ein ffigurau uchaf erioed o ran cyrhaeddiad y gynulleidfa ar gyfer newyddion teledu, BBC Radio Ulster/Foyle, rhaglenni teledu lleol a'n gwasanaethau rhyngweithiol y llynedd. Am y tro cyntaf erioed i'r BBC, lansiwyd gwasanaeth canlyniadau etholiadau gennym drwy gyfrwng ffonau symudol – dim ond un rhan o'n darllediadau helaeth o'r etholiadau i Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Cawsom flwyddyn dda arall o ran newyddiaduraeth heriol a gwreiddiol. Ymhlith pedwar ymchwiliad rhwydwaith i *Panorama* roedd ffilm arswydus a enwebwyd am wobr BAFTA ar ymladd cŵn. Archwiliodd rhaglen *Spotlight special* 'The Hunt for Captain Nairac' faterion yn gysylltiedig â'i herwgipio a'i lofruddiaeth dros 30 mlynedd yn ôl. Mae rhaglenni dogfen a chyfresi ffeithiol poblogaidd yn parhau i apelio i'n cynulleidfaoedd teledu gan ein helpu i adlewyrchu amrywiaeth cyfnewidiol cymdeithas leol yn well.

Daeth prosiectau hanes uchelgeisiol fel *Blueprint* (BBC One NI) ac *A Short History of Ireland* (BBC Radio Ulster) â'u pynciau'n fyw gan fwynhau llwyddiant beirniadol a phoblogaidd. Mynychodd y nifer uchaf erioed o bobl *Proms in the Park* yn Carrickfergus, tra y darparodd *Vital, ATL Rockschool* a'r *Blackstaff Sessions* lwyfan i fandiau lleol a thalent gerddorol newydd.

Roedd BBC Radio Foyle yn gartref i'r ymgyrch *Springwatch* leol gan ddenu bron i 6,000 o bobl i'w ddigwyddiad mawr yn Guildhall Square. Cynhaliodd BBC Radio Ulster ei raglen fwyaf uchelgeisiol o ddarllediadau allanol a darparodd lwyfan i straeon a phrofiadau gwrandawyr ar *Days Like This*.

Unwaith eto eleni adlewyrchwyd agweddau pwysig ar amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol y rhanbarth gennym drwy raglenni yng Ngwyddeleg a Gaeleg. Yn eu plith roedd *'Na Dódaí, Blas* ac *A Kist Ó Wurds*. Bydd ein rhaglennu yn y maes hwn yn elwa ar gyllid ychwanegol dros y cyfnod nesaf fel rhan o strategaeth olygyddol newydd ar gyfer ieithoedd lleiafrifol lleol.

Ymhlith y rhaglenni drama a gynhyrchwyd yn lleol roedd y gyfres a grëwyd yn seiliedig ar *The Truth Commissioner* gan David Parks i *Book at Bedtime* ar Radio 4. Cyflwynwyd dwy gyfres ddrama i deledu rhwydwaith – dychwelodd *Messiah* a *Fairy Tales* gan ailadrodd straeon cyfarwydd ar ffurf gyfoes. Er yn gyfres hynod grefftus, ni lwyddodd *Fairy Tales* i ddenu cynulleidfa rwydwaith fawr ac nid yw wedi'i hailgomisiynu. Rydym yn parhau'n uchelgeisiol i adeiladu portffolio o gynyrchiadau rhwydwaith ar draws pob llwyfan gyda buddiannau creadigol, diwylliannol ac economaidd cynaliadwy i'r gymuned leol.


Adfywiwyd ein hallbwn chwaraeon gyda chontractau newydd ar gyfer digwyddiadau a gemau mawr. Bydd y rhain yn cynnwys darllediadau penodol o gemau pêl-droed lleol a rhyngwladol, GAA a'r North West 200.

*Roedd gan BBC Radio Ulster/Foyle gyfartaledd cyrhaeddiad 15 munud cyfun i oedolion 15+ oed o 38.6% neu 533,000 o bobl (o gymharu â 38.0% neu 523,000 o bobl yn 2006/07). Cyrhaeddodd newyddion teledu gan BBC Newsline 833,000 ar draws y dydd gan ennill y gwerthfawrogiad cyfartalog uchaf gan y gynulleidfa drwy gydol y flwyddyn o blith rhaglenni rhanbarthol y BBC ledled y DU.*

# Gweithgareddau masnachol

Mae gweithgareddau BBC Worldwide o amgylch y byd – o drwyddedu rhaglenni i ddatblygu gwefannau a chylchgronau, neu lansio ein sianelau teledu ein hunain â brand y BBC – yn helpu i ddatblygu enw da'r BBC fel sefydliad sy'n creu cynnwys gwych. Rydym yn canolbwyntio'n llwyr ar sicrhau'r gwerth gorau i frand y BBC ac i dalwyr ffi'r drwydded drwy fuddsoddi ar gyfer twf.


John Smith
**Prif Weithredwr,**
**BBC Worldwide Limited**



Mae sinematograffi hyfryd yn un o elfennau ein cyd gynhyrchiad Tsieineaidd cyntaf, *Wild China*.

£117.7 MILIWN

Hon oedd blwyddyn fwyaf proffidiol BBC Worldwide hyd yma.



Cyfunodd gwerthiannau o raglenni, fformat a DVDs i greu blwyddyn fwyaf llwyddiannus BBC Worldwide hyd yma.

### BBC WORLDWIDE

Gwelwyd y twf mwyaf erioed unwaith eto eleni o ran BBC Worldwide, prif gangen fasnachol y BBC. Cafwyd cynnydd o 13.1% mewn gwerthiannau i £916.3miliwn (o gymharu ag £810.4miliwn), gan gynnwys ein cyfran o gyd-fentrau, ac roedd elw 17.0% yn uwch gan gyrraedd £117.7miliwn (o gymharu â £100.6miliwn) cyn eitemau eithriadol.

Yn ogystal â chyflawni mwy o elw drwy weithgareddau sy'n bodoli eisoes, gwnaethom hefyd fuddsoddi'n sylweddol mewn busnesau newydd yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau twf yn y dyfodol. Cafodd elw ei lywio drwy werthu nifer fawr o raglenni teledu a DVDs, yn enwedig *Planet Earth*.

Ein cenhadaeth yw difyrru'r byd a chyflwyno gwerth i'r BBC. Ym mis Mehefin 2007 sefydlwyd ein strategaeth twf, a gymeradwywyd gan Fwrdd Gweithredol y BBC ac Ymddiriedolaeth y BBC, ac mae'r gwaith i gyflawni'r pwrpasau hyn yn mynd rhagddo'n dda ac i:

- Gynyddu refeniw ar-lein i dros 10% o'r holl werthiannau
- Cynyddu refeniw tramor i ddwy ran o dair o'r cyfanswm
- Cyflwyno cyfres o sianelau teledu ledled y byd
- Creu rhwydwaith rhyngwladol o fusnesau cynhyrchu
- Cynnal prosesau caffael.

Ar gyfer ein busnesau ar-lein, roedd refeniw 174% yn uwch o gymharu â 2006/07 (a chynyddodd cyfran trosiant y Grŵp o fusnes ar-lein o 1.1% i 2.7%). Ym mis Tachwedd lansiwyd bbc.com, sy'n galluogi pobl o bob cwr o'r byd i ddefnyddio gwefan hynod boblogaidd y BBC sef bbc.co.uk, ond sy'n cynnwys hysbysebion a gaiff eu gweld gan ddefnyddwyr y tu allan i'r DU yn unig. Mae cynlluniau hefyd yn mynd rhagddynt yn dda i sefydlu cyd-fenter chwaraewr cyfryngau masnachol ar y rhyngrwyd ag ITV a Channel 4, yn amodol ar gymeradwyaeth.

Cynyddodd y trosiant gros o weithgarwch rhyngwladol 11% hefyd. Parhawyd i gyflwyno ein sianelau teledu newydd sydd â brand y BBC mewn marchnadoedd gan gynnwys Singapôr a Gwlad Pwyl. Yn UDA, arweiniodd newidiadau i amserlenni BBC America at ddyblu cyfraddau gwylio yn ystod oriau brig ymhlith pobl 18-49 oed sy'n ddemograffig pwysig. Hefyd sefydlwyd swyddfeydd cynhyrchu yn Efrog Newydd a Mumbai, i ychwanegu at ein buddsoddiad yn y cwmni annibynnol o Awstralia, The Freehand Group. Mae'r rhain oll yn sicrhau comisiynau lleol gan gynnwys y gyfres nesaf o *Dancing with the Stars* yn India a chyfres leol o *Top Gear* yn Awstralia. Hefyd sefydlwyd cyd-fenter ag ACP, sef cyhoeddwr cylchgronau yn Awstralia, ac mae fersiwn lleol o gylchgrawn *Top Gear* yn cael ei ddatblygu.

Ein prif gaffaeliad yn ystod y flwyddyn oedd cyfran reolaethol yn y prif grŵp gwybodaeth deithio, Lonely Planet. Mae'r brand uchel ei barch a'i gatalog helaeth o lyfrau, rhaglenni teledu a gwasanaethau ar-lein yn ategu ein catalog presennol o 500 awr o raglennu teithio a diwylliant y byd. Mae cynlluniau ar waith i wella'r wefan www.lonelyplanet.com a datblygu ffyrdd o gyflwyno cynnwys y BBC i gynulleidfaoedd newydd ledled y byd.

Ymhlith uchafbwyntiau eraill y flwyddyn roedd rhoi pob un o'r 83 o benodau o *'Allo 'Allo* ar rwydwaith ProSieben yr Almaen. Gwerthwyd fformat sgript *The Office* i Chile, ac un *Life on Mars* i Sbaen, gan newid y sefyllfa i'r cyfnod ôl-Franco yn 1978. Gan ychwanegu at ein henw da fel dosbarthwr rhaglennu byd natur mwyaf blaenllaw'r byd, cafwyd llwyddiant parhaus gyda *Planet Earth*, cyflwynwyd *Ganges* ac *Earth – The Biography*, a lansiwyd rhaglen nodedig *Wild China*, ein cyd-gynhyrchiad Tsieineaidd cyntaf erioed. Yn y DU cyflwynodd ein cyd-fenter busnes sianelau (gyda Virgin Media) Dave, sianel adloniant newydd a oedd yn llwyddiant ysgubol gyda chynulleidfaoedd targed, fel yr oedd yr amrywiaeth cyntaf o DVDs a theganau *In The Night Garden*.

Fodd bynnag, mewn blwyddyn a welodd lwyddiant heb ei ail, mae'n anffodus i gamgymeriad ddod i'r amlwg o fewn ein busnes gwasanaethau teleffoni sef Audiocall. Dros gyfnod o ddwy flynedd hyd at fis Awst 2007, cafodd £106,000 a ddylai fod wedi cael ei roi i elusennau o bleidleisiau ffôn a gafodd eu taro ar ôl i'r cyfnod pleidleisio ddod i ben, ei gadw ar gam gan Audiocall. Yn dilyn adolygiad annibynnol, ni welwyd unrhyw dystiolaeth o amhriodoldeb neu dwyll bwriadol. Fodd bynnag, roedd yn gamgymeriad difrifol. Mae'r sefyllfa wedi cael ei hunioni bellach a rhoddwyd yr holl arian i'r elusennau dan sylw, gyda digon yn ychwanegol i gwmpasu llog (cyfanswm o £123,000).

I gael rhagor o wybodaeth am BBC Worldwide ewch i www.bbcworldwide.com/annualreview

### BBC RESOURCES

Eleni gwnaeth BBC Resources Limited golled weithredol o £1.9miliwn ar drosiant o £122.3miliwn. Y golled cyn llog a threth oedd £3.2miliwn. (2007: PBIT £5.2miliwn, trosiant £126.2miliwn.)

Mae'r lleihad o ran proffidioldeb gweithredol yn adlewyrchu cynnydd o £5.5miliwn mewn cyfraniadau i Gynllun Pensiwn y BBC.

Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd y Cwmni ar werth yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan arwain at werthu'r busnes Outside Broadcasts i SIS Outside Broadcasts Limited ar 1 Ebrill 2008. Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu gwerth £1.3miliwn o gostau sy'n ymwneud â'r broses hon, a godwyd fel eitem eithriadol.

Cafodd y gweithrediad llogi Gwisgoedd a Wigiau ei gau ym mis Chwefror 2008 a gwerthwyd ei stoc i gyflenwyr eraill.

I gael rhagor o wybodaeth am BBC Resources ewch i www.bbcresources.com

# Ymgysylltu â Chynulleidfaoedd

"P'un a yw rhywun ar daith, yn ffonio am gyngor neu wybodaeth, neu'n gwneud cwyn, rhown y gynulleidfa yn gyntaf a sicrhawn fod y BBC yn agored ac yn atebol. Rydym bob amser yn awyddus i wella'r ffyrdd y gall pobl ryngweithio â ni – yn ddiweddar crëwyd ein gwasanaeth archebu ar-lein ar gyfer tocynnau am ddim i sioeau, er enghraifft – ac rydym yn anelu at ddarparu gwell gwasanaethau iddynt yn barhaus."

Tim Davie
**Cyfarwyddwr Marchnata, Cysylltiadau a Chynulleidfaoedd**



1.1 MILIWN



Mae defnydd a reoleiddir o linellau ffôn premiwm yn gadael i wylwyr gymryd rhan mewn rhaglenni, a gall godi arian i elusennau.

Galwadau, llythyrau a negeseuon e bost i BBC Gwybodaeth y llynedd.

Mae r gymysgedd eclectig o westeion yn sicrhau bod *Later with Jools* yn parhau i fod yn rhaglen gerddoriaeth gyfoes ddigyffelyb ar y teledu.

Mae rhyngweithio'n uniongyrchol â gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr ar-lein yn bwysig i'r BBC. Cysylltwn â grwpiau o gynulleidfaoedd yn rheolaidd i ddysgu am yr hyn maent yn ei hoffi, yr hyn nad ydynt yn ei hoffi, a'r hyn maent yn ei ddisgwyl gan y BBC. A defnyddiwn yr hyn a ddywedant wrthym i lywio'r rhaglenni a wnawn a'r gwasanaethau a gynigiwn.

Gall pobl gyfrannu at y BBC mewn ffyrdd eraill hefyd. Gallant bleidleisio yn ein sioeau adloniant megis *I'd Do Anything*, cymryd rhan mewn cystadlaethau (mabwysiadodd y BBC ganllawiau newydd yn ystod y flwyddyn yn dilyn camgymeriadau golygyddol drwy'r diwydiant), bod yn rhan o gynulleidfa stiwdio, mynd i ddigwyddiad – o berfformiad cerddorfaol i'r *World Music Awards*, cael gwybodaeth neu gymorth ar ôl rhai o'n rhaglenni, mynd ar daith o amgylch adeilad neu fynd i'n canolfannau agored. Mae miliynau o bobl yn cael profiad wyneb yn wyneb â ni bob blwyddyn, ac mae miliynau yn rhagor yn ffonio, yn anfon neges destun, yn ysgrifennu, yn anfon e-bost, yn anfon eu lluniau a'u fideos, neu'n cyfrannu ar un o'n blogiau niferus. Rydym yn ymrwymedig i wneud ein gorau i sicrhau bod pob un o'r profiadau hyn yn gadarnhaol.

## BBC GWYBODAETH

BBC Gwybodaeth yw'r porth rhithwir i'n cynulleidfa. Dros y 12 mis diwethaf ymdriniwyd â thros 1.1 miliwn o gysylltiadau gan y cyhoedd, yr oedd tua 70% – dros 750,000 – yn ddigymell. Roedd y gweddill yn gyswllt wedi'i gymell, megis y llinell weithredu a sefydlwyd ar gyfer *Sport Relief Presents Surviving Suicide* a roddodd fanylion sefydliadau sy'n cynnig help a chefnogaeth i unrhyw un ag iselder. Gwnaed bron 60% o'r cysylltiadau hyn dros y ffôn; atebwyd 91% o'r holl alwadau mewn 30 eiliad.

## YMATEB I GWYNION

Yn 2007/08 ymdriniwyd â thua 124,000 o gwynion digymell. Atebwyd 93% o gwynion o fewn deg diwrnod gwaith. Ceir tystiolaeth i awgrymu mai gweithgarwch lobïo gan nifer o wefannau Twrcaidd a sbardunodd y nifer fwyaf o gwynion ar un mater – atebwyd dros 11,500 o gwynion am y ffaith nad oedd y BBC yn cyfeirio at y PKK fel sefydliad 'terfysgol'. Ymhlith y materion nodedig eraill roedd dileu'r adran meddyginiaeth gyflenwol ar bbc.co.uk, cwtogi perfformiadau byw ar *Live Earth*, a'r ffaith bod y BBC wedi colli'r hawliau i ddarlledu *Neighbours. EastEnders* oedd y rhaglen a gafodd y nifer fwyaf o gwynion yn ystod y flwyddyn: 5,500, a oedd yn fwy na dwbl nifer unrhyw raglen arall. Mae timau cynhyrchu yn ystyried adborth o bob math yn ddifrifol.

## BBC GWYBODAETH: LLINELL WEITHREDU

Mae'r Llinell Weithredu yn darparu ffynonellau pellach o help a gwybodaeth am faterion gweithredu cymdeithasol. Yr ymgyrch a gafodd yr ymateb mwyaf y llynedd oedd ymgyrch rhyw diogel Radio 1, ar y cyd â 1Xtra. Cafwyd bron 33,000 o geisiadau dros y ffôn a thros e-bost.

## CYNULLEIDFAOEDD STIWDIO

2007/08 oedd ein blwyddyn brysuraf hyd yma o ran sioeau radio a theledu rhwydwaith a recordiwyd yn fyw o flaen cynulleidfaoedd – cafwyd cyfanswm o 850, a oedd 50 yn fwy na'r flwyddyn gynt. Cafodd y rhan fwyaf o'r 193,104 o aelodau cynulleidfa hyn eu recriwtio gennym ni ein hunain, gan ddefnyddio system dewis ar hap newydd. Y sioeau teledu mwyaf poblogaidd eleni oedd *Strictly Come Dancing, I'd Do Anything, Later With Jools* ac, ar gyfer radio, *Friday Night is Music Night*. Mae sioeau comedi radio hefyd yn boblogaidd iawn. I gael newyddion am sioeau yn y dyfodol, ewch i www.bbc.co.uk/tickets

## TEITHIAU STIWDIO

Daeth 53,356 o ymwelwyr ar deithiau o'r Ganolfan Deledu'r llynedd, yr oedd 57% ohonynt o dan 18 oed. Yr elfennau rhyngweithiol a fwynhawyd gan yr ymwelwyr fwyaf – megis cwis (gyda gwobrau!) i'r oedolion a chyfle i chwarae *Raven* i'r plant – ac edrych o amgylch stiwdios gweithredol. Enillodd y teithiau ddwy wobr: daethant yn ail yng Ngwobrau Cenedlaethol Teithiau Grŵp – Cwmni/Lleoliad Gorau sy'n Cynnig Teithiau Tywys 2007, a'r Profiad Gorau i Dwristiaid yng Ngwobr Arian Llundain 2007. Dywedodd 95% o'r ymwelwyr a holwyd y byddent yn argymell y daith i ffrind ac roedd 70% yn ystyried y BBC yn fwy ffafriol ar ôl bod ar daith. Ewch i www.bbc.co.uk/tours

## GWEITHGAREDDAU ALLGYMORTH ERAILL

Ymhlith y gweithgareddau eraill y llynedd roedd *Schools Question Time*, lle cyfrannodd myfyrwyr ysgol at gynhyrchu rhifyn o'r rhaglen ar BBC One, a *BBC Stringers* a *Making It* lle cynhyrchodd aelodau cynulleidfa allbwn a hyd yn oed redeg rhai o weithrediadau'r BBC am ddiwrnod – BBC Berkshire a BBC South oedd rhanbarthau cynnal 2007 – o dan lygad barcud Rheolwr Rhanbarthau Lloegr, Andy Griffee.

Ymwelodd BBC Newyddion a Chwaraeon ar Daith â digwyddiadau ledled y DU unwaith eto mewn mannau megis Abertawe, Cofentri, Nottingham a Glasgow. Roedd y Daith yn gyfle i ymwelwyr roi cynnig ar ddarllen y newyddion ar y teledu neu'r radio yn ein stiwdios arbennig. Roedd hefyd yn gyfle iddynt roi cynnig ar rai o'r rolau technegol sydd ynghlwm wrth ddarlledu rhaglenni a gweld rhai o'n gwasanaethau rhyngweithiol. Roedd rhai o'r prif gyflwynwyr teledu a radio cenedlaethol a rhanbarthol yno i roi cyngor a rhannu awgrymiadau. Gallai cyfranogwyr ysgrifennu straeon ar gyfer allbwn ar-lein hefyd a chafodd gwaith rhai o'r 'cyw ohebwyr' gorau ei ddefnyddio ar gyfer allfeydd newyddion lleol a chenedlaethol ar draws pob cyfrwng.


Mae'r BBC yn cynnig amryw brofiadau bob blwyddyn. Nid oes yr un flwyddyn yr un fath.

## FFEITHIAU A FFIGURAU RHAGLENNI

Yn bennaf, fodd bynnag, mae pobl yn cysylltu â'r BBC drwy ein rhaglenni a'n gwasanaethau. Mae'r siartiau canlynol yn dangos sut rydym wedi perfformio gyda chynulleidfaoedd dros y flwyddyn ddiwethaf. (Ffynonellau: BARB a Rajar)



46,000




Isdeitlwyd dros 46,000 o oriau o raglennu gennym.

Gyda'i gilydd mae 93% o'r boblogaeth yn gwylio, yn defnyddio neu'n gwrando ar wasanaethau'r BBC – ni chafwyd newid sylweddol o gymharu â pherfformiad cyrhaeddiad y flwyddyn flaenorol (92.5%) ac mae'r ffigur yn rhagori o hyd ar y targed a bennwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC (90%). Mae gwasanaethau'r BBC mewn teledu a radio yn perfformio'n gryf yn erbyn darparwyr eraill. Gweler yr arolygon o wasanaethau sy'n dechrau ar dudalen 29 am gyrhaeddiad unigol pob gwasanaeth.

Y llynedd roedd gan y BBC gyfran o 33.8% o'r farchnad deledu, a chyfran o 55.2% o'r farchnad radio. Ar y cyd, roedd gennym gyfran wythnosol o 42.2% ar gyfartaledd – tua'r un faint â'r flwyddyn flaenorol (42.6%). Mae ein holl sianelau teledu digidol wedi dangos cynnydd, sydd i'w ddisgwyl wrth i deuluoedd symud iddynt. Mae'r siartiau hyn yn dangos y ganran o'r gyfran fesul gwasanaeth.


**Siart 1: Cyrhaeddiad Gwasanaethau Gweledol y BBC yn erbyn prif grwpiau cystadleuol y DU, %**

**2007/08** 2006/07





**Siart 2: Cyrhaeddiad Sain a Cherddoriaeth y BBC yn erbyn prif grwpiau cystadleuol y DU, %**

**2007/08** 2006/07





**Siart 3: Cyfran Gwasanaethau Gweledol y BBC fesul gwasanaeth, %**


**2007/08** 2006/07





**Siart 4: Cyfran Sain a Cherddoriaeth y BBC fesul gwasanaeth, %**

**2007/08** 2006/07





# 42.3%



Cyfran gyfunol cynulleidfaoedd teledu
a radio r BBC.


Mae'r BBC yn ymrwymedig i sicrhau bod ei raglenni mor hygyrch â phosibl i bob grŵp cynulleidfa. Yn 2007/08 rhagorwyd ar ein holl dargedau mynediad.

Isdeitlwyd dros 46,000 o oriau o raglennu gennym – gwelir cynnydd bob blwyddyn, ac rydym yn rhagweld y byddwn yn cyflawni ein targed o 100% erbyn 2008/09. Nid yw BBC Parliament a BBC HD yn destun targedau Ofcom, ond er hyn ychwanegwyd 1,388 o oriau cyfunol.


Cynyddodd ein targed ar gyfer disgrifiadau sain ar raglenni o 8% i 10% eleni. Nid yw'r targed hwn yn berthnasol i BBC News oherwydd natur ei hallbwn newyddion treigl, ac nid yw'n berthnasol i BBC Parliament, BBCi a BBC HD oherwydd maint y gynulleidfa.

Mae'r un eithriadau yn berthnasol i arwyddeg lle y cynyddodd ein targed o 4% i 5% ym mis Tachwedd. Rhagorodd yr holl wasanaethau perthnasol ar y cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn (4.4%).


**Siart 5: Rhaglenni ag Isdeitlau, fesul gwasanaeth, %***




**Siart 6: Rhaglenni â Disgrifiadau Sain, fesul gwasanaeth, %***




**Siart 7: Rhaglenni â gwasanaeth Arwyddeg, fesul gwasanaeth, %***




** Yn seiliedig ar 52 o wythnosau, nid ar flwyddyn gyfan.*

# BBC People

"Mae'r BBC yn lle dynamig i weithio ynddo, lle nad yw pobl byth yn rhoi'r gorau i ddysgu a lle y gallant ymestyn eu creadigrwydd, eu dychymyg a'u harbenigedd i greu cynnwys a gwasanaethau y mae ein cynulleidfaoedd yn eu caru a'u gwerthfawrogi."

Stephen Kelly
**Cyfarwyddwr BBC People**



30 MILIWN



Nifer yr ymweliadau â n gwefan cyflogaeth.

Gyda thros 24,000 o bobl mewn 43 o wledydd, dros 100,000 o geisiadau am swyddi y llynedd, a thua 30 miliwn o ymweliadau â'n gwefan cyflogaeth (www.bbc.co.uk/recruitment), mae'r BBC yn cymryd y broses o recriwtio, cadw a hyfforddi staff o ddifrif.

Mae'r map canlynol yn rhoi cipolwg ar ble roedd staff y BBC yn y DU sy'n gweithio yn ein swyddogaethau darlledu a chymorth wedi'u lleoli ar 31 Mawrth 2008. (Gweler nodyn 4a i gael y cyfartaledd ar draws y flwyddyn.)

**Map 1: Staff UK PSB fesul Gwlad (cyfwerth ag amser llawn), %**



| | **07/08** | 06/07 |
|---|---|---|
| Lloegr (heb gynnwys Llundain) | **24** | 24 |
| Llundain (rhanbarthol yn unig) | **57** | 56 |
| Yr Alban | **8** | 8 |
| Cymru | **8** | 8 |
| Gogledd Iwerddon | **4** | 4 |

Cwblhawyd ymgynghoriad pwysig ym mis Ebrill 2007, pan lansiwyd Strategaeth Pobl newydd, sy'n cynnwys pum thema strategol sydd â'r nod o ryddhau blaenoriaethau busnes lleol a chorfforaethol ym mhob un o grwpiau busnes y BBC – Gwasanaethau Gweledol, Sain a Cherddoriaeth, Newyddiaduraeth, Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol, a gwasanaethau canolog a masnachol:

- **Cydarweinyddiaeth:** Rydym am sicrhau bod gan reolwyr y sgiliau i feithrin diwylliant o greadigrwydd, cywirdeb a natur agored o ran safonau ac ansawdd golygyddol ble bynnag y byddant yn gweithio. Er mwyn datblygu gallu i reoli, cyflwynwyd rhaglen hyfforddi arweinyddiaeth newydd, Leadership Essentials, ym mis Hydref, a chyflwynwyd Arolwg Staff newydd ym mis Ebrill 2008 i'n helpu i gael adborth dilys gan staff yn ogystal â deall eu hagweddau a'u dyheadau, a thrwy hynny gydweithio. Disgwylir gweld y canlyniadau cyntaf ym mis Mehefin 2008.

- **Meithrin y sgiliau a'r talent cywir ar gyfer BBC sy'n newid:** Eleni cyflwynodd y BBC raglen ail-flaenoriaethu eang. Arweiniodd hyn at fwy na 2,000 o swyddi yn cael eu colli neu eu dileu (a gyflawnir erbyn 2010) – yn ogystal â chreu 800 o rolau newydd, llawer ohonynt yn y cyfryngau newydd a meysydd aml-lwyfan wrth i ni gwblhau ein paratoadau ar gyfer DU ddigidol. Mae tua 400 o unigolion yn cael eu hadleoli o fewn y busnes er mwyn meithrin sgiliau newydd a fydd o fudd i'r BBC a'i gynulleidfaoedd.

- **Gwobrwyo perfformiad:** Recriwtio'r bobl gywir, ac yna eu gwobrwyo'n briodol – dyna hanfod annog a chyflawni perfformiad gwych. Un elfen yn ein dull newydd o reoli perfformiad gwirioneddol yw'r Adolygiadau Datblygiad, Potensial a Pherfformiad i Uwch Reolwyr a gynhelir ar draws y BBC eleni, ac a gyflwynir i weddill y staff y flwyddyn nesaf. Hefyd lansiwyd gwasanaeth ar-lein newydd gennym ar gyfer Buddiannau Hyblyg o'r enw myReward sy'n galluogi staff yn y DU i ddewis sut i reoli eu buddiannau eu hunain fel hawl i wyliau a chyfraniadau pensiwn.

  Cyflog yw'r brif ffordd o wobrwyo staff. Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer Uwch Reolwyr y BBC a chyfanswm eu cyflog llawn amser ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008. Cyfrifwyd cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer staff rhan amser. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys staff gwasanaethau cyhoeddus a'r meysydd masnachol, heb gynnwys staff ar gyfnod mamolaeth neu absenoldeb di-dâl ar y dyddiad hwnnw.

**Tabl 1 Nifer yr Uwch Reolwyr fesul band cyflog**

| Band cyflog | Cyfanswm |
|---|---|
| O dan £70,000 | 72 |
| £70,000 i £99,999 | 329 |
| £100,000 i £129,999 | 171 |
| £130,000 i £159,999 | 89 |
| £160,000 i £189,999 | 44 |
| £190,000 i £219,999 | 15 |
| £220,000 i £249,999 | 11 |
| £250,000+ | 13 |
| Cyfanswm | 744 |

*(Nodyn: cafodd 5 rheolwr eu gadael allan o'r tabl a gyhoeddwyd yn wreiddiol mewn camgymeriad.)*



£43 MILIWN



Buddsoddiad mewn hyfforddiant eleni.

- **Gosod y sylfeini:** rydym yn ymrwymedig i barhau i wella sut rydym yn gwneud pethau, sicrhau bod ein prosesau a'n systemau yn syml, yn glir ac yn dryloyw i'r aelodau hynny o staff sy'n delio gyda ni. Eleni atgyfnerthwyd ein prosesau uno (yn cynnwys hawl i weithio, gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a chydymffurfiad golygyddol), ac ailystyriwyd rhai o'n polisïau cyflogaeth (gan ddiweddaru ein polisïau Cwyno, Gallu ac Ymddygiad, a Bwlio a Disgyblu).

  Fel rhan o'i swyddogaeth, adolygodd BBC People ei fodel gweithredu hefyd er mwyn sicrhau gwasanaeth mwy effeithiol i gwsmeriaid.

  Adolygwyd ein cydberthynas â Capita, ein partner Adnoddau Dynol ar gyfer recriwtio allanol, ac ar hyn o bryd maent yn gweithio ar Gynllun Gwella Gwasanaeth i wella eu gallu o ran darparu gwasanaethau. Ein huchelgais ar y cyd yw cydweithio i gryfhau'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt i ni.

- **Newid sut rydym yn gweithio:** Mae BBC People yn gweithio i ddarparu 'Cynnig Gwerth Cyflogeion' newydd i'r BBC, gan gynnwys Salford (mediacity:uk) a Llundain (safleoedd W1 a W12). Rydym am sicrhau bod y BBC yn lle creadigol i weithio ynddo, a fydd yn rhoi gwerth gwirioneddol i dalwyr ffi'r drwydded a buddiannau i gynulleidfaoedd drwy gynnig y rhaglenni a'r cynnwys gwych a ddaw yn sgîl hynny.

### HYFFORDDI A DATBLYGU

Ar draws y sefydliad, mae hyfforddiant yn hanfodol ar gyfer ein strategaeth pobl sy'n esblygu. P'un a yw'n brofiad personol wythnos o hyd ar arweinyddiaeth neu'n gwrs gloywi ar-lein am 30 munud ar iechyd a diogelwch, mae'n bwysig bod ein staff yn cael hyfforddiant a chymorth hyfforddiant priodol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau.

Y llynedd darparwyd yr hyn sy'n cyfateb i 70,490 o ddiwrnodau hyfforddiant i 63,487 o bobl, llawer ohonynt o'r sector annibynnol a'r diwydiant cyfryngau ehangach.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn amrywiaeth o fentrau sydd â'r nod o gynorthwyo ffyrdd newydd o weithio o fewn amgylchedd aml-lwyfan digidol, ac mae ein hwyluswyr hyfforddiant mewnol yn mynd o amgylch y BBC yn annog pobl i greu syniadau ar draws y sefydliad ac yn hwyluso'r broses hon.

Fel y nodwyd mewn mannau eraill, cyflwynwyd Safeguarding Trust i 17,000 o aelodau o staff mewn 6 mis ac mae bellach yn cael ei gyflwyno i'r sector annibynnol.

Gwariwyd dros £43 miliwn gennym ar hyfforddiant eleni.

### AMRYWIAETH


Mae'n hanfodol cael amrywiaeth o brofiad a rhagolygon er mwyn sicrhau creadigrwydd – daw safbwyntiau gwrthgyferbyniol at ei gilydd mewn un cyfanwaith. Ac felly mae'n bwysig bod y BBC yn cyflogi pobl sydd â phrofiadau, cefndiroedd a safbwyntiau gwahanol. Mae'n ein helpu i gyflawni ein pwrpas cyhoeddus o adlewyrchu'r DU yn ei chymunedau amrywiol.

Eleni cyhoeddwyd rhaglen 3 blynedd o fuddsoddi a gweithgarwch gennym i sicrhau bod gweithlu'r BBC yn fwy amrywiol byth ar bob lefel. Un o'r mentrau oedd cynllun hyfforddiant newyddiaduraeth newydd, a lansiwyd ym mis Ionawr. Hefyd, bydd hyd at 50 o lefydd ar gael dros y tair blynedd nesaf ar Extend, ein cynllun lleoliad gwaith i bobl ag anableddau, sydd bellach yn ei 11eg blwyddyn.

Mae tua hanner gweithlu'r BBC yn ferched. Ar 31 Mawrth 2008, roedd 10.9% o'r staff yn y DU yn bobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig (yn cynnwys 5.1% sy'n uwch reolwyr); ac roedd 4.7% wedi datgan bod ganddynt anabledd.




5.1%



Cyfran yr uwch reolwyr yn y BBC sy n bobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig.

**Siart 8: Staff sy'n Bobl Dduon ac o Leiafrifoedd Ethnig, % o'r cyfanswm**

| | |
|---|---|
| 2008 | **10.9** |
| 2007 | 10.3 |
| 2006 | 9.9 |

**Siart 9: Staff anabl, % o'r cyfanswm**

| | |
|---|---|
| 2008 | **4.7** |
| 2007 | 2.8 |
| 2006 | 2.8 |

Yn gyffredinol mae ymateb oedolion sy'n bobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig i'r BBC yn gadarnhaol, sy'n debyg iawn i ymateb oedolion yn y DU yn gyffredinol.

## RHEOLI RISG ALWEDIGAETHOL

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gyfrifol am sicrhau bod gan y sefydliad bolisi iechyd a diogelwch a'i fod yn cydymffurfio ag ef. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo strategaethau ac yn monitro perfformiad. O ddydd i ddydd, mae rheolwyr lleol yn gyfrifol am weithgareddau a reolir ganddynt. Ein nod yw rhoi amgylchedd iach a diogel i'n cyflogeion, y bobl yr ydym yn cydweithio â hwy a'r rhai sy'n ymweld â ni.

Mae'r Pwyllgor Ymgynghori Corfforaethol ar Iechyd, Diogelwch a Lles yn cynnwys uwch reolwyr a chynrychiolwyr diogelwch. Ymgynghorir â staff drwy sesiynau briffio tîm rheolaidd a fforymau diogelwch lleol.

Ymysg y risgiau a wynebir gan staff o ddydd i ddydd mae straen, sŵn, codi a chario pethau a gyrru yn ogystal â risgiau sy'n gysylltiedig â ffilmio mewn stiwdio ac ar leoliad, a digwyddiadau mawr yn yr awyr agored. Yn aml mae newyddiadurwyr dramor yn gweithio mewn sefyllfaoedd gelyniaethus – y llynedd daliwyd Alan Johnston yn gaeth yn Gaza am 114 o ddiwrnodau, ac mae gennym newyddiadurwyr mewn amgylcheddau gelyniaethus drwy'r amser yn cynnwys Irac ac Affganistan. Rydym yn rhoi cymorth arbenigol i staff sy'n gweithio mewn mannau lle ceir brwydro ac amgylcheddau peryglus eraill.

Mae'r BBC yn ymrwymedig i leihau'r canlynol (ar lefelau 2000 ac erbyn 2010):

- cyfradd y digwyddiadau hysbysadwy 60%
- nifer y diwrnodau gwaith a gollir oherwydd anaf a salwch sy'n gysylltiedig â gwaith 30%
- cyfradd yr achosion o salwch sy'n gysylltiedig â gwaith 20%

Ac eleni:

- gostyngodd cyfradd y digwyddiadau hysbysadwy o 277 i 132 fesul 100,000 o staff (gostyngiad o 53%)
- 101,700 o ddiwrnodau o absenoldeb a gofnodwyd
- gostyngodd cyfradd yr achosion o salwch tybiedig yn gysylltiedig â gwaith o 23 fesul 1,000 yn 2000 i 2.72 fesul 1,000 y llynedd, yn bennaf oherwydd straen, niwed i'r dwylo, y fraich neu'r ysgwydd a phroblemau cyhyrysgerbydol eraill. Cyflwynwyd system gofnodi newydd a fydd yn sicrhau y gellir monitro'n fwy cyson dros amser.

Ni chafwyd unrhyw farwolaethau.

### Gorfodi

Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi. Cafodd y BBC adroddiad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a dynnodd sylw at ddiffygion mewn prosesau rheoli ac arferion. Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi amlinellu cynllun i fynd i'r afael â'r rhain. Caiff cysylltiad ag awdurdodau gorfodi ei fonitro'n gyson gan y Bwrdd Gweithredol.

### Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch

Cofnodwyd i 7,346 o bobl gael hyfforddiant diogelwch wyneb yn wyneb; a chwblhawyd tua 8,000 o gyrsiau ar-lein.

Rydym yn aelod o'r Cydgynllun Graddio Diwydiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym meysydd Styntiau ac Effeithiau Arbennig yn y DU. Rydym yn gweithio gyda darlledwyr eraill a Skillset i weithredu cynllun pasbort diogelwch er mwyn darparu hyfforddiant diogelwch trosglwyddadwy i sector y cyfryngau.

# Gweithrediadau

"Mae'r BBC – fel sefydliad ac ar lun yr unigolion sy'n cyflawni tasgau dirifedi bob diwrnod yn ei enw – yn cydnabod bod ganddo ddyletswydd i ymddwyn yn briodol. Mae'n rhaid i ni ofalu nad ydym yn defnyddio ein sefyllfa freintiedig, yn fwriadol neu'n anfwriadol, i roi eraill rydym yn cystadlu â hwy neu'n trafod busnes gyda hwy, dan anfantais annheg."

Caroline Thomson
**Prif Swyddog Gweithredu**



# 90%




Daw dros 90% o drydan y BBC o ffynonellau carbon isel.

Gwneir llawer o waith y tu ôl i'r llenni i sicrhau y gall y BBC ddarparu'r rhaglenni a'r gwasanaethau ardderchog y mae cynulleidfaoedd yn eu caru, ac sy'n eu denu yn ôl atom dro ar ôl tro.

Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i ni ddeall yr hyn sy'n digwydd gyda thechnoleg yn yr amgylchedd darlledu, a sicrhau bod y BBC mewn sefyllfa i ymateb. Wrth i ni weithio allan beth yw'r ffordd orau o wneud hyn, mae'n rhaid i ni ystyried ein cyfranddeiliaid, yr effaith a gawn ar y farchnad, a sut rydym yn sicrhau bod ein holl weithgareddau – rhaglenni neu wasanaethau newydd – yn unol â'r gyfraith a'r strwythur rheoliadol rydym yn gweithredu ynddi. Wrth sicrhau bod y BBC yn barod ar gyfer y dyfodol, mae'n rhaid i ni reoli'r prosiectau seilwaith pwysig a fydd yn trawsnewid y ffordd y mae pobl yn defnyddio cynnwys teledu a radio, yn ogystal â'r ffordd rydym yn gweithio.

Mae newid i ddigidol yn allweddol i'r hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd. Mae'n nodi'r terfynau amser ar gyfer ein gweithredoedd a'n penderfyniadau, yn ogystal â chynnig disgwyliadau penodol i'n cynulleidfaoedd.

Ac felly rydym wrthi'n trawsnewid ein hamgylchedd gwaith i newid i ddiwallu anghenion yr oes ddarlledu ddigidol. Rydym eisoes wedi cwblhau canolfan ddarlledu yn Pacific Quay yn Glasgow, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ailadeiladu rhan o'n heiddo yng nghanol Llundain a chreu canolfan newydd yn Salford, ble y bydd tua 1,600 o swyddi yn symud o Lundain i ymuno â thua 800 o aelodau o staff a leolir ym Manceinion ar hyn o bryd.

Rydym yn ceisio cynorthwyo ein holl staff, ble bynnag maent yn gweithio, i'w galluogi i wneud eu gorau dros ein cynulleidfaoedd. Rydym yn helpu'r BBC i weithredu, o wasanaethau arlwyo i adeiladu a meysydd parcio i wasanaethau glanhau. A gwnawn hynny yn y ffordd fwyaf effeithlon sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Daw dros 90% o drydan y BBC o ffynonellau carbon isel.

Yn yr adran hon, byddwn yn egluro sut rydym yn cyflawni ein gweithgareddau – y rhwymedigaethau masnachu a chydymffurfio allweddol a'r polisïau sy'n llywio ein gweithredoedd a'n penderfyniadau.

Yna byddwn yn cofnodi rhai o'r ffeithiau a ffigurau a fesurwyd gennym eleni er mwyn dangos sut a ble rydym wedi gwario ein harian – mae ffigurau cynulleidfaoedd yn yr adran Ymgysylltu â Chynulleidfaoedd (tudalen 54) yn dangos ochr arall y geiniog, pa mor dda y gweithiodd hyn i'n cynulleidfaoedd. Mae'r cymariaethau amrywiol o 2006/07 wedi'u hailddatgan i gydymffurfio â'r gofynion a'r diffiniadau cyflwyno diwygiedig.

Ac yn olaf byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein perfformiad yn erbyn ein haddewidion i wylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr yn y Datganiadau o Bolisi Rhaglenni y llynedd. Cyhoeddwyd Datganiadau newydd ar gyfer 2008/09 ym mis Mai, a gellir eu gweld yn www.bbc.co.uk/info/statements2008/

## POLISI A CHYDYMFFURFIAD MASNACHU TEG

Mae'n rhaid i'r BBC weithio i sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau Masnachu Teg fel y'u nodir yn y Siarter, y Cytundeb a Datganiad Polisi Ymddiriedolaeth y BBC ar Fasnachu Teg. Crynhoir y rhwymedigaethau hyn yng Nghanllawiau Masnachu Teg y BBC sy'n darparu fframwaith gweithredol manwl ar gyfer ein gweithgareddau masnachol. Mae'r rhain ar gael yn www.bbc.co.uk/info/policies/commercial_guides/


Goruchwyliwyd cydymffurfiad â'r Canllawiau Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn drwy is-bwyllgorau ffurfiol Ymddiriedolaeth y BBC (Pwyllgor Gwerth Cyhoeddus a Masnachu Teg o fis Ionawr 2008 a Phwyllgor Polisi Masnachu Teg ac Apeliadau yn ystod y cyfnod blaenorol) a'r Bwrdd Gweithredol (Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol).

Daeth trefn Masnachu Teg ddiwygiedig i rym ar 1 Gorffennaf 2007 yn cynnwys gweithdrefnau wedi'u diweddaru a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfeirio materion at yr adran Masnachu Teg ganolog i gael cyngor ar Fasnachu Teg. Yn flaenorol, ymdriniwyd â materion o'r fath yn y lle cyntaf gan staff a hyfforddwyd yn lleol. Yn ystod y cyfnod hwn o newid, mae'r BBC wedi cymhwyso cyfuniad o'r gweithdrefnau hyn. Ar ôl adolygu'r mater, mae'r BBC yn fodlon bod y dull hwn wedi gweithio'n effeithiol i sicrhau bod ei rwymedigaethau Masnachu Teg wedi'u bodloni'n gyffredinol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2007 a 31 Mawrth 2008. Bydd y BBC yn gweithredu'r gweithdrefnau a ddiweddarwyd yn llawn ar gyfer y cyfnod sydd i ddod.

Yn dilyn adroddiad gan PricewaterhouseCoopers LLP (PwC), a gomisiynwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC, ar agweddau economaidd ar Wasanaethau Cyfradd Premiwm, daeth Ymddiriedolaeth y BBC i'r casgliad bod achosion lle na chafwyd contractau ffurfiol rhwng gwasanaeth cyhoeddus y BBC ac un o'i is-gwmnïau masnachol ar gyfer cyflenwi Gwasanaethau Cyfradd Premiwm. Ar ôl adolygu'r mater, mae Bwrdd Gweithredol y BBC yn fodlon nad oedd y mater yn achos perthnasol o dorri'r Canllawiau Masnachu Teg a chymerwyd camau i sicrhau bod contractau bellach ar waith ym mhob achos o'r fath. Mae'r rheolwyr hefyd yn bwriadu gwella prosesau presennol ymhellach er mwyn sicrhau bod contractau ffurfiol ar waith ar gyfer unrhyw weithgareddau masnachu rhwng gwasanaeth cyhoeddus y BBC a'i is-gwmnïau masnachol.

### Archwiliad Masnachu Teg Blynyddol

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn comisiynu archwilwyr annibynnol PwC LLP i gynnal archwiliad Masnachu Teg blynyddol i benderfynu a yw'r BBC wedi sefydlu a chymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â'r Polisi Masnachu Teg. Ceir manylion yr archwiliad a'r farn yn www.bbc.co.uk/bbctrust/research/index.html



80%




Cafodd cynllun cyhoeddiadau ar lein y BBC bron i 2.4 miliwn o ymweliadau yn ystod y flwyddyn (80% yn fwy na 2006/07).

**Achrediad ISO**
Achredwyd y broses o reoli trefniadau masnachu teg y BBC â safon ansawdd ISO 9001:2000. Caiff perfformiad yn erbyn y safon hon ei brofi'n rheolaidd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig. Cadarnhaodd yr asesiad diweddaraf, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2007, fod y gweithdrefnau yn parhau i weithredu'n effeithiol.

**PEDWAR MAEN PRAWF MASNACHOL**
Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Gweithredol y BBC sicrhau bod pob un o'i Wasanaethau Masnachol yn bodloni'r pedwar maen prawf masnachol. Rhaid iddynt sicrhau:

(i) eu bod yn cydweddu i weithgareddau Pwrpasau Cyhoeddus y BBC
(ii) eu bod yn dangos effeithlonrwydd masnachol
(iii) nad ydynt yn gosod enw da'r BBC na gwerth brand y BBC yn y fantol
(iv) eu bod yn cydymffurfio â'r Canllawiau Masnachu Teg, ac yn arbennig, osgoi effeithio'n andwyol ar y farchnad.

Ar ôl derbyn adroddiadau gan yr uwch reolwyr perthnasol, mae Bwrdd Gweithredol y BBC yn fodlon bod pob un o'i wasanaethau masnachol wedi bodloni'r meini prawf uchod yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2007 i 31 Mawrth 2008.

**Cwynion Masnachu Teg**
Mae'r BBC yn gweithredu fframwaith cwynion ac apeliadau Masnachu Teg sy'n gwahanu'r broses o ymdrin â chwynion, y byddai Bwrdd Gweithredol y BBC yn ymchwilio iddynt, a'r broses apeliadau, y byddai Ymddiriedolaeth y BBC yn ymgymryd â hi. Ceir canllawiau cyhoeddus ar y broses cwynion ac apeliadau yn www.bbc.co.uk/bbctrust/appeals/index.html

Ymdriniodd y BBC ag 11 cwyn Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd apêl i Ymddiriedolaeth y BBC mewn perthynas ag un gŵyn. Ceir manylion am y materion hyn ym Mwletin Masnachu Teg y BBC www.bbc.co.uk/info/policies/fairtrading_complaints/ ac ar dudalen apeliadau'r Ymddiriedolaeth www.bbc.co.uk/bbctrust/appeals/fair_trading_appeal_findings.html

**Adroddiad y Bwrdd Gweithredol ar Brotocolau Masnachu BBC World Service**
Mae BBC World Service yn prynu rhaglenni a gwasanaethau gan feysydd o'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded yn ogystal â'i is-gwmnïau masnachol.

Mae Canllawiau Masnachu Teg y BBC yn rhoi arweiniad ar y gydberthynas fasnachu hon er mwyn sicrhau blwch rhwng incwm Cymorth Grant ac incwm ffi'r drwydded.

Fel sy'n ofynnol gan y Canllawiau Masnachu Teg, comisiynodd Bwrdd Gweithredol y BBC adroddiad gan archwilwyr allanol ar gydymffurfiad y BBC yn y maes hwn. Canfu'r adroddiad archwilio gydymffurfiad o ran ymddygiad y BBC. Ceir manylion pellach www.bbc.co.uk/worldservice/us/annual_review/2008/wstp.shtml

**CYDYMFFURFIAD**
**Rhyddid gwybodaeth**
Cafodd cynllun cyhoeddi ar-lein y BBC bron 2.4 miliwn o ymweliadau yn ystod y flwyddyn (80% yn fwy na 2006/07), a llwythwyd bron 1.7 miliwn o ddogfennau i lawr (dwbl y flwyddyn flaenorol).

Cawsom 1,066 o geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Rhyddhawyd y wybodaeth i gyd neu ran o'r wybodaeth mewn 651 (61%) o geisiadau. Ymatebwyd i 88% o geisiadau o fewn y terfyn amser statudol o 20 diwrnod gwaith, neu estynnwyd y terfyn amser yn ddilys o dan y Ddeddf.

Yn ystod y flwyddyn, y chwe maes y derbyniwyd y nifer fwyaf o geisiadau mewn perthynas â hwy oedd:
- Arian a wariwyd ar dacsis a hediadau
- Costau yr aethpwyd iddynt wrth gasglu ffi'r drwydded
- Cyflog a threuliau staff
- Technoleg y Dyfodol
- Manylion am eiddo a gwasanaethau eiddo'r BBC
- Demograffeg staff y BBC (rhaniadau o ran rhyw a lleiafrifoedd ethnig)

Yn ogystal, gwnaed 37 o geisiadau i gynnal arolygon mewnol o benderfyniadau Rhyddid Gwybodaeth y BBC, a chyfeiriwyd 53 o achosion i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Ceir rhagor o wybodaeth am y materion hyn a gweithgarwch Rhyddid Gwybodaeth arall y BBC yn www.bbc.co.uk/foi

**Diogelu data**
Derbyniodd y BBC 34 o Geisiadau ffurfiol gan Wrthrych Gwybodaeth i gael gweld y wybodaeth honno o dan y Ddeddf Diogelu Data. Ymdriniwyd â 27 ohonynt o fewn yr amserlen statudol o 40 diwrnod. Ni chyfeiriwyd unrhyw achosion i'r ICO.

**Costau cydymffurfiad**
Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, aethom i gostau cydymffurfiad amcangyfrifedig o £15.3miliwn yn 2007/08 (£14.8miliwn yn 2006/07). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y ffi tanysgrifio flynyddol o £3.3miliwn i Ofcom.

**CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL CORFFORAETHOL**
Ymdrechwn i sicrhau bod Cyfrifoldeb Corfforaethol yn rhan annatod o bopeth a wnawn.

Yn yr un modd â chwmnïau eraill, mae ein gweithgareddau gweithredol yn cael effaith amgylcheddol ac effaith ar y cymunedau lle'r ydym yn gweithio, ac yn aml lle'r ydym yn byw hefyd. Mae cyrhaeddiad eang y cyfryngau a'u potensial i lywio barn y cyhoedd hefyd yn golygu bod gennym ni, ynghyd â chydweithwyr yn y diwydiant, gyfrifoldeb i ymateb i newidiadau mewn cymdeithas ac adlewyrchu ei hamrywiaeth.



793



O oriau o addysg ffurfiol ar draws
y pedair sianel teledu genre cymysg.

Defnyddiwn ein gwaith allgymorth i gysylltu â phobl nad ydym o bosibl yn cysylltu rhyw lawer â hwy drwy ein rhaglennu prif ffrwd. Roedd *Breathing Places*, er enghraifft, yn ategu'r gyfres o'r un enw a ddarlledwyd ar BBC Two a oedd yn dathlu bywyd gwyllt yn y DU. Y llynedd, cynhaliwyd gwyliau *Breathing Places* mewn 15 o ddinasoedd ledled y DU, a oedd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau i deuluoedd yn ymwneud â bywyd gwyllt. Fel rhan o *Breathing Places* lansiwyd *The Big Wild Read* hefyd, a oedd yn hyrwyddo llythrennedd ymhlith plant ac yn eu cael i feddwl am natur a'u heffaith ar eu hamgylchedd gwyllt. Ar gyfer pob llyfr a ddarllenwyd, derbyniodd y plant docyn coeden, a aeth tuag at blannu 20,000 o goed.

Mae *BBC School Report* yn helpu disgyblion Blynyddoedd 7 ac 8 i gynhyrchu eu hadroddiadau newyddion eu hunain. Ar ddiwrnod y School Report ym mis Mawrth, gwelwyd allbwn newyddion y BBC yn cynnwys adroddiadau gan fyfyrwyr o 300 o ysgolion yn y DU. Nod y prosiect yw gwella cynrychiolaeth pobl ifanc ac ysgogi diddordeb y genhedlaeth nesaf mewn gwleidyddiaeth – yn ogystal â chynhyrchu cynnwys diddorol ar gyfer y gynulleidfa ehangach.

Mae rhwydwaith o Bwyllgorau Cynghori ar Apeliadau annibynnol yn hysbysu rheolwyr y BBC am ei bolisïau a'i arferion o ran elusennau. Nid yw UK Public Service Broadcasting yn gwneud rhoddion ariannol i elusennau ond mae'n darparu gwasanaethau mewn da. Y llynedd, darparwyd gwasanaethau a oedd yn cyfateb i werth £296,000 (£305,000 yn 2006/07) i elusennau. Yn ogystal ag apeliadau darlledu, rhoddodd busnesau masnachol y BBC £180,000 i elusennau yn ystod y flwyddyn yn bennaf oherwydd ymrwymiadau'r caffaeliad newydd Lonely Planet (£12,000 yn 2006/07).

Eleni, cytunwyd hefyd ar ein strategaeth amgylcheddol pum mlynedd gyntaf. Mae'r strategaeth yn pennu targedau uchelgeisiol, ond cynaliadwy, i leihau ynni, trafnidiaeth, dŵr a gwastraff. Bwriedir cynnal rhaglen o weithgareddau i gynnwys staff ac ymgysylltu â hwy. Byddwn hefyd yn gwella'r broses o fesur a monitro data amgylcheddol ac yn ymgysylltu'n weithredol â'n cadwyn gyflenwi. Sefydlwyd Pwyllgor Amgylcheddol, dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredu, i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r strategaeth.

Gallwch ddarllen mwy am y mentrau hyn a sut rydym yn ymdrechu i fod yn gorfforaethol cyfrifol yn www.bbc.co.uk/outreach


## ADRAN GYFREITHIOL

Mae Cwnsler Cyffredinol y Grŵp yn paratoi adroddiad ar gydymffurfiad a gyflwynir bob chwarter i'r Bwrdd Gweithredol, a phob chwe mis i Ymddiriedolaeth y BBC. Fe'i cynlluniwyd i amlygu a nodi cydymffurfiad y BBC â'r prif gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio ar fusnes grŵp y BBC.

### Tabl 2: Oriau allbwn yn ôl genre

| | BBC One | | BBC Two | | BBC Three | | BBC Four | | BBC HD* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2007/08** | 2006/07 | **2007/08** | 2006/07 | **2007/08** | 2006/07 | **2007/08** | 2006/07 | **2007/08** | 2006/07 |
| Ffeithiol | **2,021** | 1,931 | **1,757** | 1,577 | **1,333** | 1,300 | **969** | 958 | **159** | 0 |
| Addysg (ffurfiol) | **6** | 5 | **785** | 1,374 | **0** | 0 | **2** | 10 | **0** | 0 |
| Newyddion a'r tywydd | **2,400** | 2,463 | **559** | 558 | **32** | 32 | **6** | 6 | **0** | 0 |
| Materion cyfoes | **206** | 212 | **260** | 283 | **126** | 114 | **194** | 212 | **0** | 0 |
| Adloniant | **481** | 435 | **681** | 662 | **1,170** | 966 | **274** | 321 | **72** | 0 |
| Chwaraeon | **603** | 707 | **951** | 921 | **25** | 24 | **0** | 0 | **20** | 0 |
| Plant | **496** | 479 | **1,619** | 1,462 | **0** | 0 | **0** | 0 | **10** | 0 |
| Drama | **1,114** | 1,088 | **322** | 226 | **329** | 390 | **340** | 358 | **213** | 0 |
| Ffilm | **690** | 662 | **819** | 701 | **184** | 227 | **204** | 202 | **40** | 0 |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | **109** | 82 | **315** | 324 | **71** | 75 | **1,251** | 1,132 | **122** | 0 |
| Crefydd | **105** | 116 | **30** | 27 | **5** | 2 | **15** | 36 | **8** | 0 |
| Parhad | **235** | 245 | **295** | 295 | **110** | 108 | **78** | 75 | **7** | 0 |
| **Cyfanswm Oriau Rhwydwaith (heb gynnwys rhaglenni eithrio)** | **8,466** | 8,425 | **8,392** | 8,410 | **3,384** | 3,238 | **3,332** | 3,310 | **652** | 0 |

* *Lansiwyd BBC HD ar 1 Rhagfyr 2007.*



367,478



Nifer yr oriau radio lleol a radio gwledydd gwreiddiol y llynedd.

Mae Cwnsler Cyffredinol y Grŵp yn rhoi sylwebaeth ar faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiad a allai godi ac yn llunio cynllun gweithredu sydd wedi'i gynllunio i unioni unrhyw faterion pan fyddant yn codi. Ymhlith y meysydd a gwmpesir gan yr adroddiad mae cydymffurfiad â chyfreithiau cyffredinol fel y Ddeddf Cwmnïau a chyfraith cystadleuaeth, a chyfreithiau a rheoliadau sy'n ymwneud yn benodol â darlledu a'r cyfryngau.

Roedd y materion a godwyd yn sgîl yr achosion amrywiol o dorri rheolau golygyddol yn 2007 a'r camau a gymerwyd gan reolwyr i sicrhau bod gwersi wedi'u dysgu o'r rhain yn un enghraifft o'r materion a gwmpaswyd eleni.

Ni chyhoeddir y ddogfen yn llawn nac yn rhannol gan y BBC ond fe'i defnyddir gan y rheolwyr fel dull mewnol o fesur a, lle y bo'n briodol, wella system cydymffurfiad a rheolaethau'r BBC. Mae Ymddiriedolaeth y BBC, yn ei thro, yn defnyddio'r adroddiad fel un dull o sicrhau bod y rheolwyr yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i gydymffurfiad â chyfreithiau a rheoliadau fel sy'n ofynnol.

Rydym hefyd yn rhedeg llyfrgell gyfreithiol ganolog ac yn trefnu hyfforddiant cyfreithiol a mathau eraill o hyfforddiant. Mae'r rhan fwyaf o'n sgyrsiau a'n seminarau mewnol yn agored i gymuned ehangach y BBC.

Mae adran gyfreithiol ar wahân yn gweithio gyda BBC Scotland, mewn cydnabyddiaeth o'r strwythur cyfreithiol gwahanol sydd ar waith yno.

**FFEITHIAU A FFIGURAU**

Nod y BBC yw sicrhau safonau moesegol a golygyddol uchel o ran ein holl allbwn drwy ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff cynhyrchu – yn y BBC yn ogystal â chynhyrchwyr annibynnol – lynu wrth Ganllawiau Golygyddol y BBC, a geir yn www.bbc.co.uk/guidelines/editorialguidelines. Mae'r rhain yn cynnwys adrannau perthnasol o God Darlledu Ofcom. Eleni cyhoeddwyd canllawiau newydd ar gyfer yr holl gystadlaethau, pleidleisiau a gwobrau sy'n ymwneud â'r gynulleidfa – gweler www.bbc.co.uk/guidelines/editorialguidelines/advice/interactivity/


Mae timau rhaglenni yn ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol hefyd a chynigir cyngor i'r timau hynny yn ystod y broses o gynhyrchu rhaglenniu a allai fod yn gynhennus, yn cynnwys allbwn sy'n ymwneud â ffilmio cudd. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud hyn yn iawn, o ystyried nifer ac amrywiaeth y rhaglenni a wneir gennym.

**Ble rydym yn buddsoddi ffi'r drwydded?**

Mae 8,760 o oriau yn y flwyddyn (ynghyd â 24 ychwanegol yn 2008 ar gyfer y flwyddyn naid) – ac mae BBC One a BBC Two, ein prif sianelau teledu genre cymysg ar yr awyr am y rhan fwyaf o'r amser hwnnw.


Un o bwrpasau cyhoeddus y BBC yw adlewyrchu'r cymunedau a'r lleoedd amrywiol yn y DU – ac un ffordd allweddol o wneud hyn yw gwneud rhaglenni mewn cymunedau lleol, lle'r ydym yn byw ac yn gweithio.

**Map 2: Ffynhonnell y darllediad cyntaf, oriau teledu**



| | 07/08 | 06/07 |
|---|---|---|
| Lloegr (heb gynnwys Llundain) | **5,732** | 5,559 |
| Llundain (rhanbarthol yn unig) | **327** | 313 |
| Yr Alban | **1,089** | 1,078 |
| Cymru | **873** | 922 |
| Gogledd Iwerddon | **690** | 675 |


**Map 3: Gwariant ar deledu'r BBC yn ôl gwlad, £Mau**



| | 07/08 | 06/07 |
|---|---|---|
| Lloegr | **339** | 325 |
| Yr Alban | **97** | 80 |
| Cymru | **60** | 61 |
| Gogledd Iwerddon | **38** | 32 |

Mae'r cymysgedd o raglenni hefyd yn gymhleth ar gyfer gwasanaethau Sain a Cherddoriaeth.

**Map 4: Ffynhonnell y darllediad cyntaf, oriau radio**



| | 07/08 | 06/07 |
|---|---|---|
| Lloegr (heb gynnwys Llundain) | **255,080** | 251,733 |
| Llundain (rhanbarthol yn unig) | **72,910** | 72,261 |
| Yr Alban | **13,588** | 13,799 |
| Cymru | **16,572** | 16,473 |
| Gogledd Iwerddon | **9,328** | 8,954 |




# £12,900



Cost newyddion a thywydd y BBC fesul awr ar gyfartaledd.

**Map 5: Gwariant ar radio'r BBC yn ôl gwlad, £Mau**



| | **07/08** | 06/07 |
|---|---|---|
| Lloegr (heb gynnwys Llundain) | **136** | 126 |
| Yr Alban | **33** | 27 |
| Cymru | **27** | 23 |
| Gogledd Iwerddon | **15** | 13 |

Yn ystod y flwyddyn, gwariodd y BBC £27miliwn ychwanegol hefyd ar ei wasanaethau ar-lein yn y gwledydd.

## Tabl 3: Oriau radio rhwydwaith allbwn yn ôl genre

| | Sianelau Analog y BBC | | Sianelau Digidol y BBC | | Cyfanswm y BBC | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2007/08** | 2006/07 | **2007/08** | 2006/07 | **2007/08** | 2006/07 |
| Cerddoriaeth | **23,270** | 23,409 | **17,454** | 17,634 | **40,724** | 41,043 |
| Newyddion a thywydd | **10,033** | 9,561 | **3,642** | 3,628 | **13,675** | 13,189 |
| Chwaraeon | **2,773** | 2,847 | **1,744** | 1,786 | **4,517** | 4,633 |
| Ffeithiol | **1,560** | 1,712 | **498** | 0 | **2,058** | 1,712 |
| Materion cyfoes | **1,589** | 1,691 | **1,186** | 1,233 | **2,775** | 2,924 |
| Drama | **1,185** | 1,137 | **3,475** | 3,558 | **4,660** | 4,695 |
| Y celfyddydau | **927** | 900 | **628** | 755 | **1,555** | 1,655 |
| Adloniant | **528** | 568 | **3,651** | 3,375 | **4,179** | 3,943 |
| Crefydd | **543** | 513 | **571** | 565 | **1,114** | 1,078 |
| Ysgolion | **168** | 168 | **0** | 0 | **168** | 168 |
| Plant | **24** | 42 | **1,349** | 1,460 | **1,373** | 1,502 |
| Cyflwyniadau | **730** | 670 | **1,170** | 1,068 | **1,900** | 1,738 |
| Rhaglenni eithrio i'r gwledydd | **258** | 220 | **0** | 0 | **258** | 220 |
| **Cyfanswm yr oriau** | **43,588** | 43,438 | **35,368** | 35,062 | **78,956** | 78,500 |

**Sut rydym yn buddsoddi ffi'r drwydded?**
Yr her, fodd bynnag, yw nid i wario'n unig, ond i fuddsoddi'n ddoeth. Fel y dengys y tablau canlynol, mae rhai genres rhaglenni yn costio mwy nag eraill – drama yw'r drutaf, tra ymddengys mai newyddion a'r tywydd yw'r rhataf oherwydd nifer yr oriau a wnawn ar draws ein portffolio. Mae'r ddau yn cyflawni agweddau gwahanol ar ein cenhadaeth i hysbysu, addysgu a diddanu – ac mae'r ddau yn rhoi gwahanol fath o werth i dalwyr ffi trwydded y BBC.

Mae'r broses o newid i ddigidol yn mynd rhagddi – rydym wedi ailddatgan rhifau'r llynedd i roi cyfrif am y ffordd newydd o gyflwyno'r wybodaeth hon, ac mae Tabl 4 yn dangos cost fesul awr rhaglenni yn ôl genre ar gyfartaledd ar draws ein sianelau teledu analog a digidol.



# 1c



Gyda chynulleidfaoedd mawr, mae n costio llai nag 1c fesul awr defnyddiwr i gynnig Radio 2.

**Tabl 4: Cost fesul awr rhaglenni teledu yn ôl genre**

| | Cost fesul awr, £000oedd | |
|---|---|---|
| | **2007/08** | 2006/07 |
| Ffeithiol a Dysgu | **111.1** | 103.1 |
| Addysg Ffurfiol | **130.0** | 70.2 |
| Newyddion a'r Tywydd | **12.9** | 12.7 |
| Materion Cyfoes | **104.2** | 100.9 |
| Adloniant | **207.4** | 216.3 |
| Chwaraeon | **154.7** | 161.7 |
| Plant | **99.2** | 82.5 |
| Drama | **473.7** | 474.5 |
| Ffilm | **129.3** | 199.8 |
| Cerddoriaeth a'r Celfyddydau | **98.1** | 99.9 |
| Crefydd | **102.6** | 111.9 |

Mae'n bwysig hefyd ein bod yn targedu ein buddsoddiad at ble mae'r cynulleidfaoedd. BBC One sy'n cael y cynulleidfaoedd mwyaf, ac felly hon yw'r sianel y buddsoddir ynddi fwyaf.

**Tabl 5: Cost fesul awr rhaglenni a chost fesul awr defnyddiwr yn ôl gwasanaeth**

| | Cost fesul awr, £000oedd | | Cost fesul awr defnyddiwr, £oedd | |
|---|---|---|---|---|
| | **2007/08** | 2006/07 | **2007/08** | 2006/07 |
| Sianelau teledu | | | | |
| BBC One | **76.7** | 79.4 | **0.07** | 0.07 |
| BBC Two | **43.5** | 42.6 | **0.07** | 0.07 |
| BBC Three | **28.5** | 28.7 | **0.13** | 0.16 |
| BBC Four | **14.3** | 15.0 | **0.17** | 0.21 |
| BBC HD | **5.2** | – | **dd/g*** | – |
| CBBC Channel | **8.2** | 9.0 | **0.10** | 0.15 |
| CBeebies | **3.5** | 3.0 | **0.02** | 0.02 |
| BBC News | **5.2** | 4.9 | **0.09** | 0.12 |
| BBC Parliament | **0.3** | 0.2 | **0.17** | 0.24 |
| BBCi | **2.3** | 2.2 | **0.04** | 0.04 |
| Gorsafoedd radio | | | | |
| BBC Radio 1 | **3.5** | 3.4 | **0.01** | 0.01 |
| BBC Radio 2 | **4.5** | 4.3 | **0.00** | 0.00 |
| BBC Radio 3 | **4.3** | 3.9 | **0.06** | 0.05 |
| BBC Radio 4 | **9.9** | 9.9 | **0.01** | 0.01 |
| BBC Radio 5 live | **6.3** | 6.4 | **0.02** | 0.02 |
| BBC 5 live Sports Extra | **1.7** | 1.7 | **0.02** | 0.03 |
| 1Xtra | **0.8** | 0.7 | **0.05** | 0.06 |
| BBC 6 Music | **0.6** | 0.6 | **0.04** | 0.04 |
| BBC 7 | **0.6** | 0.6 | **0.02** | 0.03 |
| BBC Asian Network | **1.3** | 1.2 | **0.07** | 0.05 |
| Radio Lleol y BBC yn Lloegr | **0.4** | 0.4 | **0.03** | 0.02 |
| BBC Radio Scotland | **3.3** | 2.4 | **0.09** | 0.06 |
| BBC Radio nan Gàidheal | **1.2** | 0.8 | **0.12** | 0.09 |
| BBC Radio Wales | **1.8** | 1.6 | **0.05** | 0.04 |
| BBC Radio Cymru | **1.6** | 1.3 | **0.13** | 0.09 |
| BBC Radio Ulster/BBC Radio Foyle | **1.7** | 1.4 | **0.04** | 0.03 |
| Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol | | | | |
| bbc.co.uk | **13.0** | 9.5 | **0.18** | 0.16 |
| BBC jam | **dd/g** | 3.8 | **dd/g** | 2.56 |

** Derbyniwyd BBC HD ar system fesur BARB ym mis Mai 2008 – bydd ffigurau'r gynulleidfa ar gael o ddiwedd 2008/09.*



39%



Canran yr oriau teledu cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol (targed gofynnol: 25%).

Yn ogystal â chael ei reoleiddio gan Ymddiriedolaeth y BBC, mae'r BBC hefyd yn atebol i Ofcom am nifer o gwotâu cynhyrchu rhaglenni, a amlinellir yn Nhabl 6. Rydym hefyd yn rhwymedig o dan ddeddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd i sicrhau bod y rhan fwyaf o'n rhaglenni cymwys (nad ydynt, o ran y BBC, yn cynnwys newyddion, chwaraeon a digwyddiadau ar y cyfan) o darddiad Ewropeaidd a bod o leiaf 10% ohonynt wedi'u gwneud gan gynhyrchwyr annibynnol.

Gall sicrhau cydbwysedd rhwng cyflawni gwerth gorau i dalwr ffi'r drwydded a bodloni gofyniad rheoliadol fod yn dasg anodd. Fodd bynnag, y llynedd, llwyddodd y BBC unwaith yn rhagor i ragori ar y cwotâu hyn yn gyfforddus – mae 87% o'n hallbwn o darddiad Ewropeaidd (y DU yn bennaf) a'r llynedd, gwnaed 39% ohono gan gynhyrchwyr annibynnol, er enghraifft.

Asesiad y BBC ei hun yw'r ffigurau hyn. Bydd Ofcom yn cyflwyno adroddiad ffurfiol ar ein perfformiad yn ei Arolwg o'r Farchnad Gyfathrebu 2008 y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ceir yr adolygiad diweddaraf (2007) yn www.ofcom.org.uk/research/cm/cmr07/

**Tabl 6: Cwotâu cynhyrchu rhaglenni allanol**

| | Cwota | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| **Cwota cynhyrchu annibynnol** | | |
| Oriau o raglenni cymwys ar draws pob sianel | 25% | 39% |
| Oriau o raglenni cymwys ar BBC One | 25% | 33% |
| Oriau o raglenni cymwys ar BBC Two | 25% | 44% |
| Gwneud rhaglenni rhanbarthol | | |
| Gwariant ar raglenni cymwys | 30% | 33% |
| Oriau o raglenni cymwys | 25% | 32% |
| **Rhaglenni newyddion a Materion Cyfoes y rhwydwaith** | | |
| Oriau o Newyddion ar BBC One | 1,380 | 1,606 |
| Oriau o Newyddion ar BBC One yn ystod oriau brig | 275 | 279 |
| Oriau o Faterion Cyfoes ar BBC One a BBC Two | 365 | 461 |
| Oriau o Faterion Cyfoes ar BBC One a BBC Two yn ystod oriau brig | 105 | 112 |
| Lefelau cynyrchiadau gwreiddiol* | | |
| BBC One | 70% | 85% |
| BBC One yn ystod oriau brig | 90% | 99% |
| BBC Two | 70% | 83% |
| BBC Two yn ystod oriau brig | 80% | 95% |
| BBC Three | 80% | 81% |
| BBC Three yn ystod oriau brig | 70% | 70% |
| BBC Four | tua 70% | 75% |
| BBC Four yn ystod oriau brig | 50% | 64% |
| CBeebies | tuag 80% | 79% |
| CBBC Channel | 70% | 75% |
| BBC News | 90% | 97% |
| BBC Parliament | 90% | 98% |
| **Rhaglennu rhanbarthol (BBC One a BBC Two yn unig)** | | |
| Oriau o raglennu rhanbarthol | 6,580 | 7,226 |
| Oriau o raglenni a wnaed yn yr ardal berthnasol | 95% | 99.5% |
| Oriau o raglenni newyddion BBC One | 3,920 | 4,769 |
| Oriau o raglenni newyddion BBC One yn ystod oriau brig | 2,010 | 2,290 |
| Oriau o raglennu nad yw'n rhaglennu newyddion yn ystod oriau brig | 1,030 | 1,145 |
| Pob rhaglen nad yw'n rhaglen newyddion a ddarlledir yn agos at oriau brig | 355 | 403 |

** Mae cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys pob rhaglen a gomisiynir gan y BBC gan gynnwys ailddarllediadau. Ar gyfer BBC Three a BBC Four, nid ydynt yn cynnwys ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd ar sianel arall yn gyntaf.*

# Ymrwymiadau'r Datganiadau o Bolisi Rhaglenni 2007/08

Mae'r Datganiadau o Bolisi Rhaglenni yn addewidion blynyddol gan y BBC i dalwyr ffi'r drwydded sy'n nodi rhai o'r ffyrdd y mae pob un o'n gwasanaethau yn cyflwyno cynnwys creadigol a chofiadwy o ansawdd uchel iddynt fel gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr. Mae'r Datganiadau yn ymrwymiad i Ofcom, wedi'u cymeradwyo gan Ymddiriedolaeth y BBC, sydd wedyn yn olrhain cynnydd y BBC wrth fodloni'r ymrwymiadau hyn.

Mae'r tudalennau hyn yn rhoi crynodeb o berfformiad yn erbyn Datganiadau 2007/08. Oni nodir yn wahanol, isafswm oriau neu ganrannau yw pob ymrwymiad ac maent yn cynnwys rhaglenni a gynhyrchwyd yn fewnol, ailddarllediadau a chaffaeliadau. Gellir gweld y Datganiadau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn bbc.co.uk/info/statements2008

# GWASANAETHAU GWELEDOL Y BBC

**Mae gofyniad rheoliadol statudol ar wasanaethau Teledu'r BBC i fodloni cwotâu Haen 2, y cytunir arnynt yn flynyddol gydag Ofcom, ar gyfer cynyrchiadau annibynnol, gwneud rhaglenni rhanbarthol, rhaglenni newyddion a materion cyfoes, lefelau cynyrchiadau gwreiddiol a rhaglennu rhanbarthol. I weld perfformiad yn erbyn y cwotâu hyn, gweler tudalen 69.**

## BBC One

### Blaenoriaethau

**Amserlen oriau brig fin nos** Ar ôl peilot llwyddiannus, lansiwyd *The ONE Show* ym mis Gorffennaf. Erbyn mis Mawrth, roedd ganddi gynulleidfa o 4.9 miliwn, gyda'i chynulleidfa fwyaf, sef 5.6 miliwn, ym mis Chwefror 2008.

**Amserlen nos Sadwrn** Adfywiwyd nosweithiau Sadwrn gyda dwy ddrama o safon uchel i'r teulu sef *Dr Who* a *Robin Hood*, a thaniwyd dychymyg y gynulleidfa gan *Strictly Come Dancing* ac *Any Dream Will Do*.

**Digwyddiadau effaith uchel** Bu'r penderfyniad i ddarlledu *Celebrity Masterchef* a *Saving Planet Earth* yn y slot yn syth ar ôl y newyddion yn llwyddiant mawr. Cafwyd perfformiad da gan *Oliver Twist*.

**Comedi prif ffrwd yn y DU** Cafodd tair sioe sgets newydd ddechrau addawol: *Armstrong and Miller*, *Omid Djalili* a *Ruddy Hell! It's Harry and Paul*. Sefydlodd y gyfres *After You've Gone* ei hun. Bydd pob un ohonynt yn dychwelyd ynghyd â llwyddiannau eraill y sianel *My Family* a *The Green Green Grass*.

**Lleihau % yr ailddarllediadau yn ystod oriau brig** Darlledwyd 8.3% o ailddarllediadau yn ystod oriau brig yn 2007/08, gan ragori ar y targed o 8.4%.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o'r celfyddydau a cherddoriaeth | 45 | 109 |
| Oriau o raglenni materion cyfoes | 90 | 206 |
| … yn cynnwys yn ystod oriau brig | 48.5 | 50 |
| Oriau o raglenni ffeithiol newydd | 650 | 974 |
| Oriau o raglennu crefyddol (fel rhan o 112 awr gyda BBC Two) | 80 | 105 |
| Oriau o raglenni chwaraeon | 260 | 603 |
| Oriau o raglenni plant (ymrwymiad ar y cyd gyda BBC Two) | 500 | 2,115 |

## BBC Two

### Blaenoriaethau

**Rhaglenni i wylwyr o dan 45 oed** Cynyddodd y cyrhaeddiad wythnosol ymhlith pobl 25–44 oed i 9.7 miliwn. Cyrhaeddodd *Heroes* 30% o bobl o dan 45 oed yn y DU. Roedd rhaglenni ffeithiol yn allweddol: profodd *Top Gear, Long Way Down, Louis Theroux* a *Dragons' Den* yn boblogaidd.

**Comedi arloesol gyda'r potensial i fod yn brif ffrwd** Ymhlith y comedïau sefyllfa newydd roedd *Roman's Empire* a *The Life and Times of Vivien Vyle*. Dychwelodd *Saxondale* a *Lead Balloon*. Ymhlith y fformatau comedi a ddenodd wylwyr iau roedd *Mock The Week, QI* a *The Graham Norton Show*.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau newydd o raglenni ffeithiol | 500 | 804 |
| Oriau o raglenni plant (ymrwymiad ar y cyd gyda BBC One) | 500 | 2,115 |
| Oriau o raglennu'r celfyddydau a cherddoriaeth | 200 | 315 |
| Oriau o newyddion | 100 | 559 |
| Oriau o faterion cyfoes | 240 | 260 |
| Oriau o chwaraeon | 430 | 951 |
| Oriau o raglennu crefyddol (fel rhan o 112 awr gyda BBC One) | 20 | 30 |

## BBC Three

### Blaenoriaethau

**Y cynnig yn ystod oriau brig** Mae slot 7pm yn parhau i fod yn un anodd gyda chystadleuaeth gref a diffyg etifeddiaeth o ran cynulleidfa, er i *Doctor Who* berfformio'n dda. Profodd rhaglenni a amserlennwyd yn hwyrach fel *The Real Hustle* a *Dog Borstal* yn fwy llwyddiannus.

**Ehangu apêl a chyrhaeddiad ymhlith pobl 16–34 oed** Roedd cyrhaeddiad ymhlith pobl 16–34 oed 3.1 pwynt canran yn uwch o gymharu â'r llynedd. Ymhlith y llwyddiannau nodedig mae: *Gavin and Stacey, Last Man Standing, Filthy Rich and Homeless, Family Guy* a *Drop Dead Gorgeous*.

**Comedi a thalent newydd yn y DU** Yn ogystal â *Touch Me, I'm Karen Taylor* gwelwyd nifer o gomedïau llwyddiannus a oedd yn llwyfan i dalent newydd. Ysgrifennwyd *Gavin and Stacey* gan yr awduron newydd James Corden a Ruth Jones.

**Cefnogi digwyddiadau effaith uchel, a defnyddio llwyfannau digidol** Bu'r darllediadau arloesol o Glastonbury yn gymorth i sicrhau un o'r wythnosau gorau o ran gwylwyr erioed a bu'r *Liverpool Nativity* yn llwyddiannus iawn ar y sgrîn ac oddi arni.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o gerddoriaeth a'r celfyddydau newydd | 50 | 54 |
| % o'r allbwn â chymorth rhyngweithiol | 20% | ✓ |
| Oriau o raglenni ffeithiol newydd sy'n meithrin gwybodaeth | 50 | 94 |
| Oriau o raglenni materion cyfoes newydd | 15 | 18 |
| % o oriau a ddarlledir o newyddion, materion cyfoes, addysg, cerddoriaeth a'r celfyddydau | tua 15% | 26% |

## BBC Four

### Blaenoriaethau

**Ehangu apêl o fewn hunaniaeth bresennol y sianel** Mae cyfresi dogfen dwy i bedair rhan wedi bod ymhlith ein rhaglenni mwyaf poblogaidd: Llwyddodd *Atom, Bombay Railway* a *The Protestant Revolution*, ymhlith eraill, i ddenu cynulleidfaoedd mawr a chael canmoliaeth feirniadol.

**Tymhorau o raglenni effaith uchel** Gwelwyd ymagwedd newydd tuag at hanes drwy'r rhaglen *Edwardians: The Birth of Now*. Ymhlith yr wythnosau thema roedd *Children's TV on Trial, Why Democracy, BBC radio @ 40*, a *Viennese art*.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Nifer y ffilmiau rhyngwladol newydd a ddangoswyd am y tro cyntaf | 20 | 23 |
| Nifer y rhaglenni dogfen rhyngwladol newydd | 30 | 46 |

## CBeebies

### Blaenoriaethau

**Cynnal cyrhaeddiad wythnosol i'r gwasanaeth** Erys cyrhaeddiad wythnosol CBeebies yn uchel iawn ar 7.7% yn 2007/08 (6.6% y llynedd). Cafwyd perfformiad cryf gan *In the Night Garden*, ac mae *Tommy Zoom* wedi perfformio'n well na'r disgwyl ymron pob un o'i slotiau.

**Gwella cyrhaeddiad ymhlith plant 4–6 oed** Roedd cyrhaeddiad ymhlith plant 4–6 oed yn 42.4% o gymharu â 39.0% y llynedd – cynnydd o tua 130,000. Profodd brandiau cynnwys newydd fel *Tommy Zoom, Space Pirates, Numberjacks* a *Jackanory Junior* yn boblogaidd.

**Ailwampio gwefannau rhianta** Ar ddechrau Mawrth 2008, ail-leolwyd cynnwys golygyddol presennol i gydweddu â'r fformat newydd 'wedi'i arwain gan frand', gyda negeseuon i rieni yn cael eu cynnwys mewn gemau a fideos.

**Cynyddu cynnwys ar alw** Mae CBeebies yn parhau i geisio cyfleoedd i ategu ei chynnwys rhaglenni llinellol fel *Jackanory Junior* gyda chyfleoedd eraill i wylio'r rhaglenni, yn amodol ar drwyddedau.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn rhaglennu newydd o'r DU | 75% | 87% |
| Oriau rhaglenni | 4,500 | 4,696 |
| Rhaglennu newydd o'r DU | 25% | 32% |

### CBBC

#### Blaenoriaethau

**Cynnal cyrhaeddiad** Roedd y cyrhaeddiad yn 5.6% (cynnydd o 4.4%), a gynorthwywyd gan frandiau cynnwys newydd fel *Sorcerer's Apprentice, Shaun the Sheep, Do Something Different* a *Roman Mysteries*.

**Annog a chefnogi cyfranogiad** Roedd *Adventure Rock* a MyCBBC yn annog mwy o gyfranogiad a chynnwys wedi ei gynhyrchu gan y defnyddiwr mewn amgylchedd mwy personol.

**Cynyddu cynnwys ar alw** Mae CBBC Watch yn parhau i ddangos detholiad o glipiau cynnwys cryno bob dydd i hyrwyddo'r allbwn presennol a cheir cynnwys cryno lle y bo'n bosibl ar safleoedd rhaglenni unigol.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Bwletinau newyddion dyddiol byw | 3 | ✓ |
| Oriau o newyddion | 85 | 89 |
| Oriau o raglennu ffeithiol a rhaglennu i ysgolion | 1,000 | 1,006 |
| Oriau o ddrama | 650 | 1,213 |
| Oriau o gyflwyniadau byw | 150 | 216 |

# RADIO

**Gwnaeth Radio'r BBC addewid gwirfoddol y byddai o leiaf 10% o'r oriau cymwys ar ei rwydweithiau radio analog a digidol cenedlaethol yn cael eu gwneud gan gynhyrchwyr annibynnol. Yn 2007/08, cyflawnodd 13.0% yn gyffredinol, a gwariwyd £17.0miliwn.**

### BBC Radio 1

#### Blaenoriaethau

**Datblygu cynnwys rhyngweithiol** Mae cyfleuster podledu Radio 1 wedi'i ehangu ac mae mwy a mwy o sioeau yn cynnwys technoleg MMS symudol yn eu rhaglenni.

**Lansio rhaglenni newydd ar gyfer gwrandawyr iau** Lansiwyd parth ieuenctid ar nosweithiau Sul ym mis Hydref, gyda Fearne a Reggie yn cyflwyno sioe siartiau newydd, wedyn *Switch* gydag Annie Mac a Nick Grimshaw a *The Surgery* gyda Kelly Osbourne.

**Talentau newydd digontract** Lansiwyd *BBC Introducing* yn Glastonbury ac ymwelodd hefyd â Gwyliau Bestival a Latitude. Ar yr awyr, adnabyddir rhaglenni eithrio i'r gwledydd Radio 1 o dan y brand *BBC Introducing* bellach, gyda Huw Stephens yn cyflwyno sioe wythnosol newydd sy'n hyrwyddo doniau newydd digontract.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o newyddion, chwaraeon a materion cyfoes | 310 | 332 |
| % o'r amserlen wedi'i neilltuo i gerddoriaeth arbenigol neu raglenni llafar | 40% | 43% |
| % o gerddoriaeth 'newydd'[1] o fewn yr allbwn yn ystod y dydd | 45% | 52% |
| % o gerddoriaeth o fewn yr allbwn yn ystod y dydd gan artistiaid o'r DU | 40% | 52% |
| Digwyddiadau byw a gwyliau a ddarlledwyd | tua 25 | 29 |
| Sesiynau newydd a pherfformiadau *Live Lounge* | 250 | 368 |
| Rhaglenni dogfen newydd | 40 | 42 |
| Oriau o raglenni eithrio gwreiddiol o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon | 200 | 258 |

*1 Cyn-rhyddhau neu lai na mis ers rhyddhau.*

## BBC Radio 2

### Blaenoriaethau

**Datblygu Radio 2 Music Club ymhellach** Dathlodd *Music Club Live* lwyddiant artistiaid newydd a hyrwyddwyd gan *Music Club* Radio 2 gyda chyngerdd mawreddog ym mis Rhagfyr, a fideo arbennig o gefn y llwyfan ar gael ar y wefan.

**Talentau comedi newydd** Darlledwyd dwy sgil-raglen *Out To Lunch*. Mae Radio 2 yn parhau i gynnal trafodaethau â BBC Entertainment ar y ffordd orau o ddatblygu doniau a fformatau.

**Cerddoriaeth fyw** Ymhlith y digwyddiadau mawr a gynhaliwyd roedd *Concert for Diana* a *Live Earth*, a gwyliau megis *Guilfest, Gŵyl Werin Caergrawnt*, a *Gŵyl Jazz Cheltenham*. Ymhlith y cyngherddau a'r perfformiadau roedd Genesis, Elton John, Mick Hucknall, Beth Neilsen a'r Manic Street Preachers.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o raglenni cerddoriaeth arbenigol | 1,100 | 1,109 |
| Oriau o theatr gerddorol a cherddoriaeth ffilm | 60 | 76 |
| Oriau o raglennu'r celfyddydau | 100 | 102 |
| % o allbwn llafar | tua 33% | 51% |
| Oriau o allbwn crefyddol | 170 | 186 |
| Oriau o newyddion a rhaglennu materion cyfoes gwreiddiol, yn cynnwys bwletinau newyddion rheolaidd | 800 | 866 |

## BBC Radio 3

### Blaenoriaethau

**Perfformiadau rhyngwladol yn ystod y dydd** Defnyddiwyd rhaglen brynhawn newydd i sicrhau bod mwy o sylw yn cael ei roi i berfformiadau cerddorol rhyngwladol. Cyflawnwyd y targed o 100 o ddigwyddiadau drwy ddarlledu cerddoriaeth symffonig a siambr o lawer o wledydd, gwyliau a lleoliadau, gan gynnwys tua 40 o operâu.

**Penodiad newydd ar gyfer gwerthfawrogi barddoniaeth** Mae gan *Words and Music* slot wythnosol sefydledig yn yr amserlen, sy'n cyfosod cerddoriaeth a barddoniaeth.

**Argymhellion cerddorol fel canllawiau** Yn ogystal â'r rhaglen hirsefydledig *CD Review*, mae *Jazz Library* yn cyflawni rôl debyg ar gyfer jazz; mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o berfformwyr ac mae'r podlediadau yn dod yn boblogaidd hefyd.

**Ategu hanes cerddoriaeth glasurol Radio 4** Dilynwyd pob rhifyn o gyfres 60 rhan Radio 4 *The Making of Music* gydag awr o gerddoriaeth yn ymwneud â'r rhifyn hwnnw.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| % o gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig | 50% | 55.4% |
| Perfformiadau byw neu berfformiadau wedi'u recordio'n arbennig | 500 | 518 |
| Darnau cerddorol newydd | 30 | 51 |
| Rhaglenni dogfen ar bynciau celfyddydol a diwylliannol | 30 | 41 |
| % o'r gyllideb a wariwyd y tu allan i'r M25 | 40% | 41.1% |

## BBC Radio 4

### Blaenoriaethau

**Cynyddu effaith drama** Roedd dewis da o raglenni yn cynnwys *Number 10,* cyfres ddrama wleidyddol gyfoes; *Avoid London*, wythnos o ddramâu yn cofnodi blwyddyn ers y bomio yn Llundain ar 7/7; *Witness*, yn ailadrodd bywyd Crist; a dramateiddiad o'r nofel *Q & A* gan Vikas Swarup.

**Ehangu apêl drwy:**

- **hanes naratif** Adroddwyd stori cerddoriaeth orllewinol o lafarganu Gregoraidd i Philip Glass mewn cyfres 60 rhan *The Making of Music* a gyflwynwyd gan James Naughtie, gyda rhaglennu ategol ar Radio 3.
- **tymhorau** Ymhlith yr enghreifftiau mae: *India & Pakistan*, yn cofnodi 60 mlynedd ers y Rhaniad; *The Falklands 25 Years On; The Six Day War; The Sex Lives of Us*, yn archwilio ymagweddau rhywiol cyfoes 50 mlynedd ar ôl Wolfenden; ac *Uncovering Pakistan*, yn archwilio ymhellach i'r realiti cyfoes ym Mhacistan yn yr wythnosau cyn yr etholiadau.
- **digwyddiadau cyfredol** Ymatebwyd yn gyflym gyda rhaglenni arbennig ar faterion o bwys cenedlaethol neu ryngwladol yn cynnwys ymadawiad Tony Blair, llifogydd yr haf, argyfwng credyd yr UD, Northern Rock, rhaglen arbennig gan Nick Robinson ar ariannu pleidiau gwleidyddol, a'r argyfwng ym Mhacistan.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o newyddion a materion cyfoes | 2,500 | 3,169 |
| Oriau o ddramâu a darlleniadau gwreiddiol | 730 | 732 |
| % o *Afternoon Plays* newydd sy'n gomisiynau cyntaf neu'n ail gomisiynau | 25% | 33% |
| Oriau o gomedi gwreiddiol | 180 | 211 |
| Oriau o raglenni dogfen gwreiddiol | 200 | 249 |
| Oriau o raglennu crefyddol gwreiddiol | 200 | 223 |

## BBC Radio 5 live

### Blaenoriaethau

**Symud gwrandawyr i lwyfannau digidol** Mae 31% o gynulleidfa 5 live yn gwrando'n ddigidol, yr uchaf (ynghyd â Radio 4) o blith rhwydweithiau'r BBC sydd hefyd yn darlledu mewn analog. Mae 5 live yn parhau i ehangu ei gweithgareddau digidol yn cynnwys bwletinau chwaraeon ac argymhellion ffilm a anfonir i ffonau symudol.

**Ehangu'r defnydd o Gynnwys a Gynhyrchir gan y Defnyddiwr** Mae Tîm Cynulleidfa'r orsaf yn parhau i sicrhau bod nifer fawr o storïau'n cael eu darlledu a gwesteion yn cymryd rhan. Rhoddodd blog y sioe frecwast ddeunydd gan wrandawyr ar gyfer diwrnodau GIG ac Addysg arbennig.

**Darllediadau rygbi cynhwysfawr** Cynigiodd 5 live ddarllediadau cynhwysfawr o Gwpan Rygbi'r Byd a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad ar yr awyr a thrwy bresenoldeb bywiog ar-lein.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o ddarllediadau newyddion | 6,000 (tua 70%) | 6,718 (76%) |
| Oriau o raglenni dogfen | 50 | 56 |

## BBC Radio 5 live Sports Extra

### Blaenoriaethau

**Darllediadau Arbennig o'r Gemau Prawf** Darlledwyd pob un o gemau rhyngwladol Lloegr gartref a thramor. *The Test Match Special Blog* yw'r blog mwyaf poblogaidd yn gyson ar bbc.co.uk

**Meithrin darlledwyr chwaraeon newydd** Mae nifer o enwau newydd i sylwebaeth chwaraeon ar y radio wedi'u meithrin ar yr orsaf, yn cynnwys Matt Dawson (rygbi) ac Alison Mitchell (criced).

## 1Xtra

### Blaenoriaethau

**Ailwampio'r amserlen** Ymhlith rhai o uchafbwyntiau amserlen newydd mae prif raglen frecwast newydd gyda Trevor Nelson a Zena, a sioe newydd Mistajam gyda'r nos. Roedd nifer o'r DJs newydd yn gweithio ar radio am y tro cyntaf.

**Datblygu digwyddiad nodwedd byw** Lansiwyd *1Xtra Live* yn llwyddiannus o flaen 4,000 o wrandawyr yng Nghofentri ym mis Mawrth. Bwriedir iddo ddod yn ddigwyddiad blynyddol.

**Rhaglennu newyddion a thrafod yn ystod yr wythnos** Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod yr allbwn newyddion a llafar yn cael ei integreiddio'n agosach â rhaglennu yn ystod y dydd. Lansiwyd rhaglen newyddion a thrafod newydd a ddarlledir bob prynhawn yn ystod yr wythnos wedi ei chyflwyno gan Max ym mis Hydref.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| % o gerddoriaeth newydd | 70% | 72% |
| % o gerddoriaeth o'r DU | 40% | 44% |
| Digwyddiadau cerddoriaeth fyw | 50 | 66 |
| % o'r allbwn sydd wedi'i neilltuo i newyddion, rhaglenni dogfen a gweithredu cymdeithasol | ~10% | 10% |
| % o allbwn llafar | ~20% | 21% |

## BBC 6 Music

### Blaenoriaethau

**Cerddoriaeth fyw, yn enwedig o'r DU** Mae sesiynau *The Hub* yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth ddiffinio 6 Music. Ymhlith y perfformiadau byw eleni roedd Manic Street Preachers, Kate Nash, Faithless, a pherfformiad eithriadol gan PJ Harvey.

**Datblygu gwasanaeth newyddion cerddoriaeth** Mae gan yr orsaf rwydwaith o ohebwyr lleol yng ngorsafoedd radio lleol y BBC a gohebwyr Arfordir y Dwyrain a'r Gorllewin ar gyfer storïau pwysig o'r UD. Mae podlediad *The Music Week* wedi dechrau'n dda.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o berfformiadau o gyngherddau o'r archif | 400 | 588 |
| % o gerddoriaeth dros bedair blwydd oed | 50% | 52% |
| % o gerddoriaeth sy'n cynnwys traciau o gyngherddau a sesiynau o archif y BBC | 15% | 15% |
| Sesiynau newydd | 275 | 471 |
| Oriau o raglenni dogfen a thraethodau | 550 | 590 |

## BBC 7

### Blaenoriaethau

**Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd** Mae cyflwyno *Comedy Club* wedi cynyddu cyrhaeddiad ar nos Sul. Denwyd gwrandawyr newydd gan ddramâu ffuglen wyddonol fel *Blake's 7, The Scarifyers* a *Dr Who*.

**Rhaglennu plant, yn cynnwys cyn oed ysgol** Mae CBeebies ar BBC 7 wedi datblygu'r hyn a gynigir gyda chwisiau nad ydynt yn rhai cystadleuol ar gyfer plant a rhaglennu comedi newydd i blant cyn oed ysgol.

**Ffyrdd arloesol o wrando a rhyngweithio** Mewn cydweithrediad â'r Undeb Darlledu Ewropeaidd, comisiynwyd awduron o chwe gwlad i ysgrifennu dramâu byr ar y testun Ffiniau i gyd-fynd â Diwrnod Radio Ewrop ym mis Hydref.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o gomedi | 2,800 | 3,500 |
| Oriau o ddrama | 2,800 | 3,601 |
| Oriau o gomedi newydd gwreiddiol | 10 | 40 |
| Oriau o ddrama newydd wreiddiol | 20 | 30 |
| Oriau o raglennu plant | 1,400 | 1,464 |

### BBC Asian Network

#### Blaenoriaethau

**Ehangu'r gerddoriaeth a gynigir** Ymhlith y rhaglenni newydd mae *Love Bollywood* ar benwythnosau, y rhaglen *Drive* yn seiliedig ar gerddoriaeth yn ystod yr wythnos, a rhaglen Bhangra ar ddydd Sadwrn.

**Cynyddu effaith newyddiaduraeth** Mae ymlyniadau staff i Newyddiaduraeth/5 live yn parhau i feithrin cydberthnasau agosach. Ymhlith y prosiectau ar draws y BBC y cymerwyd rhan ynddynt roedd ffocws ar yr hinsawdd a phrosiect arbennig ar broses recriwtio MI5.

**Cynyddu nifer yr oriau o gynyrchiadau annibynnol** Cynyddodd nifer yr oriau o gynyrchiadau annibynnol i 13 awr yr wythnos, gyda rhaglenni fel *Devotional Sounds* a *Mic Check* a chomisiynau i weithio ar *Asian Nation*, prosiect mawr yn gysylltiedig â 60 mlynedd ers y Rhaniad.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Cyfran llafar : cerddoriaeth | 50:50 | 49:51 |
| % o gerddoriaeth gan artistiaid o'r DU | 40% | 50% |
| Oriau o raglenni iaith bob dydd | 3-5 | 3.6 |

# CYFRYNGAU A THECHNOLEG Y DYFODOL Y BBC

**Mae gan Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol y BBC isafswm gwariant allanol gorfodol o 25% ar gyfer ei gwasanaethau ar-lein. Eleni, cyflawnodd 31% (cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn o 30%), gwerth £22.3miliwn (cynnydd o gymharu â £17.3miliwn yn 2006/07).**

### bbc.co.uk

#### Blaenoriaethau

**Lansio BBC iPlayer** Lansiwyd y gwasanaeth ar Ddydd Nadolig 2007, ac yn fuan roedd dros 0.5miliwn o lawrlwythiadau bob dydd. Lansiwyd lawrlwythiadau nad ydynt yn DRM ym mis Mawrth 2008 gyda Radio iPlayer integredig.

**Sefydlu ymagwedd portffolio tuag at gynnwys** Sefydlwyd map ffordd a phortffolio â blaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau golygyddol Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol. Datblygiadau cychwynnol ar gyfer 500 o byrth pwnc wedi'u cynllunio ar gyfer Q2 2008.

**Cwblhau peilot o Archif Agored y BBC** Cwblhawyd y peilot yn llwyddiannus ganol mis Rhagfyr.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| % (yn ôl gwerth) o gynnwys a gwasanaethau cymwys gan gyflenwyr allanol | 25% | 31% |

### BBCi

#### Blaenoriaethau

**Llywio a chyfeirio** Mae ymchwiliadau yn cael eu cynnal i ryngwynebau defnyddwyr newydd fel rhan o gynllun newid ehangach gyda chwmpas y fersiwn cebl yn debygol o gael ei newid. Amseroedd llwytho cyflymach flwyddyn ar ôl blwyddyn.

**Chwaraeon** Porth chwaraeon 'botwm coch' integredig ar y trywydd iawn i gael ei lansio ar gyfer y Gemau Olympaidd yn Beijing ym mis Awst.

**Lansio gwasanaeth ar alw** Caiff BBC iPlayer ei lansio fel gwasanaeth llawn ar Virgin Media ym mis Ebrill 2008. Rhywfaint o oedi o ran cynlluniau cychwynnol o ganlyniad i hawliau cerddoriaeth a thrydydd partïon yn colli terfynau amser technegol.

**Ceefax** Gwaith cynllunio yn mynd rhagddo ac ar darged i gyflawni yn ystod Hydref 2008. Ni chyflawnir paredd cyflawn o ran cynnwys oherwydd rhwystrau'n ymwneud â lled band felly mae Newyddiaduraeth wedi blaenoriaethu'r anghenion o ran cynnwys.

# BBC NEWYDDION

**Mae gan BBC News a BBC Parliament rwymedigaeth statudol i sicrhau bod o leiaf 90% o'r oriau a ddarlledir yn rhaglenni a gynhyrchir yn fewnol, ac i wario o leiaf 30% o gyllidebau 'rhaglenni perthnasol'* (sy'n cynrychioli 25% o'r oriau yn ôl nifer) y tu allan i'r M25. Yn 2006/07, bodlonodd y ddau wasanaeth eu gofynion.**

## BBC News

### Blaenoriaethau

**Ar-lein a rhyngweithiol** Bu'r rhif cyswllt MMS 61124 yn fodd o wella'r rhyngweithiad a gynhyrchir gan ddefnyddwyr gan gynulleidfaoedd. Mae News 24 bellach yn cael ei ffrydio ar-lein ac mae'n aml ymhlith y safleoedd mwyaf poblogaidd, yn enwedig ar ddiwrnodau pan geir storïau mawr.

**Defnydd o gyflwynwyr** Defnyddiwyd cyflwynwyr ar lawer o achlysuron, yn cynnwys: Portiwgal (stori'r teulu McCann), San Steffan (y trosglwyddiad rhwng Brown a Blair), o amgylch y DU (llifogydd, clwy traed a'r genau), cynadleddau pleidiau gwleidyddol, Irac, Affganistan a'r etholiadau yn yr Alban.

**Cyrraedd cynulleidfaoedd a danwasanaethir** Mae *Teen 24* (rhaglenni peilot) yn cael effaith, a chaiff y rhaglen *Your News* (sy'n cynnwys cyfraniadau gan wylwyr) a ddarlledir ar benwythnosau ei gwylio'n rheolaidd gan 200,000 o bobl. Mae *Entertainment 24* yn rhoi'r newyddion diweddaraf o fyd adloniant.

**Rhaglenni dogfen** Mae *Our World:* rhaglenni hanner awr wythnosol (gydag ailddarllediadau naratif) yn gwerthuso ac yn tynnu sylw at faterion byd-eang; *Panorama* a *The Best of Newsnight*: yn cael eu hailddarlledu'n rheolaidd bob wythnos; mae *Question Time Extra* wedi dechrau, a chaiff rhaglen *Question Time* wedi'i golygu ei darlledu yn ystod oriau brig bob dydd Sadwrn.

** nid yw 'rhaglenni perthnasol' yn cynnwys newyddion.*

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Gwasanaeth newyddion bob awr | ✓ | ✓ |
| Crynodeb o'r newyddion bob hanner awr | ✓ | ✓ |
| Darlledu newyddion busnes bob awr rhwng 9am a 7pm yn ystod yr wythnos | ✓ | ✓ |
| Mwy o newyddion rhyngwladol na'r brif sianel neu'r prif sianelau newyddion parhaus eraill yn y DU | ✓ | Ymchwil heb ei chyflawni |
| Mwy o newyddion rhyngwladol/lleol na'r brif sianel neu'r prif sianelau newyddion parhaus eraill yn y DU | ✓ | Ymchwil heb ei chyflawni |
| Oriau o newyddion chwaraeon yn ystod y flwyddyn | 100 | 118 |

## BBC Parliament

### Blaenoriaethau

**Archwilio gwaith Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi gan ddefnyddio deunydd gwirioneddol a chyfweliadau, wedi'u hategu gan ddeunydd newydd ar bbc.co.uk/parliament.** Mae rhifynnau dydd Gwener o *The Record* yn canolbwyntio ar waith San Steffan a'i chydberthynas â'r sefydliadau datganoledig, yn cynnwys cyfweliadau â seneddwyr a sylwebwyr arbenigol.

**Defnydd o fand eang** Mae tair ffrwd band eang ar gael, ynghyd â dros 30 awr yr wythnos ar BBC iPlayer.

**Cwestiynau'r Prif Weinidog o Gymru a'r Alban** Lansiwyd rhaglen newydd gyda'r hwyr (Llun – Iau) yn cynnwys Cwestiynau'r Prif Weinidog o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, Cwestiynau'r Dirprwy Brif Weinidog o Ogledd Iwerddon a Chwestiynau'r Prif Weinidog.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau wythnosol o ddarllediadau o Senedd San Steffan (wythnos arferol) | 70 | 70 |
| Oriau wythnosol o Bwyllgorau Dethol | 10 | 13 |
| Oriau o drafodion Senedd yr Alban | 100 | 145 |
| Oriau o drafodion Cynulliad Cymru | 100 | 81† |
| Oriau o raglennu o Frwsel a Strasbourg | 100 | 101 |

*† Roedd yr etholiadau a gynhaliwyd ar 3 Mai a'r oedi wrth ffurfio Llywodraeth newydd Cynulliad Cymru yn golygu mai dim ond chwe wythnos o sesiynau rheolaidd a gafwyd yn y Cynulliad yn ystod y pum mis rhwng mis Ebrill a mis Awst 2007).*

# GWLEDYDD A RHANBARTHAU'R BBC

**Nid oes gan wasanaethau o Wledydd a Rhanbarthau'r BBC unrhyw ymrwymiadau statudol ond maent yn gweithio gyda rhwydweithiau teledu a radio a gwasanaethau rhyngweithiol y BBC i ddarparu cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y DU. Yn 2006/07, gwnaeth Radio Scotland, Radio Wales, Radio Cymru a Radio Ulster/Foyle ymrwymiad gwirfoddol i gomisiynu o leiaf 10% o'r oriau cymwys gan gynhyrchwyr annibynnol. Cyflawnwyd y lefelau canlynol: Radio Scotland (17%), Radio Wales (10%), Radio Cymru (10%) a Radio Ulster/Foyle (9%*) gyda gwerth cyfunol o tua £3miliwn.**

** Trosglwyddwyd The Alan Simpson Show i dîm cynhyrchu mewnol ym mis Ionawr 2008 yn sgîl pryderon ynghylch ei hansawdd golygyddol. Mae wyth awr arall yr wythnos wedi'u comisiynu bellach i'w disodli a disgwyliwn fodloni'r ymrwymiad hwn o 2008/09.*

**Radio Lleol y BBC yn Lloegr** Ar 1 Ebrill 2008 roedd 39 o orsafoedd radio lleol yn Lloegr, ynghyd â phum gwasanaeth eithrio.

**Blaenoriaethau**

**Cynnal cyrhaeddiad** Roedd y cyrhaeddiad wythnosol yn 18.6% yn 2007/08 o gymharu â 18.8% ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf.

**Gwasanaethu'r gynulleidfa graidd yn well** Ymgymerwyd â gwaith golygyddol ar fwletinau, y tywydd, chwaraeon a theithio yn gyffredinol ar orsafoedd Radio Lleol. Mae strategaeth Radio Lleol 2010 i gynnwys staff yn y ddadl ynghylch arfer gorau a datblygu ymwybyddiaeth y gynulleidfa wedi'i lansio.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o allbwn radio lleol | 230,000 | 250,742 |
| % o ailddarllediadau | <2.5% | ✓ |
| Cynnwys llafar Radio Lleol y BBC yn ystod oriau craidd (6am–6pm) | 60% | 64% |
| Cynnwys llafar Radio Lleol y BBC yn ystod oriau brig amser brecwast | 100% | 100% |

**BBC Radio Scotland**

**Blaenoriaethau**

**Cynnal cyrhaeddiad** Gostyngodd cyrhaeddiad wythnosol Radio Scotland i 21.5% o 23.1% y flwyddyn ddiwethaf mewn amgylchedd darlledu hynod gystadleuol.

**Darllediadau o etholiadau Seneddol a lleol yr Alban** Gohebu a dadansoddi sylweddol ar draws yr allbwn yn ystod yr ymgyrch drwy raglenni presennol, ynghyd â rhifynnau arbennig o *Scotland Live*. Cafodd *The Leaders' Debate* ei chyd-ddarlledu a darlledwyd canlyniadau'r etholiadau drwy'r nos.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o raglennu genre cymysg | 7,000 | 7,228 |
| Oriau o newyddion a materion cyfoes ar y radio | 2,200 | 2,455 |
| Oriau o ddarllediadau celfyddydol ar y radio (yn cynnwys ailddarllediadau naratif o'r sioe gelfyddydol ddyddiol) | 200 | 385 |
| Rhaglenni cerddoriaeth arbenigol wythnosol | ✓ | ✓ |

**BBC Radio nan Gàidheal**

**Blaenoriaethau**

**Cynnal cyrhaeddiad** Cyrhaeddiad RnG ar gyfartaledd ar gyfer 2007 yw 68%, ychydig yn uwch na'r 66% ar gyfer y llynedd.

**Darllediadau o etholiadau Seneddol a lleol yr Alban** Cynigiwyd darllediadau o ymgyrchoedd etholiadau seneddol a lleol mewn rhaglennu newyddion dyddiol, ynghyd â gohebiaeth ar faterion cenedlaethol a lleol allweddol.

**Datblygu a chomisiynu cynnwys aml-lwyfan** Cwblhawyd yr ail gyfres o *Rapal TV*, a oedd yn ategu'r cynnwys presennol ar y radio a'r we. Lansiwyd gwefan *Cuairtean*, yn cynnig teithiau rhithwir o'r Ucheldiroedd ac yn cynnwys cyfweliadau radio o'r archif, deunydd gweledol a gwybodaeth gysylltiedig.

**BBC One Scotland**

**Blaenoriaethau**

**Darllediadau o etholiadau Seneddol a lleol yr Alban yn 2007** Darllediadau helaeth o etholiadau'r Alban ar y teledu, radio ac ar-lein, gyda chamera ym mhob cyfrif ar noson yr etholiad. Ymhlith y darllediadau roedd nifer o ddadleuon mawr ar y teledu, rhaglen *Newsnight Scotland* estynedig drwy gydol yr ymgyrch a rhaglen arbennig ar broblemau pleidleisio dilynol a enillodd Bafta.

**Comedïau sefyllfa newydd** Darlledwyd dwy gyfres gomedi newydd, *Dear Green Place* a *Legit*, yn yr hydref. Roedd y ddwy yn cynnwys talentau ysgrifennu a pherfformio newydd ochr yn ochr ag aelodau mwy sefydledig o'r cast.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o gynnwys eithrio ar BBC One Scotland | 450 | 517 |

## BBC Two Scotland

### Blaenoriaethau

**Cynnwys yn ymwneud â Blwyddyn Diwylliant Ucheldiroedd yr Alban 2007** Ymhlith y rhaglenni roedd y rhaglen ddogfen *The Glencoe Massacre*, cyfres chwe rhan o *Highland Clans, MacMusical* a *Highland Empire*. Daeth y flwyddyn i ben gyda *Highland Lives*, cyfres o ddyddiaduron fideo byr.

**Cyfres ar greu cerddoriaeth gynhenid yn yr Alban** Aeth y gyfres chwe rhan *Scotland's Music* gyda Phil Cunningham ar drywydd treftadaeth gerddorol yr Alban gan ddarlledu i gynulleidfa sylweddol a chael canmoliaeth feirniadol.

**Datblygu a chomisiynu cynnwys aml-lwyfan** Ymhlith yr enghreifftiau mae *Scotland's Music*, darllediadau o'r etholiadau lleol a seneddol, *T in the Park*, a 'mobisodes' *River City*. Mae'r contract pum mlynedd newydd yn cynnwys darllediadau o gemau pêl-droed Uwch-Gynghrair yr Alban, gyda phob gêm yn fyw ar y radio ac ar-lein, a rhaglen deledu o uchafbwyntiau'r gemau a chlipiau band eang.

## BBC Radio Wales

### Blaenoriaethau

**Newyddion, chwaraeon a gwybodaeth** Y rhaglen *Good Evening Wales* yn y prif slot oriau cymudo gyda'r nos wedi'i hymestyn hanner awr ac yn darlledu bwletinau newyddion arbennig neu ddarllediadau byw yn rheolaidd i adlewyrchu'r agenda yng Nghymru.

**Darllediadau o etholiad Cynulliad Cymru** Roedd *The Radio Wales Phone-in with Richard Evans* yn cynnwys cyfweliadau gydag arweinwyr. Ymhlith y darllediadau cynhwysfawr roedd rhaglen a ddarlledwyd drwy'r nos ar noson yr etholiad a rhaglenni newyddion arbennig a ddarlledwyd ar ôl yr etholiad wrth i'r frwydr dros arweinyddiaeth Cynulliad Cymru barhau.

**Cynnwys llafar yn ystod y dydd** Wedi'i gyfoethogi a'i wella, gyda phynciau a gwesteion newydd. Mae Roy Noble bellach yn darlledu yn y prynhawn, gyda Jamie Owen a Louise Elliott yn cyflwyno o 9am tan hanner dydd.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Wales | 1,500 | 1,661 |
| Oriau ar BBC Radio Wales, heb gynnwys newyddion a materion cyfoes (heb gynnwys rhaglenni eithrio) | 5,300 | 5,408 |

## BBC Radio Cymru

### Blaenoriaethau

**Darllediadau o etholiad Cynulliad Cymru** Darllediadau eang ar *Post Cyntaf, Taro'r Post, Post Prynhawn, Dau o'r Bae* a *Manylu*. Cafwyd darllediadau ar y gwasanaeth ieuenctid *C2* hefyd mewn ymgais i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd.

**Cynyddu cyrhaeddiad yn y prynhawniau yn ystod yr wythnos** Mae gwaith yn parhau ar adfywio amserlen y prynhawn yn ystod yr wythnos. Mae'r rhaglenni newydd *Stiwdio* sy'n ymdrin â'r celfyddydau yng Nghymru, a *Blas*, rhaglen bwyd a diod wythnosol, yn targedu'r ystod oedran 30–40 a danwasanaethir.

**Gweithredu strategaeth aml-lwyfan** Strwythur comisiynu gwell i wneud y gorau o gyfleoedd aml-lwyfan. Mwy o raglenni peilot podledu wedi'u cymeradwyo wrth inni geisio cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac iau. Ail-lansiwyd gwefan y gwasanaeth ieuenctid *C2*.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Cymru | 1,000 | 1,057 |
| Oriau ar BBC Radio Cymru, heb gynnwys newyddion a materion cyfoes (heb gynnwys rhaglenni eithrio) | 6,200 | 6,302 |

## BBC One Wales

### Blaenoriaethau

**Cynyddu cyrhaeddiad i ddarllediadau o etholiad y Cynulliad** Ymhlith y ffyrdd arloesol o wneud hyn roedd dewis 60 o bleidleiswyr nad oeddent wedi penderfynu eto i bwy roeddent am bleidleisio a rhoi darlun unigryw iddynt o'r materion drwy gydol yr etholiad ym mhob gwasanaeth.

**Ehangu cyrhaeddiad i gynulleidfaoedd iau** Bu *Coal House* yn llwyddiant aml-lwyfan digyffelyb i BBC Wales, gyda'r cynnydd mwyaf yng nghyfran y gynulleidfa ymhlith ein hystod oedran 25–44 oed a danwasanaethwyd yn flaenorol.

## BBC Two Wales

### Blaenoriaethau

**Ehangu apêl y gynulleidfa** Profodd *What's in a Name?*, prosiect aml-lwyfan arloesol yn ymwneud ag enwau lleoedd, yn boblogaidd; daeth wynebau cyfarwydd ynghyd i ddathlu canmlwyddiant Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn *National Treasures*; a darlledwyd *BBC Cardiff Singer of the World* yn ystod oriau brig.

**Dadansoddi chwaraeon** Mae *Sport Wales* yn gyfrwng pwrpasol ar gyfer newyddiaduraeth chwaraeon ym mhob un o'r disgyblaethau. Mae *Scrum V*, y rhaglen fyw a'r rhaglen uchafbwyntiau, yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd mawr.

## BBC Radio Ulster/Foyle

### Blaenoriaethau

**Newyddion a materion cyfoes** Arweiniodd digwyddiadau allweddol yn ymwneud â datganoli, ail-sefydlu'r weithrediaeth yn Stormont, tynnu milwyr allan o Ogledd Iwerddon a'r etholiad at ein cynulleidfaoedd mwyaf erioed ar gyfer rhaglenni newyddion a dadleuon am bynciau llosg, yn cynnwys *Talkback* a *The Stephen Nolan Show*.

**Cynnal amrywiaeth yr amserlen** Mae boreau Sadwrn bellach yn cynnwys rhaglen barhaus o ddarllediadau awyr agored a gweithgarwch rhaglenni wedi ei arwain gan ddigwyddiadau sydd wedi sicrhau bod mwy o leisiau, cymunedau a grwpiau amrywiol nag erioed o'r blaen ar yr awyr. Caiff y celfyddydau, cerddoriaeth a diwylliant eu hadlewyrchu mewn rhaglenni dyddiol yn ymwneud ag adloniant a'r celfyddydau a darllediadau o ddigwyddiadau arbennig fel Noson Agoriadol Gŵyl Belfast.

**Gweithredu cymdeithasol a mentrau dysgu i oedolion** Dechreuodd cyfres yn canolbwyntio ar ddysgu i oedolion sef *Teabreak* ar Radio Ulster MW ym mis Ionawr. Bu dwy ymgyrch yn ystod y flwyddyn hon: *RaW* a *Breathing Places*.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o radio lleol a gynhyrchwyd yn fewnol | 8,400 | 9,121 |
| Oriau o newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Foyle | 380 | 510 |
| Oriau o newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Ulster | 1,550 | 1,800 |
| Oriau o gomedi newydd ar BBC Radio Ulster | 20 | 20 |
| Oriau o raglenni radio Sgoteg Ulster | 40 | 40 |
| Rhaglen gerddoriaeth arbenigol nosweithiol | ✓ | ✓ |

## BBC One Northern Ireland

### Blaenoriaethau

**Parhau i gael cymeradwyaeth ar gyfer darllediadau newyddion** Cyflawnodd *BBC Newsline* sgôr gwerthfawrogiad o 84 ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn, yr uchaf o blith unrhyw un o raglenni newyddion fin nos rhanbarthol neu genedlaethol y BBC.

| | Ymrwymiad | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Oriau o gynnwys eithrio nad yw'n cynnwys newyddion ar BBC One NI | 100 | 165 |

## BBC Two Northern Ireland

### Blaenoriaethau

**Dathlu ac ymchwilio i fywyd yng Ngogledd Iwerddon** Y prif feysydd y canolbwyntir arnynt ar gyfer cynnwys lleol yw gwleidyddiaeth, chwaraeon, ysgolion, cerddoriaeth arbenigol ac ieithoedd lleiafrifol. Ymhlith yr enghreifftiau roedd y gyfres hir *Hearts and Minds*, a *Blackstaff Sessions*, rhaglen ar gerddoriaeth werin. Roedd y rhaglenni ar gael mewn Gwyddeleg a Sgoteg Ulster.

**Adlewyrchu diddordebau lleiafrifol ac arbenigol** Mae *Blas Ceoil* yn gyfres newydd deg rhan ar gerddoriaeth. Dechreuodd *Imeall Geall* ym mis Ionawr, a chomisiynwyd ail gyfres o *Dander with Drennan*, rhaglen Sgoteg Ulster.

# Trosolwg ariannol

"Rydym yn gweithio ar draws y BBC i gyflawni'r gwerth gorau posibl o bob punt o ffi'r drwydded ac incwm masnachol. Nid yw risg greadigol yn golygu byrbwylltra ariannol ac anelwn at gyflawni ein gwaith o wneud rhaglenni gwych mor syml ac effeithlon â phosibl, gan gyflawni rhywbeth sydd o werth i'n holl gynulleidfaoedd."

Zarin Patel
**Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp**

**Casglu/osgoi talu ffi'r drwydded, %**

| | |
|---|---|
| 05/06 | 9.6 |
| 06/07 | 9.2 |
| 07/08 | **8.7** |

Mae cost gyfunol osgoi talu a chasglu fel canran o incwm gros ffi r drwydded wedi gostwng, wedi i hysgogi gan arbedion o ran costau casglu, yn enwedig gwerthu trwyddedau dros y cownter.

**Elw BBC Worldwide cyn llog a threth, £Mau**

| | |
|---|---|
| 05/06 | 89 |
| 06/07 | 111 |
| 07/08 | **118** |

Ysgogwyd cynnydd yn elw BBC Worldwide, ar drosiant o £916miliwn, gan werthiannau cryf o ran rhaglenni a fformatau, a gwerthiannau DVDs, dramor.

**Arbedion effeithlonrwydd, £Mau**

| | |
|---|---|
| 05/06 | 106 |
| 06/07 | 228 |
| 07/08 | **347** |

Daeth ein rhaglen effeithlonrwydd tair blynedd i ben ym mis Mawrth 2008, gan arwain at arbedion cylchol blynyddol o £347miliwn. O r flwyddyn nesaf, ein targed yw cyflawni effeithlonrwydd o 3% y flwyddyn.

**Ffi'r drwydded a wariwyd ar draws gwledydd/rhanbarthau'r DU, £Mau**

| | |
|---|---|
| 05/06 | 835 |
| 06/07 | 864 |
| 07/08 | **960** |

Rydym yn parhau i fuddsoddi n helaeth mewn rhaglenni a gwasanaethau o bob un o wledydd a rhanbarthau'r DU.

## AMCANION A STRATEGAETH

Nid oes gan y BBC unrhyw gyfranddeiliaid, ac nid yw'n ceisio gwneud elw o'i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus. Golyga hyn fod ein hamcanion yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein cynulleidfaoedd yn cael gwerth am arian o ffi'r drwydded:

- Casglu ffi'r drwydded mewn ffordd mor effeithlon â phosibl. Rydym yn gwneud hyn drwy roi'r dulliau talu mwyaf cost effeithiol ar waith a chadw cyfraddau osgoi mor isel â phosibl;
- Sicrhau'r gwerth mwyaf ar gyfer rhaglenni y telir amdanynt gan ffi'r drwydded. Gwnawn hyn drwy ein busnes masnachol BBC Worldwide, y gwerthwn nifer cynyddol o raglenni dramor drwyddo, yn ogystal â datblygu gwasanaethau ar-lein newydd;
- Sicrhau bod y BBC yn cael ei redeg mor effeithlon â phosibl. Gwnawn hyn drwy ddefnyddio technoleg newydd, symleiddio'r ffordd rydym yn gweithredu, a blaenoriaethu adnoddau mewn meysydd sy'n rhoi'r gwerth mwyaf i bob un o dalwyr ffi'r drwydded.
- Defnyddio ffi'r drwydded er budd pob ardal o'r DU. Rydym yn gwneud hyn drwy sefydlu canolfannau cynhyrchu newydd y tu allan i Lundain, megis yn Salford, a thrwy wneud mwy o raglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

## PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae'r siartiau ar frig y tudalennau hyn yn dangos ein dangosyddion perfformiad ariannol allweddol.

### Incwm o ffi'r drwydded

Lleihau costau a rheoli lefelau osgoi yw dwy brif elfen ein strategaeth casglu ffi'r drwydded. Eleni, gwelwyd gostyngiadau sylweddol pellach o ran costau casglu, i £123miliwn (2007: £134miliwn), ac roedd yr achosion o osgoi talu yn ddigyfnewid ar 5.1%.

Mae costau casglu bellach yn 3.6% o werthiannau gros ffi'r drwydded, yr isaf erioed. Rydym wedi gwneud hyn drwy sefydlu dulliau talu mwy effeithlon, a thrwy wneud arbedion ar gontractau gydag asiantau casglu. Yn benodol, dyma oedd blwyddyn lawn gyntaf ein contract gyda PayPoint ar gyfer gwerthu trwyddedau dros y cownter a rhagamcenir y bydd yn arbed tua £100miliwn i ni dros chwe blynedd.

Mae mwy o bobl yn talu am eu trwydded deledu drwy ddebyd uniongyrchol – 66% i gyd – sy'n cymharu'n ffafriol â chyfleustodau eraill, yn enwedig gan nad ydym yn gallu cymell pobl i newid o ddulliau talu eraill. Fodd bynnag, gyda nifer y rhai sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol yn lefelu allan, rydym yn chwilio am ffyrdd eraill o leihau costau.

Mae gwerthu trwyddedau ar-lein yn un ffordd o wneud hyn. Gwerthwyd dros 1.5 miliwn o drwyddedau ar-lein y llynedd – cynnydd o 27% o flwyddyn i flwyddyn. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyflwyno e-drwyddedau i gwtogi ar y costau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau papur.

Ar ôl degawd pan welwyd nifer yr achosion o osgoi talu yn gostwng, rydym wedi cyrraedd lefel lle mae'n anodd cyrraedd, a dal gafael ar bobl nad ydynt am dalu. Wrth edrych ymlaen, bydd y newid i ddigidol a'r twf yn y ffyrdd y gellir cael gafael ar ein cynnwys yn cynrychioli heriau newydd, er y caiff hyn ei leddfu'n rhannol gan y cynnydd a ragwelir yn nifer y cartrefi yn y DU.

### Perfformiad busnesau masnachol

Arweiniodd strategaeth BBC Worldwide i gynyddu refeniw tramor ac ar-lein unwaith eto at y gwerthiannau mwyaf erioed – £916miliwn eleni (2007: £810miliwn), ac elw cyn llog a threth o £118miliwn (2007: £111miliwn). Cynyddodd adenillion ar werthiannau felly i 12.8% (2007: 12.4%). Cafwyd enillion (cyn llog, treth, dibrisio ac amorteiddio) o £233miliwn (2007: £222miliwn), sef gorswm o 25.5% (2007: 27.4%).

Gwelwyd cynnydd unwaith eto o ran rhaglenni a fformatau'r BBC a werthwyd i ddarlledwyr dramor a gwerthiannau DVDs yn y DU a thramor. Bellach, mae 56% o werthiannau BBC Worldwide (heb gynnwys cyd-fentrau) o'r tu allan i'r DU. Mae'r cyfuniad o werthiannau o Lonely Planet yn dilyn y broses o'i gaffael hefyd yn cyfrif am rywfaint o'r cynnydd.

Gwelir y canlyniadau hyn ar adeg pan fo'r busnes yn destun datblygiadau mawr drwy ei strategaeth ddigidol, gyda buddsoddiad mewn gwasanaethau ar-lein newydd fel chwaraewr cyfryngau masnachol (yn amodol ar gymeradwyaeth Ymddiriedolaeth y BBC). Mae BBC Worldwide yn rhagweld y bydd ei elw yn gostwng yn sgîl maint y buddsoddiadau hynny y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, dros y tymor hwy, golyga'r strategaeth hon y bydd BBC Worldwide yn sicrhau gwell gwerth i dalwr ffi'r drwydded drwy ddatblygu ffyrdd newydd o fanteisio ar gynnwys sy'n eiddo i'r BBC.

Ym mis Hydref 2007, prynodd BBC Worldwide fudd o 75% yn y cwmni gwybodaeth teithio o Awstralia, Lonely Planet. Mae'r caffaeliad yn ategu ei strategaeth i sicrhau twf dramor a digidol. Ers ei gaffael, mae Lonely Planet wedi cyfrannu gwerthiannau o £23miliwn, ac mae ei fusnes masnachu sylfaenol yn broffidiol (er iddo gofnodi colled fach o £2filiwn yn sgîl amorteiddio ewyllys da a chostau integreiddio).

Ar 1 Ebrill 2008, cyhoeddwyd ein bod yn gwerthu is-adran Outside Broadcasts BBC Resources Limited i Satellite Information Services Limited. Mae'r gwerthiant yn dilyn Arolwg Masnachol 2004 a ddaeth i'r casgliad nad oedd angen i'r busnes fod yn eiddo i'r BBC. Mae'r enillion o'i werthu yn adlewyrchu'r ffaith bod gan y busnes fwy o botensial i dyfu o dan berchenogaeth newydd, yn rhydd o gyfyngiadau is-gwmnïau'r BBC ar godi cyfalaf ar gyfer buddsoddiad newydd.

**Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd**
Effeithlonrwydd – gwneud mwy am lai a gwario ar y pethau cywir – yw llinell waelod ariannol y BBC. Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi cyflawni arbedion cylchol blynyddol sy'n werth cyfanswm o £347miliwn bellach ar draws ein busnes UK PSB. Mae hyn yn cynrychioli tua 10% o'n costau. Y costau untro a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen oedd £197miliwn dros y tair blynedd.

Mae'r ffigur hwn ychydig yn llai na'n targed o £355miliwn. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys arbedion gwarantedig pellach o £10miliwn, sef enillion o waredu eiddo sy'n dderbyniadwy yn 2010. Ar ôl ystyried y rhain, byddwn wedi rhagori ar y targed.

Mae'r rhaglen yn parhau â'n ffocws hirdymor ar leihau costau, gydag arbedion effeithlonrwydd wedi'u cyflawni bob blwyddyn ers dechrau'r 1990au. Mae hyn yn cynnwys dros £2biliwn rhwng 2000 a 2006, drwy gytundebau gwell gyda chyflenwyr, canoli rhai gwasanaethau cymorth, a newid arferion gwaith i wella'r ffordd y defnyddir staff.

O'r flwyddyn nesaf, o dan Raglen Gwelliant Parhaus newydd, byddwn yn anelu at gyflawni 3% o effeithlonrwydd rhyddhau arian parod (yn glir o gostau) bob blwyddyn hyd at ddiwedd setliad cyfredol ffi'r drwydded yn 2012/13. Mae'n rhaid i ni ddod o hyd i arbedion arian parod cynaliadwy sy'n cyfateb i 3% o'n costau parhaus, tra'n gwella neu'n cynnal ansawdd ein hallbwn a rheoli chwyddiant. Caiff yr arbedion hyn eu hadolygu bob blwyddyn gan ein harchwilwyr, ac yn 2010 gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Bydd yr effeithlonrwydd a gyflawnir o dan y rhaglen hon naill ai'n gynhyrchiol (gwneud pethau am gost lai tra'n cynnal ansawdd) neu'n ddyrannol (symud adnoddau i weithgareddau sy'n rhoi gwell gwerth i dalwyr ffi'r drwydded). Mewn geiriau eraill, mae angen arbed arian a sicrhau bod agweddau hanfodol ar berfformiad yn cael eu cynnal neu eu gwella.

O ystyried y cynnydd parhaus a welir mewn chwyddiant a chostau ynni, mae'r targed blynyddol hwn yn heriol. Ond ar yr un pryd mae'r newid technolegol ym maes darlledu yn digwydd yn gyflymach nag erioed, gan greu cyfleoedd i leihau costau cynhyrchu.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol dri adroddiad o dan y rhaglen astudiaethau gwerth am arian y cytunwyd arni gydag Ymddiriedolaeth y BBC. Croesawn ganfyddiadau'r astudiaethau hyn ac rydym wrthi'n rhoi'r argymhellion ar waith. Mae'r adroddiadau ar gael yn www.bbc.co.uk/bbctrust/

**Newid i ddigidol**
O dan delerau setliad cyfredol ffi'r drwydded, caiff cyfran o incwm ffi'r drwydded ei neilltuo er mwyn helpu i dalu am gostau'r diwydiant ehangach sy'n gysylltiedig â newid i ddigidol.

Mae hyn yn cynnwys ymgyrch farchnata ac ymwybyddiaeth a redir gan Digital UK Limited, endid ar wahân y mae'r BBC a darlledwyr eraill y DU yn berchen arno ar y cyd. Eleni, aeth Digital UK Limited i gostau o £21miliwn, y cyfrannodd y BBC £19miliwn (2007: £12miliwn/ £10miliwn) tuag atynt, a bydd gwariant yn cynyddu unwaith eto y flwyddyn nesaf wrth i fwy o ranbarthau agosáu at eu dyddiad newid. Mae cyfanswm o £201miliwn hyd at 2012/13 wedi'i neilltuo ar gyfer y gweithgarwch hwn.

Yn ogystal â hyn, mae'n ofynnol i'r BBC dalu am y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol, sy'n helpu hyd at saith miliwn o bobl (y rhai dros 75 oed, neu ar fudd-daliadau anabledd penodol, neu sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall) i newid un set deledu i ddigidol. Gweinyddir y cynllun gan DSHS Limited, is-gwmni dan berchenogaeth lawn, a wariodd £6miliwn eleni (2007: £dim). Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd gymorth i tua 2,600 o bobl yn Cumbria – yr ardal gyntaf lle diffoddwyd y signal analog. Gyda'i gilydd, mae £603miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer y gweithgarwch hwn.

Megis dechrau mae'r broses o newid i ddigidol, ond ar sail y costau yr aethpwyd iddynt hyd yn hyn, nid ydym yn disgwyl i'r costau fod yn uwch na'r symiau a neilltuwyd.

**Trwyddedau gwasanaeth**
Daeth y fframwaith trwyddedau gwasanaeth newydd i rym ar 1 Ionawr 2007 ac eleni yw'r flwyddyn lawn gyntaf y caiff ei weithredu. Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd a gwellwyd y broses gyfrifyddu ar gyfer trwyddedau gwasanaeth, a chytunwyd ar gyllidebau sylfaenol trwyddedau gwasanaeth wedi'u diweddaru gydag Ymddiriedolaeth y BBC.

Yn ystod y flwyddyn, rhagorwyd ar nifer o'r cyllidebau trwyddedau gwasanaeth, gyda sawl gwasanaeth arall yn gwario llai na'u cyllideb. Cytunwyd ar y rhain gydag Ymddiriedolaeth y BBC ac fe'u hamlinellir yn Nodyn 28.

**Prisio'r cynllun pensiwn**
Cwblhawyd prisiad actiwaraidd ffurfiol cynllun pensiwn cyflog terfynol y BBC ar 1 Ebrill 2007 ychydig ar ôl diwedd y flwyddyn hon a dangosodd warged o £275miliwn (1 Ebrill 2005 gwarged o £13miliwn), gyda'r cynnydd yn adlewyrchu dwy flynedd o adenillion cryf ar asedau'r cynllun.

Wrth i ddisgwyliad oes gynyddu, mae cynlluniau cyflog terfynol yn dod yn gynyddol ddrutach, ac mae hyn yn gyfrifol am y cynnydd bach mewn cyfraddau cyfraniadau cyffredinol i 25.35% (2007: 24.8%). Mae ein cynllun cyflog terfynol yn rhan bwysig o'n pecyn cydnabyddiaeth cyffredinol i staff. Fodd bynnag, ni ddylid gofyn i dalwyr ffi'r drwydded ei gefnogi waeth beth fo'r pris, a dyna pam ein bod wedi lansio adran Buddiannau Cyfartaledd Gyrfa i aelodau newydd o fis Tachwedd 2006 a pham, o fis Ebrill 2009, y byddwn yn gofyn i'n staff helpu i dalu cost disgwyliad oes hwy drwy ddau gynnydd graddol i gyfradd cyfraniad y cyflogai.

**Adnoddau**
Mae gennym adnoddau gwerthfawr i'n helpu i gyflawni ein hamcanion ariannol a'n hamcanion corfforaethol ehangach. Creadigrwydd ac arloesedd yw hanfod y BBC ac felly buddsoddwn amser ac ymdrech i ddenu, datblygu, a chadw pobl wych drwy broses recriwtio effeithiol a rhaglenni hyfforddi a datblygu eang.

Mae arian gwarantedig ffi'r drwydded ar gyfer gweddill cyfnod y Siarter hefyd yn ein galluogi i gynllunio gyda chryn sicrwydd, hyd yn oed os na allwn reoli costau cynyddol. Mae brand ac enw da'r BBC, yn y DU a thramor, hefyd yn asedau pwysig. Er gwaethaf camgymeriadau golygyddol y llynedd mae arwyddion bod ymddiriedaeth y gynulleidfa wedi'i hadfer erbyn hyn.

**Risgiau ac ansicrwydd**
Rhestrir y prif risgiau ac ansicrwydd a wynebwn wrth gyflawni ein hamcanion corfforaethol cyffredinol isod:

- **Colli perthnasedd i gynulleidfaoedd** os bydd ansawdd a natur nodedig ein rhaglenni yn dirywio, neu os byddwn yn methu â sicrhau bod rhaglenni ar gael yn hawdd yn unol â'r diwydiant. Er mwyn mynd i'r afael â'r risg hon, rydym yn cynnal ymchwil eang ar gynulleidfaoedd ac yn ymchwilio i ffyrdd newydd o alluogi cynulleidfaoedd i gael gafael ar ein rhaglenni pa bryd bynnag y mae'n gyfleus iddynt.

- Digwyddiadau sy'n achosi **niwed i'n staff neu gynulleidfaoedd**. Mae diogelwch yn hollbwysig, a chynhaliwn asesiadau risg manwl cyn ymgymryd â gweithgareddau ffilmio, aseiniadau dramor a digwyddiadau sy'n ymwneud â'r cyhoedd.

- **Amharu ar allbwn** o ganlyniad i golli cyswllt darlledu neu weithredu diwydiannol. Er mwyn diogelu rhag hyn, profir ein cynlluniau parhad busnes yn rheolaidd, ac rydym yn cydweithio'n agos ag undebau ar faterion staffio.

- **Colli talent allweddol a phrif hawliau,** yn enwedig wrth i'r gystadleuaeth ymhlith darlledwyr am y perfformwyr gorau, rhaglenni a hawliau chwaraeon ddwysáu. Rydym wedi datblygu strategaethau cydlynol ar gyfer datblygu a thalu am dalent, ac ar gyfer datblygu portffolio o hawliau rhaglenni a chwaraeon sy'n ceisio cynnig rhywbeth at ddant pawb.

- **Torri safonau golygyddol**, sy'n niweidio ymddiriedaeth y gynulleidfa ynom. Mewn ymateb i'r achosion hynny o dorri safonau a nodwyd eleni, rydym wedi sefydlu Bwrdd Safonau Golygyddol newydd, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, i oruchwylio cydymffurfiad â'r polisi golygyddol.

- Mae chwyddiant uchel parhaus a chynnydd parhaus ym mhris ynni **yn lleihau ein pŵer gwario mewn termau gwirioneddol**. Er mwyn lleddfu hyn, adolygwn ein cynlluniau gwariant yn rheolaidd i weld beth y gallwn ei fforddio a'r hyn sy'n cynrychioli'r gwerth gorau am arian. Caiff BBC Worldwide ei amlygu i'r risg o gwymp economaidd ehangach hefyd, ond caiff ei ddiogelu'n gymharol dda oherwydd yr ystod eang o fusnesau a'r marchnadoedd byd-eang y mae'n gweithredu ynddynt; er y byddai dirywiad yn y farchnad hysbysebu yn cael effaith ar werthiannau, byddai ffrydiau cyllid eraill yn rhoi diogelwch.

Caiff manylion prosesau rheoli risg y BBC eu cynnwys yn yr adran Llywodraethedd a'r Datganiadau Ariannol (gweler tudalen 89).

## CANLYNIADAU STATUDOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2008

### Incwm a gwariant

Mae incwm Grŵp y BBC o £4,415miliwn yn cynrychioli cynnydd o £238miliwn (6%) ar y flwyddyn flaenorol. Gwelwyd cynnydd o 4% yn incwm ffi'r drwydded i £3,369miliwn, gan adlewyrchu'r cynnydd o 3% yng nghost trwydded deledu, ynghyd â gostyngiadau mewn costau casglu a thwf yn nifer y cartrefi yn y DU.

Y prif reswm am y ffaith bod y cynnydd mewn incwm wedi rhagori ar y cynnydd o ran ffi sefydlog y drwydded oedd perfformiad busnesau masnachol, lle gwelwyd cynnydd o 13% o gymharu ag incwm y llynedd (2007: £636miliwn) i £720miliwn (heb gynnwys cyfran y BBC o incwm cyd-fentrau).

Ni welwyd cynnydd yng ngwariant gweithredu'r Grŵp ar yr un gyfradd (roedd gwariant o £4,475miliwn 2.8% yn uwch), yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad yn nhâl cyfrifyddu FRS 17 ar gyfer cost buddiannau cynllun pensiwn a enillwyd gan aelodau yn ystod y flwyddyn. Os hepgorir y costau hyn, cynyddodd costau gweithredu 6% yn unol ag incwm.

### Mantolen

Gostyngodd asedau net y Grŵp, heb gynnwys y cynllun pensiwn, ychydig i £996miliwn (2007: £1,064miliwn). O fewn hyn, arhosodd cyfalaf gwaith yn gyson ar y cyfan, gyda £359miliwn o asedau cyfredol net (2007: £377miliwn). Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd ein benthyciadau £107miliwn net, yn bennaf o fewn y busnesau masnachol er mwyn ariannu'r broses o gaffael Lonely Planet. Yn ystod cyfnod cyfredol ffi'r drwydded, rhagwelwn y bydd lefel ein benthyciadau yn cynyddu er mwyn talu am welliannau i raglenni a gwasanaethau, tra'n aros o fewn y terfyn benthyca a nodir yn y Siarter.

Gweler y symudiad sylweddol arall yn lefel y darpariaethau, a gynyddodd £39miliwn yn bennaf oherwydd y ddarpariaeth ar gyfer costau dileu swyddi yn y dyfodol.

### Datganiad llif arian parod

Gostyngodd balans arian parod y Grŵp £67miliwn yn ystod y flwyddyn, ond yn hytrach na chynhyrchu mwy o arian parod, mae'n bwysig nodi mai ein prif flaenoriaeth yw sicrhau ein bod yn aros o fewn y terfynau benthyca a nodir yn y Siarter.

### Polisïau'r Trysorlys

Ein nod yw sicrhau bod gennym ddigon o arian rhydd i fodloni rhwymedigaethau ariannol fel y dônt yn ddyledus, a'n bod yn cydymffurfio â'r holl derfynau benthyca (yn arbennig, y rhai a nodir yn y Siarter ac unrhyw gyfamodau benthyca allanol – gweler Nodyn 23).

### Polisïau cyfrifyddu hollbwysig

Disgrifir ein polisïau cyfrifyddu'n fanwl yn y datganiadau ariannol (tudalennau 101–104). Y ddau faes sy'n galw am arddel y doethineb mwyaf yw pensiynau a darpariaethau:

- Mae ein prisiad o'r cynllun pensiwn at ddibenion cyfrifyddu FRS 17 yn cynnwys tybiaethau o ran disgwyliad oes, adenillion ar fuddsoddiadau yn y dyfodol, chwyddiant a thwf mewn cyflogau, fel y nodir yn Nodyn 8c viii. Rydym yn ymgynghori ag actiwarïaid y cynllun er mwyn sicrhau eu bod yn disgyn o fewn ystod dderbyniol yn seiliedig ar arfer y farchnad, ond byddai tybiaethau gwahanol yn arwain at newid yn lefel y gwarged.


- Mae darpariaethau yn cynrychioli ein hamcangyfrif gorau o rwymedigaethau yn y dyfodol, yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â chostau dileu swyddi yn y dyfodol. Mae'r rhain, er enghraifft, yn cynnwys tybiaethau ar nifer y bobl dan sylw a lefel eu cydnabyddiaeth, ac er bod y rhain yn seiliedig ar brofiad yn y gorffennol byddai'r ddarpariaeth yn newid pe baem yn defnyddio tybiaethau gwahanol.

Eleni, rydym hefyd wedi mabwysiadu diwygiad i 'Retirement Benefits' FRS 17. Disgrifir y newid hwn, a'i effaith ar y datganiadau ariannol, ar dudalen 112.

### Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau a restrir yn y DU fabwysiadu Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol ('IFRS') yn natganiadau ariannol y grŵp. Er bod y BBC fel arfer yn paratoi ei ddatganiadau ariannol ar sail sy'n gyson â chwmnïau a restrir yn y DU, rydym wedi penderfynu peidio â mabwysiadu IFRS eleni.

Ein bwriad o hyd yw paratoi datganiadau ariannol ar yr un sail a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi wrth baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Yn seiliedig ar y cyhoeddiad yn y datganiad cyllideb eleni, o ran y flwyddyn gyntaf o fabwysiadu IFRS ar gyfer Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, rydym yn bwriadu paratoi datganiadau ariannol yn unol ag IFRS o 2009/10 ymlaen. Yn y cyfamser, mae Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU yn gymwys, er ein bod yn dangos effaith mabwysiadu IFRS ar gyfrifon Grŵp y BBC ar dudalen 147.



**Zarin Patel**
Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp
19 Mehefin 2008

# Llywodraethedd a'r datganiadau ariannol

"Mae llywodraethedd effeithiol – y system o gyfarwyddo a rheoli sefydliad, yn cynnwys y prosesau a ddefnyddir i dargedu a monitro adnoddau cyfyngedig yn effeithlon – wrth wraidd gallu'r BBC i weithredu'n llwyddiannus yn yr amgylchedd busnes byd-eang."

Zarin Patel
**Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp**

**FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y BBC**

Diffinnir cyfansoddiad, gweithrediadau a swyddogaethau'r Bwrdd Gweithredol yn y Siarter Frenhinol (y Siarter). Wrth gyflawni ei swyddogaethau mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Felly, er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, mae wedi dewis dilyn darpariaethau perthnasol Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a Chod Cyfunol ar Lywodraethu Corfforaethol y Cyngor Adroddiadau Ariannol (Cod FRC 2006), er mwyn bod yn gyson â chwmnïau a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cydymffurfio â gofynion y Siarter, gan greu trefniadau llywodraethu priodol ac effeithiol ar gyfer y BBC. Mae hyn hefyd wedi sicrhau cydymffurfiad sylweddol â Chod FRC 2006 er nad yw Cod FRC 2006 yn briodol i amgylchiadau'r BBC mewn nifer o feysydd. Mae cydymffurfio â'r Siarter wedi arwain at nifer fechan o feysydd lle na chydymffurfiwyd â Chod FRC 2006, er bod y Bwrdd Gweithredol yn credu nad yw hyn yn peryglu ansawdd y trefniadau llywodraethu sydd ar waith, fel y dangosir yma.

| Egwyddor Cod FRC 2006 | Sefyllfa'r BBC | Esboniad |
|---|---|---|
| A.2 – Dylai fod rhaniad clir o ran cyfrifoldebau ar lefel uchaf y cwmni rhwng y gwaith o redeg y bwrdd a'r cyfrifoldeb gweithredol am gynnal busnes y cwmni. Ni ddylai fod gan un unigolyn bwerau dilyffethair i wneud penderfyniadau. | Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, prif swyddog gweithredol y BBC. | Mae'r Siarter yn nodi y gall y Cyfarwyddwr Cyffredinol weithredu fel Cadeirydd Gweithredol y Bwrdd Gweithredol.<br><br>Mae rôl Ymddiriedolaeth y BBC wrth gymeradwyo strategaeth ar lefel uchel yn golygu na ddylai fod gan un unigolyn bwerau dilyffethair. |
| A.3 – Dylai'r bwrdd gynnwys cydbwysedd o gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol (ac yn arbennig gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol) fel na all un uniglyn neu grŵp bach o unigolion reoli gwaith y bwrdd o wneud penderfyniadau. | Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys 16 cyfarwyddwr, gyda deg ohonynt yn Gyfarwyddwyr Gweithredol a chwech yn Gyfarwyddwyr anweithredol. Ystyrir bod pob Cyfarwyddwr anweithredol yn annibynnol at ddibenion Cod FRC 2006.<br><br>O ganlyniad, nid yw'r Bwrdd Gweithredol yn cydymffurfio â'r ddarpariaeth (A.3.2) y dylai o leiaf hanner y bwrdd, ac eithrio'r Cadeirydd, fod yn annibynnol. | Mae'r Siarter yn nodi na all nifer y Cyfarwyddwyr anweithredol fod yn llai na thraean ac na all fod yn hafal i neu'n fwy na hanner aelodau'r Bwrdd Gweithredol.<br><br>Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys cydbwysedd o Gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol ac ni all unigolyn na grŵp bach o unigolion reoli'r gwaith o wneud penderfyniadau. |

Yn ogystal, nid yw'r darpariaethau yng Nghod FRC 2006 sy'n ymwneud â rhyngweithio â chyfranddeiliaid yn gymwys i'r BBC, er ei bod, o dan rai amgylchiadau, yn bosibl ystyried, drwy gyfatebiaeth, y ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwneud â thalwyr ffi'r drwydded. Nodir hyn yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## BWRDD GWEITHREDOL

### Rôl y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am bob agwedd ar y broses weithredol o reoli'r BBC (heblaw Uned Ymddiriedolaeth y BBC), yn cynnwys:

- Darparu gwasanaethau'r BBC yn unol â chylchoedd gwaith pwrpas, trwyddedau gwasanaeth a strategaethau eraill;
- Cyfeirio allbwn golygyddol a chreadigol y BBC;
- Sicrhau cydymffurfiad â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoliadol (gan gynnwys cam cychwynnol ymdrin â chwynion am y BBC), heblaw lle mae'r meysydd hyn yn ymwneud yn benodol ag Ymddiriedolaeth y BBC neu Uned Ymddiriedolaeth y BBC;
- Sicrhau cydymffurfiad â'r holl ofynion a rydd Ymddiriedolaeth y BBC ar y Bwrdd Gweithredol;
- Cyflwyno cynigion i Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer unrhyw beth y mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ei gymeradwyo;
- Penodi rheolwyr y BBC a'i is-gwmnïau a'u dwyn i gyfrif;
- Cynnal materion ariannol gweithredol y BBC er mwyn sicrhau gwerth am arian;
- Bod yn atebol i Ymddiriedolaeth y BBC am ei berfformiad ei hun ac am berfformiad y BBC a'i is-gwmnïau;
- Cydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan Ymddiriedolaeth y BBC mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cyfarfod bob mis (heblaw am fis Awst); mae cofnodion cryno o'r cyfarfodydd ar gael ar-lein yn www.bbc.co.uk/info/running/executive/minutes.shtml.

Yn ymarferol, mae'r Bwrdd Gweithredol yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i grwpiau rheoli eraill. Nodir unrhyw ddirprwyaeth o'r Bwrdd Gweithredol yn rheolau sefydlog perthnasol pob grŵp a phennir fframwaith ar gyfer adrodd ac adolygu.

Yn unol â gofynion a darpariaethau'r Siarter parhaodd y Pwyllgorau canlynol i weithredu y llynedd:

- Pwyllgor Archwilio (tudalennau 90–91)
- Pwyllgor Masnachu Teg (tudalen 63)
- Pwyllgor Enwebiadau (tudalen 89)
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth (tudalen 92–95)

### Gwybodaeth a datblygiad proffesiynol

Pan fyddant yn ymuno â'r BBC, bydd y cyfarwyddwyr yn cael rhaglen sefydlu ac ystod eang o wybodaeth am y BBC. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y BBC, ei Gyfarwyddwyr, manylion am weithdrefnau'r Bwrdd a chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr.

Gall pob Cyfarwyddwr gael cyngor annibynnol allanol os byddant yn dymuno hynny.

### Tabl 7: Presenoldeb y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau

| | Bwrdd Gweithredol | | Pwyllgor Archwilio | | Pwyllgor Masnachu Teg | Pwyllgor Enwebiadau* | | Pwyllgor Cydnabyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyffredin | Eithriadol | Aelod | Yn bresennol | | Aelod | Yn bresennol | Aelod | Yn bresennol |
| Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod | 11 | 4 | 5 | | 4 | 1 | | 3 | |
| Mark Thompson | 11 | 4 | | 5 | | 1 | | | 3** |
| Mark Byford | 11 | 4 | | | | | 1 | | |
| Jenny Abramsky | 11 | 4 | | | | | | | |
| Jana Bennett | 10 | 4 | | | | | | | |
| Tim Davie | 11 | 3 | | | | | | | |
| Ashley Highfield | 10 | 3 | | | | | | | |
| Stephen Kelly | 11 | 3 | | | | | 1 | | 3 |
| Zarin Patel | 11 | 3 | | 5 | 4 | | | | |
| John Smith | 10 | 4 | | | | | | | |
| Caroline Thomson | 11 | 3 | | | 3 | | | | |
| Marcus Agius<br>Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth | 11 | 2 | | 1 | 4 | 1 | | 3 | |
| Val Gooding | 2*** | 1 | | | | | | | |
| Dr Mike Lynch | 10 | 4 | 4 | | | 1 | | 2 | |
| David Robbie<br>Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol | 10 | 2 | 5 | | | | | | |
| Dr Samir Shah | 11 | 2 | 5 | | 3 | | | | |
| Robert Webb<br>Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg | 10 | 0 | | | 4 | | | 2 | |

* *Mae Aelodaeth o'r Pwyllgor yn amrywio yn dibynnu ar y penodiad (anweithredol neu weithredol) a wneir. Mae Marcus Agius, Mark Thompson a Dr Mike Lynch yn aelodau ar gyfer pob penodiad. Mae Mark Byford yn aelod ar gyfer penodiadau gweithredol ac yn mynychu cyfarfodydd ar gyfer penodiadau anweithredol yn rheolaidd. Mark Thompson yw'r cadeirydd ar gyfer penodiadau gweithredol a Marcus Agius yw'r Cadeirydd ar gyfer penodiadau anweithredol.*

** *Dim ond am ran o un o'r cyfarfodydd y bu Mark Thompson yn bresennol.*

*** *Penodwyd Val Gooding yn Gyfarwyddwr anweithredol o 1 Ionawr 2008; dim ond tri chyfarfod cyffredin ac un cyfarfod eithriadol a gynhaliwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2008.*

## Gwerthuso perfformiad

Asesir perfformiad y Bwrdd Gweithredol wrth ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau'r BBC gan Ymddiriedolaeth y BBC yn unol â'r Siarter. Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn adolygu cynnydd yn barhaus sy'n arwain at ddiwrnod perfformiad blynyddol lle mae aelodau'r Bwrdd Gweithredol ac Ymddiriedolaeth y BBC yn bresennol. Mae Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC hefyd yn cyfarfod ar wahân gyda'r Cyfarwyddwyr anweithredol bob blwyddyn.

Rhoddwyd trefniadau llywodraethu cyfredol y BBC ar waith o 1 Ionawr 2007, pan ddaeth y Siarter bresennol yn weithredol a chan eu bod wedi bod ar waith bellach am flwyddyn adrodd lawn byddant yn destun arolwg symleiddio. Yn ogystal, fel rhan o'i rôl, mae'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol wedi ystyried effeithiolrwydd gweithrediad y Bwrdd Gweithredol (gweler isod).

Mae prosesau adolygu perfformiad Pwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol yn datblygu ac mae pob un yn adolygu ei berfformiad a'i effeithiolrwydd ei hun; ni nodwyd unrhyw faterion o bwys.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn adolygu perfformiad pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn unigol yn erbyn amcanion personol ac adrannol blynyddol. Adolygir y canlyniadau gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

## Pwyllgor Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn goruchwylio'r broses o gynnig, penodi a diswyddo aelodau o'r Bwrdd Gweithredol (heblaw am y Cadeirydd, a benodir gan Ymddiriedolaeth y BBC). Mae aelodaeth o'r Pwyllgor Enwebiadau yn ddibynnol ar ba un a yw'n arfer ei gyfrifoldebau mewn perthynas â phenodiadau gweithredol neu anweithredol.

Yn ystod y flwyddyn, penodwyd un cyfarwyddwr anweithredol. Roedd y broses ddethol yn cynnwys cyfweliadau â detholiad o ymgeiswyr, a phenodwyd ar sail teilyngdod ac yn erbyn meini prawf gwrthrychol.

## ATEBOLRWYDD A RHEOLAETH FEWNOL

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod proses ar gyfer rheoli risgiau mawr i'r BBC, ac ar gyfer cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol ac adolygu ei heffeithiolrwydd.

### ADRODDIAD YR UWCH GYFARWYDDWR ANNIBYNNOL

Fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, rwyf wedi ceisio darparu pwynt cyswllt ar gyfer amryw o'r partïon sydd â diddordeb sy'n gysylltiedig â llywodraethu'r BBC. O bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn rwyf wedi cyfarfod yn unigol â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw faterion perthnasol yr hoffai'r tîm Gweithredol eu codi o bosibl. Rwyf hefyd wedi cyfarfod yn unigol â Chadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC i ddeall ei safbwyntiau – a thrwyddo ef safbwyntiau ei gyd-Ymddiriedolwyr – ar y berthynas rhwng y Bwrdd Gweithredol a'r Ymddiriedolaeth ac ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu newydd y BBC yn gyffredinol. Yn drydydd, rwyf wedi cynnal cyfarfodydd unigol â phob un o'r Cyfarwyddwyr anweithredol i gyfnewid safbwyntiau ar weithrediad effeithiol Bwrdd Gweithredol y BBC.

Yn ogystal â'i ddeg Cyfarwyddwr Gweithredol, mae gan Fwrdd Gweithredol y BBC chwe Chyfarwyddwr anweithredol ar hyn o bryd, yr oedd pump ohonynt yn Gyfarwyddwyr ar gyfer blwyddyn ariannol gyfan 2007/08. Ymunodd y chweched, Val Gooding, â'r Bwrdd Gweithredol ar 1 Ionawr 2008. Er y gallaf gadarnhau bod y Bwrdd Gweithredol yn gweithredu fel Bwrdd unedol, mae bellach yn cynnwys cymysgedd o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac anweithredol, gyda phob un ohonynt yn cyflwyno safbwynt gwahanol ar eitemau amrywiol yr agenda a drafodir mewn cyfarfodydd bwrdd.

Dewiswyd pob un o'r Cyfarwyddwyr anweithredol am eu bod yn annibynnol ar y BBC ac am y credwyd bod pob un ohonynt yn meddu ar sgiliau a phrofiad a fyddai'n berthnasol ac yn ddefnyddiol i drafodaethau'r Bwrdd Gweithredol.

Bu 2007/08 yn flwyddyn brysur i'r Bwrdd Gweithredol ac yn ogystal ag agenda lawn o fusnes fel arfer, bu'n rhaid iddo ymdrin â'r cynllun Cyflwyno Dyfodol Creadigol chwe blynedd, a ddeilliodd o setliad ffi'r drwydded llai na'r hyn y gofynnwyd amdano a chanlyniadau'r mater o dor-ymddiriedaeth a gafodd effaith sylweddol ar y BBC yn ystod haf a hydref 2007. Profodd y ddau fater hyn allu'r Cyfarwyddwyr i'w datrys mewn ffordd bwyllog a phroffesiynol a gallaf dystio i ansawdd y dadansoddi a'r drafodaeth a fu ac i gyfraniad pob Cyfarwyddwr i sicrhau bod ymateb y Bwrdd Gweithredol yn amserol ac yn berthnasol.

Her o'r cychwyn oedd dod â phump, yna chwech o Gyfarwyddwyr anweithredol newydd, nad oedd y rhan fwyaf ohonynt yn adnabyddus i'w gilydd, ar Fwrdd Gweithredol profiadol – i bob pwrpas ar yr un pryd. Yn fy marn i mae pawb dan sylw wedi ateb yr her hon. Mae'r cydberthnasau gwaith yn ystafell y bwrdd yn gefnogol a phroffesiynol. Mae'r drafodaeth yn gadarn a thryloyw ac mae'r diwylliant cyffredinol – sydd bellach yn ymsefydlu – yn gadarnhaol ac yn gyson â phwrpasau cyhoeddus y BBC.

**Marcus Agius**
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
19 Mehefin 2008

## Nodi a rheoli risgiau a pherchenogaeth ohonynt

Mae proses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso, rheoli, monitro ac adrodd am risgiau mawr i'r BBC, sy'n unol â chanllawiau Turnbull, wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008 a hyd at ddyddiad cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC. Yn ein barn ni cyflawnir y broses gyffredinol o reoli risg yn y BBC yn fwyaf effeithiol drwy ymgysylltu â'r Bwrdd Gweithredol cyfan ac, am y rheswm hwnnw, ni ddirprwyir y gwaith o reoli risg i is-bwyllgor. Mae elfennau allweddol y broses yn cynnwys:

- Mae gan Gyfarwyddwr pob un o grwpiau busnes y BBC gyfrifoldeb clir am nodi a rheoli risgiau sy'n wynebu ei fusnes. Mae pob grŵp busnes yn cadw cofrestr o risgiau busnes allweddol a nodwyd a all gael effaith ar gyflawni ei amcanion strategol neu gyflawni ei ddibenion busnes craidd, ynghyd â rheolaethau cyfredol a nodwyd a chamau gweithredu a gynlluniwyd mewn ymateb i hyn. Mae cofrestrau risg yn cael eu hadolygu a'u hasesu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, ac yn cyfrannu at y gwaith o ystyried amlygiad i risg yn lleol ac ar lefel Bwrdd Gweithredol y BBC.
- Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael adroddiadau rheolaidd ar amlygiad risg y BBC, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y themâu risg y tybir eu bod yn hollbwysig ar hyn o bryd i lwyddiant y BBC, yn cynnwys nodi'r rheolaethau sydd ar waith ar hyn o bryd, camau gweithredu pellach y bwriedir eu cymryd i reoli'r risgiau hynny yn effeithiol a phwysleisio unrhyw faterion y mae angen iddo ymdrin â hwy.
- Mae swyddogaethau arbenigol yn cadw golwg ar reolaeth y BBC cyfan o rai meysydd risg sylweddol, gan sicrhau bod fframweithiau a threfniadau priodol ar waith i sicrhau cysondeb ym mhob rhan o'r busnes, a sicrhau nawdd gweithredol priodol a pherchenogaeth reoli o'r rhain. Mae swyddogaethau arbenigol o'r fath yn cynnwys yr Uned Parhad Busnes a Rheoli Risg Alwedigaethol.
- Cymerir y cyfrifoldeb am leihau'r risg o dwyll, a'r golled i dalwyr ffi'r drwydded yn sgîl hynny, yn wirioneddol o ddifrif. Mae polisi twyll clir yn egluro'r cyfrifoldebau am sicrhau bod y rheolaethau ar waith i leihau'r risg o weithgarwch twyllodrus ac yr ymchwilir i bob digwyddiad honedig o dwyll.
- Mae swyddogaeth rheoli risg fewnol, o dan arweiniad y Pennaeth Risgiau, yn gweithio gyda'r rheolwyr a'r Bwrdd Gweithredol i sicrhau bod prosesau priodol yn parhau i fod ar waith ac yn cael eu datblygu i nodi, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol sy'n wynebu'r BBC, a sicrhau bod perchenogaeth briodol o'r holl risgiau. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar y broses i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol.

**Rheolaeth fewnol**
Mae'r Bwrdd Gweithredol, wedi ei gefnogi gan uwch dimau rheoli, yn gyfrifol am sefydlu a chynnal system y BBC o reolaeth fewnol, am adolygu ei heffeithiolrwydd ac am sicrhau y cymerir y camau angenrheidiol i wella diffygion sylweddol neu wendidau a nodir. Cynllunnir ein system rheolaeth i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes: er na all unrhyw system rheolaeth fewnol ddarparu sicrwydd llwyr yn erbyn camddatganiad perthnasol neu golled, cynllunnir rheolaethau'r BBC i roi sicrwydd rhesymol bod asedau'n cael eu diogelu, bod trafodion yn cael eu hawdurdodi'n briodol a bod gwallau perthnasol neu unrhyw achosion o afreoleidd-dra yn cael eu hatal neu eu canfod mewn pryd. Mae elfennau allweddol ein system rheolaeth fewnol yn cynnwys:

- Prosesau ariannol cynhwysfawr a phrosesau adrodd eraill, o fewn grwpiau busnes a hyd at y Bwrdd Gweithredol, yn cynnwys adroddiadau rheoli misol, arolygon busnes, cylch cyllideb blynyddol gyda rhagolygon interim rheolaidd, cynllunio hirdymor, adolygu perfformiad ac adroddiadau eithrio.

- Prosesau awdurdodi wedi eu ffurfioli, gan gadw cofnodion cywir pa bryd bynnag y bydd eu hangen, yn cwmpasu pob trafodyn ariannol, holl waith comisiynu a chynhyrchu rhaglenni, yr holl wariant mawr ar brosiectau, a phob contract, gyda meini prawf wedi eu diffinio'n glir pan fydd angen cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol.

- Prosesau i sicrhau cydymffurfiad â'r holl ddeddfau a rheoliadau cymwys, yn cynnwys gofynion Ofcom.

- Prosesau i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â rhoi gwasanaethau busnes allweddol ar gontract allanol (e.e. casglu ffi'r drwydded, prosesu trafodion cyllid, gwasanaethau adnoddau dynol, systemau technoleg a chymorth) a sicrhau parhad gweithrediadau busnes parhaus.

- Polisïau a gweithdrefnau wedi eu ffurfioli yn ymwneud â phob proses fusnes berthnasol, i sicrhau llif gwybodaeth amserol, perthnasol a dibynadwy ym mhob rhan o'r busnes.

- Prosesau i sicrhau proffesiynoldeb a chymhwysedd staff, yn cynnwys polisïau recriwtio, systemau arfarnu perfformiad, a rhaglenni hyfforddiant i ddatblygu a chynnal y sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol.

Mae'r Bwrdd Gweithredol, gan ddibynnu ar waith manwl Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol a thrwy adolygu a thrafod adroddiadau chwarterol ar risg a chydymffurfio, yn cadarnhau ei fod wedi ystyried effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol sydd wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn ariannol a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Yn ystod y flwyddyn canfuwyd nifer o achosion o dorri canllawiau golygyddol yn ymwneud â chystadlaethau, pleidleisiau a gonestrwydd gyda chynulleidfaoedd. Cymerwyd nifer o fesurau a gynlluniwyd i atal unrhyw achosion pellach, yn cynnwys Cod Ymddygiad newydd: Cystadlaethau a Phleidleisio, canllawiau golygyddol newydd ar gyfer pleidleisiau, cystadlaethau a gwobrau, a goruchwyliaeth dechnegol well o bleidleisiau a chystadlaethau rhyngweithiol. Yn ogystal, cyflwynwyd cwrs newydd wyneb yn wyneb, Safeguarding Trust, a gynlluniwyd i sicrhau bod gwneuthurwyr rhaglenni yn deall ac yn cydymffurfio â gwerthoedd a safonau golygyddol y BBC ac yn atgyfnerthu ffyrdd o fod yn agored gyda chynulleidfaoedd ynghylch technegau cynhyrchu, i bron bob gwneuthurwr rhaglenni (mwy na 17,000) erbyn diwedd mis Mawrth 2008.

**Archwiliad Mewnol**
Mae ein swyddogaeth Sicrwydd Busnes, y mae ei hawdurdod a'i hannibyniaeth wedi eu sicrhau gan ei chysylltiad annibynnol ac uniongyrchol â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol, yn darparu gwasanaeth archwilio mewnol y BBC. Mae'r adran Sicrwydd Busnes yn profi'r systemau rheolaeth a phrosesau busnes craidd yn rheolaidd, gan werthuso eu digonolrwydd a'u heffeithiolrwydd a sicrhau y cânt eu cymhwyso'n gyson ym mhob rhan o'r BBC. Mae'r rhaglen waith yn seiliedig ar asesiad parhaus o'r risgiau allweddol, gan roi ystyriaeth briodol i werth am arian i dalwr ffi'r drwydded, ac mae'n cwmpasu rheolaethau ariannol, gweithredol a chydymffurfio. Cytunir arni'n flynyddol â Phwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol ac mae'n ymestyn i bob un o weithgareddau'r BBC ac yn cwmpasu arfer hawl y BBC i gynnal archwiliad o'r partïon allanol, yn cynnwys cwmnïau cynhyrchu annibynnol a chyflenwyr gwasanaethau busnes allweddol ar gontract allanol. Hysbysir y lefelau rheoli priodol ar unwaith o unrhyw fethiannau neu wendidau o bwys ym maes rheolaeth a ddatgelir gan y gwaith profi. Cyflwynir canlyniadau'r gwaith profi ym mhob cyfarfod o Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol; cynhelir arolygon dilynol i fonitro bod rheolwyr wedi rhoi'r argymhellion ar waith.

**Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol**
Aelodau Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol, y penodwyd pob un ohonynt ym mis Ionawr 2007, yw'r Cyfarwyddwyr anweithredol David Robbie (Cadeirydd), Dr Mike Lynch a Dr Samir Shah. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn fodlon bod gan David Robbie brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. Mae'r pwyllgor yn ychwanegu at yr ystod eang o sgiliau sydd gan ei dri aelod, a gafodd eu meithrin o ganlyniad i gryn brofiad mewn uwch swyddi gyda sefydliadau mawr eraill, gyda chyngor fel y bo angen gan unigolion proffesiynol mewnol ac allanol, yn cynnwys cyngor ar ddatblygiadau perthnasol ym maes adroddiadau ariannol a chyfraith cwmnïau gysylltiedig.

**ADRODDIAD CADEIRYDD PWYLLGOR ARCHWILIO'R BWRDD GWEITHREDOL**

Mae'r adroddiad a nodir isod yn disgrifio yn eithaf manwl gylch gwaith Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol a sut, yn ystod y flwyddyn, y mae ein cyfarfodydd wedi cyflawni ein cyfrifoldebau allweddol. Un o'r prif bethau y canolbwyntir arno ymhob un o'n cyfarfodydd yw'r prif bwyntiau sy'n deillio o'r arolygon Archwiliad Mewnol a gwblhawyd yn ystod y chwarter a thrafodaeth ar hynt rhoi'r camau gweithredu sylweddol a godwyd yn yr arolygon hynny ar waith. Drwy gydol y trafodaethau hyn, gwnaethom herio'r rheolwyr i wneud y newidiadau angenrheidiol gyda chyn lleied o oedi â phosibl. Gwnaethom hefyd gael y newyddion diweddaraf yn rheolaidd gan ein harchwilwyr allanol; mae'r rhain yn amlinellu eu dull archwilio ac unrhyw faterion y dymunant eu dwyn i'n sylw i'w trafod.

Er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o'r risgiau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r BBC a gwerthfawrogiad llawnach o'r gwaith sy'n mynd rhagddo a gwaith arfaethedig i liniaru'r risgiau hynny, rydym wedi gofyn eleni am i bapur ar o leiaf un thema risg fawr gael ei gyflwyno ym mhob un o'n cyfarfodydd. Mae ein diddordeb yn seiliedig ar briodoldeb a digonolrwydd y camau gweithredu a gymerir i reoli'r risg a heriwn y rhai sy'n cyflwyno'r papurau os teimlwn y gellir gwneud gwelliannau. Ymdriniodd un papur o'r fath â diogelu gwybodaeth, i gadarnhau ein dull o ymdrin â hyn o ganlyniad i broblemau a wynebir gan sefydliadau eraill.

Mae cwmpas y pwyllgor hwn yn cwmpasu pob rhan o'r BBC, felly rydym hefyd yn cael ac yn trafod diweddariadau gan y Pwyllgorau Archwilio eraill sy'n goruchwylio ein busnesau masnachol.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd chwarterol, cynhaliwyd cyfarfod ar wahân a ganolbwyntiodd ar benodi ein harchwilwyr allanol a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan y rhai ar y rhestr fer. Cymeradwyodd y pwyllgor benodiad KPMG LLP fel yr archwilwyr allanol a chadarnhawyd y penodiad hwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**David Robbie**
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol
19 Mehefin 2008

Yn ystod y flwyddyn, mae Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol wedi adolygu ei Gylch Gorchwyl ac wedi cymeradwyo ei gymhwysiad parhaus, gan dybio ei fod yn briodol i sicrhau effeithiolrwydd parhaus y pwyllgor. Mae'r cylch gorchwyl ysgrifenedig ar gael yn bbc.co.uk/info/running/executive/standing_orders.shtml. Diben craidd y pwyllgor yw adolygu a pharhau i oruchwylio gwaith llywodraethu corfforol y BBC, yn arbennig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg.

Mae Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol wedi cyflawni ei gyfrifoldebau, ac yn arbennig mae wedi:

- Adolygu effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol, yn arbennig drwy ystyried canfyddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol a cheisio sicrwydd gan reolwyr yr ymdrinnir â materion rheoli y tynnir sylw atynt, a thrwy ystyried adroddiadau gan reolwyr ar brosesau i reoli risgiau sylweddol i'r sefydliad, yn cynnwys is-gwmnïau

- Adolygu datganiadau ariannol y BBC, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu, cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoliadol a chanfyddiadau'r archwilwyr allanol a mewnol

- Goruchwylio perthynas y BBC â'r archwilwyr allanol, gan gynnwys eu penodiad, cwmpas eu gwaith a sut maent yn cyflawni eu gwaith, eu ffioedd, eu heffeithiolrwydd a'u hannibyniaeth gan gynnwys cymeradwyo a chadw at y polisi sy'n gysylltiedig â'u hymwneud â gwaith nad yw'n waith archwilio

- Cymeradwyo cynllun gwaith Archwiliad Mewnol

- Adolygu'r prosesau sydd ar waith ar gyfer canfod twyll a chwythu'r chwiban.

Cyfarfu Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol bum gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp (y Prif Swyddog Risg hefyd), y Pennaeth Sicrwydd Busnes, y Pennaeth Risg (ers y penodiad ym mis Hydref 2007) a chynrychiolwyr yr archwilwyr allanol yn bresennol yn y cyfarfodydd. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod â'r archwilwyr allanol heb unrhyw reolwyr yn bresennol o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Pennaeth Sicrwydd Busnes, ar ei ben ei hun neu gyda'r archwilwyr allanol, heb reolwyr yn bresennol, ac yn cyfarfod yn rheolaidd hefyd â'r partner arweiniol archwilio allanol ar ei ben ei hun.

Mae cofnodion pob un o gyfarfodydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol, pan gânt eu cymeradwyo, ar gael i'r Bwrdd Gweithredol ac i Ymddiriedolaeth y BBC. Adroddir yn ôl i'r Bwrdd Gweithredol ar argymhellion y pwyllgor ar unrhyw faes o fewn ei gylch gwaith lle mae angen cymryd camau neu wneud gwelliannau drwy ba lwybr bynnag y tybir sydd fwyaf priodol i natur ac amgylchiadau'r mater. Mae Cadeirydd y pwyllgor yn cyflwyno adroddiad yn ffurfiol i'r Bwrdd Gweithredol o leiaf unwaith y flwyddyn ar bob mater o fewn dyletswyddau a chyfrifoldebau'r pwyllgor.

### Annibyniaeth archwilwyr allanol

Rydym yn cydymffurfio â'r canllawiau sy'n ymwneud â chynnal cydberthynas briodol ag archwilwyr allanol fel y nodir yng Nghod FRC 2006. Yr archwilwyr allanol a benodir gan y BBC yw KPMG LLP fel archwilwyr y datganiadau ariannol, a PricewaterhouseCoopers LLP (PwC) fel yr archwilwyr masnachu teg. Mae gan Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol, y Pwyllgor Masnachu Teg, KPMG LLP a PwC eu hunain gamau diogelwch ar waith er mwyn osgoi'r posibilrwydd o beryglu gwrthrychedd ac annibyniaeth yr archwilwyr. Mae Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol yn adolygu annibyniaeth ei archwilwyr allanol yn rheolaidd, ac mae'n rhaid cael ei gymeradwyaeth ymlaen llaw cyn recriwtio o KPMG LLP i unrhyw swydd uwch reolwr yn y BBC.

Er mwyn sicrhau nad yw darparu gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag archwilio a chyfrifyddu gan KPMG LLP yn peryglu ei annibyniaeth na'i wrthrychedd, mae Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol wedi pennu polisi clir sy'n diffinio'r trothwy y mae'n rhaid i unrhyw waith arfaethedig sydd y tu hwnt i'r trothwy hwn gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y pwyllgor, ac mae'r polisi hefyd yn diffinio pryd y mae'n rhaid i waith a gynlluniwyd gael ei gyflwyno i dendr cystadleuol. Mae'r polisi hwn wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru gan y pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Ym mhob achos, nid ystyrir KPMG LLP ar gyfer gwaith a allai effeithio'n andwyol ar eu gallu i fynegi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC.

### Chwythu'r chwiban

Mae gennym bolisi 'chwythu'r chwiban' neu 'ddatgeliad wedi ei ddiogelu', i hwyluso'r gwaith o roi gwybod yn ddienw am unrhyw ddigwyddiad lle mae amheuaeth fod codau'r BBC wedi cael eu torri. Gweinyddir llinell gymorth 'chwythu'r chwiban' gan gwmni allanol annibynnol i sicrhau anhysbysrwydd. Hysbysir y Pennaeth Sicrwydd Busnes o bob digwyddiad a gofnodir, sy'n sicrhau yr ymchwilir i bob digwyddiad, rhoddir ateb a chymerir y camau gweithredu priodol. Mae Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol yn adolygu'r broses i sicrhau yr ymchwilir i faterion a gofnodir yn gymesur ac yn annibynnol ac yn adolygu hefyd briodoldeb y camau gweithredu dilynol.

### ADRODDIAD CADEIRYDD PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH Y BWRDD GWEITHREDOL

Mae rheoli gwobrau swyddogion gweithredol yn y BBC yn creu heriau sydd efallai yn unigryw yn y DU. Yn arbennig, mae'r BBC yn gorfod cydbwyso cyfrifoldebau gwerth am arian fel corfforaeth yn y sector cyhoeddus â'i hangen i recriwtio a chadw rheolwyr o safon uchel mewn cystadleuaeth â chwmnïau cyfryngau a thechnoleg yn y sector preifat.

Mae'r BBC yn gweithredu strategaeth cydnabyddiaeth, wedi ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth, a gynlluniwyd fel y gellir recriwtio a chadw staff yn y marchnadoedd y mae'n gweithredu ynddynt, hynny yw, darlledu cyhoeddus a busnes masnachol. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ac Ymddiriedolaeth y BBC y strategaeth a phenderfynwyd parhau â hi am y flwyddyn i ddod.

I gydnabod sefyllfa ariannu unigryw y BBC nid ydym yn darparu lefel y cymelldaliadau byrdymor a hirdymor sy'n nodweddiadol o'r sector cyfryngau ehangach ond yn hytrach, er mwyn denu a chadw talent greadigol allweddol, rydym yn canolbwyntio ar ddarparu cyflogau sylfaenol cystadleuol. Eithriad i hyn yw Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide sy'n cyfranogi yng nghynlluniau bonws blynyddol a chymelldaliadau hirdymor BBC Worldwide, ein busnes masnachol.

Er ein bod wedi llwyddo i ddenu ein Cyfarwyddwyr Gweithredol, mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol serch hynny yn ymwybodol bod natur gystadleuol pecyn cydnabyddiaeth cyffredinol y BBC yn y farchnad allanol yn parhau i ddirywio, yn rhannol oherwydd y lefelau cynyddol o arfer cymelldaliadau byrdymor a hirdymor yn y sector cyfryngau ehangach. Adolygwn hyn bob blwyddyn ac ystyriwn a yw'r strategaeth cydnabyddiaeth a'r polisïau sylfaenol yn parhau'n briodol.

Dros y 12 mis diwethaf mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol wedi gwneud nifer o newidiadau i gydnabyddiaeth rhai o'r Cyfarwyddwyr Gweithredol i gydnabod y cynnydd sylweddol yn eu cyfrifoldebau fel y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol y BBC a'r Prif Swyddog Gweithredu. Yn ogystal, newidiwyd cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr, Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol, mewn ymateb i bwysau cystadleuol yn y sector technoleg. Wrth benderfynu ar y dyfarniadau bonws am y flwyddyn, mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol wedi ystyried cyflawniadau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r materion golygyddol a chydymffurfio sydd wedi wynebu'r BBC a'r effaith a gafodd y materion hynny ar ymddiriedaeth y cyhoedd.

I grynhoi, bu hon yn flwyddyn heriol i'r BBC, ond cred fy nghydweithwyr a minnau fod ein strategaeth cydnabyddiaeth er budd talwyr ffi'r drwydded ac wedi ein galluogi i gadw ein talent weithredol allweddol.

**Marcus Agius**
Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
19 Mehefin 2008

## ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH Y BWRDD GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Er bod y BBC wedi ei eithrio o ofynion Rheoliadau Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr 2002 a rhai'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, paratowyd yr adroddiad hwn fel pe bai'r gofynion hynny yn gymwys lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu yn berthnasol ac yn gymwys. Caiff yr adrannau ar bensiynau a chydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol eu harchwilio gan KPMG LLP.

### Pwyllgorau Cydnabyddiaeth: cyfansoddiad a gweithrediad

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau Ymddiriedolaeth y BBC yn gosod y strategaeth cydnabyddiaeth ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, yn ogystal â ffioedd y Cyfarwyddwyr anweithredol. Gweler Rhan Un o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC am ragor o wybodaeth am hyn, sydd ar gael ar-lein yn www.bbc.co.uk/annualreport

Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth cydnabyddiaeth i aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol (ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol), yn cynnwys pennu cyflog sylfaenol a chymelldaliadau. Mae aelodau'r Pwyllgor yn Gyfarwyddwyr anweithredol. Aelodau'r pwyllgor yw Marcus Agius (Cadeirydd), Dr Mike Lynch a Robert Webb.

Mynychir cyfarfodydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chyfarwyddwr BBC People hefyd, drwy wahoddiad, i gynghori ar faterion yn ymwneud ag aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol a pherfformiad cyffredinol y BBC. Nid yw Cyfarwyddwr BBC People yn bresennol pan ystyrir materion ynghylch ei gydnabyddiaeth ei hunan. Gall Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol fanteisio ar arbenigedd mewnol drwy Gyfarwyddwr Gwobrwyo'r BBC, sydd hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, drwy gydymffurfio â Chod Cyfunol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar Lywodraethu Corfforaethol 2006, yn derbyn cyngor arbenigol gan ymgynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag arfer y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan Grŵp Hay, a benodwyd gan y pwyllgor. (Yn ogystal â'i waith i'r pwyllgor, mae Grŵp Hay yn rhoi data cymharol y farchnad i feysydd eraill yn y BBC.)

### Cyfarwyddwyr anweithredol: polisi cydnabyddiaeth

Mae'r Cyfarwyddwyr anweithredol yn cael ffi, wedi ei phennu gan Ymddiriedolaeth y BBC, sy'n adlewyrchu cymhlethdod y rôl a'r amser sydd ei angen i gyflawni'r rôl yn effeithiol. Pennir lefelau'r ffi gan gyfeirio at gyfraddau a delir gan gorfforaethau eraill yn y DU, ond ar lefel sy'n golygu na fyddai'r Cyfarwyddwyr anweithredol yn ddibynnol yn ariannol ar y BBC. Adolygir lefelau'r ffi bob yn ail flwyddyn, a chynhelir yr arolwg nesaf o 1 Ionawr 2009.

Mae pob Cyfarwyddwr anweithredol yn cael ffi sylfaenol (£35,000 y flwyddyn ar hyn o bryd). Dyfernir ffi ychwanegol (£5,000 y flwyddyn ar hyn o bryd) i gadeirydd pob pwyllgor Bwrdd ar gyfer y rôl a gyflawnir. Dyfernir ffi ychwanegol o £10,000 y flwyddyn i'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol am gyflawni'r rôl hon sy'n cynnwys cadeirio'r Pwyllgor Enwebiadau. Caiff y Cyfarwyddwyr anweithredol eu had-dalu hefyd am dreuliau yr aethpwyd iddynt ar fusnes y BBC, a chaiff unrhyw dreth sy'n codi ar y treuliau hynny ei thalu'n uniongyrchol gan y BBC. Nodir y ffioedd a'r treuliau yn Nhabl 9.

### Cyfarwyddwyr Gweithredol: polisi cydnabyddiaeth

Mae polisi cydnabyddiaeth yr aelodau Gweithredol yn galluogi'r BBC i ddarparu:

* **Cyflog sylfaenol:** Wrth ystyried cyflog sylfaenol mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn ystyried cyflog sylfaenol prif gystadleuwyr y BBC a'r sefydliadau eraill y mae'n cystadlu â hwy am dalent; fforddiadwyedd y BBC i wobrwyo aelodau gweithredol; a pherfformiad yr aelodau gweithredol. Er y derbynnir bod yn rhaid i'r BBC fod yn gystadleuol ni ddylai'r BBC arwain y farchnad o ran cyflogau aelodau gweithredol yn sector y cyfryngau ac felly caiff cyflogau sylfaenol eu gosod yng nghanol y farchnad.
* **Tâl amrywiol:** Darperir elfen gyfyngedig o dâl amrywiol, sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion allweddol a chyfrannu'n gyffredinol at berfformiad y BBC. Mae'r polisi yn cydnabod bod llawer o sefydliadau cystadleuol yn gallu cynnig lefelau sylweddol o dâl amrywiol, yn cynnwys taliadau bonws arian parod uwch a gwobrau ar sail cyfranddaliadau nad ydynt yn bosibl o fewn y BBC. Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol (ac eithrio Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide) yn gymwys i gael bonws blynyddol o hyd at uchafswm o 10% o'r cyflog sylfaenol y mae hyd at 6% ohono am gyflawni targedau gwerth am arian isadrannol, a hyd at 4% am gyflawni amcanion trawsffurfiol isadrannol. Y bwriad yw y bydd y trefniadau bonws ar gyfer 2008/09 yn dilyn strwythur tebyg i 2007/08. Mae'r polisi yn cydnabod bod BBC Worldwide yn fusnes wedi ei ariannu'n fasnachol a bod Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide yn cyfranogi yng nghynlluniau bonws blynyddol a chymelldaliadau hirdymor BBC Worldwide. Cymeradwyir dyluniad y cynlluniau bonws blynyddol a chymelldaliadau hirdymor gan Ymddiriedolaeth y BBC. Darperir manylion y cynlluniau o dan BBC Commercial Businesses, tudalen 94.
* **Buddiannau:** Yn ogystal â phensiwn, y prif fuddiannau cytundebol eraill a ddarperir yw car a lwfans tanwydd, yswiriant iechyd preifat, ac aswiriant bywyd. Y polisi yw nad yw'r rhai sydd newydd eu penodi i'r Bwrdd Gweithredol yn gymwys i gael car â gyrrwr. Mae contract y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn darparu ar gyfer car â gyrrwr, ond nid oes unrhyw hawl i gar personol na lwfans tanwydd.

### Tabl 8: Cynlluniau buddiannau diffiniedig

| | | Gwerthoedd blynyddol | | Gwerthoedd trosglwyddo[2] | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr Gweithredol[1] | Oedran ar 31 Mawrth 2007 | **Cyfanswm pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2008 £000oedd** | Cynnydd mewn pensiwn cronedig £000oedd | **Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2008 £000oedd** | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2007 £000oedd | Cynnydd/(gostyngiad) mewn gwerth trosglwyddo llai cyfraniadau'r aelodau yn ystod y flwyddyn £000oedd |
| Jana Bennett | 52 | **11** | 2 | **164** | 126 | 31 |
| Mark Byford | 49 | **193** | 21 | **2,763** | 2,489 | 246 |
| Tim Davie | 40 | **6** | 2 | **37** | 27 | 3 |
| Ashley Highfield | 42 | **14** | 2 | **99** | 96 | (4) |
| Stephen Kelly[3] | 42 | **3** | 2 | **20** | 7 | 6 |
| Zarin Patel | 47 | **18** | 2 | **170** | 159 | 4 |
| John Smith | 50 | **194** | 21 | **3,167** | 2,637 | 504 |
| Mark Thompson | 50 | **7** | 2 | **91** | 64 | 20 |
| Caroline Thomson | 53 | **62** | 4 | **1,308** | 1,130 | 170 |

*1 Nid yw Jenny Abramsky wedi cronni unrhyw fuddiannau o dan y Cynllun Pensiwn ers mis Hydref 2006 pan ddechreuodd gael buddiannau o dan y Cynllun.*

*2 Mae gwerth trosglwyddo buddiannau pensiwn cronedig yn cynrychioli amcangyfrif o gost darparu'r buddiannau pensiwn a gronnwyd hyd yn hyn i'r Cynllun Pensiwn. Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar y gwerth, yn cynnwys oedran, cyflog pensiynadwy, gwasanaeth pensiynadwy ac amodau'r farchnad fuddsoddi ar ddyddiad y cyfrifiad (yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd Actwaraidd GN 11). Nid yw'n swm a delir nac yn swm sy'n ddyledus i'r unigolyn ac felly ni ellir ei ychwanegu'n ystyrlon at y gydnabyddiaeth. Mae effaith amodau'r farchnad fuddsoddi ar y gwerth trosglwyddo yn amrywio yn ôl oedran yr aelod – i aelodau hŷn, mae'r cyfrifiad yn adlewyrchu'r arenillion ar giltiau sy'n gysylltiedig â mynegai, ond i aelodau iau yr arenillion difidendau ar Fynegai Holl Gyfranddaliadau'r FTSE yw'r prif benderfynydd.*

*3 Mae Stephen Kelly yn aelod Buddiannau Newydd sydd â llai na dwy flynedd o wasanaeth, ac felly ni fyddai hawl ganddo i bensiwn gohiriedig pe byddai wedi gadael y Cynllun ar y dyddiad hwn. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gyson ag aelodau eraill, cyfrifwyd a phrisiwyd ei fuddiannau cronedig.*

**Tabl 9: Cydnabyddiaeth a dderbyniwyd**

Dangosir cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr ac aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn yma:

| | Ffi/cyflog sylfaenol £'000 | Bonws blynyddol £'000 | Treuliau/ buddiannau £'000 | Cydnabyddiaeth arall[5] £'000 | **Cyfanswm cydnabyddiaeth 2007/2008 £'000** | Cyfanswm cydnabyddiaeth 2006/2007[6] £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr Gweithredol | | | | | | |
| Jenny Abramsky | 327 | 19 | 12 | 61 | **419** | 329 |
| Jana Bennett | 406 | 23 | 19 | 88 | **536** | 433 |
| Mark Byford | 459 | 41 | 13 | – | **513** | 437 |
| Stephen Dando[1] | – | – | – | – | **–** | 25 |
| Tim Davie | 314 | 17 | 17 | 65 | **413** | 406 |
| Ashley Highfield | 350 | 34 | 11 | 71 | **466** | 359 |
| Stephen Kelly[2] | 320 | 33 | 16 | 62 | **431** | 268 |
| Zarin Patel | 329 | 31 | 15 | 65 | **440** | 386 |
| John Smith[3] | 380 | 88 | 18 | – | **486** | 460 |
| Mark Thompson[4] | 647 | – | 9 | 160 | **816** | 788 |
| Caroline Thomson | 328 | 32 | 15 | 65 | **440** | 361 |
| Cyfanswm y Cyfarwyddwyr Gweithredol | **3,860** | **318** | **145** | **637** | **4,960** | 4,252 |
| Cyfarwyddwyr anweithredol[7] | | | | | | |
| Marcus Agius | 50 | – | – | – | **50** | 17 |
| Val Gooding | 9 | – | – | – | **9** | – |
| Mike Lynch | 35 | – | – | – | **35** | 9 |
| David Robbie | 40 | – | – | – | **40** | 10 |
| Samir Shah | 35 | – | – | – | **35** | 9 |
| Robert Webb | 40 | – | – | – | **40** | 10 |
| Cyfanswm y Cyfarwyddwyr anweithredol | **209** | **–** | **–** | **–** | **209** | **55** |
| Cyfanswm y Bwrdd Gweithredol | **4,069** | **318** | **145** | **637** | **5,169** | **4,307** |
| Cyfanswm yr Ymddiriedolwyr[8] | 579 | – | 63 | – | **642** | 209 |
| Cyfanswm y Llywodraethwyr[9] | – | – | – | – | **–** | 295 |
| Cyfanswm | **4,648** | **318** | **208** | **637** | **5,811** | **4,811** |

*1 Ymddiswyddodd Stephen Dando ar 23 Ebrill 2006.*
*2 Ymunodd Stephen Kelly ar 1 Hydref 2006 ac felly 2007/2008 yw'r flwyddyn adrodd lawn gyntaf.*
*3 Mae cyflog sylfaenol, taliadau bonws a buddiannau John Smith wedi cael eu hariannu'n llawn gan BBC Commercial Businesses ers 1 Medi 2006. Yn ogystal â'r bonws blynyddol buddsoddwyd swm tebyg yng Nghynllun Cymelldaliadau Hirdymor BBC Worldwide a all fod yn daladwy ym mis Mawrth 2011.*
*4 Ymddiriedolaeth y BBC sy'n gyfrifol am bennu bonws Mark Thompson ac mae wedi asesu ei berfformiad dros y flwyddyn. Uchafswm ei fonws posibl oedd 10% o'r cyflog sylfaenol; a phenderfynodd Ymddiriedolaeth y BBC fod ei berfformiad yn haeddu dyfarniad yn y chwartel uchaf. Fodd bynnag, nododd nad oedd am dderbyn bonws eleni.*
*5 Mae cydnabyddiaeth arall yn cynnwys y canlynol:*
*a. taliadau pensiwn arian parod ychwanegol a ddisodlodd drefniadau FURBS*
*b. Caiff Jenny Abramsky arian parod ychwanegol gan nad yw'n cronni buddiannau o dan y Cynllun Pensiwn mwyach.*
*6 Ildiodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol, a ganolbwyntiodd yn bennaf ar fusnes wedi ei ariannu gan ffi'r drwydded, eu hawliau cytundebol i gael eu hystyried ar gyfer bonws blynyddol yn 2006/07. Ildiodd John Smith ei hawl i £18,000 o fonws blynyddol a ddyfarnwyd iddo. Adlewyrchir hyn yng Nghyfanswm y gydnabyddiaeth ar gyfer 2006/07.*
*7 Penodwyd Marcus Agius ar 1 Rhagfyr 2006. Penodwyd Val Gooding ar 1 Ionawr 2008. Penodwyd Mike Lynch, David Robbie, Samir Shah a Robert Webb ar 1 Ionawr 2007.*
*8 Mae'r ffigur tebyg ar gyfer 2006/07 ar gyfer yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y cyfnod 1 Tachwedd 2006 – 31 Mawrth 2007.*
*9 Mae'r ffigur tebyg ar gyfer 2006/07 ar gyfer y Llywodraethwyr ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2006 – 31 Rhagfyr 2006. Cynhwysir Ymddiriedolwyr a fu gynt yn Llywodraethwyr yn y ffigurau fel Llywodraethwyr tan 31 Rhagfyr 2006 ac fel Ymddiriedolwyr o 1 Ionawr 2007.*

Ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â therfynu contract ac ni thalwyd unrhyw iawndal am golli swydd a dalwyd neu a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn.

* **Pensiwn:** Mae aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol yn gymwys i gymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y BBC, sy'n darparu ar gyfer buddiannau pensiwn ar sail buddiant diffiniedig.

Ar gyfer cyflogai sy'n ymuno â'r Cynllun Pensiwn cyn 1 Tachwedd 2006, y gyfradd gronni yw 1/60ain o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth a'r cyflog pensiynadwy yw'r cyflog sylfaenol, yn cynnwys Pwysoliad Llundain, ond nid yw'n cynnwys unrhyw daliadau bonws na thaliadau eraill. Ar gyfer cyflogeion yn y grŵp hwn yr oedran pensiynadwy arferol yw 60. Ar gyfer cyflogai a ymunodd ar neu ar ôl 1 Tachwedd 2006, y gyfradd gronni yw 1.67% o'u cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o'r Cynllun, wedi ei addasu yn unol â chwyddiant. Ar gyfer cyflogeion yn y grŵp hwn yr oedran pensiynadwy arferol yw 65.

Mae gan bob Cyfarwyddwr Gweithredol presennol oedran pensiynadwy arferol o 60 ond gallant barhau yn y swydd nes eu bod yn cyrraedd 65 oed. Ar gyfer y rhai a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn ar ôl 31 Mai 1989 mae enillion yn agored i uchafswm terfyn blynyddol (£112,800 y flwyddyn ar gyfer 2007/08). Ni chymhwysir unrhyw uchafswm terfyn blynyddol i'r rhai a ymunodd ar neu cyn 31 Mai 1989. Mae'r Cynllun Pensiwn yn darparu ar gyfer ymddeoliad cynnar ar sail feddygol ac aswiriant bywyd o bedair gwaith y cyflog pensiynadwy hyd at derfyn a ragnodir.

Ar gyfer aelod gweithredol o'r Bwrdd Gweithredol a ymunodd ar neu ar ôl 1 Mehefin 1989, lle mae eu cyflog pensiynadwy yn uwch na'r uchafswm terfyn blynyddol, rhoddwyd amrywiaeth o drefniadau ar waith, yn cynnwys trefniadau wedi eu hariannu a heb eu hariannu y tu allan i'r Cynllun Pensiwn. Ers 1 Ebrill 2006, disodlwyd y trefniadau hyn gan dâl ychwanegol arian parod i bob Cyfarwyddwr ar gyflog pensiynadwy sy'n uwch na'r uchafswm terfyn blynyddol. Gweler Tabl 8.

Gyda'r gyfundrefn treth pensiwn yn weithredol o fis Ebrill 2006, gall unrhyw gyflogai sy'n rhan o'r cynllun sy'n cyrraedd neu'n mynd y tu hwnt i'r Lwfans Gydol Oes (£1.6miliwn ar gyfer 2007/08) ddewis eithrio o'r Cynllun Pensiwn a chael tâl arian parod ychwanegol yn lle hynny.

### BBC Commercial Businesses

Mae Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide (is-gwmni masnachol y BBC) yn rhan o gynllun bonws blynyddol a chynllun cymelldaliadau hirdymor BBC Worldwide a sefydlwyd gan Fwrdd BBC Commercial Holdings ac a gymeradwywyd gan Ymddiriedolaeth y BBC. Nid ariennir y cynlluniau hyn gan ffi'r drwydded ac mae costau llawn cyflog sylfaenol, bonws blynyddol a'r cynllun cymelldaliadau hirdymor wedi eu hunan-ariannu gan refeniw masnachol BBC Worldwide.

Mae Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide yn gymwys i gael uchafswm dyfarniad blynyddol o 50% o gyflog sylfaenol o dan y cynllun bonws blynyddol, a bennir yn bennaf yn ôl perfformiad yn erbyn targedau elw. Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol yr hawl i ohirio hyd at 75% o fonws blynyddol y flwyddyn flaenorol i mewn i'r cynllun cymelldaliadau hirdymor.

Mae'r cynllun cymelldaliadau hirdymor yn gynllun cymelldaliadau arian parod a gynlluniwyd i gysoni cydnabyddiaeth y Prif Swyddog Gweithredol â strategaeth y busnes. Yr uchafswm a delir allan o dan y cynllun cymelldaliadau hirdymor yw 20% o gyflog sylfaenol, ynghyd â swm cyfatebol posibl o 100% o'r bonws blynyddol gohiriedig. Caiff dau fesur perfformiad eu defnyddio wrth benderfynu ar ddyfarniadau a wneir o dan y cynllun, yn cynnwys yr elfen gyfateb: mesurir Twf Elw (pwysoliad o 75%) a thwf Adenillion ar Werthiannau (pwysoliad o 25%) dros gyfnod o dair blynedd a'u cymharu â grŵp cymharol o 15 o leiaf o gwmnïau cyfryngau rhyngwladol eraill. Caiff y cwmnïau eu graddio yn unol â'u perfformiad. Dewisir y grŵp cymharol ar gyfer ei gymysgedd o gynrychiolaeth busnes, diwydiant a daearyddol*.

Mae'n rhaid i BBC Worldwide gael ei raddio o leiaf yng nghanol y grŵp cymharol cyn y bydd unrhyw ddyfarniad yn daladwy. Telir y swm uchaf os caiff ei raddio yn y chwartel uchaf neu'n uwch. Ceir graddfa taliadau llinell syth rhwng y ddau bwynt hyn. Dangosir y rhestr taliadau yn Nhabl 10.

### Tabl 10: Cynllun cymelldaliadau hirdymor

| 10a Gradd perfformiad BBC Worldwide | Taliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor |
|---|---|
| Chwartel uchaf neu uwch | 20% o gyflog sylfaenol, a swm cyfatebol o 100% o'r bonws gohiriedig |
| Canolrif | 10% o gyflog sylfaenol, a swm cyfatebol o 50% o'r bonws gohiriedig |
| Islaw'r canolrif | Dim byd yn daladwy |

*Nodiadau*
*1 Mae dosbarthu llinell syth yn gymwys rhwng y canolrif a'r chwartel uchaf.*
*2 Fforffedir 50% o swm unrhyw fonws blynyddol gohiriedig hefyd os yw'r perfformiad yn is na'r chwartel isaf.*

**10b Taliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide**

| Dyfarniad y cynllun cymelldaliadau hirdymor | Bonws Gohiriedig £000oedd | Diwedd y Cyfnod Perfformiad | Dyfarniad y cynllun cymelldaliadau hirdymor a Dalwyd £000oedd | Dyfarniad a Dalwyd sy'n Cyfateb i'r Bonws Gohiriedig £000oedd | Cyfanswm a Dalwyd £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| | a | | b | c | a+b+c |
| Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2005 i 2008 | 87 | Mawrth 08 | 78 | 87 | 252 |

**10c Taliadau Posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor yn 2009 a 2010 ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide**

| Dyfarniad y cynllun cymelldaliadau hirdymor | Bonws Gohiriedig[1] £000oedd | Diwedd y Cyfnod Perfformiad | Taliadau Posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor (targed)[2] £000oedd | Taliadau Posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor (uchafswm)[2] £000oedd | Dyfarniad Posibl sy'n Cyfateb i'r Bonws Gohiriedig (targed)[2] £000oedd | Dyfarniad Posibl sy'n Cyfateb i'r Bonws Gohiriedig (uchafswm)[2] £000oedd | Cyfanswm posibl (targed)[2] £000oedd | Cyfanswm posibl (uchafswm)[2] £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | a | | b | c | d | e | a+b+d | a+c+e |
| Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2006 i 2009 | – | Mawrth 09 | 39 | 78 | – | – | 39 | 78 |
| Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2007 i 2010 | 80 | Mawrth 10 | 39 | 78 | 40 | 80 | 159 | 238 |

*1 Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2007–2010 ar gyfer perfformiad sy'n is na'r chwartel isaf, fforffedir 100% o'r bonws gohiriedig.*
*2 Mae dyfarniad posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor yn seiliedig ar enillion cyfredol a chaiff ei dalgrynnu i'r 1,000 agosaf.*

** Aegis Group, British Sky Broadcasting Group, Emap, Informa, ITV, Pearson, Reuters Group, Taylor Nelson Sofres, WPP, Yell Group, Cablevision Systems Corp, Comcast A, Disney (Walt) Company, Eastman Kodak, Interpublic Group Cos, News Corp A, SBS Broadcasting, Time Warner, Pro Sieben Sat1, Axel Springer (R), Havas Advertising, JC Decaux, M6-Metropole Television, Publicis Groupe, TF1, Vivendi Universal, Arnoldo Mondadori, Mediaset, RCS Mediagroup, Jetix Europe, Dentsu Inc, Fuji Television Network, Nippon Television Network Corp, SKY Perfect Communications.*

### Contractau cyflogaeth

Mae contractau cyflogaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o ddeuddeg mis ar y mwyaf, a gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol. Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail dileu swydd.

### Buddiannau allanol

Yn 2007 diwygiodd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ei bolisi ar swyddi cyfarwyddwyr allanol. Lle nad oes unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro buddiannau, a chyda chytundeb y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Enwebiadau ymlaen llaw, gall aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol ddal un swydd cyfarwyddwr allanol, a chaniateir hyd at 15 diwrnod y flwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau hyn. O 1 Ebrill 2007, gall yr aelod gweithredol gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr, cyn y dyddiad hwn, talwyd unrhyw gydnabyddiaeth a oedd yn deillio o swyddi cyfarwyddwyr i'r BBC. Nod y newid mewn polisi yw annog Cyfarwyddwyr Gweithredol i ymgymryd â swyddi cyfarwyddwyr anweithredol allanol fel rhan o'u datblygiad hwy eu hunain ac er mwyn dod â sgiliau busnes ehangach i'r BBC.

Yn ystod y flwyddyn, gwasanaethodd Prif Swyddog Gweithredu'r BBC fel Cyfarwyddwr anweithredol Y Rheoleiddiwr Pensiynau a gwasanaethodd Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide fel Cyfarwyddwr anweithredol Severn Trent PLC hyd at 29 Chwefror 2008. Cadwodd y ddau gyfarwyddwr y ffioedd am y swyddi cyfarwyddwyr hyn a nodir y symiau a gafwyd yn y tabl isod. Cydnabyddir bod Cyfarwyddwyr anweithredol yn debygol o gael swyddi cyfarwyddwyr eraill ac nid yw'r cyfyngiadau sy'n gymwys i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn gymwys iddynt hwy.

### Tabl 11: Ffioedd swyddi cyfarwyddwyr allanol

| | Cwmni | Taliad a gafwyd £000oedd |
|---|---|---|
| Prif Swyddog Gweithredol, BBC Worldwide | Severn Trent PLC | 50 |
| Prif Swyddog Gweithredu, BBC | Y Rheoleiddiwr Pensiynau | 10 |

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEB Y BWRDD GWEITHREDOL

### Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU a'u harchwilio. Nodir manylion cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am baratoi arolwg gweithredol ac ariannol, datganiadau o gydymffurfio â chodau a rheoliadau cymwys a'r datganiad o gyfrifon. O ganlyniad, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol baratoi datganiad o gyfrifon (neu 'ddatganiadau ariannol') am bob blwyddyn sy'n rhoi darlun cywir a theg o faterion y BBC a'r incwm a'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am:

- Ddethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson.
- Llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth.
- Datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys y DU, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol.
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni fydd yn amhriodol tybio y bydd y BBC yn parhau i weithredu. Os felly, dylid cyflwyno tybiaethau neu amodau fel y bo'r angen.

At hyn, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi dewis cydymffurfio â darpariaethau cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a, lle y bo'n briodol, Reolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, sy'n gymwys i gwmni a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE heblaw lle na fabwysiadwyd y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y BBC yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Siarter a darpariaethau datgeliad cymwys Deddf Cwmnïau 1985. Mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd dros gymryd camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r BBC ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y BBC ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

### Datganiad ynglŷn â datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae aelodau'r Bwrdd Gweithredol a oedd yn dal swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; a bod pob aelod o'r Bwrdd Gweithredol wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi eu cymryd fel aelod o'r Bwrdd Gweithredol er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

### Busnes gweithredol

Mabwysiadwyd y sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan fod y Bwrdd Gweithredol yn credu bod gan y BBC ddigon o adnoddau i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld.

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan y Bwrdd Gweithredol.



**Mark Thompson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
19 Mehefin 2008

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR Y GORFFORAETH DDARLLEDU BRYDEINIG (BBC)

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Grŵp ac UK Public Service Broadcasting (y 'datganiadau ariannol') y BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008, sy'n cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol, y Mantolenni Cyfunol a Mantolenni UK Public Service Broadcasting, y Datganiad Llif Arian Parod Cyfunol, y Datganiad Cyfunol o Gyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig, y Cysoni o ran Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn y BBC a'r nodiadau cysylltiedig (tudalennau 97–146). Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Yn ychwanegol at ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fe'n penodwyd gan yr Ymddiriedolwyr i archwilio'r wybodaeth yn Adroddiadau Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol ('yr Adroddiadau Cydnabyddiaeth'), a ddisgrifir fel adroddiadau sydd wedi'u harchwilio, a baratowyd fel petai'r BBC yn gwmni rhestredig ac yn cydymffurfio felly â rhan 3 o Atodlen 7A i Ddeddf Cwmnïau 1985.

Dim ond i Ymddiriedolwyr y BBC, fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny'n unol â'r Siarter Frenhinol ar gyfer parhad y BBC a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2007 ('y Siarter') ac yn unol â'r farn ar wahân mewn perthynas â'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth a'r adroddiadau ar Lywodraethu Corfforaethol ar delerau y cytunwyd arnynt. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu Ymddiriedolwyr y BBC am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu yn eu cylch mewn adroddiad archwilydd ac, yn unol â'r farn ar wahân mewn perthynas â'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth a'r adroddiadau ar Lywodraethu Corfforaethol, y materion hynny yr ydym wedi cytuno eu hysbysu amdanynt yn ein hadroddiad, ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r BBC ac Ymddiriedolwyr y BBC fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

### Priod gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol a'r Archwilwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiadau Cydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith sy'n gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) fel y nodir yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol ar dudalen 95 yn y drefn honno.

Ein cyfrifoldeb ni, yn unol â thelerau ein penodiad, yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU ac Iwerddon) a'r Siarter.

Byddwn yn rhoi ein barn i chi ar ba un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 1985, fel petai'r Ddeddf honno wedi ei chymhwyso i'r datganiadau ariannol a'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth hyn. Byddwn hefyd yn dweud wrthych os nad yw'r BBC wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, yn ein barn ni, os na chawsom yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad, neu os na ddatgelwyd gwybodaeth a nodir gan y gyfraith o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill yr Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol.

Yn ogystal â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fe'n penodwyd gan yr Ymddiriedolwyr i adolygu'r datganiad ar Lywodraethu Corfforaethol fel petai'n ofynnol i'r BBC gydymffurfio â Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol mewn perthynas â'r materion hyn. Rydym yn adolygu pa un a yw'r Datganiad ar Lywodraethu Corfforaethol ar dudalennau 86–95 yn adlewyrchu bod y BBC yn cydymffurfio â'r naw darpariaeth yng Nghod Cyfunol 2006 a nodir ar gyfer ein harolwg gan Reolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, a nodwn os nad yw'n gwneud hynny. Nid yw'n ofynnol i ni ystyried a yw'r datganiadau o reolaeth fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau nac i lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y BBC na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Darllenwn y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, ac ystyriwn a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys datganiad y Cadeirydd yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar dudalen I, arolwg yr Ymddiriedolwyr o wasanaethau yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, arolwg y Bwrdd Gweithredol o wasanaethau ar dudalennau 29–57, y Trosolwg Ariannol ar dudalennau 82–85, y Datganiad ar Lywodraethu Corfforaethol a'r rhannau nas archwiliwyd o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol. Nid yw ein cyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

### Sail y farn archwilio

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU ac Iwerddon) a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth, ar sail prawf, sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a ph'un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Grŵp ac UK Public Service Broadcasting, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chynhaliwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i ni sicrhau'n rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn rhydd o unrhyw gamddatganiad perthnasol, waeth a achoswyd hynny trwy dwyll neu drwy afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio ein barn gwerthuswyd hefyd ddigonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio.

### Barn

Yn ein barn ni:

- rhydd y datganiadau ariannol ddarlun cywir a theg, yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, o sefyllfa'r Grŵp ac UK Public Service Broadcasting ar 31 Mawrth 2008 ac o warged y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth y cawsom ein penodi i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â darpariaethau'r Siarter a Deddf Cwmnïau 1985 fel petai'r Ddeddf honno wedi ei chymhwyso i'r datganiadau ariannol hyn a'r Adroddiadau Cydnabyddiaeth.

**KPMG LLP**
Cyfrifwyr Siartredig
Archwilydd Cofrestredig, Llundain
19 Mehefin 2008

## Datganiad cyfunol o incwm a gwariant

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

| | Nodyn | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|---|
| **Incwm** (yn cynnwys cyfran o gyd-fentrau) | | **4,689.4** | 4,415.8 |
| Llai: cyfran o gyd-fentrau | 13c | **(274.6)** | (238.5) |
| **Incwm y Grŵp** | 1a | **4,414.8** | 4,177.3 |
| Gwariant gweithredol ac eithrio costau eithriadol | | **(4,359.3)** | (4,262.9) |
| Costau dosbarthu eithriadol | 2c | **–** | (46.0) |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | 4c | **(117.7)** | (44.5) |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredol** | 2a | **(4,477.0)** | (4,353.4) |
| **Diffyg gweithredol y Grŵp** | | **(62.2)** | (176.1) |
| Cyfran o warged gweithredol partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **60.3** | 40.7 |
| **Diffyg gweithredol: Grŵp a chyfran o bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau** | 3a | **(1.9)** | (135.4) |
| Colled o werthu a therfynu gweithrediadau | 5 | **(4.8)** | (5.2) |
| Elw o waredu asedau sefydlog | 6 | **2.0** | 55.7 |
| **Diffyg cyn llog a threthiant** | | **(4.7)** | (84.9) |
| Llog derbyniadwy ac eitemau tebyg | 7a | **13.7** | 14.4 |
| Llog sy'n daladwy ac eitemau tebyg | 7b | **(18.3)** | (7.5) |
| Incwm cyllid net arall (o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig) | 8b ii | **148.8** | 162.6 |
| **Gwarged cyn trethiant a buddiant lleiafrifol** | 1a | **139.5** | 84.6 |
| Trethiant | 9a | **(37.3)** | (23.9) |
| **Gwarged ar ôl trethiant a chyn buddiant lleiafrifol** | | **102.2** | 60.7 |
| Buddiant lleiafrifol | | **(0.5)** | – |
| **Gwarged am y flwyddyn ariannol** | 18 | **101.7** | 60.7 |

Mae pob canlyniad yn deillio o weithrediadau parhaus.

Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y canlyniadau fel y'u datgelwyd uchod a'r canlyniadau ar sail cost hanesyddol.

## Mantolenni
ar 31 Mawrth 2008

| | Nodyn | Grŵp 2008 £m | Grŵp fel yr ailddatganwyd* 2007 £m | UK Public Service Broadcasting 2008 £m | UK Public Service Broadcasting 2007 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau anniriaethol | 10 | **87.3** | 10.2 | **–** | – |
| Asedau diriaethol | 11 | **747.9** | 708.9 | **523.4** | 496.8 |
| Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | 12 | **85.1** | 98.5 | **–** | – |
| Buddiannau mewn buddsoddiadau masnach | 13a | **2.7** | 5.0 | **–** | – |
| Buddsoddi mewn is-gwmnïau | 13d | **–** | – | **296.0** | 295.0 |
| Buddiannau mewn cyd-fentrau | | | | | |
| – cyfran o asedau gros ac ewyllys da | 13c | **217.4** | 196.4 | **–** | – |
| – cyfran o rwymedigaethau gros | 13c | **(151.8)** | (129.5) | **–** | – |
| | 13a | **65.6** | 66.9 | **–** | – |
| Buddiannau mewn partneriaethau cyswllt | 13a | **3.8** | 1.0 | **–** | – |
| | | **992.4** | 890.5 | **819.4** | 791.8 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stociau | 14 | **500.1** | 476.9 | **470.2** | 463.5 |
| Dyledwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 15 | **50.1** | 74.4 | **21.1** | 38.9 |
| Dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 15 | **794.9** | 696.9 | **655.3** | 569.8 |
| **Cyfanswm y dyledwyr** | | **845.0** | 771.3 | **676.4** | 608.7 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 21 | **78.0** | 144.7 | **6.7** | 93.4 |
| | | **1,423.1** | 1,392.9 | **1,153.3** | 1,165.6 |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | 16b | **(1,064.7)** | (1,015.6) | **(761.6)** | (751.2) |
| **Asedau cyfredol net** | | **358.4** | 377.3 | **391.7** | 414.4 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **1,350.8** | 1,267.8 | **1,211.1** | 1,206.2 |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | 16c | **(172.6)** | (60.4) | **(21.9)** | (26.9) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau** | 17 | **(182.3)** | (143.2) | **(160.0)** | (115.7) |
| **Asedau net ac eithrio ased/(rhwymedigaeth) pensiwn** | | **995.9** | 1,064.2 | **1,029.2** | 1,063.6 |
| Ased pensiwn | 8b i | **528.4** | 329.3 | **–** | – |
| Rhwymedigaeth pensiwn | 8b i | **(5.1)** | (5.2) | **–** | – |
| **Asedau net** | | **1,519.2** | 1,388.3 | **1,029.2** | 1,063.6 |
| **Wedi eu cynrychioli gan** | | | | | |
| Cronfa weithredol wrth gefn ac eithrio cronfa bensiwn wrth gefn | 18 | **206.3** | 279.3 | **215.3** | 278.7 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | 18 | **523.3** | 324.1 | **–** | – |
| Cyfanswm y gronfa weithredol wrth gefn | 18 | **729.6** | 603.4 | **215.3** | 278.7 |
| Cronfa gyfalaf wrth gefn | 18 | **812.3** | 782.5 | **812.3** | 782.5 |
| Cronfeydd wrth gefn eraill | 18 | **(31.0)** | – | **–** | – |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | 18 | **1.6** | 2.4 | **1.6** | 2.4 |
| Cronfeydd wrth gefn y BBC | | **1,512.5** | 1,388.3 | **1,029.2** | 1,063.6 |
| Buddiant lleiafrifol | | **6.7** | – | **–** | – |
| | | **1,519.2** | 1,388.3 | **1,029.2** | 1,063.6 |

** Gweler datganiad o bolisïau cyfrifyddu.*

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd Gweithredol ar 19 Mehefin 2008 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

**Mark Thompson** Cyfarwyddwr Cyffredinol
19 Mehefin 2008

**Zarin Patel** Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp
19 Mehefin 2008

## Datganiad cyfunol o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

| | Nodyn | **2008** **£m** | 2007 fel yr ailddatganwyd* £m |
|---|---|---|---|
| Gwarged y Grŵp am y flwyddyn ariannol | | **101.7** | 60.7 |
| Gwahaniaethau cyfnewid | 18 | **(1.0)** | (2.7) |
| Elw actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig | 8c v | **52.3** | 136.1 |
| **Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig sy'n berthnasol i'r flwyddyn** | | **153.0** | 194.1 |
| Addasiad o'r flwyddyn flaenorol ar gyfer mabwysiadu'r diwygiad i FRS 17 | | **(10.4)** | |
| **Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig ers yr adroddiad blynyddol diwethaf** | | **142.6** | |

** Gweler datganiad o bolisïau cyfrifyddu.*

## Cysoni symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn y BBC

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008

| | Nodyn | **Grŵp** **2008** **£m** | Grŵp fel yr ailddatganwyd 2007 £m | **UK Public Service Broadcasting** **2008** **£m** | UK Public Service Broadcasting 2007 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn ariannol | | **101.7** | 60.7 | **(34.4)** | 52.1 |
| Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill sy'n berthnasol i'r flwyddyn (net) | | **51.3** | 133.4 | **–** | – |
| Cronfeydd wrth gefn eraill | 18,19 | **(28.8)** | – | **–** | – |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn | | **124.2** | 194.1 | **(34.4)** | 52.1 |
| Cronfeydd agoriadol wrth gefn (£1,398.7miliwn yn wreiddiol cyn didynnu addasiad o'r flwyddyn flaenorol o £10.4miliwn) | | **1,388.3** | 1,194.2 | **1,063.6** | 1,011.5 |
| **Cronfeydd terfynol wrth gefn y BBC** | | **1,512.5** | 1,388.3 | **1,029.2** | 1,063.6 |

## Datganiad llif arian parod cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008



**Cysoni diffyg gweithredol y Grŵp i'r llif arian parod net o weithgareddau gweithredol**

| | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|
| Diffyg gweithredol y Grŵp | **(62.2)** | (176.1) |
| Dibrisio, amorteiddio a lleihad mewn gwerth | **216.7** | 221.6 |
| Gwahaniaeth rhwng tâl pensiwn a chyfraniad arian parod | **1.9** | 136.8 |
| Elw o waredu asedau sefydlog diriaethol | **–** | (1.1) |
| Cynnydd mewn stociau | **(8.7)** | (16.7) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | **(72.7)** | 13.6 |
| Cynnydd mewn credydwyr | **26.4** | 21.6 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau | **57.3** | (66.1) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol** | **158.7** | 133.6 |

**Datganiad llif arian parod**

| | Nodyn | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|---|
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol** | | **158.7** | 133.6 |
| **Difidendau a dderbyniwyd o gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt** | | **45.7** | 22.4 |
| **Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | **11.3** | 12.6 |
| Llog a dalwyd | | **(12.3)** | (7.0) |
| Llog a dalwyd ar brydlesau cyllid | | **(0.7)** | (0.5) |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | **(1.7)** | 5.1 |
| **Trethiant** | | | |
| Trethiant a dalwyd | | **(23.5)** | (21.1) |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | | **(158.0)** | (144.7) |
| Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | | **(88.2)** | (109.5) |
| Ad-dalu benthyciad i'r ymgymeriad cyswllt | | **–** | 0.3 |
| Defnyddio benthyciad i'r gyd-fenter | 13a | **(0.7)** | (0.8) |
| Enillion o werthu asedau sefydlog diriaethol | | **15.1** | 79.9 |
| **All-lif arian parod net o wariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** | | **(231.8)** | (174.8) |
| **Caffaeliadau a gwarediadau** | | | |
| Prynu is-gwmni | 19 | **(90.3)** | – |
| Arian parod a gaffaelwyd gydag is-gwmni | 19 | **5.9** | – |
| Prynu buddsoddiad masnach | | **–** | (0.9) |
| Prynu buddiant mewn cyd-fentrau a phartneriaeth cyswllt | 13a | **(6.3)** | (5.5) |
| Talwyd wrth derfynu gweithrediadau | | **(16.4)** | – |
| Enillion o werthu gweithrediadau | | **–** | 26.6 |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o gaffaeliadau a gwarediadau** | | **(107.1)** | 20.2 |
| **All-lif arian parod net cyn defnyddio adnoddau rhydd ac ariannu** | | **(159.7)** | (14.6) |
| **Rheoli adnoddau rhydd** | | | |
| Gwerthu adnoddau rhydd | | **28.7** | – |
| Prynu adnoddau rhydd | | **(28.7)** | – |
| **Mewnlif arian parod net o reoli adnoddau rhydd** | | **–** | – |
| **Ariannu** | | | |
| Cynnydd mewn benthyciadau | | **178.9** | 20.4 |
| Ad-dalu benthyciadau | | **(72.1)** | (7.0) |
| Elfen gyfalaf taliadau prydlesau cyllid | | **(9.7)** | (9.5) |
| Ad-dalu nodiadau benthyca | | **(4.1)** | (4.8) |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o ariannu** | | **93.0** | (0.9) |
| **Gostyngiad mewn arian parod yn ystod y flwyddyn** | 20 | **(66.7)** | (15.5) |

## Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

**Mae'r adran hon yn esbonio prif bolisïau cyfrifyddu'r BBC, a gymhwyswyd yn gyson yn ystod y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn flaenorol ac eithrio lle nodir fel arall. Ceir ôl-nodyn mewn italig ar ôl rhai polisïau sy'n esbonio mewn iaith syml yr agweddau technegol ar y driniaeth gyfrifyddu.**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â darpariaethau Siarter a Chytundeb y BBC, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu paratoi yn unol â'r Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (UK GAAP).

Er nad yw'n orfodol, hyd at 2005 dewisodd y BBC ddilyn darpariaethau cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 2005 a Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol er mwyn sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail sy'n gyson â rhai cwmnïau'r DU a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE. Yn dilyn newidiadau yn y gyfraith cwmnïau, pe bai wedi parhau i gyflwyno adroddiadau yn y ffordd hon, byddai'r BBC wedi paratoi ei ddatganiadau ariannol cyfunol yn unol â Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd gan yr UE o 1 Ebrill 2005. Fodd bynnag, byddai cyflwyno adroddiadau o dan IFRS yn anghyson â Siarter a Chytundeb y BBC ac â'r ffordd y cyflwynir adroddiadau gan y Llywodraeth. Yn lle hynny, mae'r datganiadau ariannol yn parhau i gael eu paratoi yn unol â UK GAAP ac elfennau cymwys y Rheolau Rhestru.

Mae'r BBC yn cyflwyno datganiadau ariannol ar gyfer pob un o'i is-gwmnïau cofrestredig yn y DU i Dŷ'r Cwmnïau.

### SAIL Y CYFRIFYDDU

Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cyfrifyddu cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd drwy ailbrisio offer, peiriannau, dodrefn a ffitiadau, offerynnau ariannol a deilliadau penodol a'r buddsoddiad yn BBC World Service a BBC Monitoring.

### MABWYSIADU DIWYGIADAU I'R SAFONAU CYFRIFYDDU

Mae'r BBC wedi mabwysiadu'r diwygiadau canlynol i'r safonau cyfrifyddu sy'n gymwys yn y DU am y tro cyntaf yn y datganiadau ariannol hyn:

- Diwygio FRS 17 'Retirement Benefits' a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2006. Prif effaith y diwygiad hwn yw disodli'r datgeliadau blaenorol gyda datgeliadau IAS 19 'Employee Benefits'. Dangosir y datgeliadau diwygiedig yn cynnwys y ffigurau cymharol a adolygwyd yn Nodyn 8. Yr unig newid o ran mesur sy'n deillio o hyn yw bod asedau cynllun pensiwn bellach yn cael eu prisio o ran gwerth y cynnig cyfredol (y pris a gaiff ei dderbyn wrth werthu'r asedau) yn hytrach na gwerth canolog y farchnad (y pwynt canolog rhwng y pris prynu a'r pris gwerthu). Effaith y newid hwn yw bod gwerth yr ased pensiwn ar 31 Mawrth 2007 wedi gostwng £10.4miliwn; ailddatganwyd y ffigurau cymharol yn unol â hynny.
- Diwygiad i FRS 3 'Reporting Financial Performance'. Nid yw hyn wedi cael unrhyw effaith ar y datganiadau ariannol yn y flwyddyn bresennol na'r flwyddyn flaenorol.

### MABWYSIADU CRYNODEB TASGLU MATERION BRYS NEWYDD

Mae'r BBC wedi mabwysiadu UITF 42 (IFRIC 9) 'Reassessment of Embedded Derivatives'. Nid yw hyn wedi cael unrhyw effaith ar y datganiadau ariannol yn y flwyddyn bresennol na'r flwyddyn flaenorol.

### SAIL Y CYFUNO

Caffaelodd y Grŵp ddau is-gwmni yn ystod y flwyddyn, Lonely Planet Pty Limited a DSHS Limited, y mabwysiadwyd y dull caffael o gyfrifyddu mewn perthynas â hwy. O dan y dull hwn, cynhwysir canlyniadau'r is-gwmnïau a gaffaelwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn yn y datganiad cyfunol o incwm a gwariant o'r dyddiad caffael neu hyd at y dyddiad gwaredu.

Mae cyfrifon y Grŵp yn cynnwys canlyniadau'r holl fusnesau a reolir gan y BBC (is-gwmnïau) ynghyd â chyfran y BBC o ganlyniadau busnesau lle mae gan y BBC ddylanwad ond nid rheolaeth drostynt (partneriaethau cyswllt) a'r rheini y mae'r BBC yn eu rheoli ar y cyd (cyd-fentrau). Gweler Nodyn 29 am ragor o wybodaeth.

*Mae **partneriaeth gyswllt** yn ymgymeriad lle mae gan y Grŵp fuddiant hirdymor, fel arfer rhwng 20% a 50% o'r hawliau pleidleisio ecwiti, ac yn un lle mae ganddo ddylanwad sylweddol drosto. Ystyr **cyd-fenter** yw ymgymeriad lle mae gan y Grŵp fuddiant hirdymor a lle y gweithreda reolaeth ar y cyd.*

### CYFRIF INCWM A GWARIANT UK PUBLIC SERVICE BROADCASTING

Ni chyflwynwyd datganiad o incwm a gwariant ar wahân yn adlewyrchu canlyniadau UK Public Service Broadcasting, sy'n gyson â'r opsiwn sydd ar gael i gwmnïau o dan Adran 230 o Ddeddf Cwmnïau 1985.

### COFNODI TRWYDDEDAU GWASANAETH

Defnyddir trwyddedau gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth y BBC fel dull monitro er mwyn sicrhau bod pob un o wasanaethau'r BBC yn sicrhau gwerth cyhoeddus drwy weithredu pwrpasau cyhoeddus y BBC. Ceir mwy o fanylion ar sut y dyrennir costau i wasanaethau unigol yn nodyn 28.

### BUDDSODDIADAU YN YMGYMERIADAU'R GRŴP

Mae ariannu UK Public Service Broadcasting, BBC World Service a BBC Monitoring yn gyfreithiol ar wahân ac ni chaniateir rhoi croesgymorthdaliadau. Yn unol â hyn, at ddibenion paratoi mantolen UK Public Service Broadcasting, rhaid eithrio'r asedau a'r rhwymedigaethau unigol y gellir eu priodoli i BBC World Service a BBC Monitoring, ac ystyrir bod gan UK Public Service Broadcasting fuddsoddiadau yn BBC World Service a BBC Monitoring sy'n gyfwerth ag asedau net yr endidau hyn.

### BUDDSODDIADAU ERAILL

Cofnodir buddsoddiadau eraill, nad ydynt yn fenthyciadau ac na chânt eu dal o reidrwydd ar gyfer aeddfedrwydd, ar fantolen ar gost llai darpariaeth ar gyfer unrhyw leihad mewn gwerth.

### INCWM

Mae incwm, sy'n eithrio treth ar werth, gostyngiadau masnachol a gwerthiannau rhwng cwmnïau'r Grŵp, yn cynnwys y dosbarthiadau allweddol canlynol o refeniw, a gydnabyddir fel a ganlyn:

- **Trwyddedau teledu**
  Mae'r prif incwm ar gyfer y BBC yn deillio o drwyddedau teledu. Cydnabyddir incwm o ffi'r drwydded yn llawn pan roddir trwydded, yn amodol ar ddidyniadau ar gyfer ad-daliadau a diddymiadau gwirioneddol a disgwyliedig.
- **Grantiau gan adrannau'r Llywodraeth**
  Caiff grantiau eu cydnabod pan fyddant yn dderbyniadwy gan yr adran berthnasol o'r Llywodraeth. Mae BBC World Service yn derbyn Cymorth Grant gan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad ac mae BBC Monitoring yn derbyn grant gan Swyddfa'r Cabinet. Bwriedir i'r grantiau hyn dalu am y gwariant amcangyfrifedig yn ystod y flwyddyn ond nid yw derbynebion am y flwyddyn nas gwariwyd, o fewn terfynau a nodwyd ymlaen llaw, yn agored i gael eu hildio.

## Datganiad o bolisïau cyfrifyddu



* **Darparu offer, cyfleusterau a gwasanaethau (yn cynnwys cyfleusterau a gwasanaethau gwneud rhaglenni)**
  Ac eithrio contractau hirdymor, cydnabyddir incwm pan ddarperir yr offer, y cyfleusterau a'r gwasanaethau i gwsmeriaid.

  Ar gyfer contractau hirdymor, cydnabyddir swm yr elw y gellir ei briodoli i'r cam cwblhau pan ellir rhagweld canlyniad y contract gyda chryn sicrwydd. Nodir trosiant ar gyfer contractau o'r fath ar y gost sy'n briodol i'w cam cwblhau ynghyd ag elw priodoladwy, llai symiau a gydnabuwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gwneir darpariaeth ar gyfer unrhyw golledion yn y dyfodol cyn gynted ag y'u rhagwelir.

* **Incwm dosbarthu a hysbysebu, ffioedd y drwydded o werthu rhaglenni teledu yn rhyngwladol a gwerthu nwyddau hysbysebol ac incwm o gyhoeddi**
  Cydnabyddir yr incwm hwn wrth ddarparu gwasanaethau, ar ddechrau cyfnod y drwydded neu wrth ddarparu'r nwyddau. Lle nad yw hawliau'r rhaglen wedi'u cyflwyno erbyn dyddiad dechrau cyfnod y drwydded, cydnabyddir refeniw wrth gyflwyno'r hawliau.

  Caiff gwerthiannau eu datgan ar ôl didynnu gwerth nwyddau a gaiff eu dychwelyd a nwyddau yr amcangyfrifir y cânt eu dychwelyd.

*Mae'r gwahaniaeth rhwng yr amrywiol ffynonellau incwm yn bwysig. Mae'r BBC yn ofalus i beidio â rhoi croesgymorthdaliadau i weithgareddau masnachol, gweithgareddau UK Public Service Broadcasting na gweithgareddau Cymorth Grant a gweithgareddau wedi eu hariannu gan grantiau. Ceir rhagor o wybodaeth am ofynion a pholisïau masnachu teg y BBC ar dudalen 63 yr adroddiad hwn.*

### TROSI ARIAN CYFRED TRAMOR

Trosir trafodion mewn arian cyfred tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion.

Trosir asedau a rhwymedigaethau ariannol mewn arian cyfred tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar 31 Mawrth. Cynhwysir gwargedau a diffygion sy'n codi o drosi asedau a rhwymedigaethau ar y cyfraddau cyfnewid hyn, ynghyd â gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi yn sgîl masnachu, yn y datganiad o incwm a gwariant.

Trosir cyfrifon elw a cholled a llifau arian parod is-gwmnïau tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfartalog ar gyfer y flwyddyn, sy'n frasamcan da ar gyfer y gyfradd wirioneddol. Cymerir gwahaniaethau cyfnewid, sy'n codi wrth gyfuno pan gaiff asedau net agoriadol is-gwmnïau tramor ac unrhyw fenthyciadau arian cyfred tramor hirdymor cysylltiedig eu haildrosi, ynghyd â'r gwahaniaethau sy'n deillio o aildrosi'r cyfrifon elw a cholled ar y cyfraddau sydd mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn, i'r gronfa weithredol wrth gefn drwy'r datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig.

*Gan fod y datganiadau ariannol hyn yn cael eu paratoi mewn sterling, mae'n rhaid trosi trafodion a balansau arian cyfred tramor y BBC, ar gyfraddau cyfnewid priodol, yn sterling.*

### COSTAU PENSIWN

Mae'r BBC yn gweithredu cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig a chyfraniadau diffiniedig er budd y cyflogeion.

Mae'r symiau a godir fel gwariant ar gyfer y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy gan y BBC ar gyfer y cyfnodau cyfrifyddu mewn perthynas â'r cynlluniau hyn.

Mae'r cynlluniau buddiannau diffiniedig, y mae'r mwyafrif o'r staff yn aelodau ohonynt, yn darparu buddiannau yn seiliedig ar y cyflog pensiynadwy terfynol, neu'r cyfartaledd gyrfaol. Delir asedau prif gynllun pensiwn y BBC ar wahân i rai'r Grŵp.

Mesurir asedau'r cynllun pensiwn gan ddefnyddio gwerthoedd cyfredol cynigion y farchnad. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn gan ddefnyddio dull unedau credyd rhagamcanol a chânt eu disgowntio ar y gyfradd adennill gyfredol ar fond corfforaeth ansawdd uchel y mae ei gyfnod a'i arian cyfred yn cyfateb i'r rhwymedigaeth.

Y gwahaniaeth rhwng gwerth asedau'r cynllun pensiwn a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn yw gwarged neu ddiffyg. Cydnabyddir gwarged cynllun pensiwn i'r graddau ei fod yn adferadwy a chydnabyddir diffyg cynllun pensiwn yn llawn. Rhennir y symudiad yng ngwarged/diffyg y cynllun rhwng taliadau gweithredol, eitemau cyllid ac, yn y datganiadau o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, enillion a cholledion actiwaraidd. Yn gyffredinol, codir symiau ar wariant gweithredol ar sail cost gwasanaeth cyfredol cyflogeion presennol sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y BBC.

Mae Cynllun Pensiwn y BBC yn gynllun a weithredir ar draws y Grŵp ac ni all UK Public Service Broadcasting na'i is-gwmnïau bennu eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail resymol a chyson.

Felly, fel sy'n ofynnol gan FRS 17 'Retirement benefits', mae UK Public Service Broadcasting yn rhoi cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. O ganlyniad, mae'r gwariant a godir ar gyfer UK Public Service Broadcasting yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy yn y flwyddyn.

*Ar eu hymddeoliad, telir pensiynau aelodau prif gynllun pensiwn y BBC o gronfa a gedwir ar wahân i'r Grŵp. Mae'r BBC yn gwneud cyfraniadau arian parod i'r gronfa honno cyn i'r aelodau ymddeol.*

### YMCHWIL A DATBLYGIAD

Dilëir gwariant ymchwil a datblygiad wrth iddo gael ei wario.

### ASEDAU SEFYDLOG ANNIRIAETHOL

#### Ewyllys da

Caiff ewyllys da a brynir sy'n codi wrth gaffael is-gwmni neu fusnes (gan gynrychioli gormodedd gwerth teg yr ystyriaeth brynu ynghyd ag unrhyw gostau caffael cysylltiedig dros y gwerth teg sy'n briodoladwy i'r asedau net gwahanadwy a gaffaelwyd) ei gyfalafu a'i amorteiddio ar sail llinell syth dros ei fywyd economaidd defnyddiol (20 mlynedd fel arfer), yn amodol ar arolygon ar gyfer lleihad. Wrth waredu neu derfynu busnes wedi hynny, cyfrifir y gwarged neu'r diffyg ar ôl codi swm heb ei amorteiddio am unrhyw ewyllys da cysylltiedig. Fel y caniateir gan FRS 10 'Goodwill and Intangible Assets', mae ewyllys da sy'n codi mewn cyfnodau hyd at 1 Ebrill 1998 yn parhau wedi'i wrthbwyso yn erbyn y gronfa weithredol wrth gefn. Wrth waredu, caiff ewyllys da a ddilëwyd yn flaenorol yn erbyn cronfeydd wrth gefn ei drosglwyddo i'r datganiad o incwm a gwariant am y flwyddyn.

*Mae **ewyllys da** yn codi pan fo'r BBC yn talu mwy am fusnes na swm asedau net y busnes a gaffaelir, gan gynrychioli'r ffaith bod y Grŵp yn gosod mwy o werth ar endid y busnes yn ei gyfanrwydd (fel arfer oherwydd synergeddau disgwyliedig neu enillion posibl y busnes hwnnw). Fel y cyfryw, caiff y premiwm hwn ei drin fel ased ynddo'i hun ac fe'i delir ar fantolen y Grŵp, gyda bywyd economaidd o hyd at 20 mlynedd. Fel gydag unrhyw ased arall, cyfrifir elw neu golled o werthu neu waredu (yn yr achos hwn, gwerthu/gwaredu'r busnes) ar ôl dileu'r swm a ddelir o hyd ar fantolen y Grŵp.*

#### Eitemau anniriaethol eraill

Caiff eitemau anniriaethol eraill eu cyfalafu a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu bywyd economaidd defnyddiol yn amodol ar arolygon ar gyfer lleihad. Bywydau economaidd defnyddiol yr ased yw:

* Rhestr o enwau cwsmeriaid – 2 i 4 blynedd
* Enwau brand – 2 i 4 blynedd

### ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

Caiff gwariant ar asedau sefydlog diriaethol ei gyfalafu ynghyd â chostau llafur uniongyrchol mewnol ac ychwanegol yr aethpwyd iddynt ar brosiectau cyfalaf. Ar wahân i'r eithriad canlynol, caiff asedau sefydlog diriaethol eu datgan yn y fantolen ar gost llai dibrisiant cronedig ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad.

Ailbrisiodd BBC World Service a BBC Monitoring eu hoffer a'u peiriannau a'u dodrefn a'u ffitiadau ar 1 Ebrill 1996 ar sail eu cost adnewyddu gyfredol amcangyfrifedig ar y pryd. Yn unol â rheolau trosiannol FRS 15 'Tangible Fixed Assets', er na wnaeth y BBC fabwysiadu polisi ailbrisio cyffredinol, cadwyd gwerthoedd llyfr yr asedau hyn (yn seiliedig ar eu symiau a ailbrisiwyd). Nid yw'r ailbrisiad wedi'i ddiweddaru ers hynny, er bod dibrisiant priodol yn parhau i gael ei godi. Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng gwerth llyfr net yr asedau sefydlog diriaethol hyn a'u gwerth fel y'i pennwyd ar sail cost hanesyddol ac yn sgîl hynny, ni chyflwynir unrhyw ddatganiad o wargedau a diffygion cost hanesyddol.

Cyfrifir dibrisiant er mwyn dileu cost neu brisiad, llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig asedau sefydlog ar sail llinell syth drwy gydol eu bywydau defnyddiol disgwyliedig. Mae dibrisiant yn cychwyn o'r dyddiad y bydd ased yn dechrau gwasanaethu. Y bywydau defnyddiol ar gyfer y prif gategorïau o asedau yw:

* **Tir ac adeiladau**
  Tir rhydd-ddaliad – dim dibrisiant
  Adeiladau rhydd-ddaliad ac adeiladau ar brydles hir – 50 mlynedd
  Tir ac adeiladau ar brydles fer – tymor prydles annarfodedig

* **Offer a pheiriannau**
  Offer cyfrifiadurol – 3 i 5 mlynedd
  Seilwaith trydanol a mecanyddol – 10 i 25 mlynedd
  Arall – 3 i 10 mlynedd

* **Dodrefn a ffitiadau** – 3 i 10 mlynedd

*Yn unol â'r safonau cyfrifyddu a oedd yn gymwys ar y pryd, ailbrisiwyd rhai dosbarthiadau o asedau unwaith (yn 1996) gan rannau o'r BBC, ond penderfynwyd peidio â'u hailbrisio ar sail barhaus. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y'u defnyddir o fewn y BBC yn hytrach na chael eu cadw ar gyfer eu hailwerthu neu oherwydd y potensial i'w buddsoddi. Felly cynhwysir y rhan fwyaf o'r asedau ar y swm yr oeddynt wedi'i gostio pan gawsant eu prynu neu eu hadeiladu (yn y naill achos neu'r llall llai dibrisiant dilynol).*

### BUDDSODDI MEWN RHAGLENNI I'W GWERTHU YN Y DYFODOL

Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cynrychioli'r hawl i gael incwm yn y dyfodol o werthu, trwyddedu neu ddefnyddio'r rhaglenni hynny mewn ffyrdd eraill, a chânt eu nodi ar gost, ar ôl dileu costau rhaglenni a ystyrir yn anadferadwy, llai amorteiddiad cronedig. Codir tâl am amorteiddio buddsoddiadau mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol ar y datganiad o incwm a gwariant dros fywyd marchnadadwy amcangyfrifedig genre y rhaglen ar gyfartaledd sydd fel arfer rhwng dwy flynedd a deng mlynedd. Gostyngir cost ac amorteiddiad cronedig buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol gan raglenni a ddilëir yn llwyr.

*Codir tâl am **gost y rhaglenni sydd ar werth** ar y datganiad o incwm a gwariant i gyfateb i amseriad disgwyliedig incwm yn sgîl gwerthiannau yn y dyfodol.*

### LLEIHAD ASEDAU SEFYDLOG

Mae'r Grŵp yn adolygu symiau cludo ei asedau sefydlog pan ddangosir y gallai'r asedau hynny fod wedi dioddef colled o ran lleihad.

Os amcangyfrifir bod swm adferadwy ased (neu uned cynhyrchu arian parod) yn llai na'i swm cludo, cydnabyddir y golled ddilynol o ran lleihad yn y datganiad o incwm a gwariant ar unwaith.

*Mae **lleihad** yn digwydd pan fyddai ased fel arall yn cael ei gofnodi yn y datganiadau ariannol ar swm sy'n fwy na'r hyn y gellir ei adfer o'i ddefnyddio neu ei werthu.*

### STOCIAU O RAGLENNI A GYNHYRCHWYD YN FEWNOL A GWAITH SY'N MYND RHAGDDO

Caiff stociau o raglenni a gynhyrchwyd yn fewnol a gwaith sy'n mynd rhagddo, gan gynnwys y rheini a gomisiynwyd gan gynhyrchwyr annibynnol, eu datgan ar yr isaf o'r gost a'r gwerth gwireddadwy net. Ac eithrio costau ailddarlledu rhaglenni annibynnol rhagdaledig, dilëir gwerth llawn y stoc wrth ddarlledu am y tro cyntaf.

Mae'r gost yn cynnwys yr holl gostau uniongyrchol, gorbenion cynhyrchu a chyfran o orbenion priodoladwy eraill.

Codir costau datblygu rhaglenni ar y datganiad o incwm a gwariant hyd nes y ceir arwydd clir y byddant yn arwain at gomisiynu rhaglen, pan gaiff unrhyw gostau pellach eu cyfalafu fel gwaith sy'n mynd rhagddo.

Mae'r gwerth gwireddadwy net yn seiliedig ar brisiau contract hyd braich a negodwyd rhwng rheolwyr y sianel a gwneuthurwyr rhaglenni allanol a mewnol.

### STOCIAU O RAGLENNI A FFILMIAU A GAFFAELWYD

Rhaglenni a gaffaelwyd yw rhaglenni na chânt eu comisiynu gan y BBC i ddechrau, ac maent yn rhaglenni o dramor fel arfer. Dilëir costau stociau o raglenni a ffilmiau a gaffaelwyd ar eu darllediad cyntaf ac eithrio i'r graddau bod darllediadau ychwanegol wedi'u hamserlenni, pan gânt eu dileu yn unol â'u proffil darlledu disgwyliedig. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â rhaglenni a gaffaelwyd ar adeg talu neu gychwyn cyfnod y drwydded, p'un bynnag a ddaw gyntaf. Datgelir cytundebau ar gyfer prynu rhaglenni yn y dyfodol nad yw eu cyfnod trwydded wedi cychwyn a lle na wnaed unrhyw daliad erbyn dyddiad y fantolen fel ymrwymiadau prynu.

### STOCIAU ERAILL

Nodir deunyddiau crai a stociau ffisegol eraill ar yr isaf o'r gost a'r gwerth gwireddadwy net.

### DARPARIAETHAU

Cydnabyddir darpariaeth yn y fantolen pan fo gan y Grŵp ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol cyfredol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddiannau economaidd er mwyn setlo'r ymrwymiad. Caiff darpariaethau, ar wahân i dreth ohiriedig, sy'n daladwy dros nifer o flynyddoedd eu disgowntio i'r gwerth presennol net ar ddyddiad y fantolen gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio sy'n briodol i'r ddarpariaeth benodol dan sylw.

### TRETHIANT

Mae'r tâl treth yn cynrychioli swm y dreth sy'n daladwy ar hyn o bryd a threth ohiriedig.

Mewn perthynas â'r dreth sy'n daladwy ar hyn o bryd:

* Nid yw'r BBC (UK Public Service Broadcasting, BBC World Service a BBC Monitoring) yn agored i dalu treth gorfforaeth ar unrhyw incwm o ffi'r drwydded sy'n weddill na grantiau a dderbynnir gan adrannau'r Llywodraeth. Fodd bynnag, mae'n agored i dalu treth gorfforaeth ar enillion cyfalaf ac ar ei holl incwm arall. Nid yw gwariant ar asedau cyfalaf yn gymwys ar gyfer lwfansau cyfalaf.

* Mae is-gwmnïau'r BBC yn agored i dalu treth gorfforaeth yn seiliedig ar elw trethadwy ar gyfer y flwyddyn.

Mae elw trethadwy yn wahanol i elw net fel y'i cofnodir yn y datganiad o incwm a gwariant am ei fod yn eithrio eitemau o incwm neu wariant sy'n drethadwy neu'n ddidynadwy mewn blynyddoedd eraill ac mae'n eithrio eitemau hefyd nad ydynt byth yn drethadwy nac yn ddidynadwy. Caiff rhwymedigaeth y Grŵp i dalu treth gyfredol ei chyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau treth sydd wedi'u deddfu neu wedi'u deddfu'n sylweddol ar ddyddiad y fantolen.

## Datganiad o bolisïau cyfrifyddu



Cyfrifir treth ohiriedig o dan y dull rhwymedigaeth. Gwneir darpariaeth lawn, heb ddisgowntio, mewn perthynas â gwahaniaethau amseru rhwng eitemau penodol yn y datganiadau ariannol a'r modd y cânt eu trin at ddibenion trethiant ar ddyddiad y fantolen ac eithrio fel sy'n ofynnol fel arall gan FRS 19 'Deferred tax'. Cydnabyddir asedau treth ohiriedig i'r graddau yr ystyrir eu bod yn fwy tebygol o gael eu hadfer na pheidio.

*Treth gorfforaeth yw **treth ohiriedig** nad yw'n daladwy ar adeg benodol ond y disgwylir iddi gael ei thalu yn y dyfodol.*

### PRYDLESAU GWEITHREDOL

Cydnabyddir rhenti prydlesau gweithredol sy'n daladwy ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

*Prydles lle nad yw'r prydlesai wedi ymrwymo i'r risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased a'i weithredu yw **prydles weithredol**. Nid yw'r prydlesai wedi caffael ased ond mae'n ei logi, felly cynhwysir y tâl llogi yng nghostau'r BBC.*

### PRYDLESAU CYLLID

Cynhwysir asedau a gaffaelwyd o dan brydlesau cyllid o fewn asedau sefydlog ar gyfanswm y taliadau prydles sy'n ddyledus dros fywyd y brydles wedi'i ddisgowntio ar gyfradd y llog sy'n gynhenid yn y brydles. Cynhwysir yr un swm o dan gredydwyr. Dosrennir taliadau rhent rhwng yr elfen gyllid, y codir tâl amdani yn y datganiad o incwm a gwariant, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau credydwr y brydles.

*Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a'r gwobrau o fod yn berchen ar ased a'i weithredu i'r prydlesai yw **prydles gyllid**. Mewn gwirionedd, y prydlesai sy'n berchen ar yr ased ac mae wedi ei ariannu drwy fenthyca, felly caiff yr ased a'r benthyciad eu cynnwys ar wahân yn y fantolen.*

### CRONFEYDD WRTH GEFN

Bob blwyddyn, caiff swm sy'n cyfateb i'r costau yr aethpwyd iddynt gan UK Public Service Broadcasting, BBC World Service a BBC Monitoring ar asedau cyfalaf yn ychwanegol at ddibrisiant, wedi'i addasu ar gyfer gwarediadau, ei drosglwyddo i'r gronfa gyfalaf wrth gefn fel bod swm y gronfa gyfalaf wrth gefn, ar ddyddiad y fantolen, yn cyfateb i werth llyfr net asedau sefydlog UK Public Service Broadcasting, BBC World Service a BBC Monitoring ar gost hanesyddol.

Mae'r gronfa ailbrisio wrth gefn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr net asedau sefydlog BBC World Service a BBC Monitoring ar gost hanesyddol o'i gymharu â'u swm wedi'i ailbrisio.

Gwarged cronedig y cyfrif incwm a gwariant hyd yn hyn yw'r gronfa weithredol wrth gefn.

Mae'r gronfa bensiwn wrth gefn yn cynrychioli gwarged net neu rwymedigaeth cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig y Grŵp.

Mae'r cronfeydd wrth gefn eraill yn cynrychioli gwerth opsiwn gwerthu y gellir ei arfer gan gyfranddeiliaid lleiafrifol.

### ARIAN PAROD AC ADNODDAU RHYDD

Mae arian parod, at ddibenion y datganiad llif arian parod, yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon sy'n ad-daladwy ar orchymyn, llai gorddrafftiau sy'n daladwy ar orchymyn. Buddsoddiadau asedau cyfredol yw adnoddau rhydd y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau hysbys o arian parod ar eu gwerthoedd cario neu'n agos atynt. Maent yn cynnwys adneuon y farchnad arian a chronfeydd hylifedd gyda chyfnod rhybudd o fwy nag un diwrnod gwaith.

### OFFERYNNAU ARIANNOL

Nodir benthyciadau'r Grŵp ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n gymwys.

#### Offerynnau ariannol deilliadol

Nid yw'r Grŵp yn ymrwymo i gontractau deilliadol hapfasnachol. Fodd bynnag, defnyddir rhai offerynnau ariannol deilliadol gyda'r bwriad o reoli amlygiad y BBC i amrywiadau mewn cyfraddau llog (cyfnewidiadau cyfradd llog a chapiau cyfraddau llog) a chyfraddau cyfnewid arian cyfred tramor (blaen-gontractau arian cyfred tramor).

Cydnabyddir offerynnau ariannol deilliadol ar gost i gychwyn a chânt eu hailfesur ar ôl hynny ar werth teg ar ddyddiad y fantolen gyda symudiadau yn cael eu cofnodi yn y datganiad o incwm a gwariant.

Gwerth teg cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog yw'r swm amcangyfrifedig y byddai'r Grŵp yn ei dderbyn neu ei dalu i derfynu'r cyfnewidiad, y cap neu'r coler ar ddyddiad y fantolen, gan ystyried cyfraddau llog cyfredol a theilyngdod cyfredol cyd-bartïon y cyfnewid, y cap neu'r coler o ran credyd.

Pennir gwerth teg cyfraddau blaen-gontractau arian cyfred tramor gan ddefnyddio cyfraddau'r blaen-farchnad gyfnewid ar ddyddiad y fantolen.

#### Cyfrifyddu ar sail rhagfantoli

Yn gyffredinol, nid yw'r Grŵp yn cymhwyso cyfrifyddu ar sail rhagfantoli ond yn hytrach yn galluogi symudiadau yng ngwerthoedd teg contractau rhagfantoli i lifo i'r datganiad o incwm a gwariant wrth iddynt godi. Fodd bynnag, pan fo offeryn ariannol wedi'i ddynodi ac yn gweithredu i ddiogelu buddsoddiad net mewn gweithrediad tramor caiff unrhyw wahaniaethau cyfnewid sy'n deillio o ail-drosi'r offeryn ariannol eu cydnabod yn uniongyrchol yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig. Cydnabyddir unrhyw gyfran aneffeithiol ar unwaith yn y cyfrif incwm a gwariant.

*Mae **offerynnau ariannol** yn cynnwys yr holl drefniadau cytundebol i ddosbarthu neu dderbyn arian parod. Felly maent yn cynnwys dyledwyr a chredydwyr masnach a benthyciadau yn ogystal ag offerynnau mwy cymhleth megis deilliadau. Mae **blaen-gontractau cyfnewid** yn darparu sicrwydd ynghylch swm sterling treuliau yn y dyfodol ac incwm a enwir mewn arian cyfred tramor drwy bennu'r gyfradd gyfnewid yn hytrach nag aros i weld beth yw'r gyfradd gyfnewid ar adeg y trafodyn neu'r taliad.*

*I bob pwrpas mae **cyfnewidiadau cyfradd llog** yn cyfnewid benthyciad cyfradd gyfnewidiol yn fenthyciad cyfradd sefydlog neu fel arall. Mae **capiau cyfradd llog** yn diogelu rhag cynnydd mewn cyfraddau llog, drwy bennu terfyn uchaf (cap) ar y gyfradd llog gyfnewidiol, tra'n parhau i alluogi cyfraddau llog i ddisgyn. Mae **coleri cyfradd llog** yn debyg i gapiau cyfradd llog heblaw bod terfyn isaf yn cael ei bennu hefyd o ran y gyfradd llog gyfnewidiol.*

*Yn dibynnu ar y symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid a chyfraddau llog rhwng yr adeg y mae'r Grŵp yn ymrwymo i'r trafodyn a diwedd y flwyddyn, gall y deilliadau hyn naill ai fod yn broffidiol ('yn gwneud arian') neu gallant fod yn colli arian ynddynt hwy eu hunain. Fodd bynnag, nid gwneud elw o farchnadoedd arian cyfred nac amrywiadau mewn cyfraddau llog yw'r sail resymegol dros ymrwymo i'r deilliadau hyn, ond yn hytrach, i ddarparu sefydlogrwydd i lifau arian parod y BBC. Cymerir y symudiadau sy'n gysylltiedig â'r deilliadau hyn (hy lle maent naill ai yn gwneud elw neu'n gwneud colled) i ddatganiad o incwm a gwariant y Grŵp am y flwyddyn.*

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol



### 1 DADANSODDIAD O INCWM, GWARGED/(DIFFYG) AC ASEDAU NET

### 1a Dadansoddiad o incwm, gwarged/(diffyg) ac asedau net yn ôl gweithgaredd

| | Nodyn | Grŵp UK Public Service Broadcasting £m | BBC World Service a BBC Monitoring £m | Commercial Businesses £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|
| 2008 | | | | | |
| Cyfanswm yr incwm | | 3,628.2 | 286.2 | 1,089.1 | **5,003.5** |
| Llai: Incwm mewnol y Grŵp | | (217.9) | (1.3) | (94.9) | **(314.1)** |
| Cyfanswm yr incwm allanol | | 3,410.3 | 284.9 | 994.2 | **4,689.4** |
| Llai: cyfran o gyd-fentrau | | – | – | (274.6) | **(274.6)** |
| Incwm y Grŵp | | **3,410.3** | **284.9** | **719.6** | **4,414.8** |
| Yn cynnwys: | | | | | |
| Incwm o ffi'r drwydded | 1b | 3,368.8 | – | – | **3,368.8** |
| Grantiau'r Llywodraeth | | 4.0 | 279.6 | – | **283.6** |
| Masnachol | 1c | – | – | 719.6 | **719.6** |
| Arall | | 37.5 | 5.3 | – | **42.8** |
| (Diffyg)/gwarged cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol | | (108.0) | 0.5 | 104.7 | **(2.8)** |
| Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig | | | | | |
| – costau gweithredol ychwanegol*† | 4b | | | | **(1.9)** |
| – incwm cyllid net arall* | 8b ii | | | | **148.8** |
| Llog net sy'n daladwy | | | | | **(4.6)** |
| Gwarged cyn trethiant a buddiant lleiafrifol | | | | | **139.5** |
| Yn cynnwys, cyfran y Grŵp o warged gweithredol partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **–** | **–** | **60.3** | **60.3** |
| Asedau net (ac eithrio ased pensiwn) | | | | | |
| – DU | | 734.2 | 72.0 | 22.0 | **828.2** |
| – Gweddill y byd | | 5.9 | 98.7 | 63.1 | **167.7** |
| | | | | | **995.9** |
| Ased pensiwn net* | 8b i | | | | **523.3** |
| Asedau net | | | | | **1,519.2** |
| Yn cynnwys, cyfran y Grŵp o asedau net partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | 13a | **2.1** | **–** | **67.3** | **69.4** |

** Yn unol ag FRS 17 ni rennir yr eitemau hyn rhwng dosbarthiadau busnes gan y'u rheolir yn ganolog ar draws y Grŵp cyfan ac nid yw'n bosibl eu dyrannu ar sail resymol a chyson.*

*† Cynhwysir cyfraniad arian parod gwirioneddol y cyflogwr i'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn y gwarged/(diffyg) cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol pob endid. Y gost weithredol ychwanegol yw'r gost i'r Grŵp sy'n ychwanegol at y cyfraniadau arian parod hyn.*

*Mae Nodyn 1 yn darparu dadansoddiad o'r* ***meysydd busnes gwahanol*** *o fewn y BBC. Dewiswyd y meysydd busnes ar sail y gwasanaethau a ddarperir a gwahanu gweithgareddau a ariennir gan ffynonellau incwm gwahanol.*

*Mae Grŵp UK Public Service Broadcasting yn cynnwys Gwasanaethau Cyhoeddus y DU (fel y diffinnir yn y Cytundeb) a'r is-gwmnïau hynny a ymgorfforir i weithredu ar ran y gweithrediadau cyhoeddus hynny yn unig.*

*Mae BBC World Service a BBC Monitoring yn cynnwys gweithgareddau monitro darlledu a'r cyfryngau.*

*Mae Commercial Businesses yn cynnwys busnesau sy'n cynhyrchu incwm allanol wrth fanteisio i'r eithaf ar raglenni'r BBC, asedau eraill a'r cyflenwad o sgiliau.*

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol



| | Nodyn | Grŵp UK Public Service Broadcasting £m | BBC World Service a BBC Monitoring £m | Commercial Businesses £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | | | | | |
| Cyfanswm yr incwm | | 3,386.8 | 271.1 | 974.2 | 4,632.1 |
| Llai: Incwm mewnol y Grŵp | | (115.0) | (1.5) | (99.8) | (216.3) |
| Cyfanswm yr incwm allanol | | 3,271.8 | 269.6 | 874.4 | 4,415.8 |
| Llai: cyfran o gyd-fentrau | | – | – | (238.5) | (238.5) |
| Incwm y Grŵp | | 3,271.8 | 269.6 | 635.9 | 4,177.3 |
| Yn cynnwys: | | | | | |
| Incwm o ffi'r drwydded | 1b | 3,242.9 | – | – | 3,242.9 |
| Grantiau'r Llywodraeth | | 2.1 | 264.1 | – | 266.2 |
| Masnachol | 1c | – | – | 635.9 | 635.9 |
| Arall | | 26.8 | 5.5 | – | 32.3 |
| (Diffyg)/gwarged cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol | | (63.3) | 10.8 | 104.4 | 51.9 |
| Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig | | | | | |
| – costau gweithredol ychwanegol*† | 4b | | | | (136.8) |
| – incwm cyllid net arall* | 8b ii | | | | 162.6 |
| Llog net derbyniadwy | | | | | 6.9 |
| Gwarged cyn trethiant a buddiant lleiafrifol | | | | | 84.6 |
| Yn cynnwys, cyfran y Grŵp o warged gweithredol partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | – | – | 40.7 | 40.7 |
| Asedau net (ac eithrio ased pensiwn)* | | | | | |
| – DU | | 769.7 | 72.9 | 102.0 | 944.6 |
| – Gweddill y byd | | 5.1 | 96.8 | 17.7 | 119.6 |
| | | | | | 1,064.2 |
| Ased pensiwn net | 8b i | | | | 324.1 |
| Asedau net | | | | | 1,388.3 |
| Yn cynnwys, cyfran y Grŵp o asedau net partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | 13a | 2.1 | – | 65.8 | 67.9 |

** Yn unol ag FRS 17 ni rennir yr eitemau hyn rhwng dosbarthiadau busnes gan y'u rheolir yn ganolog ar draws y Grŵp cyfan ac nid yw'n bosibl eu dyrannu ar sail resymol a chyson.*
*† Cynhwysir cyfraniad arian parod gwirioneddol y cyflogwr i'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn y gwarged/(diffyg) cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol pob endid. Y gost weithredol ychwanegol yw'r gost i'r Grŵp sy'n ychwanegol at y cyfraniadau arian parod hyn.*

### 1b Incwm o ffi'r drwydded

| | Ffi'r drwydded 2008 £ | Trwyddedau mewn grym 2008 Nifer m | Cyfanswm incwm 2008 £m | Ffi'r drwydded 2007 £ | Trwyddedau mewn grym 2007 Nifer m | Cyfanswm incwm 2007 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lliw | **135.50** | **21.1** | **2,840.1** | 131.50 | 20.9 | 2,737.1 |
| Du a gwyn* | **45.50** | **–** | **1.4** | 44.00 | – | 1.5 |
| Consesiynol | **7.50** | **0.2** | **1.4** | 5.00 | 0.2 | 0.9 |
| Pobl sydd dros 75 oed | **–** | **4.0** | **508.4** | – | 4.0 | 486.6 |
| | | **25.3** | **3,351.3** | | 25.1 | 3,226.1 |
| Premiwm cynllun talu chwarterol | | | **17.5** | | | 16.8 |
| **Cyfanswm yr incwm o ffi'r drwydded** | | | **3,368.8** | | | 3,242.9 |
| Incwm arall** | | | **41.5** | | | 28.9 |
| Cyfanswm yr incwm allanol | | | **3,410.3** | | | 3,271.8 |

* *Mae 28,000 o drwyddedau du a gwyn mewn grym ar 31 Mawrth 2008 (33,000 ar 31 Mawrth 2007).*
** *Yn gynwysedig o fewn incwm arall mae £2.3miliwn (2007: £1.4miliwn) a gyfrannwyd gan ddarlledwyr eraill tuag at gostau Digital UK Limited (gweler Nodyn 2a.).*

Yn ystod y flwyddyn dosbarthwyd 3.5 miliwn (2007: 3.4 miliwn) o drwyddedau lliw o dan y cynllun talu chwarterol ar bremiwm o £5 yr un (2007: £5). Mae gan gartrefi lle mae un neu ragor o bobl dros 75 oed yn byw ynddynt, fel eu prif breswylfa, yr hawl i gael trwydded am ddim. Ad-delir y BBC am y trwyddedau am ddim hyn gan adrannau perthnasol y Llywodraeth.

### 1c Dadansoddiad o incwm Commercial Businesses yn ôl gweithgaredd

| | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|
| Teledu (sianelau, gwerthiannau, cynnwys a chynhyrchu) | **405.0** | 367.5 |
| Cylchgronau, Adloniant Cartref a Lonely Planet | **266.4** | 230.3 |
| Cyfryngau Digidol | **21.9** | 13.9 |
| Darparu cyfleusterau a gwasanaethau gwneud rhaglenni | **121.2** | 124.0 |
| Llai: incwm mewnol y Grŵp | **(94.9)** | (99.8) |
| Cyfanswm yr incwm allanol | **719.6** | 635.9 |

### 1d Dadansoddiad daearyddol o incwm Commercial Businesses yn ôl cyrchfan

| | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|
| Y Deyrnas Unedig | **310.4** | 273.8 |
| Yr Americas | **187.2** | 169.4 |
| Gweddill y byd | **222.0** | 192.7 |
| Cyfanswm yr incwm allanol | **719.6** | 635.9 |

## 2 GWARIANT GWEITHREDOL

### 2a Dadansoddiad o wariant gweithredol yn ôl gweithgaredd

Ariennir gweithgareddau UK Public Service Broadcasting gan ffi'r drwydded. Mae'r Siarter a'r Cytundeb rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn disgrifio Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU (yn cynnwys teledu, radio a gwasanaethau ar-lein) a hefyd yn gosod rhai rhwymedigaethau ar y BBC mewn perthynas â newid i ddigidol; ariennir y ddau weithgaredd gan ffi'r drwydded. Fodd bynnag, nodwyd rhan o incwm ffi'r drwydded fel rhywbeth at ddiben newid i ddigidol ac o ganlyniad dangosir cyfanswm gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting isod wedi ei ddyrannu rhwng y categorïau hyn.

| | Nodyn | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|---|
| Gwariant ar weithgareddau a ariennir gan ffi'r drwydded | | | |
| Gwasanaethau Cyhoeddus y DU | 2b | **3,487.1** | 3,315.7 |
| Newid i ddigidol (Digital UK Limited)* | | **21.2** | 11.6 |
| Newid i ddigidol (DSHS Limited) | 2d | **5.9** | – |
| Cyfanswm Grŵp UK Public Service Broadcasting | | **3,514.2** | 3,327.3 |
| BBC World Service a BBC Monitoring** | | **285.3** | 258.8 |
| Commercial Businesses | 2c | **675.6** | 630.5 |
| Costau gweithredol cynllun pensiwn anariannol*** | | **1.9** | 136.8 |
| | | **4,477.0** | 4,353.4 |

* *Fel y nodir yn Nodyn 29c mae'r BBC yn rheoli 56% o hawliau pleidleisio cwmni Digital UK Limited (Switchco Limited gynt) ac felly mae'n cyfuno ei ganlyniadau â rhai'r BBC. O ganlyniad, mae'r costau hyn yn cynrychioli'r gwariant llawn gan Digital UK Limited, a ariennir gan gyfraniadau gan y BBC a darlledwyr eraill. Cyfrannodd y BBC £18.9miliwn (2007: £10.2miliwn) sef 100% o'r gwariant cyfathrebu (a neilltuir, gweler Nodyn 2d) a 56% o'r holl gostau eraill yr aethpwyd iddynt gan Digital UK Limited. Cyfrannwyd £2.3miliwn (2007: £1.4miliwn) gan ddarlledwyr eraill.*

** *Mae gwariant BBC World Service a BBC Monitoring o £285.3miliwn (2007: £258.8miliwn) yn eithrio £0.5miliwn (2007: £1.5miliwn) o wariant wrth ddarparu gwasanaethau i gwmnïau eraill Grŵp y BBC.*

*** *Yn unol ag FRS 17 ni rennir y costau gweithredol anariannol rhwng y gweithgareddau busnes gan nad yw'n bosibl gwneud hyn ar sail resymol a chyson.*

## 2b Gwariant Gwasanaethau Cyhoeddus y DU

Daeth fframwaith newydd o drwyddedau gwasanaeth, a gyflwynwyd i reolwyr y BBC gan Ymddiriedolaeth y BBC, i rym ar 1 Ionawr 2007. Mae'r tabl isod yn nodi cyfanswm y gwariant ar gyfer pob grŵp o drwyddedau gwasanaeth. Ceir manylion am wariant pob gwasanaeth unigol yn Nodyn 28.

***Gwasanaeth ar-lein y BBC*** *oedd bbc.co.uk (yn cynnwys iPlayer).*

| 2008<br>Gwasanaethau | Nodyn | Cynnwys<br>£m | Dosbarthu<br>£m | Seilwaith/<br>cymorth<br>£m | Arall<br>£m | Cyfanswm<br>£m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Teledu | 28 | 1,834.3 | 104.8 | 416.2 | – | **2,355.3** |
| Radio | 28 | 459.9 | 47.2 | 91.3 | – | **598.4** |
| Ar-lein | 28 | 113.9 | 15.4 | 52.7 | – | **182.0** |
| **Gwariant a reoleiddir** | | **2,408.1** | **167.4** | **560.2** | **–** | **3,135.7** |
| Arall* | 28 | 77.5 | 18.3 | 14.8 | 123.2 | **233.8** |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | 28 | – | – | – | 117.6 | **117.6** |
| **Gwariant Gwasanaethau Cyhoeddus y DU** | | **2,485.6** | **185.7** | **575.0** | **240.8** | **3,487.1** |
| Gwariant Digital UK Limited | 2a | – | – | – | 21.2 | **21.2** |
| Gwariant newid i ddigidol a neilltuwyd | 2d | – | – | – | 5.9 | **5.9** |
| **Cyfanswm** | | **2,485.6** | **185.7** | **575.0** | **267.9** | **3,514.2** |

** Gwariant arall yw gwariant na chaiff ei reoleiddio'n benodol gan y trwyddedau gwasanaeth unigol ac mae'n cynnwys costau ar gyfer casglu ffi'r drwydded, cerddorfeydd a grwpiau perfformio a datblygu busnes.*

| 2007 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Teledu | 28 | 1,836.9 | 99.1 | 383.1 | – | 2,319.1 |
| Radio | 28 | 432.6 | 42.6 | 88.4 | – | 563.6 |
| Ar-lein | 28 | 115.0 | 8.8 | 29.9 | – | 153.7 |
| Gwariant a reoleiddir | | 2,384.5 | 150.5 | 501.4 | – | 3,036.4 |
| Arall | 28 | 71.6 | 14.2 | 15.1 | 134.1 | 235.0 |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | 28 | – | – | – | 44.3 | 44.3 |
| Gwariant Gwasanaethau Cyhoeddus y DU | | 2,456.1 | 164.7 | 516.5 | 178.4 | 3,315.7 |
| Gwariant Digital UK Limited | 2a | – | – | – | 11.6 | 11.6 |
| Gwariant newid i ddigidol a neilltuwyd | 2d | – | – | – | – | – |
| Cyfanswm | | 2,456.1 | 164.7 | 516.5 | 190.0 | 3,327.3 |

## 2c Gwariant Commercial Businesses

*Dim ond i'r incwm allanol y mae'r* ***gwariant*** *a ddangosir ar gyfer Commercial Businesses yn berthnasol ac nid yw'n cynnwys gwariant sy'n berthnasol i werthiannau o fewn y BBC.*

| | Nodyn | **2008**<br>**£m** | 2007<br>£m |
|---|---|---|---|
| Costau gwerthiannau | | **351.0** | 300.4 |
| Costau dosbarthu | | **179.1** | 136.3 |
| Costau dosbarthu eithriadol | | **–** | 46.0 |
| Costau gweinyddol a chostau eraill | | **40.2** | 37.5 |
| Amorteiddio buddsoddiad mewn rhaglenni | 12 | **101.8** | 107.1 |
| Costau ailstrwythuro | 4c | **3.5** | 3.2 |
| Cyfanswm | | **675.6** | 630.5 |

### 2d Gwariant Gwasanaethau Cyhoeddus y DU a neilltuir

Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi neilltuo'r symiau canlynol o fewn y Siarter newydd a setliad ffi'r drwydded am 6 blynedd (2008 tan 2013):

| Newid i ddigidol | Swm a wariwyd mewn blynyddoedd blaenorol £m | Swm a wariwyd yn 2007 £m | Swm a wariwyd yn 2008 £m | **Cyfanswm Cronnol £m** | Arian a neilltuwyd ar gyfer chwe blynedd £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Help i'r henoed a'r anabl* | – | – | 5.9 | **5.9** | 603.0 |
| Digital UK Limited** | 1.4 | 8.7 | 17.5 | **27.6** | 201.0 |

* *Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cytuno â'r BBC y caiff cost amcangyfrifedig y Cynllun Cymorth i Newid i Ddigidol (a weithredir gan DSHS Limited) o £603miliwn ei neilltuo o ffi'r drwydded at ddiben ariannu'r Cynllun dros y chwe blynedd y bydd setliad ffi'r drwydded yn weithredol. Os bydd costau'r prosiect yn rhagori ar y terfyn hwn o ganlyniad i alw sy'n fwy na'r hyn a ragwelwyd, noda'r cytundeb na fydd hyn ar draul rhaglenni, gwasanaethau nac adnoddau eraill y BBC.*

** *Noda'r Cytundeb Fframwaith fod y BBC yn ymrwymedig i arwain rhai agweddau ar y rhaglen newid i ddigidol, drwy Digital UK Limited, a bod setliad ffi'r drwydded yn cynnwys swm a neilltuwyd o hyd at £201miliwn o sefydlu Digital UK Limited hyd at ddiwedd cyfnod chwe blynedd setliad ffi'r drwydded ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu. Dim ond rhan o gyfraniad blynyddol y BBC at Digital UK Limited yw'r swm a neilltuir (gweler Nodyn 2a).*

Ar 31 Mawrth 2008, mae'r BBC yn rhagweld y bydd yn aros o fewn y symiau a neilltuwyd ar ddiwedd y cyfnod o chwe blynedd.

## 3 DIFFYG GWEITHREDOL Y GRŴP

### 3a Diffyg gweithredol y Grŵp ac eithrio cydnabyddiaeth yr archwilwyr

Nodir y diffyg gweithredol cyn llog a threthiant ar ôl codi tâl ar/(credydu) yr eitemau canlynol:

| | **2008 £m** | 2007 £m |
|---|---|---|
| Taliadau o dan brydlesau gweithredol | | |
| – tir ac adeiladau | **72.8** | 64.2 |
| – offer a pheiriannau | **13.1** | 3.3 |
| – arall | **12.3** | 13.7 |
| Dibrisiant | | |
| – asedau a feddir | **107.6** | 106.8 |
| – asedau a brydlesir | **2.8** | 6.4 |
| Elw o waredu asedau sefydlog diriaethol* | **–** | (1.1) |
| Amorteiddio ewyllys da: | | |
| – is-gwmnïau | **2.5** | 1.3 |
| – cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt | **2.0** | 2.7 |
| Amorteiddio buddsoddiad mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | **101.8** | 107.1 |
| Darpariaeth ar gyfer buddsoddiadau masnach | **1.5** | – |
| Datblygu rhaglenni | **22.1** | 29.4 |
| Ymchwil a datblygiad | **16.1** | 14.6 |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr masnachu teg (PricewaterhouseCoopers LLP) | **0.5** | 0.3 |
| Gwahaniaethau cyfnewid net | **(2.8)** | 3.7 |
| Lleihad dyledwyr masnach | **3.9** | 0.7 |
| Colledion gwerth teg ar ddeilliadau sefydlog | **0.2** | 2.1 |
| Enillion gwerth teg ar flaen-gontractau arian cyfred tramor agored | **(6.2)** | (0.3) |

* *Mae'r elw o waredu asedau sefydlog diriaethol yn cynrychioli addasiadau i ddibrisiant ar waorediadau yn ystod y drefn busnes arferol. Datgelir elw eithriadol o warediadau ar wahân yn Nodyn 6.*

### 3b Cydnabyddiaeth yr archwilwyr

Mae'r BBC wedi cyflwyno adroddiad ar gydnabyddiaeth ei archwilwyr yn unol â Rheoliadau'r Cwmnïau (Datgelu Cydnabyddiaeth Archwilwyr) 2005.

| | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|
| Ffioedd sy'n daladwy am archwilio cyfrifon blynyddol y BBC | **0.6** | 1.0 |
| Ffioedd sy'n daladwy i archwilydd y BBC a'i bartneriaethau cyswllt am wasanaethau eraill | | |
| – archwilio is-gwmnïau'r BBC yn unol â deddfwriaeth | **0.6** | 0.5 |
| – gwasanaethau eraill yn ymwneud â threthiant | **0.3** | 0.1 |
| – gwasanaethau yn ymwneud â thrafodion cyllid corfforaethol | **–** | 0.1 |
| – pob gwasanaeth arall | **0.5** | 0.6 |
| | **2.0** | 2.3 |

## 4 CYFLOGEION A CHYDNABYDDIAETH

### 4a Pobl a gyflogir

Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn oedd:

| | Cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn | |
|---|---|---|
| | 2008 Nifer | 2007 Nifer |
| UK Public Service Broadcasting | **17,677** | 17,914 |
| BBC World Service a BBC Monitoring | **2,219** | 2,214 |
| Commercial Businesses | **3,205** | 2,909 |
| **Cyfanswm y Grŵp** | **23,101** | 23,037 |

Mae'r lleihad yn nifer y bobl a gyflogir gan Public Service Broadcasting yn ystod 2008 yn bennaf o ganlyniad i fentrau'r rhaglen Gwerth am Arian. Mae'r cynnydd yn nifer y bobl a gyflogir gan Commercial Businesses yn ystod 2008 yn bennaf o ganlyniad i gaffael Lonely Planet.

O fewn y cyfartaleddau uchod, cafodd 2,845 (2007: 2,743) o gyflogeion rhan amser eu cynnwys ar eu ffigur cyfwerth ag amser llawn o 1,595 (2007: 1,566).

Yn ogystal â'r uchod, cyflogodd y Grŵp 851 (2007: 872) o bobl ar gyfartaledd cyfwerth ag amser llawn ar sail achlysurol a niferoedd Cerddorfa a Chantorion y BBC a gyflogwyd ar gontractau rhaglenni oedd 379 (2007: 380) o bobl cyfwerth ag amser llawn.

### 4b Costau staff

| | Nodyn | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|---|
| Cyflogau | | **1,006.0** | 969.0 |
| Costau nawdd cymdeithasol | | **89.5** | 88.9 |
| Costau pensiwn | | | |
| – prif gynllun (buddiannau diffiniedig) | 8b ii | **173.2** | 204.9 |
| – cynlluniau eraill | 8b ii | **1.2** | 1.0 |
| Costau dileu swyddi | 4c | **111.7** | 21.2 |
| | | **1,381.6** | 1,285.0 |
| Gan gynnwys: | | | |
| UK Public Service Broadcasting | | **1,097.8** | 915.6 |
| BBC World Service a BBC Monitoring | | **93.7** | 78.9 |
| Commercial Businesses | | **188.2** | 153.7 |
| Cost weithredol ychwanegol y prif gynllun pensiwn (buddiannau diffiniedig)* | 1a | **1.9** | 136.8 |
| | | **1,381.6** | 1,285.0 |

** Telir cyfraniadau ariannol gwirioneddol y cyflogwr i'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig gan bob busnes. Y gost weithredol ychwanegol yw'r gost i'r Grŵp sy'n ychwanegol at y cyfraniadau hyn. Nid yw'n bosibl dyrannu hyn i bob busnes ar sail resymol a chyson.*

### 4c Costau ailstrwythuro

| | | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|---|
| Costau dileu swyddi eithriadol: | | | |
| – UK Public Service Broadcasting | 4b | **99.7** | 11.0 |
| – BBC World Service a BBC Monitoring | 4b | **0.1** | 0.2 |
| Costau ailstrwythuro eithriadol eraill | | | |
| – UK Public Service Broadcasting | | **17.9** | 33.3 |
| | | **117.7** | 44.5 |
| Costau dileu swyddi nad ydynt yn eithriadol: | | | |
| – UK Public Service Broadcasting | | **2.9** | 5.0 |
| – BBC World Service a BBC Monitoring | | **5.5** | 1.1 |
| – Commercial Businesses | | **3.5** | 3.9 |
| | 4b | **11.9** | 10.0 |
| | | **129.6** | 54.5 |

Mae costau ailstrwythuro eithriadol yn ymwneud â'r rhaglenni Gwerth am Arian a Gwelliant Parhaus sy'n mynd rhagddynt yn UK Public Service Broadcasting a'r arolwg strategol o BBC World Service. Yn ystod 2007/08, codwyd £99.7miliwn ar y cyfrif incwm a gwariant, y darparwyd £99.3miliwn ohono ar gyfer dileu swyddi yn ymwneud â'r rhaglen Gwelliant Parhaus. Bydd y swyddi yn cael eu dileu yn ystod y rhaglen 5 mlynedd ac maent wedi'u disgowntio i adlewyrchu prisiau cyfredol ac mae £0.4miliwn wedi'i dalu yn ystod y flwyddyn. Darparwyd ar gyfer y rhan fwyaf o achosion o gau swyddi a ddeilliodd o'r rhaglen Gwerth am Arian mewn blynyddoedd blaenorol a thalwyd £36.6miliwn yn ystod 2008.

Talwyd £20.0miliwn o gostau ailstrwythuro eithriadol eraill yn ystod 2008, gan gynrychioli costau gweithredu untro, ac o hyn cadwyd £6.9miliwn ar y fantolen yn 2007.

### 4d Cydnabyddiaeth aelodau Ymddiriedolaeth y BBC a'r Bwrdd Gweithredol

Datgelir cyfanswm enillion aelodau'r Bwrdd Gweithredol ar dudalen 93 yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth. Datgelir manylion enillion aelodau Ymddiriedolaeth y BBC yn Rhan Un o'r *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.*

## 5 COLLED O WERTHU A THERFYNU GWEITHREDIADAU

| | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|
| Colled o werthu Outside Broadcast | **(1.3)** | – |
| Elw o werthu'r busnes Llyfrau | – | 13.3 |
| Elw o werthu Origin Publishing | – | 0.2 |
| BBC jam | **(3.5)** | (15.9) |
| Colled o derfynu'r busnes siopau manwerthu | – | (1.9) |
| Colled o derfynu gweithrediadau dysgu busnes | – | (0.9) |
| Colled o werthu a therfynu gweithrediadau | **(4.8)** | (5.2) |

Ar ôl dyddiad y fantolen, ar 1 Ebrill 2008, gwerthodd BBC Resources Limited ei fusnes Outside Broadcast am £19.3miliwn i SIS Outside Broadcast Limited, rhan o'r Grŵp Satellite Information Services. Mae Outside Broadcast yn darparu amrywiaeth o unedau cynhyrchu symudol, atebion cyfathrebu a chamerâu arbennig, a leolir yn Langley, Berkshire. Cydnabyddir y costau sy'n codi hyd at 31 Mawrth 2008 fel traul pan eir iddynt.

Ar 20 Mawrth 2007 diddymwyd BBC jam, gwasanaeth dysgu rhyngweithiol ar-lein y BBC i blant 5–16 mlwydd oed gan y Bwrdd Gweithredol, yn dilyn penderfyniad gan Ymddiriedolaeth y BBC. Gwnaed y penderfyniad gan Ymddiriedolaeth y BBC yn dilyn trafodaethau helaeth â'r Llywodraeth a'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch sut i fynd i'r afael â honiadau gan rai yn y diwydiant fod BBC jam yn effeithio ar eu buddiannau. Erys darpariaeth o £1.5miliwn ar gyfer costau dileu swyddi a chontractau terfynu gyda chyflenwyr cynnwys ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol (gweler Nodyn 17).

### 6 ELW O WAREDU ASEDAU SEFYDLOG

| | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|
| Gwaredu Animal Planet LLC | – | 45.8 |
| Gwaredu eiddo | **2.0** | 9.9 |
| Elw o waredu asedau sefydlog | **2.0** | 55.7 |

Cydnabyddir elw neu golledion o waredu asedau sefydlog diriaethol yn ystod y drefn busnes arferol, sy'n cynrychioli addasiad i ddibrisiant yn y diffyg gweithredol a chânt eu datgelu gyda'i gilydd yn Nodyn 3a.

### 7 LLOG

#### 7a Llog derbyniadwy ac eitemau tebyg

| | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|
| Llog derbyniadwy | **11.6** | 11.8 |
| Cyfran o log cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt sy'n dderbyniadwy | **2.0** | 0.8 |
| Enillion gwerth teg ar gyfnewidiadau a chapiau cyfradd llog | **0.1** | 1.8 |
| Llog derbyniadwy ac eitemau tebyg | **13.7** | 14.4 |

#### 7b Llog sy'n daladwy ac eitemau tebyg

| | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|
| Llog sy'n daladwy ar fenthyciadau banc a benthyciadau eraill | **(12.4)** | (6.4) |
| Cyfran o log cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt sy'n daladwy | **(1.6)** | (0.6) |
| Taliadau cyllid sy'n daladwy mewn perthynas â phrydlesau cyllid | **(0.7)** | (0.5) |
| Colledion gwerth teg ar gyfnewidiadau a chapiau cyfradd llog | **(3.6)** | – |
| Llog sy'n daladwy ac eitemau tebyg | **(18.3)** | (7.5) |

### 8 PENSIYNAU

#### 8a Cynlluniau pensiwn y Grŵp

Mae'r Grŵp yn gweithredu sawl cynllun pensiwn. Mae Cynllun Pensiwn y BBC, y mae'r rhan fwyaf o gyflogeion yn perthyn iddo, a chynllun bach heb ei ariannu (nad yw ar gael i aelodau newydd) yn gynlluniau buddiannau diffiniedig ar sail cyfraniadau. Yn ogystal, mae Cynllun Pensiwn Personol y Grŵp a sawl cynllun bach arall yn gynlluniau cyfraniadau diffiniedig.

Mae Nodyn 8b yn nodi'r asedau a'r rhwymedigaethau a'r taliadau ar gyfer pob cynllun. Mae Nodyn 8c yn rhoi manylion pellach am Gynllun Pensiwn y BBC.

#### 8b Taliadau pensiwn a balansau o fewn y datganiadau ariannol

Mae'r BBC wedi mabwysiadu'r diwygiad i FRS 17 ac wedi ailddatgan gwerthoedd gwarannau a restrir a ddelir fel asedau buddiannau diffiniedig ar y farchnad asedau ar brisiau cynigion ar 31 Mawrth 2007 fel sy'n ofynnol gan yr FRS. Effaith yr ailddatgan yw gostyngiad yn ased pensiwn net wrth gau ar 31 Mawrth 2007 Cynllun Pensiwn y BBC o £10.4miliwn.

**8b i Ased/(rhwymedigaeth) pensiwn a gynhwysir yn y fantolen**

| | Cynllun Pensiwn y BBC 2008 £m | Cynllun nas ariannwyd 2008 £m | Cyfanswm 2008 £m | Cynllun Pensiwn y BBC 2007 fel yr ailddatganwyd £m | Cynllun nas ariannwyd 2007 £m | Cyfanswm 2007 fel yr ailddatganwyd £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cynllun fel y'u nodwyd yn flaenorol | **8,042.0** | **–** | **8,042.0** | 8,128.3 | – | 8,128.3 |
| Ailddatganiad o werthoedd asedau fel sy'n ofynnol gan FRS 17 | **–** | **–** | **–** | (10.4) | – | (10.4) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun a ailddatganwyd | **8,042.0** | **–** | **8,042.0** | 8,117.9 | – | 8,117.9 |
| Gwerth actiwaraidd rhwymedigaethau'r cynllun | **(7,513.6)** | **(5.1)** | **(7,518.7)** | (7,788.6) | (5.2) | (7,793.8) |
| Ased/(rhwymedigaeth) pensiwn net terfynol | **528.4** | **(5.1)** | **523.3** | 329.3 | (5.2) | 324.1 |

**8b ii (Taliadau)/incwm pensiwn yn y datganiad o incwm a gwariant**

| | Cynlluniau buddiannau diffiniedig | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynllun Pensiwn y BBC £m | Cynllun nas ariannwyd £m | Cyfraniad cyfraniadau diffiniedig £m | Pob cynllun £m |
| **2008** | | | | |
| **Cost gwasanaethau presennol** | **(164.8)** | **–** | **(1.2)** | **(166.0)** |
| **Cost gwasanaethau yn y gorffennol** | **(21.5)** | **–** | **–** | **(21.5)** |
| **Cyfanswm y tâl gweithredol*** | **(186.3)** | **–** | **(1.2)** | **(187.5)** |
| **Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn** | **562.7** | **–** | **–** | **562.7** |
| **Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn** | **(413.6)** | **(0.3)** | **–** | **(413.9)** |
| **Incwm/(cost) cyllid net** | **149.1** | **(0.3)** | **–** | **148.8** |
| **Cost net yn y datganiad o incwm a gwariant** | **(37.2)** | **(0.3)** | **(1.2)** | **(38.7)** |
| 2007 | | | | |
| Cost gwasanaethau presennol | (192.7) | – | (1.0) | (193.7) |
| Cost gwasanaethau yn y gorffennol | (39.8) | – | – | (39.8) |
| Enillion ar setliadau a chwtogiadau | 1.6 | – | – | 1.6 |
| Cyfanswm y tâl gweithredol | (230.9) | – | (1.0) | (231.9) |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | 541.3 | – | – | 541.3 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | (378.4) | (0.3) | – | (378.7) |
| Incwm/(cost) cyllid net | 162.9 | (0.3) | – | 162.6 |
| Cost net yn y datganiad o incwm a gwariant | (68.0) | (0.3) | (1.0) | (69.3) |

** O gyfanswm y tâl gweithredol o £186.3miliwn ar gyfer 2007/08, cydnabuwyd £13.1miliwn fel traul yn 2006/07 fel rhan o gostau dileu swyddi eithriadol yn unol ag FRS 12. Cydnabuwyd y £173.2miliwn a oedd yn weddill yn y flwyddyn gyfredol.*

Mae'r gost net yn y datganiad o incwm a gwariant wedi lleihau £30.6miliwn. Mae hyn yn bennaf oherwydd lleihad mewn costau staff sy'n gyson â'r lleihad a welwyd mewn niferoedd staff wrth ddileu'r rheini a oedd yn gysylltiedig â chaffael Lonely Planet.

*Y **gost gwasanaethau presennol** yw'r gost sylfaenol i'r BBC o hawliau pensiwn a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn.*

*Mae'r **gost gwasanaethau yn y gorffennol** yn codi am fod aelodau o'r cynllun yn cael yr hawl i fuddiannau ymddeol diffiniedig gwell, sy'n arwain at godi tâl am flynyddoedd o wasanaeth cyn dyfarnu'r gwelliant.*

*Mae'r **adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn** yn cynnwys amcangyfrifon yn seiliedig ar ragfynegiadau o berfformiad ac amodau economaidd yn y dyfodol.*

*Nid yw'r* ***cynlluniau cyfraniadau diffiniedig*** *yn arwain at asedau/rhwymedigaethau pensiwn ar y fantolen gan nad oes rhwymedigaeth barhaus ar y cyflogwr o'r cynlluniau hyn unwaith y bydd y cyfraniadau sy'n ddyledus ar gyfer y flwyddyn wedi cael eu setlo.*

### 8b iii Symudiad mewn gwarged/(diffyg) yn ystod y flwyddyn

| | Cynllun Pensiwn y BBC 2008 £m | Cynllun nas ariannwyd 2008 £m | Cyfanswm 2008 £m | Cynllun Pensiwn y BBC 2007 fel yr ailddatganwyd £m | Cynllun nas ariannwyd 2007 £m | Cyfanswm 2007 fel yr ailddatganwyd £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) yn y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn fel y nodwyd yn wreiddiol | **339.7** | **(5.2)** | **334.5** | 170.2 | (5.3) | 164.9 |
| Ailddatganiad fel sy'n ofynnol gan FRS 17 | **(10.4)** | **–** | **(10.4)** | (2.7) | – | (2.7) |
| Gwarged/(diffyg) yn y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn fel yr ailddatganwyd | **329.3** | **(5.2)** | **324.1** | 167.5 | (5.3) | 162.2 |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn: | | | | | | |
| Cost gwasanaethau presennol | **(164.8)** | **–** | **(164.8)** | (192.7) | – | (192.7) |
| Cyfraniadau (gan y cyflogwr)* | **184.0** | **0.4** | **184.4** | 93.7 | 0.4 | 94.1 |
| Costau gwasanaethau yn y gorffennol | **(21.5)** | **–** | **(21.5)** | (39.8) | – | (39.8) |
| Enillion ar setliadau a chwtogiadau | **–** | **–** | **–** | 1.6 | – | 1.6 |
| Incwm/(cost) cyllid net | **149.1** | **(0.3)** | **148.8** | 162.9 | (0.3) | 162.6 |
| Enillion actiwaraidd a gydnabuwyd yn y datganiad o enillion a cholledion** | **52.3** | **–** | **52.3** | 136.1 | – | 136.1 |
| Gwarged/(diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | **528.4** | **(5.1)** | **523.3** | 329.3 | (5.2) | 324.1 |

* *Mae'r cyfraniad a ddangosir ar gyfer y cynllun nas ariannwyd yn cynrychioli'r pensiynau a dalwyd i aelodau yn ystod y flwyddyn.*

** *Yn 2007, mae'r enillion actiwaraidd a gydnabuwyd yn y datganiad o enillion a cholledion yn cynnwys y £7.7miliwn mewn perthynas â mabwysiadu'r diwygiad i FRS 17.*

Mae'r tybiaethau ar gyfer rhwymedigaethau cynllun pensiwn y cynllun nas ariannwyd yr un peth â'r rhai ar gyfer y prif gynllun. Gan nad yw'r cynllun wedi'i ariannu, nid oes unrhyw asedau ac felly nid oes unrhyw adenillion disgwyliedig ar asedau.

## 8c Cynllun Pensiwn y BBC

Prif gynllun pensiwn y Grŵp yw Cynllun Pensiwn y BBC ac mae'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r cyflogeion. Mae'r cynllun hwn yn darparu buddiannau sy'n gysylltiedig â chyflog ar sail buddiannau diffiniedig wedi eu harianu gan asedau a ddelir mewn cronfeydd ar wahân, a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Mae ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn yn rheoli'r cynllun yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Cytunant ar benderfyniadau cyllido yn seiliedig ar brisiadau sy'n arddel barn tymor hwy am yr asedau sydd eu hangen i ariannu rhwymedigaethau'r cynllun. Cyflawnir prisiadau'r cynllun gan Watson Wyatt, sy'n actiwarïaid ymgynghorol. Cynhelir prisiadau ffurfiol bob tair blynedd o leiaf.

### 8c i Ariannu'r cynllun

*Mae* ***prisiad FRS 17*** *yn cymryd asedau yn ôl eu gwerth ar y farchnad ac yn disgowntio'r rhwymedigaethau cronnus drwy gyfeirio at gyfradd ddisgowntio bond corfforaeth gradd AA.*

| Prisiad FRS 17 | 2008 £m | 2007 fel yr ailddatganwyd £m | 2006 fel yr ailddatganwyd £m | 2005 £m | 2004 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau'r cynllun* | **8,042.0** | 8,117.9 | 7,843.4 | 6,341.7 | 5,880.0 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun | **(7,513.6)** | (7,788.6) | (7,675.9) | (6,763.8) | (6,311.6) |
| Gwarged/(diffyg) | **528.4** | 329.3 | 167.5 | (422.1) | (431.6) |
| Canran y mae asedau'r cynllun yn cwmpasu rhwymedigaethau | **107%** | 104% | 102% | 94% | 93% |

* *Mae ecwitïau a restrir sydd wedi'u cynnwys yn asedau'r cynllun wedi'u prisio gan ddefnyddio'r pris cynigion cyfredol ar wahân i 2006, 2005 a 2004 nad ydynt wedi'u hailddatgan a chânt eu prisio gan ddefnyddio pris canolog y farchnad, a ganiateir o dan y Diwygiad i FRS 17. Effaith yr ailddatganiad oedd gostyngiad o £2.7miliwn a £10.4miliwn yn asedau'r cynllun ar 31 Mawrth 2006 a 2007 yn y drefn honno.*

Dangosir symudiadau allweddol yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 8b iii.

Ni fydd ased na rhwymedigaeth treth ohiriedig yn codi ar gyfer y Grŵp gan nad yw'r rhan fwyaf o weithgaredd cyhoeddus y Grŵp yn agored i drethiant.

**8c ii Newidiadau yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun**
Mae'r tabl isod yn dangos y symudiad o ran rhwymedigaethau'r cynllun yn ystod y flwyddyn. Y prif bethau sy'n effeithio ar hyn yw'r flwyddyn ychwanegol o fuddiannau pensiwn a enillwyd (a'r cyfraniadau a wnaed gan y cyflogai), llog a godir ar rwymedigaethau presennol, unrhyw enillion neu golledion sy'n ymwneud â chyfranogwyr yn gadael y cynllun pensiwn, newidiadau yn y tybiaethau a wnaed a buddiannau a dalwyd yn ystod y flwyddyn.

| | **2008 £m** | 2007 £m |
|---|---|---|
| Gwerth presennol agoriadol rhwymedigaethau'r cynllun | **7,788.6** | 7,675.9 |
| Cost gwasanaethau presennol | **164.8** | 192.7 |
| Cost gwasanaethau yn y gorffennol | **21.5** | 39.8 |
| Enillion ar gwtogiadau | – | (1.0) |
| Enillion ar setliadau | – | (0.6) |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **413.6** | 378.4 |
| Colledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau'r cynllun | **149.1** | 164.6 |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i rwymedigaethau'r cynllun | **(786.0)** | (421.7) |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | **53.1** | 63.0 |
| Buddiannau a dalwyd | **(291.1)** | (302.5) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun wrth gau | **7,513.6** | 7,788.6 |

**8c iii Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun**
Mae'r BBC wedi mabwysiadu'r diwygiad i FRS 17 ac wedi ailddatgan gwerthoedd gwarannau a restrir a ddelir fel asedau buddiannau diffiniedig ar y farchnad asedau ar brisiau cynigion ar 31 Mawrth 2006 a 31 Mawrth 2007 fel sy'n ofynnol gan yr FRS. Effaith yr ailddatganiad yw lleihad yng ngwerth teg agoriadol asedau Cynllun Pensiwn y BBC o £2.7miliwn.

Mae'r tabl isod yn dangos y symudiad o ran asedau'r cynllun yn ystod y flwyddyn. Y prif bethau sy'n effeithio ar hyn yw'r flwyddyn ychwanegol o gyfraniadau a wnaed, newidiadau yng ngwerth asedau'r cynllun pensiwn (yn cynnwys yr adenillion o fuddsoddiadau) a'r buddiannau a dalwyd yn ystod y flwyddyn.

| | **2008 £m** | 2007 fel yr ailddatganwyd £m |
|---|---|---|
| Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun fel y'u nodwyd yn flaenorol | **8,128.3** | 7,846.1 |
| Ailddatganiad o werthoedd asedau fel sy'n ofynnol gan FRS 17 | **(10.4)** | (2.7) |
| Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun fel yr ailddatganwyd | **8,117.9** | 7,843.4 |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | **562.7** | 541.3 |
| Colledion actiwaraidd ar asedau'r cynllun | **(584.6)** | (121.0) |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | **184.0** | 93.7 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | **53.1** | 63.0 |
| Buddiannau a dalwyd | **(291.1)** | (302.5) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau | **8,042.0** | 8,117.9 |

**8c iv Asedau'r cynllun**

Rheolir y dyraniad o asedau gan yr Ymddiriedolwyr gan angen i reoli risg yn erbyn y dymuniad am adenillion uchel ac unrhyw anghenion o ran hylifedd. Delir canran uchel o asedau mewn ecwitïau a fydd, yn ôl disgwyliadau'r Ymddiriedolwyr, yn cynhyrchu adenillion uwch yn yr hirdymor. Y dyraniad targed, yn seiliedig ar werthoedd y farchnad, ar gyfer ecwitïau yw 50%, 30% ar gyfer bondiau a giltiau, 10% ar gyfer eiddo a 10% ar gyfer asedau amgen.

| Math o ased | 2008 £m | 2008 % | 2007 fel yr ailddatganwyd £m | 2007 fel yr ailddatganwyd % |
|---|---|---|---|---|
| Ecwitïau | **4,629** | **58** | 5,032 | 62 |
| Bondiau a giltiau | **1,705** | **21** | 1,575 | 19 |
| Eiddo | **1,001** | **12** | 981 | 12 |
| Asedau amgen* | **455** | **6** | 295 | 4 |
| Arian parod | **252** | **3** | 235 | 3 |
| Cyfanswm yr asedau | **8,042** | | 8,118 | |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun pensiwn | **(22)**** | | 420 | |

* *Mae asedau amgen yn cynnwys ecwiti preifat, dyled ac arian cyfred.*
** *Mae hyn yn gyfystyr ag enillion a wireddwyd o dderbyn trafodion incwm buddsoddi (e.e. difidendau a rhent) lle caiff asedau eu gwerthu a chaiff gwerth teg heb ei wireddu ei newid.*

**8c v Enillion/(colledion) pensiwn yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig**

| | 2008 £m | 2007 fel yr ailddatganwyd £m |
|---|---|---|
| Adenillion gwirioneddol llai adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | **(584.6)** | (121.0) |
| Colledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau'r cynllun | **(149.1)** | (164.6) |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | **786.0** | 421.7 |
| Ennill net a gydnabyddir yn y datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig | **52.3** | 136.1 |
| Colled cronnol a gydnabyddir yn y datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig | **(1,740.8)** | (1,793.1) |

*Mae'r* ***enillion a'r colledion*** *hyn yn deillio o'r ffaith bod y perfformiad gwirioneddol yn wahanol i'r hyn a ragwelwyd – er enghraifft, newidiadau mewn amgylchiadau economaidd neu broffil demograffig cyflogeion y BBC. Dim ond cynlluniau buddiannnau diffiniedig sy'n arwain at enillion a cholledion yn y datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig.*

Yr ennill actiwaraidd net yw swm enillion a cholledion penodol sy'n codi oherwydd bod perfformiad gwirioneddol yn wahanol i ragfynegiadau neu oherwydd bod tybiaethau wedi newid. Eleni, effeithiwyd ar adenillion gwirioneddol llai adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn gan ostyngiad ym mhrisiau'r farchnad (yn enwedig o ran ecwitïau). Effeithiwyd ar werth presennol net rhwymedigaethau'r cynllun gan y newid yn y gyfradd ddisgownt sydd wedi codi o 5.4% i 6.9% (cyfradd bond corfforaeth gradd AA). Fodd bynnag, cyn bod effaith y disgowntio yn cael ei chymhwyso, roedd newidiadau mewn tybiaethau hirhoedledd wedi cynyddu rhwymedigaethau'r cynllun.

**8c vi Hanes enillion a cholledion profiad**

| | 2008 | 2007 fel yr ailddatganwyd | 2006 fel yr ailddatganwyd | 2005 | 2004 |
|---|---|---|---|---|---|
| Addasiadau profiad ar asedau'r cynllun: | | | | | |
| Swm (£miliwn) | **(584.6)** | (121.0) | 1,246.5 | 198.7 | 778.4 |
| Canran o asedau'r cynllun | **7.3%** | 1.5% | 15.9% | 3.1% | 13.2% |
| Addasiadau profiad ar rwymedigaethau'r cynllun: | | | | | |
| Swm (£miliwn) | **(149.1)** | (164.6) | 208.6 | (1.4) | 0.1 |
| Canran o rwymedigaethau'r cynllun | **2.0%** | 2.1% | 2.7% | 0.0% | 0.0% |
| Cyfanswm yr ennill actiwaraidd a gydnabyddir yn y datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig: | | | | | |
| Swm (£miliwn) | **52.3** | 136.1 | 658.4 | 80.9 | 778.5 |
| Canran o rwymedigaethau'r cynllun | **0.7%** | 1.7% | 8.6% | 1.2% | 12.3% |

**8c vii Ariannu'r cynllun**
O ganlyniad i brisiad actiwaraidd 2007 gan Watson Wyatt, cytunodd y BBC ac ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn y bydd cyfraniadau'r cyflogwr yn codi i 19.35% ar 1 Gorffennaf 2008. Bydd cyfraniadau cyflogeion yn codi o 6% i 6.75% ar 1 Ebrill 2009 ac i 7.5% ar 1 Ebrill 2010, gyda chyfraniadau'r cyflogwr yn gostwng o 19.35% i 18.6% ar 1 Ebrill 2009 ac i 17.85% ar 1 Ebrill 2010.

Disgwylir i'r prisiad actiwaraidd ffurfiol nesaf gael ei gynnal ar 1 Ebrill 2010.

| | Rhagamcaniadau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfraddau cyfraniadau | 2010 % | 2009 % | 2008 % | 2007 % | 2006 % |
| Cyflogwr | 18.6 | 18.8/19.35 | 18.8 | 7.5 | 6.0 |
| Cyflogai | 6.75 | 6.0 | 6.0 | 5.5/6.0 | 5.5 |
| Cost sylfaenol y cynllun i'r BBC fel % o gyflogau pensiynadwy* | 18.6 | 18.8/17.3 | 18.8 | 19.3/18.8 | 19.3 |

** Heb gynnwys y gost a delir mewn gwirionedd gan y cyflogai.*

Disgwylir i gyfraniadau gwerth £152miliwn gael eu talu yn 2009.

**8c viii Y prif dybiaethau actiwaraidd**
Mae cyfrifo asedau a rhwymedigaethau'r cynllun, at ddibenion FRS 17, yn gofyn am wneud nifer o dybiaethau, demograffig ac ariannol. Y prif dybiaethau a wnaed gan yr actiwarïaid ar ddyddiad y fantolen oedd:

| Prif dybiaethau ariannol | **2008 %** | 2007 % | 2006 % |
|---|---|---|---|
| Prisiad FRS 17 | | | |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau* | **5.6** | 5.0 | 4.9 |
| Cyfradd y cynnydd mewn taliadau pensiwn | **3.6** | 3.1 | 2.9 |
| Tybiaeth chwyddiant | **3.6** | 3.1 | 2.9 |
| Cyfradd ddisgowntio | **6.9** | 5.4 | 5.0 |

*Cymerir y **gyfradd ddisgowntio** ar gyfer prisiad FRS 17 fel y gyfradd ar gyfer bond corfforaeth gradd AA.*

** Hon yw'r dybiaeth ar 1 Ebrill 2010. Y dybiaeth hyd at 1 Ebrill 2010 yw 4.6% y flwyddyn.*

Mae'r tybiaethau o ran disgwyliad oes cyfartalog, ar gyfer aelodau ar ôl iddynt ymddeol yn 60 oed, fel a ganlyn:

| Prif dybiaethau demograffig | **2008 Nifer o flynyddoedd** | 2007 Nifer o flynyddoedd | 2006 Nifer o flynyddoedd |
|---|---|---|---|
| Gwryw | **26.6** | 23.5 | 23.5 |
| Benyw | **29.1** | 25.7 | 25.7 |
| Gwelliant yn y dyfodol bob 10 mlynedd | **1.0** | 1.0 | 1.0 |

Mae'r tybiaethau hirhoedledd wedi eu dewis i adlewyrchu nodweddion a phrofiad aelodau'r cynllun. Gwnaed hyn drwy addasu'r tablau marwoldeb safonol (PMAC07MC+0.5 a PFAC07MC+1) sy'n adlewyrchu ymchwil ddiweddar i brofiad marwoldeb yn y DU.

Roedd y tybiaethau demograffig a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn gyson â'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiadau actiwaraidd y cynllun ar 1 Ebrill 2005. Mae tybiaethau'r flwyddyn gyfredol yn gyson â phrisiad actiwaraidd y cynllun ar 1 Ebrill 2007. Mae'r cynnydd dilynol felly o ganlyniad i gynnydd mewn disgwyliad oes.

| Cyfradd adenillion ddisgwyliedig yn yr hirdymor (y flwyddyn)* | **2008 %** | 2007 % |
|---|---|---|
| Ecwitïau | **9.3** | 7.8 |
| Bondiau a giltiau | **4.5** | 4.8 |
| Eiddo | **6.9** | 6.3 |
| Arall | **9.3** | 7.8 |
| Arian parod | **5.1** | 4.6 |
| Cyfanswm yr adenillion disgwyliedig | **7.9** | 7.0 |

** Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.*

*Mae **aeddfedrwydd** cynllun yn awgrym o ofynion arian parod y cynllun ac agwedd debygol yr Ymddiriedolwyr tuag at risg o fewn eu polisi buddsoddiad hwy. Po fwyaf aeddfed yw cynllun, y mwyaf tebygol ydyw y bydd yr Ymddiriedolwyr yn ffafrio buddsoddiadau risg isel.*

### 8c ix Dadansoddiad o aelodaeth y cynllun a'i broffil aeddfedrwydd

| | **2008 Nifer** | 2007 Nifer | 2006 Nifer |
|---|---|---|---|
| Cyfranwyr | **18,736** | 19,974 | 19,864 |
| Pensiynwyr | **17,569** | 17,372 | 16,803 |
| Dibynyddion | **3,798** | 3,744 | 3,676 |
| Pensiynwyr gohiriedig | **18,286** | 17,723 | 16,890 |

### 8c x Llifau arian parod y Cynllun (hylifedd o ddydd i ddydd)

Yn 2008 mae mewnlifau arian parod y cynllun pensiwn yn fwy na'i all-lifau arian parod, yn bennaf o ganlyniad i'r cynnydd yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr o 7.5% i 18.8% o 1 Ebrill 2007.

Yn 2007 roedd mewnlifau arian parod y cynllun pensiwn yn fwy na'i all-lifau arian parod, yn bennaf o ganlyniad i'r cynnydd yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr o 6.0% i 7.5% o 1 Ebrill 2006 a'r cynnydd yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogai o 5.5% i 6.0% o 1 Medi 2006. Roedd trosglwyddiad £16.8miliwn i Gynllun Pensiwn Red Bee Media ar 30 Mehefin 2006 wedi ei wrthbwyso yn erbyn hyn.

Yn 2006 roedd all-lifau arian parod y cynllun pensiwn yn fwy na'i fewnlifau arian parod, fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys treuliau o £29.8miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau allan sy'n gysylltiedig â gwerthu BBC Technology.

| | **2008 £m** | 2007 £m | 2006 £m |
|---|---|---|---|
| Cyfraniadau (cyflogwr a chyflogai) | **242.9** | 163.6 | 112.0 |
| Incwm buddsoddi | **225.1** | 206.4 | 189.0 |
| Mewnlifau arian parod | **468.0** | 370.0 | 301.0 |
| Taliadau pensiynau a throsglwyddiadau allan | **(286.5)** | (303.6) | (275.0) |
| Treuliau | **(42.0)** | (33.5) | (29.0) |
| Mewnlif/(all-lif) arian parod net | **139.5** | 32.9 | (3.0) |

### 8d Tâl pensiwn UK Public Service Broadcasting

Mae UK Public Service Broadcasting, yn unol â darpariaeth pensiwn y grŵp yn FRS 17, yn cyfrif am Gynllun Pensiwn y BBC fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae hyn am nad yw'n bosibl nodi cyfran UK Public Service Broadcasting o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y Cynllun ar sail resymol a chyson. Felly mae'r gwariant ar gyfer UK Public Service Broadcasting sef £165.0miliwn (2007: £87.5miliwn) yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu na'u cronni ar 31 Mawrth 2008 (2007: £20.1miliwn wedi'u rhagdalu). Pennir y cyfraniadau hyn yn seiliedig ar yr anghenion ariannu a nodwyd o'r prisiad actiwaraidd a gallant amrywio felly o'r gost sylfaenol ar ôl ystyried ffactorau megis y gwarged actiwaraidd.

## 9 TRETHIANT

### 9a Dadansoddiad o'r taliadau a godwyd am y flwyddyn

Roedd y tâl a godwyd am y flwyddyn, yn seiliedig ar y gyfradd treth gorfforaeth o 30% (2007: 30%), yn cynnwys:

| | Nodyn | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|---|
| **Treth gyfredol** | | | |
| Treth gorfforaeth y DU | | **16.8** | 20.7 |
| Didynnu: rhyddhad treth dwbl | | **(5.3)** | (3.3) |
| | | **11.5** | 17.4 |
| Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol | | **–** | 1.1 |
| | | **11.5** | 18.5 |
| Treth dramor | | **8.4** | 6.1 |
| Cyfran o dreth partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **14.3** | 11.1 |
| Cyfanswm y dreth gyfredol | 9b | **34.2** | 35.7 |
| **Treth ohiriedig** | | | |
| Tarddiad a gwrthdroad y gwahaniaethau amseru | | **6.4** | (8.4) |
| Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol | | **(3.3)** | (3.4) |
| Cyfanswm y dreth ohiriedig | 9d | **3.1** | (11.8) |
| **Cyfanswm y tâl a godwyd am y flwyddyn** | | **37.3** | 23.9 |

### 9b Ffactorau sy'n effeithio ar y tâl treth a godir

Dim ond ar y gweithgareddau hynny a gyflawnir gyda'r bwriad o wneud elw ac ar rent, breindaliadau a llog derbyniadwy y mae'r Grŵp yn agored i drethiant. Felly nid yw'r BBC yn cael rhyddhad ar gyfer ei holl wariant, ac o ganlyniad mae'r dreth a asesir am y flwyddyn yn wahanol i gyfradd safonol treth gorfforaeth y DU. Eglurir y gwahaniaethau isod:

| | Nodyn | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|---|
| Gwarged cyn treth | | **139.5** | 84.6 |
| Gwarged cyn treth wedi ei luosi â chyfradd treth gorfforaeth safonol yn y DU o 30% (2007: 30%) | | **41.9** | 25.4 |
| **Effeithiau** | | | |
| Incwm allanol trethadwy gwasanaethau cyhoeddus | | **4.5** | 5.1 |
| Costau Gwasanaethau Cyhoeddus nas caniateir | | **30.7** | 11.4 |
| Elfen anariannol o dâl pensiwn net y Grŵp | | **(44.1)** | (7.7) |
| *Gweithgareddau masnachol* | | | |
| Incwm nad yw'n drethadwy | | **(2.9)** | (1.4) |
| Gwariant nas caniateir | | **6.7** | 6.4 |
| Trethiant y DU ar ddifidendau tramor mewnol y Grŵp | | **1.0** | – |
| Lwfansau cyfalaf sy'n fwy na dibrisiant | | **(1.4)** | (1.2) |
| Gwahaniaeth treth o ran enillion tramor | | **2.8** | (2.7) |
| Defnyddio colledion a ddygwyd ymlaen | | **–** | (0.7) |
| Gwahaniaethau amseru eraill | | **(5.0)** | – |
| Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol | | **–** | 1.1 |
| Tâl treth presennol a godir am y flwyddyn | 9a | **34.2** | 35.7 |

### 9c Ffactorau a allai effeithio ar daliadau treth a godir yn y dyfodol

Mae'r Grŵp yn rhagweld na fydd y tâl treth a godir yn y dyfodol yn newid yn sylweddol gan fod yr holl incwm o ffi'r drwydded yn ddi-dreth.

### 9d Dadansoddiad o dreth ohiriedig

Yn unol ag FRS 19 'Deferred Tax', mae'r cwmni yn darparu ar gyfer pob rhwymedigaeth treth ohiriedig yn llawn llai asedau treth ohiriedig sydd ar gael ar 28% (2007: 30%).

| Symudiad ar yr (ased)/darpariaeth treth ohiriedig yn y flwyddyn | Nodyn | **2008 £m** | 2007 £m |
|---|---|---|---|
| (Ased)/darpariaeth net ar ddechrau'r flwyddyn | | **(9.6)** | 3.1 |
| Addasiad cyfnewid | | **1.8** | (0.9) |
| Tâl/(credyd) treth ohiriedig | 9a | **3.1** | (11.8) |
| Caffaelwyd ar gaffaeliad buddsoddi | | **(1.4)** | – |
| Ased net ar ddiwedd y flwyddyn | | **(6.1)** | (9.6) |

| Dadansoddiad o'r (ased)/darpariaeth treth ohiriedig | | | |
|---|---|---|---|
| Lwfansau cyfalaf cyflym | | **8.8** | 11.1 |
| Gwahaniaethau amseru eraill | | **(0.1)** | (0.1) |
| Darpariaeth treth ohiriedig | 17 | **8.7** | 11.0 |
| Ased treth ohiriedig | 15 | **(14.8)** | (20.6) |
| Ased treth ohiriedig net ar ddiwedd y flwyddyn | | **(6.1)** | (9.6) |

## 10 ASEDAU SEFYDLOG ANNIRIAETHOL

***Ewyllys da*** *yw'r gwahaniaeth rhwng y gwerth a dalwyd am fusnes a gwerth teg ei asedau net. Mae'n cynrychioli'r premiwm y mae'r prynwr yn barod i'w dalu am y busnes.*

| | Ewyllys da £m | Eitemau anniriaethol eraill £m | **Cyfanswm y Grŵp £m** |
|---|---|---|---|
| Cost | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 14.2 | 0.7 | **14.9** |
| Ychwanegiadau* | 73.7 | – | **73.7** |
| Addasiad cyfnewid | 5.9 | – | **5.9** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **93.8** | **0.7** | **94.5** |
| Amorteiddio | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 4.0 | 0.7 | **4.7** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 2.5 | – | **2.5** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **6.5** | **0.7** | **7.2** |
| Gwerth llyfr net | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **87.3** | **–** | **87.3** |
| Ar 31 Mawrth 2007 | 10.2 | – | 10.2 |

** Yn gynwysedig yn ychwanegiadau mae £72.3miliwn yn ymwneud â chaffael Lonely Planet (gweler Nodyn 19).*

## 11 ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

### 11a Grŵp

| | Tir ac adeiladau £m | Offer a pheiriannau £m | Dodrefn a ffitiadau £m | Asedau yn cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 427.3 | 1,022.5 | 161.7 | 105.4 | **1,716.9** |
| Ychwanegiadau* | 8.2 | 87.8 | 17.6 | 48.9 | **162.5** |
| Dygwyd i wasanaeth | 4.9 | 68.2 | 6.9 | (80.0) | **–** |
| Gwarediadau | (1.1) | (91.8) | (23.7) | (3.1) | **(119.7)** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **439.3** | **1,086.7** | **162.5** | **71.2** | **1,759.7** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 248.1 | 675.8 | 84.1 | – | **1,008.0** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 13.5 | 81.8 | 15.1 | – | **110.4** |
| Gwarediadau | (0.8) | (83.0) | (22.8) | – | **(106.6)** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **260.8** | **674.6** | **76.4** | **–** | **1,011.8** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **178.5** | **412.1** | **86.1** | **71.2** | **747.9** |
| Ar 31 Mawrth 2007 | 179.2 | 346.7 | 77.6 | 105.4 | 708.9 |

** Mae ychwanegiadau yn cynnwys £4.5miliwn a gydnabuwyd wrth gaffael Lonely Planet (gweler Nodyn 19).*

Nodir offer a pheiriannau a dodrefn a ffitiadau BBC World Service a BBC Monitoring ar gost adnewyddu gyfredol amcangyfrifedig yr asedau, ar 1 Ebrill 1996, wedi'i haddasu ar gyfer potensial y gwasanaeth sy'n weddill neu'r gost os cânt eu caffael ar ôl hynny, llai dibrisiant cronedig.

Nid oes unrhyw wahaniaeth perthnasol (£1.6miliwn) rhwng gwerth llyfr net yr asedau sefydlog diriaethol hyn a'u gwerth fel y'i pennwyd ar sail cost hanesyddol. Mae gan yr asedau a ailbrisiwyd yn 1996 fywyd defnyddiol o 2 flynedd yn weddill.

### 11b UK Public Service Broadcasting

| | Tir ac adeiladau £m | Offer a pheiriannau £m | Dodrefn a ffitiadau £m | Asedau yn cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 354.1 | 616.1 | 137.6 | 81.3 | **1,189.1** |
| Ychwanegiadau | 7.5 | 60.3 | 12.2 | 24.9 | **104.9** |
| Dygwyd i wasanaeth | 4.6 | 53.0 | 4.4 | (62.0) | **–** |
| Gwarediadau | (0.4) | (81.9) | (22.1) | 2.2 | **(102.2)** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **365.8** | **647.5** | **132.1** | **46.4** | **1,191.8** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 203.1 | 417.3 | 71.9 | – | **692.3** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 10.4 | 49.6 | 11.8 | – | **71.8** |
| Gwarediadau | (0.4) | (73.7) | (21.6) | – | **(95.7)** |
| Ar 31 Mawrth 2008 | **213.1** | **393.2** | **62.1** | **–** | **668.4** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **152.7** | **254.3** | **70.0** | **46.4** | **523.4** |
| Ar 31 Mawrth 2007 | 151.0 | 198.8 | 65.7 | 81.3 | 496.8 |

## 11c Tir ac adeiladau ar werth llyfr net

| | Grŵp 2008 £m | Grŵp 2007 £m | UK Public Service Broadcasting 2008 £m | UK Public Service Broadcasting 2007 £m |
|---|---|---|---|---|
| Tir heb golli gwerth | **16.5** | 16.8 | **16.5** | 16.5 |
| Adeiladau rhydd-ddaliadol | **98.5** | 96.6 | **88.7** | 87.8 |
| Cyfanswm y rhydd-ddaliadau | **115.0** | 113.4 | **105.2** | 104.3 |
| Prydlesau hir | **27.3** | 25.5 | **24.6** | 22.5 |
| Prydlesau byr | **36.2** | 40.3 | **22.9** | 24.2 |
| **Cyfanswm** | **178.5** | 179.2 | **152.7** | 151.0 |

## 11d Prydlesau cyllid

Asedau a ddelir o dan brydlesau cyllid, eu cyfalafu a'u cynnwys mewn asedau sefydlog diriaethol:

| | Grŵp 2008 £m | UK Public Service Broadcasting 2008 £m |
|---|---|---|
| Cost | **22.5** | **20.4** |
| Gwarediadau | **(0.7)** | **(0.5)** |
| Caffaelwyd fel rhan o gaffaeliad | **2.6** | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **24.4** | **19.9** |
| | | |
| Dibrisiant | **12.9** | **11.7** |
| Gwarediadau | **(0.7)** | **(0.5)** |
| Tâl am y flwyddyn | **2.8** | **1.9** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **15.0** | **13.1** |
| | | |
| Gwerth llyfr net | | |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **9.4** | **6.8** |
| Ar 31 Mawrth 2007 | 9.6 | 8.7 |

Mae a wnelo'r prydlesau cyllid ag offer TG, ac eithrio offer a gaffaelwyd yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud ag Offer a Pheiriannau a Dodrefn a Ffitiadau.

## 12 BUDDSODDI MEWN RHAGLENNI I'W GWERTHU YN Y DYFODOL

| | Grŵp £m |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 239.9 |
| Addasiad cyfnewid | (0.6) |
| Ychwanegiadau | 88.2 |
| Dileu mewn perthynas â rhaglenni wedi eu hamorteiddio'n llwyr | (153.6) |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **173.9** |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | 141.4 |
| Addasiad cyfnewid | (0.8) |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 101.8 |
| Dileu mewn perthynas â rhaglenni wedi eu hamorteiddio'n llwyr | (153.6) |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **88.8** |
| | |
| Gwerth llyfr net | |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **85.1** |
| Ar 31 Mawrth 2007 | 98.5 |

Mae buddsoddiad gan BBC Worldwide mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol yn ymwneud â rhaglenni a ddarparwyd gan y BBC a chynhyrchwyr allanol. Mae ychwanegiadau yn cynnwys £75.1miliwn o fuddsoddiad uniongyrchol yn rhaglenni'r BBC (2007: £96.3miliwn).

## 13 BUDDSODDIADAU ERAILL (GAN GYNNWYS ASEDAU NET BBC WORLD SERVICE A BBC MONITORING)

Rhoddir manylion am gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt o bwys ynghyd â phrif is-gwmnïau, yn cynnwys eu gweithgareddau, yn Nodyn 29.

### 13a Symudiadau yn ystod y flwyddyn i'r Grŵp

| | Nodyn | Buddiannau mewn cyd-fentrau £m | Buddiannau mewn partneriaethau cyswllt £m | Buddsoddiadau masnach £m | Cyfanswm y Grŵp £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | | 25.6 | (3.2) | 5.0 | **27.4** |
| Ychwanegiadau | 13b | 3.9 | 0.5 | – | **4.4** |
| Trosglwyddo i ddyledwyr | | – | – | (0.8) | **(0.8)** |
| Darpariaeth | | – | – | (1.5) | **(1.5)** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | | **29.5** | **(2.7)** | **2.7** | **29.5** |
| **Ewyllys da** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | | 20.9 | 2.8 | – | **23.7** |
| Ychwanegiadau | 13b | 0.6 | 1.3 | – | **1.9** |
| Amorteiddio | | (1.9) | (0.1) | – | **(2.0)** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | | **19.6** | **4.0** | **–** | **23.6** |
| **Cyfran y cronfeydd ôl-gaffael wrth gefn** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | | 19.6 | 1.4 | – | **21.0** |
| Addasiad cyfnewid | | – | (0.1) | – | **(0.1)** |
| Cyfran yr elw/(colledion) ar ôl trethiant | | 43.0 | (6.3) | – | **36.7** |
| Darpariaeth ar gyfer elw nas gwireddwyd | | (0.9) | – | – | **(0.9)** |
| Difidendau a dderbyniwyd | | (49.0) | (0.2) | – | **(49.2)** |
| Addasiad i adlewyrchu rhwymedigaethau gwirioneddol | | 3.8 | 7.7 | – | **11.5** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | | **16.5** | **2.5** | **–** | **19.0** |
| **Benthyciadau derbyniadwy gan gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2007 | | 0.8 | – | – | **0.8** |
| Ychwanegiadau | | 0.7 | – | – | **0.7** |
| Darpariaeth | | (1.5) | – | – | **(1.5)** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | | **–** | **–** | **–** | **–** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | | **65.6** | **3.8** | **2.7** | **72.1** |
| Ar 31 Mawrth 2007 | | 66.9 | 1.0 | 5.0 | 72.9 |

O dan delerau'r cytundebau gyda'r buddsoddwyr eraill mewn rhai o gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt y Grŵp, nid oes gan y Grŵp unrhyw rwymedigaeth i ariannu colledion yr aethpwyd iddynt gan yr endidau hynny nac i ad-dalu eu rhwymedigaethau net. O ganlyniad ni chynhwysir unrhyw gyfran o unrhyw golledion perthnasol yn y datganiadau ariannol. Roedd cyfran y rhwymedigaethau net nas cydnabuwyd yn cynnwys:

– Cyd-fentrau: £25.3miliwn (2007: £32.3miliwn)
– Partneriaethau cyswllt: £107.9miliwn (2007: £95.7miliwn).

### 13b Ychwanegiadau i gyd-fentrau, partneriaethau cyswllt a buddsoddiadau masnach

Mae'r ychwanegiadau mewn cyd-fentrau yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chaffael cyfranddaliadau mewn cwmni cynhyrchu annibynnol, Freehand Productions Pty Limited, a sefydlu UK VoD LLP, cyd-fenter rhwng BBC Worldwide Limited, Channel Four Television Corporation ac ITV plc. Mae'r ychwanegiadau mewn partneriaethau cyswllt yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chaffael cyfranddaliadau lleiafrifol yn Left Bank Pictures Limited a Cliffhanger Productions Limited.

### 13c Cyfran y Grŵp o asedau a gwarged cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt

| | Cyfran y Grŵp o gyd-fentrau | | Cyfran y Grŵp o bartneriaethau cyswllt | |
|---|---|---|---|---|
| | **2008 £m** | 2007 £m | **2008 £m** | 2007 £m |
| Asedau cyfredol | **178.1** | 161.0 | **46.7** | 36.6 |
| Asedau nad ydynt yn gyfredol | **39.3** | 35.4 | **12.9** | 14.0 |
| Cyfanswm yr asedau | **217.4** | 196.4 | **59.6** | 50.6 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | **(110.0)** | (79.5) | **(41.5)** | (20.1) |
| Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol | **(41.8)** | (50.0) | **(14.3)** | (29.5) |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau | **(151.8)** | (129.5) | **(55.8)** | (49.6) |
| **Cyfanswm gwerth llyfr net** | **65.6** | 66.9 | **3.8** | 1.0 |
| Incwm | **274.6** | 238.5 | **48.8** | 41.9 |
| Gwariant | **(229.7)** | (209.6) | **(47.5)** | (41.0) |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn** | **44.9** | 28.9 | **1.3** | 0.9 |

### 13d Symudiadau yn ystod y flwyddyn ar gyfer UK Public Service Broadcasting

| | Buddiant yn asedau net BBC World Service a BBC Monitoring £m | Buddiannau mewn is-gwmnïau £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2007 | 169.7 | 125.3 | **295.0** |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | 1.0 | – | **1.0** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **170.7** | **125.3** | **296.0** |

## 14 STOCIAU

| | **Grŵp 2008 £m** | Grŵp 2007 £m | **UK Public Service Broadcasting 2008 £m** | UK Public Service Broadcasting 2007 £m |
|---|---|---|---|---|
| Deunyddiau crai | **2.0** | 1.7 | **0.2** | 0.1 |
| Gwaith sy'n mynd rhagddo | | | | |
| – rhaglenni a gynhyrchwyd yn fewnol | **281.5** | 305.3 | **281.5** | 305.3 |
| – arall | **5.9** | 1.5 | **–** | – |
| Rhaglenni a orffennwyd | | | | |
| – rhaglenni a ffilmiau a gaffaelwyd | **108.7** | 94.5 | **108.7** | 94.6 |
| – rhaglenni a gynhyrchwyd yn fewnol | **79.8** | 63.5 | **79.8** | 63.5 |
| – arall | **22.2** | 10.4 | **–** | – |
| **Cyfanswm** | **500.1** | 476.9 | **470.2** | 463.5 |

## 15 DYLEDWYR

| | Nodyn | Grŵp 2008 £m | Grŵp 2007 £m | UK Public Service Broadcasting 2008 £m | UK Public Service Broadcasting 2007 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Derbyniadwy o fewn blwyddyn** | | | | | |
| Dyledwyr masnach | | **138.7** | 124.8 | **17.2** | 17.5 |
| Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon – dyledwyr ffi'r drwydded | | **368.4** | 353.9 | **368.4** | 353.9 |
| Symiau sy'n ddyledus gan is-gwmnïau | | **–** | – | **71.7** | 47.5 |
| Symiau sy'n ddyledus gan bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **33.1** | 22.1 | **0.2** | 2.3 |
| TAW adferadwy | | **26.2** | 22.1 | **23.6** | 20.2 |
| Ased treth ohiriedig | 9d | **3.0** | 3.0 | **–** | – |
| Dyledwyr eraill | | **13.1** | 17.8 | **10.2** | 10.0 |
| Rhagdaliadau | | **209.8** | 148.0 | **164.0** | 118.4 |
| | | **792.3** | 691.7 | **655.3** | 569.8 |
| Asedau ariannol deilliadol | 23c | **2.6** | 5.2 | **–** | – |
| Cyfanswm y dyledwyr cyfredol | | **794.9** | 696.9 | **655.3** | 569.8 |
| **Derbyniadwy ar ôl mwy na blwyddyn** | | | | | |
| Ased treth ohiriedig | 9d | **11.8** | 17.6 | **–** | – |
| Dyledwyr eraill | | **6.2** | 6.3 | **0.2** | – |
| Rhagdaliadau | | **29.5** | 49.5 | **20.9** | 38.9 |
| | | **47.5** | 73.4 | **21.1** | 38.9 |
| Asedau ariannol deilliadol | 23c | **2.6** | 1.0 | **–** | – |
| Cyfanswm y dyledwyr hirdymor | | **50.1** | 74.4 | **21.1** | 38.9 |
| Cyfanswm | | **845.0** | 771.3 | **676.4** | 608.7 |

***Dyledwyr ffi'r drwydded*** *yw symiau sy'n ddyledus o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er bod incwm ffi'r drwydded yn cynrychioli gwerth trwyddedau a roddir (a gydnabyddir pan roddir trwydded i dalwr ffi'r drwydded), mae'r arian parod mewn perthynas â'r trwyddedau hyn yn cael ei dalu i'r BBC gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn hytrach na chael ei dderbyn yn uniongyrchol gan dalwr ffi'r drwydded. O ganlyniad mae'r dyledwr ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli trwyddedau a roddwyd na thalwyd arian ar eu cyfer eto i'r BBC.*

## 16 CREDYDWYR

### 16a Polisi talu'n brydlon

Polisi'r BBC yw cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Talu'n Well mewn perthynas â thalu cyflenwyr, ar yr amod bod y cyflenwyr yn cydymffurfio â thelerau ac amodau perthnasol eu contractau. Mae'r BBC yn monitro cydymffurfiad yn erbyn telerau'r cod hwn. Gwneir taliadau ar gyfer caffaeliadau rhaglenni yn unol â thelerau cytundebol. Nifer diwrnodau credydwyr y Grŵp a oedd yn ddyledus o ran credydwyr masnach eraill ar 31 Mawrth 2008 oedd 39 o ddiwrnodau (2007: 38 o ddiwrnodau).

Mae credydwyr gweddilliol a chostau cysylltiedig wedi cael eu heithrio at ddibenion y cyfrifiad hwn, gan eu bod yn ymwneud â thaliadau i artistiaid a chyfranwyr heblaw credydwyr masnach.

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol



### 16b Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | Nodyn | Grŵp 2008 £m | Grŵp 2007 £m | UK Public Service Broadcasting 2008 £m | UK Public Service Broadcasting 2007 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyciadau banc a benthyciadau eraill** | | | | | |
| Benthyciad banc | 21,23 | **58.6** | 65.4 | **–** | – |
| Nodiadau benthyca nas gwarantwyd | 21,23 | **0.7** | 0.5 | **–** | – |
| | | **59.3** | 65.9 | **–** | – |
| **Credydwyr masnach** | | | | | |
| Credydwyr rhaglenni | | **68.4** | 70.9 | **68.0** | 70.9 |
| Caffaeliadau rhaglenni | | **47.3** | 27.8 | **47.1** | 27.5 |
| Cyflogau | | **68.9** | 65.0 | **42.3** | 38.4 |
| Taliadau hawlfraint gweddilliol | | **35.1** | 27.9 | **–** | – |
| Credydwyr masnach eraill | | **211.3** | 198.8 | **135.7** | 137.0 |
| | | **431.0** | 390.4 | **293.1** | 273.8 |
| **Credydwyr eraill** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus i is-gwmnïau | | **–** | – | **37.2** | 36.6 |
| Treth gorfforaeth | | **12.7** | 16.6 | **4.3** | 6.0 |
| Trethiant arall a nawdd cymdeithasol | | **28.1** | 28.2 | **25.8** | 25.8 |
| Ymrwymiadau o dan brydlesau cyllid | 23b | **5.8** | 5.2 | **4.3** | 4.8 |
| Arall | | **46.4** | 16.6 | **12.1** | 7.9 |
| | | **93.0** | 66.6 | **83.7** | 81.1 |
| **Croniadau ac incwm gohiriedig** | | | | | |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | | **405.6** | 416.8 | **311.3** | 324.1 |
| Adneuon stampiau cynilo trwydded a rhandaliadau debyd uniongyrchol | | **73.5** | 72.2 | **73.5** | 72.2 |
| | | **479.1** | 489.0 | **384.8** | 396.3 |
| Rhwymedigaethau ariannol deilliadol | 23c | **2.3** | 3.7 | **–** | – |
| Cyfanswm | | **1,064.7** | 1,015.6 | **761.6** | 751.2 |

### 16c Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | Nodyn | Grŵp 2008 £m | Grŵp 2007 £m | UK Public Service Broadcasting 2008 £m | UK Public Service Broadcasting 2007 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyciadau banc a benthyciadau eraill** | 21,23 | **140.1** | 20.0 | **–** | – |
| **Credydwyr eraill** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus i is-gwmnïau | | **–** | – | **9.5** | 11.5 |
| Ymrwymiadau o dan brydlesau cyllid | 23b | **22.3** | 25.5 | **2.7** | 4.1 |
| Arall | | **9.6** | 11.3 | **9.7** | 11.3 |
| | | **31.9** | 36.8 | **21.9** | 26.9 |
| Rhwymedigaethau ariannol deilliadol | 23c | **0.6** | 3.6 | **–** | – |
| Cyfanswm | | **172.6** | 60.4 | **21.9** | 26.9 |

## 17 DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU

| Grŵp | Nodyn | Ar 1 Ebrill 2007 £m | Tâl a godwyd am y flwyddyn £m | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £m | Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn £m | **Ar 31 Mawrth 2008 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffi'r drwydded | | 19.9 | 20.7 | (18.8) | (1.2) | **20.6** |
| Ailstrwythuro | | 57.5 | 118.1 | (49.2) | (6.4) | **120.0** |
| Ymgyfreitha ac yswiriant | | 17.2 | 2.9 | (1.5) | (4.8) | **13.8** |
| Eiddo | | 14.1 | 3.6 | (1.0) | (0.3) | **16.4** |
| Treth ohiriedig | 9d | 11.0 | 1.5 | – | (3.8) | **8.7** |
| Diddymu BBC jam | 5 | 14.4 | 3.5 | (16.4) | – | **1.5** |
| Arall | | 9.1 | – | (7.0) | (0.8) | **1.3** |
| Cyfanswm | | **143.2** | **150.3** | **(93.9)** | **(17.3)** | 182.3 |

Gwneir darpariaethau ffi'r drwydded ar gyfer y lefel ddisgwyliedig o ad-daliadau (arian sy'n ad-daladwy ar ran y drwydded sydd heb ddarfod lle nad oes angen y drwydded mwyach) a dirymiadau (lle na dderbynnir unrhyw arian mewn perthynas â thrwydded a werthir).

Mae'r ddarpariaeth ailstrwythuro yn cynnwys tâl net (tâl a godwyd am y flwyddyn llai'r hyn a ryddhawyd) am y flwyddyn o £99.8miliwn (2007: £11.2miliwn) o gostau dileu swyddi eithriadol yn ymwneud â'r rhaglen newid a oedd yn mynd rhagddi yn y BBC a chostau dileu swyddi nad ydynt yn eithriadol o £11.9miliwn (2007: £10.0miliwn) fel yn Nodyn 4c.

Mae darpariaethau eiddo yn ymwneud â'r gost o ddychwelyd eiddo prydlesol i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y brydles.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys nifer o falansau sy'n codi ar draws y BBC wrth iddo gynnal ei fusnes yn ôl yr arfer.

| UK Public Service Broadcasting | Nodyn | Ar 1 Ebrill 2007 £m | Tâl a godwyd am y flwyddyn £m | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £m | Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn £m | **Ar 31 Mawrth 2008 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffi'r drwydded | | 19.9 | 20.7 | (18.8) | (1.2) | **20.6** |
| Ailstrwythuro | | 52.5 | 108.5 | (42.4) | (5.9) | **112.7** |
| Ymgyfreitha ac yswiriant | | 11.7 | 2.3 | (0.6) | (1.2) | **12.2** |
| Eiddo | | 10.6 | 2.7 | (1.0) | (0.3) | **12.0** |
| Diddymu BBC jam | 5 | 14.4 | 3.5 | (16.4) | – | **1.5** |
| Arall | | 6.6 | – | (5.6) | – | **1.0** |
| Cyfanswm | | **115.7** | **137.7** | **(84.8)** | **(8.6)** | 160.0 |

## 18 CRONFEYDD WRTH GEFN

| Grŵp | Cronfa weithredol wrth gefn ac eithrio cronfa bensiwn wrth gefn fel yr ailddatganwyd £m | Cronfa bensiwn wrth gefn fel yr ailddatganwyd £m | **Cyfanswm y gronfa weithredol wrth gefn fel yr ailddatganwyd £m** | Cronfa gyfalaf wrth gefn £m | Cronfeydd wrth gefn eraill* £m | Cronfa ailbrisio wrth gefn £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2007 fel y datganwyd yn flaenorol | 279.3 | 334.5 | **613.8** | 782.5 | – | 2.4 | **1,398.7** |
| Addasiad o'r flwyddyn flaenorol** | – | (10.4) | **(10.4)** | – | – | – | **(10.4)** |
| Ar 1 Ebrill 2007 fel yr ailddatganwyd | 279.3 | 324.1 | **603.4** | 782.5 | – | 2.4 | **1,388.3** |
| Gwahaniaethau cyfnewid | (1.0) | – | **(1.0)** | – | – | – | **(1.0)** |
| Gwarged am y flwyddyn ariannol | 101.7 | – | **101.7** | – | – | – | **101.7** |
| Elw actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig | – | 52.3 | **52.3** | – | – | – | **52.3** |
| Trosglwyddiad cronfa ailbrisio wrth gefn | 0.8 | – | **0.8** | – | – | (0.8) | **–** |
| Trosglwyddiad cronfa bensiwn wrth gefn | (146.9) | 146.9 | **–** | – | – | – | **–** |
| Cydnabuwyd wrth gaffael | – | – | **–** | – | (28.8) | – | **(28.8)** |
| Symudiad cyfnewid tramor | 2.2 | – | **2.2** | – | (2.2) | – | **–** |
| Trosglwyddiad cronfa gyfalaf wrth gefn | (29.8) | – | **(29.8)** | 29.8 | – | – | **–** |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **206.3** | **523.3** | **729.6** | **812.3** | **(31.0)** | **1.6** | **1,512.5** |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn y Grŵp Cyffredinol | 200.9 | 523.3 | **724.2** | 648.5 | (31.0) | – | **1,341.7** |
| Cronfeydd wrth gefn BBC World Service a BBC Monitoring | 5.4 | – | **5.4** | 163.8 | – | 1.6 | **170.8** |
| **Cyfanswm** | **206.3** | **523.3** | **729.6** | **812.3** | **(31.0)** | **1.6** | **1,512.5** |

* *Mae cronfeydd wrth gefn eraill yn cynnwys opsiwn gwerthu o hyd at 25% o gyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd Lonely Planet, y gellir ei arfer gan y cyfranddeiliaid lleiafrifol am gyfnod o hyd at 25 mis o'r dyddiad caffael (gweler Nodyn 19).*
** *Mae ffigurau 2007 wedi'u hailddatgan i fabwysiadu'r Diwygiad i FRS 17 (gweler Datganiad o bolisïau cyfrifyddu).*

*Caiff UK Public Service Broadcasting, BBC World Service a BBC Monitoring eu **hariannu o ffynonellau gwahanol**. Fel y cyfryw, cedwir y cronfeydd wrth gefn sy'n berthnasol i BBC World Service a BBC Monitoring ar wahân i weddill y Grŵp a chyfyngir eu defnydd i weithgareddau BBC World Service neu BBC Monitoring yn unig.*

| UK Public Service Broadcasting | Cronfa weithredol wrth gefn £m | Cronfa gyfalaf wrth gefn £m | Cronfa ailbrisio wrth gefn £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2007 | 278.7 | 782.5 | 2.4 | **1,063.6** |
| Diffyg am y flwyddyn ariannol | (34.4) | – | – | **(34.4)** |
| Trosglwyddiad cronfa ailbrisio wrth gefn | 0.8 | – | (0.8) | **–** |
| Trosglwyddiad cronfa gyfalaf wrth gefn | (29.8) | 29.8 | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2008** | **215.3** | **812.3** | **1.6** | **1,029.2** |
| **Cynrychiolwyd gan:** | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn UK Public Service Broadcasting | 209.9 | 648.5 | – | **858.4** |
| Cronfeydd wrth gefn BBC World Service a BBC Monitoring | 5.4 | 163.8 | 1.6 | **170.8** |
| **Cyfanswm** | **215.3** | **812.3** | **1.6** | **1,029.2** |

O dan FRS 10 'Goodwill and intangible assets' rhaid i unrhyw ewyllys da newydd sy'n codi gael ei gyfalafu a'i amorteiddio dros ei fywyd defnyddiol. Fel y caniateir gan y safon, mae ewyllys da sy'n codi mewn cyfnodau cyn 1999 o £6.8miliwn (2007: £6.8miliwn) yn parhau wedi'i wrthbwyso yn erbyn y gronfa weithredol wrth gefn.

Y gwahaniaethau cyfnewid cronnol ar 31 Mawrth 2008 oedd £(1.8)miliwn (2007: £(0.8)miliwn), y cododd £(1.0)miliwn ohono yn ystod y flwyddyn (2007: £(2.7)miliwn). Yn unol ag FRS 23 'The Effects of Changes in Foreign Exchange Rates', nid yw unrhyw wahaniaethau yn ymwneud â blynyddoedd cyn 2006 wedi eu gwahanu ac maent yn parhau o fewn y gronfa weithredol wrth gefn.

## 19 CAFFAEL BUSNES

Ar 1 Hydref 2007 caffaelodd y Grŵp 75% o gyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd Lonely Planet Publications Pty Limited a Lonely Planet Publications Inc. (gyda'i gilydd, "Lonely Planet"), cofrestredig yn Awstralia ac UDA am gyfanswm cydnabyddiaeth ariannol o £89.9miliwn. Ynghyd â'r £0.4miliwn a dalwyd am is-gwmni arall a gaffaelwyd, cyfanswm yr arian parod a dalwyd yn ystod y flwyddyn am brynu is-gwmnïau oedd £90.3miliwn.

Cyfanswm yr addasiadau a oedd yn ofynnol i werthoedd llyfr asedau a rhwymedigaethau Lonely Planet i gyflwyno asedau net y cwmnïau hynny ar werthoedd teg oedd £0.7miliwn. Rhestrir y rhain isod:

| | Gwerth llyfr* £m | Aliniadau gwerth teg a pholisi cyfrifyddu** £m | **Gwerth teg*** £m** |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 4.5 | – | **4.5** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Stoc | 14.8 | (0.8) | **14.0** |
| Dyledwyr | 8.5 | – | **8.5** |
| Arian parod | 5.9 | – | **5.9** |
| Trethiant | | | |
| – Cyfredol | 1.0 | – | **1.0** |
| – Gohiriedig | 1.7 | (0.3) | **1.4** |
| **Cyfanswm yr asedau** | **36.4** | **(1.1)** | 35.3 |
| **Rhwymedigaethau** | | | |
| Credydwyr | (14.8) | 1.8 | **(13.0)** |
| **Asedau net** | **21.6** | **0.7** | 22.3 |
| Buddiant lleiafrifol (25%) | | | **(5.6)** |
| **Asedau net a gaffaelwyd** | | | 16.7 |
| Ewyllys da | | | **73.2** |
| **Cydnabyddiaeth prynu a chostau caffael** | | | 89.9 |

* *Mae gwerthoedd llyfr yr asedau a'r rhwymedigaethau wedi eu cymryd o gyfrifon rheoli Lonely Planet ar 1 Hydref 2007 (y dyddiad caffael) ar y cyfraddau cyfnewid gwirioneddol a ddefnyddiwyd i dalu'r gydnabyddiaeth ar y dyddiad hwnnw.*

** *Mae'r addasiadau rhwng y gwerth llyfr a'r gwerth teg yn adlewyrchu ailddatgan asedau a rhwymedigaethau o bolisïau cyfrifyddu ar sail AIFRS Lonely Planet ac amcangyfrifon i bolisïau cyfrifyddu ar sail UK GAAP y Grŵp.*

*** *Tybiwyd bod rhai gwerthoedd teg a gyfrifwyd yn rhai dros dro ar ddyddiad y fantolen.*

Caiff ewyllys da ei amorteiddio dros ei fywyd economaidd defnyddiol amcangyfrifedig o 20 mlynedd.

Yn ei flwyddyn ariannol olaf hyd at 30 Mehefin 2007, gwnaeth Lonely Planet elw ar ôl treth o £1.1miliwn. Ar gyfer y cyfnod ers y dyddiad hwnnw hyd at y dyddiad caffael, dengys cyfrifon rheoli ar sail IFRS Awstralia Lonely Planet:

| | 1 Gorffennaf 2007 – 30 Medi 2007 £m |
|---|---|
| **Trosiant** | **10.6** |
| **Colled weithredol** | **(0.6)** |
| **Colled cyn trethiant** | **(0.6)** |
| Trethiant | (0.2) |
| **Colled y gellir ei phriodoli i gyfranddeiliaid** | **(0.8)** |
| Addasiadau cyfnewid | (0.1) |
| Rhagfantoli llif arian parod | 0.3 |
| Treth incwm a gydnabyddir yn uniongyrchol mewn ecwiti | 0.1 |
| **Cyfanswm y colledion cydnabyddedig am y cyfnod** | **(0.5)** |

Yn gynwysedig yng nghanlyniadau cyfunol y grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 ar gyfer Lonely Planet, mae colled o £2.1miliwn.

Yn unol ag FRS 25 'Financial Instruments: Disclosure and Presentation' cydnabuwyd rhwymedigaeth AUS$67.3miliwn (£28.8miliwn) ar y dyddiad caffael mewn perthynas ag opsiwn gwerthu o hyd at 25% o gyfalaf cyfranddaliadau Lonely Planet, y gellir ei arfer gan y cyfranddeiliaid lleiafrifol am gyfnod o hyd at 25 mis o'r dyddiad caffael. Cydnabuwyd y swm hwn o fewn cronfeydd wrth gefn (gweler Nodyn 18) ac nid fel rhan o'r gost buddsoddi gan y tybir bod y cyfranddeiliaid lleiafrifol wedi cadw risgiau a gwobrau perchenogaeth ar gyfer y cyfranddaliad hwn o 25%. O ganlyniad, cyfunir 100% o ganlyniadau Lonely Planet a didynnir buddiannau lleiafrifol o 25% o ganlyniadau a sefyllfa asedau net y Grŵp.

Caiff newidiadau i werth teg y rhwymedigaeth opsiwn gwerthu yn y cyfnod arfer o 19 mis sy'n weddill, heblaw mewn perthynas â chyfraddau cyfnewid tramor, eu cofnodi yn y cyfrif Incwm a Gwariant o fewn llog.

## 20 CYSONI LLIF ARIAN PAROD NET I SYMUDIAD MEWN (DYLED)/CRONFEYDD NET

| | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|
| Gostyngiad mewn arian parod yn ystod y flwyddyn | **(66.7)** | (15.5) |
| (All-lif)/mewnlif arian parod net o ariannu | **(93.0)** | 0.9 |
| Newid yn y ddyled net yn deillio o lifau arian parod | **(159.7)** | (14.6) |
| Gwahaniaethau cyfnewid | **(6.7)** | – |
| Cynnydd anariannol mewn nodiadau benthyca | **(4.3)** | – |
| Cynnydd anariannol mewn prydlesau cyllid | **(6.9)** | (6.9) |
| **Newid yn y ddyled net** | **(177.6)** | (21.5) |
| Cronfeydd net ar ddechrau'r flwyddyn | **28.1** | 49.6 |
| **(Dyled)/cronfeydd net ar ddechrau'r flwyddyn** | **(149.5)** | 28.1 |

## 21 DADANSODDIAD O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD/(DYLED) NET

| | Ar 1 Ebrill 2007 £m | Llifau arian parod £m | Caffaeliad (ac eithrio arian parod) £m | Newidiadau anariannol £m | Cyfnewid £m | **Ar 31 Mawrth 2008 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arian parod net** | | | | | | |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 144.7 | (66.7) | – | – | – | **78.0** |
| **Cronfeydd gros** | **144.7** | **(66.7)** | **–** | **–** | **–** | **78.0** |
| **Dyled** | | | | | | |
| Benthyciadau gan drydydd partïon | (85.4) | (106.8) | – | – | (6.5) | **(198.7)** |
| Nodiadau benthyca nas gwarantwyd | (0.5) | 4.1 | (4.3) | – | – | **(0.7)** |
| Prydlesau cyllid | (30.7) | 9.7 | (2.5) | (4.4) | (0.2) | **(28.1)** |
| **Cronfeydd/(dyled) net** | **28.1** | **(159.7)** | **(6.8)** | **(4.4)** | **(6.7)** | **(149.5)** |
| **Yn cynnwys:** | | | | | | |
| Gwasanaeth Cyhoeddus (yn cynnwys BBC World Service a BBC Monitoring) | 102.0 | (80.9) | – | (4.4) | – | **16.7** |
| Commercial Businesses | (54.6) | (81.8) | (6.8) | – | (6.7) | **(149.9)** |
| Centre House Productions Limited | (19.3) | 3.0 | – | – | – | **(16.3)** |
| **Cronfeydd/(dyled) net** | **28.1** | **(159.7)** | **(6.8)** | **(4.4)** | **(6.7)** | **(149.5)** |

Caiff y ddyled a'r ad-daliadau ar brydlesau cyllid a ddelir gan Centre House Productions Limited eu gwrthbwyso'n uniongyrchol gan arian parod a ddelir ar adneuon cyfatebol, a'r incwm ohonynt, fel na fydd unrhyw effaith o ran arian parod yn yr hirdymor.

## 22 CYSONI CRONFEYDD/(DYLED) NET I DERFYNAU BENTHYCA YR ADRAN DROS DDIWYLLIANT, Y CYFRYNGAU A CHWARAEON

| | | Gwasanaethau Cyhoeddus | | Commercial Businesses |
|---|---|---|---|---|
| **2008** | Nodyn | Public Service Broadcasting (ac eithrio DSHS Limited) £m | Cynllun Cymorth i Newid i Ddigidol* £m | £m |
| Cronfeydd/(dyled) net | 21 | 16.7 | – | (149.9) |
| **Terfyn benthyca** | | **(200.0)** | **(25.0)** | **(350.0)** |

*Mae **Gwasanaethau Cyhoeddus** yn y cyd-destun hwn yn cynrychioli Grŵp UK Public Service Broadcasting (heblaw am Centre House Productions Limited – gweler Nodyn 23b), BBC World Service a BBC Monitoring.*

** Dim ond mewn perthynas â benthyca i ariannu gwariant cyfredol ar gyflawni'r cyfrifoldebau a osodir ar y BBC gan unrhyw gynllun y cytunir arno o dan gymal 39 o'r Cytundeb Fframwaith (cynlluniau cymorth wedi ei dargedu), yn cynnwys costau y mae'r BBC yn mynd iddynt ar gyfer gorbenion a chostau ariannu'r cynllun y gellir defnyddio £25miliwn.*

Pennir terfyn benthyca Gwasanaethau Cyhoeddus gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â'r Cytundeb Fframwaith rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae gan y terfyn benthyca o £350miliwn ar gyfer BBC Commercial Holdings Limited dri chyfamod ariannol y mae'n ofynnol iddynt gael eu bodloni ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Ar 31 Mawrth 2008 a 31 Mawrth 2007 roedd Grŵp BBC Commercial Holdings yn cydymffurfio â phob un o'r cyfamodau hyn.

Ar 31 Mawrth 2008, a thrwy gydol y flwyddyn ariannol, roedd y BBC yn cydymffurfio â'r terfynau benthyca.

| **2007** | Nodyn | Gwasanaethau Cyhoeddus £m | Commercial Businesses £m |
|---|---|---|---|
| Cronfeydd/(dyled) net | 21 | 102.0 | (54.6) |
| **Terfyn benthyca** | | **(200.0)** | **(350.0)** |

Ar 31 Mawrth 2007 roedd y BBC yn cydymffurfio â'r terfynau benthyca.

## 23 OFFERYNNAU ARIANNOL

### 23a Rheoli risg ariannol

Rheolir gweithrediadau rheoli risg ariannol y Grŵp gan swyddogaeth Trysorlys y Grŵp o fewn paramedrau a ddiffinnir yn ffurfiol o fewn y llawlyfr polisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arno gan y Bwrdd Gweithredol. Cyflwynir adroddiad ar weithgaredd Trysorlys y Grŵp yn rheolaidd ac mae'n destun arolwg gan archwilwyr mewnol ac allanol.

Mae Trysorlys y Grŵp yn defnyddio offerynnau ariannol i godi arian ac i reoli risg ariannol sy'n codi o weithrediadau'r BBC yn unol â'i amcanion sef:

- sicrhau yr ariennir busnes y BBC, Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol, yn y ffordd fwyaf effeithlon a'i fod yn parhau i gydymffurfio â therfynau benthyca
- diogelu gwerth asedau, rhwymedigaethau a llifau arian parod y BBC rhag effeithiau cyfraddau llog anffafriol ac amrywiadau o ran cyfnewid cyfraddau tramor
- cael yr adenillion mwyaf posibl ar gronfeydd gwarged, tra'n sicrhau y cedwir digon o arian i fodloni gofynion hylifedd rhagweladwy.

Mae offerynnau ariannol y Grŵp, heblaw'r rhai a ddefnyddir at ddibenion rheoli risg y trysorlys, yn cynnwys arian parod ac adnoddau rhydd, benthyciadau ac eitemau amrywiol megis dyledwyr a chredydwyr masnach sy'n codi'n uniongyrchol o'i weithrediadau. Mae'r Grŵp yn ariannu ei weithrediadau o'r offerynnau ariannol hyn. Nid yw'r Grŵp yn ymrwymo i drafodion hapfasnachol y trysorlys.

*Mae **risg y farchnad** yn cynnwys risg arian cyfred, risg cyfradd llog a risgiau prisiau eraill.*

*Mae **blaen-gontract arian cyfred** yn gontract i brynu neu werthu arian cyfred tramor yn gyfnewid am sterling ar gyfradd benodol ar ddyddiad penodol. Drwy ymrwymo i gyfradd gyfnewid benodol, caiff y risg o ran arian cyfred a allai fod yn gysylltiedig â phryniant neu werthiant yn y dyfodol ei dileu.*

*Mae **cyfnewidiad cyfradd llog** yn gontract rhwng dau barti i newid sail eu taliad cyfradd llog neu dderbynebion naill ai o gyfraddau sefydlog i gyfraddau cyfnewidiol neu i'r gwrthwyneb. Drwy sefydlogi cyfradd llog gyfnewidiol, gellir cael sicrwydd am lefel y taliadau llog yn y dyfodol.*

***Risgiau pris eraill** yw unrhyw newid mewn pris heblaw'r hyn sy'n deillio o newidiadau yn y gyfradd arian cyfred neu'r gyfradd llog.*

**Risg y farchnad**

Risg arian cyfred

Sefydliad domestig yw'r Grŵp yn bennaf gyda'r rhan fwyaf o'r trafodion, asedau a rhwymedigaethau yn codi yn y DU ac yn rhai sterling. Fodd bynnag, mae'r Grŵp yn ymgymryd â rhai trafodion mewn arian cyfred heblaw sterling. O ganlyniad i symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid dros amser, gall y swm y mae'r Grŵp yn disgwyl ei gael neu ei dalu pan fydd yn ymrwymo i drafodyn fod yn wahanol i'r swm y mae'n ei gael neu'n ei dalu mewn gwirionedd pan fydd yn setlo'r trafodyn.

Mae'r Grŵp yn ymrwymo i flaen-gontractau arian cyfred, ar gyfer pob contract sylweddol, i reoli'r risg arian cyfred hon. Mae'r rhain yn galluogi'r Grŵp i setlo trafodion ar gyfraddau cyfnewid hysbys, gan ddileu llawer o'r ansicrwydd hwn. O ganlyniad i'r sicrwydd hwn mewn cyfraddau cyfnewid nid oes gan y Grŵp unrhyw sensitifrwydd sylfaenol o bwys i amrywiadau mewn arian cyfred ac felly ni chyflwynir unrhyw ddadansoddiad o ran sensitifrwydd.

Gweithrediad tramor mwyaf y Grŵp yw BBC Worldwide America, sy'n gweithredu yn UDA ac y mae ei refeniw a'i dreuliau yn cael eu trin yn noleri'r UD yn unig. Fodd bynnag, oherwydd maint cymharol BBC Worldwide America a sefydlogrwydd doler yr UD, nid yw'r BBC o'r farn bod hwn yn amlygiad sylweddol i amrywiadau o ran arian cyfred i'r Grŵp.

Y risg o ran cyfraddau llog

Mae prif amlygiad y Grŵp i amrywiadau yn y gyfradd llog yn codi ar fenthyciadau allanol. Ers Mawrth 2003 mae'r Grŵp wedi benthyca ar gyfraddau llog cyfnewidiol ac yna wedi defnyddio cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog i gynhyrchu'r proffil llog a ddymunir ac i reoli amlygiad y Grŵp i amrywiadau yn y gyfradd llog. Trefnir cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog yn seiliedig ar ofynion benthyca rhagamcanol, felly bydd gwahaniaethau rhwng swm tybiannol y cyfnewidiadau, capiau a choleri a'r gofynion benthyca gwirioneddol. O ganlyniad i'r gwaith o reoli cyfraddau llog nid oes gan y Grŵp unrhyw sensitifrwydd sylfaenol o bwys i amrywiadau mewn cyfraddau llog ac felly ni chyflwynir unrhyw ddadansoddiad o ran sensitifrwydd.

Risgiau pris eraill asedau ariannol

Mae'r Grŵp yn buddsoddi arian parod gwarged mewn cronfeydd marchnad arian ac adneuon marchnad arian, felly nid yw'n agored i risgiau pris eraill, fel risg pris y farchnad.

**Risg credyd**
Symiau masnach derbyniadwy
Mae'r rhan fwyaf o asedau ariannol y Grŵp yn symiau masnach derbyniadwy (£507.1miliwn). Yr elfen fwyaf yw dyledwr ffi'r drwydded (£368.4miliwn) a dderbynnir yn uniongyrchol gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (nid yn uniongyrchol gan dalwr ffi'r drwydded) ac felly nid oes unrhyw risg credyd sylweddol yn gysylltiedig â'r dyledwr hwn. Mae swm yr incwm y mae'r BBC yn ei gael gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn uniongyrchol gysylltiedig â swm ffi'r drwydded a gesglir o gartrefi yn y DU.

O'r symiau derbyniadwy sy'n weddill sef £138.7miliwn, mae'r dyddiad dyledus heibio ar gyfer £34.1miliwn ac nid yw wedi ei leihau. Darparwyd ar gyfer £5.2miliwn yn ystod y flwyddyn yn erbyn y symiau masnach derbyniadwy o £7.8miliwn a ystyrir yn rhai sydd wedi lleihau. Fodd bynnag, nid yw'r Grŵp yn ystyried bod hyn yn lleihad sylweddol o asedau ariannol.

Buddsoddiadau
Mae'r Grŵp yn cyfyngu ei amlygiad i risg credyd drwy ond buddsoddi mewn gwarannau rhydd a dim ond gyda chyd-bartïon sydd ag isafswm gradd credyd o A-, gydag isafswm gradd uwch hyd at AA- yn ofynnol yn dibynnu ar yr hyd a'r swm. O gofio'r graddau credyd uchel hyn, nid yw'r BBC yn disgwyl i unrhyw gyd-barti fethu â chyflawni ei rwymedigaethau.

Gwarantau
Mae'r Grŵp yn ymrwymo i warantau ariannol at ddibenion mewnol y Grŵp yn unig, felly nid ystyrir bod yr amlygiad i risg credyd, o ganlyniad i hyn, yn sylweddol.

Y risg o ran hylifedd
Pennir terfynau ar fenthyciadau'r BBC gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â'r Cytundeb rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (gweler Nodyn 22). Mae Grŵp Trysorlys y BBC yn rheoli benthyciadau'r Grŵp er mwyn cydymffurfio â'r terfynau hyn ynghyd â thelerau unrhyw offerynnau dyled unigol. Mae'r BBC yn dal ei hylifedd dros ben mewn offerynnau ariannol y gellir eu trosi'n hawdd gyda sefydliadau ariannol ag enw da.

*__Risg credyd__ yw'r risg o golled ariannol i'r Grŵp os bydd cwsmer neu gyd-barti i gyflawni ariannol yn methu â chyflawni ei rwymedigaeth gytundebol.*

*Y __risg o ran hylifedd__ yw'r risg na all y Grŵp gyflawni ei rwymedigaethau ariannol wrth iddynt godi.*

## 23b Gwerthoedd teg offerynnau ariannol
Mae'r tabl canlynol yn dangos gwerth teg a gwerth cario offerynnau ariannol y Grŵp, mewn categorïau yn unol â sut y caiff yr offerynnau ariannol eu mesur. Mae hefyd yn dangos proffil aeddfedrwydd ar gyfer pob categori o ased a rhwymedigaeth ariannol.

| | Symiau sy'n ddyledus mewn llai na blwyddyn £m | Symiau sy'n ddyledus rhwng dwy a phum mlynedd £m | Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| 2008 – Gwerth cario a gwerth teg | | | | |
| **Asedau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | 2.6 | 2.6 | – | **5.2** |
| **Benthyciadau a symiau derbyniadwy** | | | | |
| Dyledwyr masnach | 504.6 | – | – | **504.6** |
| Dyledwyr eraill | 0.3 | – | – | **0.3** |
| **Arian parod yn y banc ac mewn llaw** | 78.0 | – | – | **78.0** |
| **Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu** | | | | |
| Buddsoddiadau eraill (nad ydynt yn gyfredol) | – | – | 2.7 | **2.7** |
| **Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | (2.3) | (0.5) | (0.1) | **(2.9)** |
| **Rhwymedigaethau ariannol a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio** | | | | |
| Benthyciadau | (59.3) | (140.1) | – | **(199.4)** |
| Credydwyr masnach | (327.6) | – | – | **(327.6)** |
| Credydwyr eraill | (31.0) | – | – | **(31.0)** |
| Caffaeliadau rhaglenni | (47.3) | – | – | **(47.3)** |
| Ymrwymiadau o dan brydlesau cyllid | (5.8) | (3.0) | (19.3) | **(28.1)** |

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol



| | Symiau sy'n ddyledus mewn llai na blwyddyn £m | Symiau sy'n ddyledus rhwng dwy a phum mlynedd £m | Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **2007 – Gwerth cario a gwerth teg** | | | | |
| **Asedau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | 5.2 | 1.0 | – | 6.2 |
| **Benthyciadau a symiau derbyniadwy** | | | | |
| Dyledwyr masnach | 474.4 | – | – | 474.4 |
| Dyledwyr eraill | 0.2 | – | – | 0.2 |
| **Arian parod yn y banc ac mewn llaw** | 144.7 | – | – | 144.7 |
| **Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu** | | | | |
| Buddsoddiadau eraill (nad ydynt yn gyfredol) | – | – | 5.0 | 5.0 |
| **Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | (3.7) | (3.6) | – | (7.3) |
| **Rhwymedigaethau ariannol a fesurir ar gost wedi'i hamorteiddio** | | | | |
| Benthyciadau | (65.9) | (20.0) | – | (85.9) |
| Credydwyr masnach | (294.3) | – | – | (294.3) |
| Caffaeliadau rhaglenni | (27.8) | – | – | (27.8) |
| Ymrwymiadau o dan brydlesau cyllid | (5.2) | (4.5) | (21.0) | (30.7) |

Ar 31 Mawrth 2008 nid oes unrhyw wahaniaethau (2007: dim gwahaniaethau) rhwng gwerth teg a gwerth cario unrhyw un o offerynnau ariannol y Grŵp. Mae gwerth teg blaen-gontractau arian cyfred, cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog a deilliadau sefydlog yn seiliedig ar brisiau'r farchnad a chyfraddau cyfnewid ar ddyddiad y fantolen. Fe'u cofnodir yn y datganiad o incwm a gwariant (gweler Nodiadau 3 a 7). Caiff yr offerynnau ariannol sy'n weddill eu cario ar gost neu gost wedi'i hamorteiddio yn unol ag FRS 26 'Financial Instruments: Recognition and Measurement', sy'n cymharu â gwerth teg.

*__Adneuon dirymu__ yw symiau a adneuir gyda banciau sy'n ennill yn union yr un swm o log sydd ei angen i dalu'r ad-daliad cyfalaf ac elfen llog pob un o'r prydlesau cyllid. Caiff yr adneuon dirymu eu neilltuo ac felly ni ellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw drafodion heblaw am y taliadau cyfalaf a llog cytûn.*

Mae'r prydlesau cyllid yn cynnwys £18.0miliwn (2007: £21.0miliwn) sy'n ymwneud â Centre House Productions Limited. Mae Centre House Productions Limited yn ymrwymo i brydlesau cyllid fel ffordd o ariannu cynyrchiadau drama sy'n arwain at gostau cynhyrchu is i'r BBC. Cyfatebir y prydlesau cyllid hyn gan adneuon dirymu na ellir ond eu defnyddio i setlo'r rhwymedigaethau prydlesau cyllid ac felly nid ydynt yn cynrychioli asedau a rhwymedigaethau ar wahân. O ganlyniad, cânt eu clirio o gyfrif y credydwr prydlesau cyllid i ddangos y rhwymedigaeth net na ellir ei chyfateb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r adneuon dirymu hyn, £219.0miliwn ar 31 Mawrth 2008 (2007: £235.8miliwn), wedi eu strwythuro yn y fath fodd fel bod y prifswm ar adnau a'r llog a enillir yn ddigon i dalu rhwymedigaethau rhent y prydlesau cyllid tan ddiwedd y brydles. Yn unol â hynny, ni chaiff ei gynnwys fel benthyca at ddibenion cydymffurfio â therfynau benthyca'r BBC.

Mae gan BBC Worldwide Limited fenthyciadau banc gwarantedig mewn perthynas â'u cyd-fenter, Worldwide Media Limited, a oedd yn 155 miliwn rwpi (£2.0miliwn) ar 31 Mawrth 2008 (2007: 366 miliwn rwpi, £4.3miliwn). Aseswyd y gwerth teg yn un nad yw'n sylweddol.

### 23c Offerynnau ariannol deilliadol

| | Asedau £m | Rhwymedigaethau £m |
|---|---|---|
| **2008** | | |
| **Mwy na blwyddyn** | | |
| Blaen-gontractau arian cyfred tramor | **2.2** | **(0.2)** |
| Cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfraddau llog | **0.3** | **(0.1)** |
| Deilliadau sefydlog | **0.1** | **(0.3)** |
| **Cyfanswm** | **2.6** | **(0.6)** |
| **Llai na blwyddyn** | | |
| Blaen-gontractau arian cyfred tramor | **2.6** | **(2.2)** |
| Deilliadau sefydlog | **–** | **(0.1)** |
| **Cyfanswm** | **2.6** | **(2.3)** |
| **2007** | | |
| **Mwy na blwyddyn** | | |
| Blaen-gontractau arian cyfred tramor | 1.0 | (3.5) |
| Deilliadau sefydlog | – | (0.1) |
| Cyfanswm | 1.0 | (3.6) |
| **Llai na blwyddyn** | | |
| Blaen-gontractau arian cyfred tramor | 2.5 | (3.7) |
| Cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfraddau llog | 2.7 | – |
| Cyfanswm | 5.2 | (3.7) |

Ar 31 Mawrth 2008, roedd y Grŵp wedi cytuno ar ymrwymiad net i brynu arian cyfred tramor gwerth £17.9miliwn (2007: £65.8miliwn) sy'n aeddfedu yn y cyfnod hyd at 2013 er mwyn pennu cost sterling yr ymrwymiadau yn ystod y cyfnod hwn (ewros a doleri'r UD yn bennaf). Ar ôl ystyried effeithiau'r blaen-gontractau cyfnewid arian cyfred tramor hyn, nid oedd gan y Grŵp unrhyw amlygiad sylweddol i arian cyfred.

Rheolir y risg cyfradd llog drwy ddefnyddio cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog. Cyflawnir benthyciadau cyfradd sefydlog sterling drwy lunio trafodion cyfnewidiadau'r gyfradd llog; mae pob cyfnewidiad sy'n weddill yn aeddfedu erbyn Mawrth 2014. Gall effaith newid mewn cyfraddau llog gael ei chyfyngu hefyd drwy ymrwymo i drafodion cap a choler cyfraddau llog; mae pob cyfnewidiad, cap a choler sy'n weddill yn aeddfedu erbyn Ebrill 2012. At ei gilydd, ymrwymwyd i £80.0miliwn (2007: £246.0miliwn) o gyfnewidiadau a £128.2miliwn (2007: £dim) o gapiau a choleri. Mae hyn £8.8miliwn (2007: £161.0miliwn) yn uwch na'r lefel gyfredol o fenthyciadau o £199.4miliwn (2007: £85.0miliwn).

Yn unol ag FRS 26, mae'r Grŵp wedi adolygu contractau ar gyfer deilliadau sefydlog y mae angen rhoi cyfrif amdanynt ar wahân os nad ydynt yn bodloni gofynion penodol a nodir yn y safon. Mae unrhyw ddeilliadau sefydlog o'r fath wedi'u cydnabod ar werth teg.

### 23d Rhagfantoli buddsoddiadau net mewn gweithrediadau tramor

Mae gan y Grŵp fenthyciadau sy'n cael eu trin yn noler Awstralia (AUS$) y mae wedi eu dynodi yn rhagfantoli buddsoddiad net mewn gweithrediadau tramor (Lonely Planet), er mwyn rhagfantoli yn erbyn y risgiau sy'n gysylltiedig â symudiadau cyfradd cyfnewid rhwng sterling a'r AUS$. Gwerth teg benthyciadau'r AUS$ ar 31 Mawrth 2008 oedd £90.3miliwn (2007: £dim) a gwerth teg y buddsoddiad ar 31 Mawrth 2008 oedd £93.7miliwn (2007: £dim). Ceir swm amherthnasol o aneffeithiolrwydd rhagfantoli sy'n gysylltiedig â'r rhagfantoli hyn.

### 23e Cyfleusterau benthyca

| Cyfleuster | Cyfradd llog | Cyfanswm sydd ar gael 31 Mawrth 2008 £m | **Swm a ddefnyddiwyd ar 31 Mawrth 2008 £m** | Cyfanswm sydd ar gael 31 Mawrth 2007 £m | Swm a ddefnyddiwyd ar 31 Mawrth 2007 £m | Dyddiad dod i ben neu adolygu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| UK Public Service Broadcasting | | | | | | |
| Benthyciad neu orddrafft yn seiliedig ar LIBOR | Benthyciad – gorswm o 0.175% Gorddrafft – cyfraddau sylfaenol banc ynghyd ag 1% | 50 | **–** | – | – | Mehefin 2008 |
| Benthyciad neu orddrafft yn seiliedig ar LIBOR | Benthyciad – gorswm o 0.2% Gorddrafft – cyfraddau sylfaenol banc ynghyd ag 1% | – | **–** | 100 | – | wedi dod i ben Mai 2007 |
| Llinellau marchnad arian nas ymrwymwyd (benthyciadau byrdymor) | Gorswm rhwng 0.125% a 0.5% dros LIBOR | 24 | **–** | 24 | – | |
| Gorddrafft | Gorddrafft – cyfraddau sylfaenol banc ynghyd ag 1% | 5 | **–** | – | – | Mehefin 2008 a Ionawr 2009* |
| Gorddrafft Doler yr UD | Gorddrafft – cyfradd fyrdymor y banc a gynigir ar gyfer Doleri'r UD ynghyd ag 1% | 3 | **–** | – | – | |
| Gorddrafft arian cyfred | Gorddrafft – cyfradd fyrdymor y banc a gynigir ar gyfer yr arian cyfred perthnasol ynghyd ag 1% | 5 | **–** | – | – | |
| BBC Commercial Holdings Limited | | | | | | |
| Cytundeb cyfleuster credyd tro ar gyfer benthyciadau a llythyrau credyd â sawl math o arian cyfred | LIBOR** ynghyd â 0.275% yn codi i LIBOR** ynghyd â 0.325% pan ddefnyddir mwy na 50% o'r cyfleuster. Ffi'r llythyr credyd yr un peth â gorswm benthyca'r banc, ond nid yw'n cynnwys LIBOR | 350*** | **145** | – | – | Mehefin 2012 |
| Cytundeb cyfleuster credyd tro ar gyfer benthyciadau a llythyrau credyd â sawl math o arian cyfred | LIBOR ynghyd â 0.375% yn codi i LIBOR ynghyd â 0.45% pan ddefnyddir mwy na 50% o'r cyfleuster. Ffi'r llythyr credyd yr un peth â gorswm benthyca'r banc, ond nid yw'n cynnwys LIBOR | – | **–** | 350 | 40 | wedi dod i ben Mehefin 2007 |
| Benthyciad gyda Banc Buddsoddi Ewrop (wedi ei warantu drwy lythyrau credyd)*** | Cost ariannu Banc Buddsoddi Ewrop ei hun | – | **–** | 25 | 25 | wedi dod i ben Mehefin 2007 |
| Gorddrafft neu linellau marchnad arian | Llinell marchnad arian - gorswm o 0.45% Gorddrafft – cyfraddau sylfaenol banc ynghyd ag 1% | 20 | **4** | 20 | – | Ionawr 2009 |
| BBC Worldwide Limited | | | | | | |
| Benthyciad gyda Banc Buddsoddi Ewrop (50% wedi ei warantu drwy lythyrau credyd)*** | Cost ariannu Banc Buddsoddi Ewrop ei hun ynghyd â gorswm o 0.09% ar fenthyciadau nas gwarantwyd | 50 | **50** | 50 | 20 | £20m Rhagfyr 2011 a £30m Mai 2012 |

* *Mae gan gyfleuster gorddrafft y BBC derfyn dros dro o £45miliwn tan 30 Mehefin 2008, gan ddychwelyd wedi hynny i £5miliwn.*

** *Bydd y gyfradd sylfaenol a ddefnyddir yn amrywio yn ôl yr arian cyfred a ddefnyddir. Ar 31 Mawrth 2008 defnyddiwyd £90.3miliwn mewn AUS$ ac o ganlyniad fe'i cysylltwyd â BBSW yn hytrach na LIBOR. Mae'r holl symiau eraill a ddefnyddir mewn sterling ac o ganlyniad maent yn gysylltiedig â LIBOR.*

*** *O'r swm hwn, mae hyd at £100miliwn ar gael i ddyroddi llythyrau credyd o blaid Banc Buddsoddi Ewrop i ategu ei fenthyciadau o dan gyfleusterau i'r Grŵp. Ar 31 Mawrth 2008, yn ogystal â defnyddio £146miliwn (2007: £40.0miliwn), defnyddiwyd £25.6miliwn (2007: £35.9miliwn) drwy gyfrwng llythyrau credyd a ddyroddwyd.*

Ni fu unrhyw achosion o ddiffygdalu na thorri cyfamodau benthyciadau yn ystod y flwyddyn (2007: dim).

## 24 YMRWYMIADAU

### 24a Contractau a osodwyd ar gyfer gwariant yn y dyfodol

| | **Grŵp 2008 £m** | Grŵp 2007 £m | **UK Public Service Broadcasting 2008 £m** | UK Public Service Broadcasting 2007 £m |
|---|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau asedau sefydlog | **65.2** | 50.0 | **44.0** | 40.4 |
| Caffaeliadau rhaglenni a hawliau chwaraeon | **1,333.7** | 994.1 | **1,272.8** | 939.0 |
| Rhaglenni annibynnol | **112.3** | 112.1 | **97.8** | 101.5 |
| | **1,511.2** | 1,156.2 | **1,414.6** | 1,080.9 |

### 24b Prydlesau gweithredol

Ymrwymiadau prydlesau gweithredol sy'n daladwy yn y flwyddyn ganlynol, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod pan ddaw'r brydles i ben:

*Prydles lle nad yw'r prydlesai wedi ymrwymo i'r risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased a'i weithredu yw **prydles weithredol**. Mae'r prydlesai (y BBC) yn hurio yn hytrach na phrynu ased.*

| | **Tir ac adeiladau 2008 £m** | Tir ac adeiladau 2007 £m | **Arall 2008 £m** | Arall 2007* £m |
|---|---|---|---|---|
| Grŵp | | | | |
| O fewn blwyddyn | **2.1** | 3.0 | **1.2** | 2.4 |
| Ymhen dwy i bum mlynedd | **21.4** | 15.5 | **9.0** | 13.0 |
| Ar ôl pum mlynedd | **92.2** | 58.6 | **7.8** | 3.8 |
| | **115.7** | 77.1 | **18.0** | 19.2 |
| UK Public Service Broadcasting | | | | |
| O fewn blwyddyn | **1.6** | 2.1 | **0.4** | 0.8 |
| Ymhen dwy i bum mlynedd | **11.9** | 12.6 | **3.3** | 7.4 |
| Ar ôl pum mlynedd | **91.3** | 57.5 | **7.8** | 3.8 |
| | **104.8** | 72.2 | **11.5** | 12.0 |

** Mae'r data cymharol ar gyfer ymrwymiadau prydlesau gweithredol eraill wedi'i ddiwygio o £57.5miliwn i £19.2miliwn yn sgîl arolwg o drefniadau prydlesu.*

### 24c Ymrwymiadau ariannol eraill

Wrth gynnal ei fusnes fel arfer mae'r BBC yn llunio nifer fawr o gontractau ag artistiaid ac awduron a chyda darparwyr gwasanaethau eraill gan gynnwys y rhai sy'n casglu ffi'r drwydded, cynnal a chadw a chymorth TG a dosbarthu sianelau.

## 25 ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

Ar 31 Mawrth 2008 roedd gan y Grŵp rwymedigaethau amodol yr amcangyfrifwyd eu bod yn werth £1.3miliwn (2007: £1.3miliwn) mewn perthynas â gwarantau ac indemniadau.

Mae gan y Grŵp nifer o rwymedigaethau amodol sy'n deillio o ymgyfreitha. Gwna'r BBC ddarpariaeth benodol (gweler Nodyn 17) am ei amcangyfrif gorau o unrhyw iawndal a chostau y gellir eu dyfarnu. Dim ond i'r graddau bod y Grŵp yn ystyried ei fod yn debygol y bydd all-lif o fuddiannau economaidd ac y gellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy y gwneir darpariaeth.

## 26 DIGWYDDIADAU ÔL-FANTOLEN

Ar 1 Ebrill 2008, gwerthwyd eiddo â gwerth llyfr net o £2.1miliwn am £18miliwn.

Hefyd ar 1 Ebrill 2008, gwerthodd BBC Resources Limited ei fusnes Outside Broadcasts i SIS Outside Broadcasts Limited, rhan o'r Grŵp SIS am £19.3miliwn.

## 27 TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Cyflwynwyd trafodion partïon cysylltiedig y Grŵp yn unol ag FRS 8 'Related party disclosures'. Yn unol ag FRS 8 nid yw'r BBC wedi datgelu trafodion rhwng endidau'r Grŵp a ddilëwyd wrth eu cyfuno.

Ym mhob un o'r trafodion, negodwyd y telerau masnachu ar sail hyd braich.

### 27a Trafodion â chyd-fentrau ac ymgymeriadau cyswllt

| Incwm o gyd-fentrau ac ymgymeriadau cyswllt | Natur y gwasanaethau a ddarparwyd | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|---|
| UKTV | Gwerthiant rhaglenni a ffioedd rheoli | 41.3 | 38.1 |
| JV Programmes LLC | Gwerthiant rhaglenni | 31.9 | 38.9 |
| 2 entertain Limited | Trwyddedu rhaglenni a chomisiynau eraill | 17.9 | 9.2 |
| Daunus Limited | Ad-dalu costau datblygu Broadcasting House | 5.1 | 9.9 |
| BBC Haymarket Exhibitions Limited | Ffioedd rheoli | 0.2 | 0.2 |
| Frontline Limited | Ffioedd rheoli | 0.3 | – |
| Arall | Amrywiol | 5.7 | 6.3 |

| Difidendau o gyd-fentrau ac ymgymeriadau cyswllt | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|
| UKTV | 6.7 | 4.5 |
| 2 entertain Limited | 42.3 | 17.6 |
| Frontline Limited | 0.2 | 0.3 |

| Taliadau sy'n daladwy i gyd-fentrau ac ymgymeriadau cyswllt | Natur y gwasanaethau a dderbyniwyd | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|---|
| Insight Property Partnership a White City Development Partnership | Gwasanaethau eiddo | – | 22.9 |
| Daunus Limited | Rhent | 17.3 | 16.6 |
| Frontline Limited | Dosbarthu cylchgronau BBC Worldwide | 2.2 | 2.1 |
| Woodlane Partnership | Gwasanaethau eiddo | 0.3 | 0.3 |
| JV Programmes LLC | Gwasanaethau marchnata | 1.4 | 1.7 |
| 2 entertain Limited | Comisiynau ar ddosbarthu DVDs plant | 1.1 | 0.1 |
| DTV Services Limited | Gwasanaethau marchnata | 1.4 | 1.2 |
| Parliamentary Broadcast Unit Limited | Prynu trwyddedau darlledu | 0.4 | 0.4 |
| Freesat UK Limited | Dilëwyd mewn perthynas â chyfraniad ariannu | 3.4 | – |
| Arall | Amrywiol | 4.0 | – |

Mae Nodyn 29 yn rhoi manylion y partneriaid eraill yng nghyd-fentrau'r BBC.

Mae symiau sy'n ddyledus gan/i gyd-fentrau ac ymgymeriadau cyswllt ar ddiwedd y flwyddyn wedi eu datgelu o fewn Nodiadau 15 ac 16.

### 27b Trafodion eraill

Isod, crynhoir partïon cysylltiedig y BBC, fel y'u diffinnir gan FRS 8, natur y berthynas a graddau'r trafodion â hwy. Wrth gynnal ei fusnes fel arfer, mae'r BBC yn cynnal trafodion gyda phartïon eraill sy'n gysylltiedig ag ef gan fod ei uwch gyflogeion yn briod â chyflogai neu'n perthyn yn agos i gyflogai yn y BBC neu unigolion sy'n berchen ar neu a gyflogir gan gwmnïau eraill sy'n ymwneud â'r cyfryngau, cynhyrchu a darlledu. Mae gan y BBC weithdrefnau penodol ar gyfer delio â sefyllfaoedd o'r fath er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Pan fo trafodion wedi codi rhwng partïon cysylltiedig, ni fydd Ymddiriedolwr y BBC na chyflogai'r BBC yn rhan o'r broses gymeradwyo.

*Mae **partïon cysylltiedig** yn cynnwys aelodau Ymddiriedolaeth y BBC, y Bwrdd Gweithredol ac uwch reolwyr eraill, eu teuluoedd agos ac endidau allanol a reolir ganddynt.*
*Eglurir y trafodion rhwng y BBC a'r partïon cysylltiedig hynny yn y nodyn hwn.*

**27b i Ymddiriedolwyr**

Yn ystod y flwyddyn, roedd gan Diane Coyle a Richard Tait aelodau agos o'r teulu a oedd yn gyflogedig gan y BBC. Seiliwyd eu cydnabyddiaeth ar delerau ac amodau safonol y BBC sy'n gymwys i aelodau eraill o staff a gyflogir mewn swydd o'r fath.

**27b ii Aelodau'r Bwrdd Gweithredol ac uwch reolwyr eraill**

Menna Richards yw Rheolwr BBC Cymru. Mae gan ei chwaer fuddiant rheoli yn Torpedo Limited. Gwnaeth y BBC daliadau ar gontractau o £320,774 (2007: £360,551) gyda Torpedo Limited am ddarparu rhaglenni radio a theledu annibynnol yn ystod y flwyddyn. Roedd y symiau hyn wedi eu talu'n llawn erbyn 31 Mawrth 2008 (2007: wedi eu talu'n llawn). Hefyd, ymrwymodd y BBC i gontractau artistiaid gwerth £53,263 (2007: £54,867) gyda'i gŵr Patrick Hannan, gyda £1,032 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2008 (2007: wedi eu talu'n llawn).

Mae Juniper Communications Limited yn eiddo ar y cyd i gyfarwyddwr anweithredol y BBC Samir Shah (70%), ei wraig Belkis Shah (20%) a gŵr Jana Bennett (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol y BBC) Richard Clemmow (10%). Yn ystod y flwyddyn roedd gan Juniper Communications Limited drafodion gyda'r BBC gwerth £946,693 (2007: £623,881). Roedd y symiau hyn wedi eu talu'n llawn erbyn 31 Mawrth 2008 (2007: £68,000 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2007).

Yn ystod y flwyddyn, roedd gan Jenny Abramsky (Cyfarwyddwr, Sain a Cherddoriaeth), Anne Gilchrist (Cyfarwyddwr Creadigol, CBBC), Jane Tranter (Rheolwr, Ffuglen), Janice Hadlow (Rheolwr BBC4) a Mark Tugwell (Cyfarwyddwr Outside Broadcasts) aelodau agos o'r teulu a oedd yn gyflogedig gan y BBC. Seiliwyd eu cydnabyddiaeth ar delerau ac amodau safonol y BBC sy'n gymwys i aelodau eraill o staff a gyflogir mewn swydd o'r fath.

**27b iii Llywodraethwyr**

O dan y Siarter Frenhinol a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2007, disodlwyd y Bwrdd Llywodraethwyr gan Ymddiriedolaeth y BBC. Felly nid oes unrhyw drafodion yn y flwyddyn gyfredol sy'n ymwneud â Llywodraethwyr. Mae cymariaethau'r flwyddyn flaenorol fel a ganlyn:

Deborah Bull yw unig Gyfarwyddwr Deborah Bull Limited. Derbyniodd Deborah Bull Limited daliadau gwerth £5,258 am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2006 ar gyfer cyfraniadau i amryw raglenni'r BBC. Nid oedd unrhyw symiau yn ddyledus ar 31 Mawrth 2007.

Michael Grade oedd Cadeirydd anweithredol Pinewood Shepperton hyd at 27 Tachwedd 2006 ac yn ystod y cyfnod hwn talodd y BBC £2,217,956 i Pinewood Shepperton am ddefnyddio stiwdios a chyfleusterau cysylltiedig. Nid oedd unrhyw symiau yn ddyledus ar 31 Mawrth 2007.

### 28 GWARIANT GWASANAETHAU CYHOEDDUS Y DU YN ÔL GWASANAETH

Mae'r tablau canlynol yn dangos gwariant Public Service Broadcasting y BBC wedi ei ddadansoddi yn ôl trwydded gwasanaeth ac yn ôl y math o wariant.

Defnyddir trwyddedau gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth y BBC er mwyn sicrhau bod pob un o wasanaethau'r BBC yn sicrhau gwerth cyhoeddus drwy weithredu Pwrpasau Cyhoeddus y BBC. Yn ystod y flwyddyn roedd 27 o drwyddedau gwasanaeth ar waith, yn cynnwys trwydded Manylder Uwch y BBC sy'n newydd ar gyfer 2008. Ataliwyd BBC jam, oedd â'i thrwydded ei hun, ym mis Mawrth 2007.

Daeth y fframwaith trwyddedau gwasanaeth newydd i rym ar 1 Ionawr 2007 ac eleni yw'r flwyddyn lawn gyntaf y caiff ei weithredu. Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd a gwellwyd y broses gyfrifyddu ar gyfer trwyddedau gwasanaeth, a chytunwyd ar gyllidebau sylfaenol trwyddedau gwasanaeth wedi'u diweddaru gydag Ymddiriedolaeth y BBC.

Mae ein hadroddiadau ariannol yn cynnwys dadansoddiad o gost pob un o drwyddedau gwasanaeth y BBC, wedi ei ddiffinio fel costau rhaglenni uniongyrchol a gwariant arall yn gysylltiedig â rhaglenni. Mae gan bob trwydded oddefiad 10% dwyffordd o'r lefel ariannu y cytunwyd arni gydag Ymddiriedolaeth y BBC i roi hyblygrwydd i'r BBC yn ei benderfyniadau comisiynu.

Yn ystod 2007/08, mae deg o drwyddedau gwasanaeth wedi rhagori ar y lefel goddefiad hon, fel a ganlyn:

- bbc.co.uk, gan adlewyrchu buddsoddiad ychwanegol yn y gwaith o greu cynnwys ar-lein o ganlyniad i weithredu'r strategaeth Cyflwyno Dyfodol Creadigol i gychwyn a'r cam tuag at gomisiynu mwy o gynnwys anlinellol
- HDTV, lle y cyflawnwyd arbedion sylweddol mewn trafodaethau cytundebol
- Radio 5 live, oherwydd arbedion sylweddol o fireinio'r gwaith o ddyrannu costau casglu newyddion a'r lefel gymharol isel o ddigwyddiadau chwaraeon o bwys yn ystod y flwyddyn
- Saith gwasanaeth arall (Radio 1Xtra, BBC 6 Music a phum trwydded radio'r Gwledydd) lle y rhagorwyd ar gyllidebau trwydded o ganlyniad i fireinio'r fethodoleg cyfrifyddu ar gyfer costau cynhyrchu canolog yn arwain at ddyraniadau newydd.

| Gwasanaeth 2008 | Nodyn | Cynnwys (i) £m | Dosbarthu (ii) £m | Seilwaith/ cymorth £m | Eitemau eraill £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | | 1,126.2 | 45.4 | 246.6 | – | **1,418.2** |
| BBC Two | | 439.7 | 29.5 | 98.7 | – | **567.9** |
| BBC Three | | 96.5 | 3.1 | 25.6 | – | **125.2** |
| BBC Four | | 47.7 | 2.0 | 15.1 | – | **64.8** |
| BBC HDTV | | 3.4 | 2.6 | 0.7 | – | **6.7** |
| CBBC | | 36.0 | 2.4 | 10.3 | – | **48.7** |
| CBeebies | | 16.3 | 2.3 | 4.7 | – | **23.3** |
| BBC News | iv | 45.7 | 4.4 | 7.9 | – | **58.0** |
| BBC Parliament | | 2.4 | 2.9 | 0.5 | – | **5.8** |
| BBCi | | 20.4 | 10.2 | 6.1 | – | **36.7** |
| **Teledu** | | **1,834.3** | **104.8** | **416.2** | **–** | **2,355.3** |
| BBC Radio 1 | | 31.5 | 4.2 | 7.4 | – | **43.1** |
| BBC Radio 2 | | 39.5 | 4.5 | 7.3 | – | **51.3** |
| BBC Radio 3 | v | 37.4 | 4.7 | 7.3 | – | **49.4** |
| BBC Radio 4 | | 81.2 | 10.0 | 14.3 | – | **105.5** |
| BBC Radio 5 live | | 55.2 | 6.6 | 10.5 | – | **72.3** |
| BBC Radio 5 live Sports Extra | | 2.5 | 0.3 | 0.5 | – | **3.3** |
| 1Xtra | | 6.7 | 0.6 | 2.0 | – | **9.3** |
| BBC 6 Music | | 5.6 | 0.5 | 1.4 | – | **7.5** |
| BBC 7 | | 5.5 | 0.4 | 1.4 | – | **7.3** |
| BBC Asian Network | | 10.1 | 0.8 | 2.1 | – | **13.0** |
| BBC Local Radio | vi | 109.0 | 6.0 | 21.5 | – | **136.5** |
| BBC Radio Scotland | | 29.5 | 2.9 | 6.1 | – | **38.5** |
| BBC Radio nan Gàidheal | | 4.7 | 1.2 | 1.0 | – | **6.9** |
| BBC Radio Wales | | 13.6 | 1.3 | 2.6 | – | **17.5** |
| BBC Radio Cymru | | 12.7 | 1.7 | 2.4 | – | **16.8** |
| BBC Radio Ulster/BBC Radio Foyle | | 15.2 | 1.5 | 3.5 | – | **20.2** |
| **Radio** | | **459.9** | **47.2** | **91.3** | **–** | **598.4** |
| bbc.co.uk | | 113.9 | 15.4 | 52.7 | – | **182.0** |
| **Ar-lein** | | **113.9** | **15.4** | **52.7** | **–** | **182.0** |
| **Gwariant a reoleiddir gan y gwasanaeth** | | **2,408.1** | **167.4** | **560.2** | **–** | **3,135.7** |
| Costau casglu ffi'r drwydded | | – | – | – | 123.2 | **123.2** |
| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio | v | 16.2 | – | 3.1 | – | **19.3** |
| S4C | vii | 27.5 | – | 5.2 | – | **32.7** |
| BBC jam | | 2.5 | – | 0.5 | – | **3.0** |
| Gwariant ar ddatblygu | viii | 31.3 | – | 6.0 | – | **37.3** |
| Radio digidol DAB | | – | 9.6 | – | – | **9.6** |
| Testun digidol | | – | 8.7 | – | – | **8.7** |
| **Arall** | | **77.5** | **18.3** | **14.8** | **123.2** | **233.8** |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | ix | – | – | – | 117.6 | **117.6** |
| **Cyfanswm gwariant Gwasanaethau Cyhoeddus y DU** | | **2,485.6** | **185.7** | **575.0** | **240.8** | **3,487.1** |
| Gwariant Digital UK Limited | x | – | – | – | 21.2 | **21.2** |
| Gwariant newid i ddigidol a neilltuwyd | x | – | – | – | 5.9 | **5.9** |
| **Cyfanswm** | | **2,485.6** | **185.7** | **575.0** | **267.9** | **3,514.2** |

## Nodiadau i'r datganiadau ariannol



| Gwasanaeth 2007 | Cynnwys £m | Dosbarthu £m | Seilwaith/ cymorth £m | Eitemau eraill £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | 1,143.4 | 45.0 | 223.3 | – | 1,411.7 |
| BBC Two | 433.1 | 26.2 | 92.7 | – | 552.0 |
| BBC Three | 92.9 | 2.4 | 23.7 | – | 119.0 |
| BBC Four | 49.8 | 2.0 | 15.2 | – | 67.0 |
| CBBC | 39.1 | 2.2 | 11.0 | – | 52.3 |
| CBeebies | 14.0 | 2.1 | 4.4 | – | 20.5 |
| BBC News | 42.9 | 4.2 | 7.9 | – | 55.0 |
| BBC Parliament | 2.1 | 3.4 | 0.4 | – | 5.9 |
| BBCi | 19.6 | 11.6 | 4.5 | – | 35.7 |
| **Teledu** | 1,836.9 | 99.1 | 383.1 | – | 2,319.1 |
| BBC Radio 1 | 30.8 | 3.9 | 8.1 | – | 42.8 |
| BBC Radio 2 | 38.1 | 4.2 | 7.8 | – | 50.1 |
| BBC Radio 3 | 33.9 | 4.2 | 6.6 | – | 44.7 |
| BBC Radio 4 | 81.0 | 9.3 | 14.7 | – | 105.0 |
| BBC Radio 5 live | 56.3 | 6.0 | 10.9 | – | 73.2 |
| BBC Radio 5 live Sports Extra | 2.4 | 0.3 | 0.5 | – | 3.2 |
| 1Xtra | 6.4 | 0.5 | 2.1 | – | 9.0 |
| BBC 6 Music | 5.4 | 0.5 | 1.4 | – | 7.3 |
| BBC 7 | 5.1 | 0.5 | 1.4 | – | 7.0 |
| BBC Asian Network | 8.9 | 0.7 | 2.0 | – | 11.6 |
| Radio Lleol y BBC | 103.5 | 4.7 | 21.1 | – | 129.3 |
| BBC Radio Scotland | 22.6 | 2.8 | 4.3 | – | 29.7 |
| BBC Radio nan Gàidheal | 3.2 | 1.1 | 0.6 | – | 4.9 |
| BBC Radio Wales | 11.7 | 1.2 | 2.4 | – | 15.3 |
| BBC Radio Cymru | 10.7 | 1.6 | 2.3 | – | 14.6 |
| BBC Radio Ulster/BBC Radio Foyle | 12.6 | 1.1 | 2.2 | – | 15.9 |
| **Radio** | 432.6 | 42.6 | 88.4 | – | 563.6 |
| bbc.co.uk | 83.2 | 8.8 | 24.0 | – | 116.0 |
| BBC jam | 31.8 | – | 5.9 | – | 37.7 |
| **Ar-lein** | 115.0 | 8.8 | 29.9 | – | 153.7 |
| **Gwariant a reoleiddir gan drwydded gwasanaeth** | 2,384.5 | 150.5 | 501.4 | – | 3,036.4 |
| Costau casglu ffi'r drwydded | – | – | – | 134.1 | 134.1 |
| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio | 18.8 | – | 3.3 | – | 22.1 |
| S4C | 20.8 | – | 3.8 | – | 24.6 |
| Gwariant ar ddatblygu | 32.0 | – | 5.6 | – | 37.6 |
| Radio digidol DAB | – | 8.7 | 0.2 | – | 8.9 |
| Testun digidol | – | 5.5 | 2.2 | – | 7.7 |
| **Arall** | 71.6 | 14.2 | 15.1 | 134.1 | 235.0 |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | – | – | – | 44.3 | 44.3 |
| **Cyfanswm gwariant Gwasanaethau Cyhoeddus y DU** | 2,456.1 | 164.7 | 516.5 | 178.4 | 3,315.7 |
| Gwariant Digital UK Limited | – | – | – | 11.6 | 11.6 |
| Gwariant newid i ddigidol a neilltuwyd | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm** | 2,456.1 | 164.7 | 516.5 | 190.0 | 3,327.3 |

| Costau seilwaith/cymorth | Nodyn | 2008 £m | 2007 £m |
|---|---|---|---|
| Marchnata, y wasg a chyhoeddusrwydd | | **41.6** | 45.4 |
| Pytiau rhagflas ar yr awyr | | **22.1** | 22.2 |
| Ymchwil i'r farchnad a gwasanaethau defnyddwyr | | **14.6** | 14.3 |
| Llyfrgelloedd, cymorth dysgu a digwyddiadau cymunedol | | **55.5** | 49.9 |
| Taliad pensiwn ychwanegol | xi | **20.0** | – |
| Gorbenion (ac eithrio ailstrwythuro) | iii | **421.2** | 367.6 |
| Costau newid eraill | | **–** | 17.1 |
| | | **575.0** | 516.5 |

(i) Mae costau cynnwys yn cynnwys costau uniongyrchol gwneud rhaglenni. Mae'r rhain yn cynnwys costau casglu newyddion o £98.9miliwn (2007: £86.9miliwn) a ddyrennir i bob gwasanaeth perthnasol.
(ii) Mae cost dosbarthu yn cynrychioli darlledu a chario Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU (teledu, radio a rhyngweithiol) ar lwyfannau darlledu digidol ac analog - mae hyn yn cynnwys teledu analog, Teledu Daearol Digidol, lloeren, cebl, band eang, radio analog a radio digidol DAB. O'r costau dosbarthu, mae £81.8miliwn yn ymwneud â gwasanaethau analog (2007: £74.8miliwn) a £103.9miliwn â gwasanaethau digidol (2007: £89.9miliwn).
(iii) Mae gorbenion yn cynrychioli gwariant ar swyddogaethau canolog y BBC nad ydynt yn ymwneud â chynnwys, er enghraifft swydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, BBC People, adrannau Cyllid, Polisi a Chyfreithiol y BBC. Mae gwariant yn ymgorffori costau swyddfa a staff yn ymwneud â'r swyddogaethau hynny. Mae cyfran y costau hyn y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i wneud rhaglenni wedi eu cynnwys o fewn cyfanswm y gwariant ar raglenni, a dangosir costau gwasanaethau a ddarperir ar draws y BBC yn gyffredinol neu a reolir ar lefel gorfforaethol (er enghraifft marchnata, y wasg a chyhoeddusrwydd) fel gwariant gorbenion.
(iv) Wedi'u cynnwys yn BBC News (BBC News 24 gynt), mae costau cynnwys yn cyfateb i gostau cynhyrchu o £25.7miliwn, costau casglu newyddion o £19.5miliwn a chostau eraill o £0.5miliwn (2007: costau cynhyrchu o £24.3miliwn, costau casglu newyddion o £18.1miliwn a chostau eraill o £0.5miliwn).
(v) Cynhwysir cost darlledu'r Proms bellach yn Radio 3 ond llynedd fe'i cynhwyswyd yn y costau ar gyfer Cerddorfeydd a Grwpiau Perfformio.
(vi) Mae'r drwydded gwasanaeth ar gyfer Radio Lleol y BBC yn cwmpasu pob gorsaf unigol yn Lloegr.
(vii) Mae'n ofynnol i'r BBC ddarparu rhaglennu iaith Gymraeg i S4C. Mae'r gwariant uwch ar S4C yn arian ychwanegol ar gyfer cytundeb partneriaeth strategol S4C fel rhan o setliad ffi'r drwydded 2007.
(viii) Ni chaiff gwariant ar ddatblygu ei reoleiddio gan drwyddedau gwasanaeth ac fel y cyfryw fe'i nodir ar wahân. Mae ffigurau 2008 yn cynnwys costau ar ddatblygu cymwysiadau technoleg ar alw newydd a buddsoddi mewn gwasanaethau cyfryngau digidol.
(ix) Mae costau ailstrwythuro eithriadol yn ymwneud â'r rhaglenni Gwerth am Arian a Gwelliant Parhaus sy'n mynd rhagddynt yn UK Public Service Broadcasting (gweler Nodyn 4c).
(x) O dan delerau setliad cyfredol ffi'r drwydded, caiff cyfran o incwm ffi'r drwydded ei neilltuo er mwyn helpu i dalu am gostau diwydiant ehangach sy'n gysylltiedig â newid i ddigidol. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch farchnata ac ymwybyddiaeth a gynhelir gan Digital UK Limited a'r Cynllun Cymorth i Newid i Ddigidol a weinyddir gan DSHS Limited. Gweler Nodiadau 2b a 2d am fanylion y gwariant hwn.
(xi) Gweler Nodyn 8 am esboniad llawn o gostau pensiwn.

***Cyd-fentrau*** *yw busnesau y mae'r BBC yn eu rheoli ar y cyd â phartïon eraill.*

## 29 BUDDIANNAU MEWN CYD-FENTRAU, PARTNERIAETHAU CYSWLLT AC IS-GWMNÏAU

### 29a Cyd-fentrau o bwys a'u gweithgareddau

Mae gan y Grŵp fuddiant ecwiti o 50% yn y cyd-fentrau canlynol y mae pob un ohonynt yn gorfforedig ym Mhrydain Fawr ac yn gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, oni nodir yn wahanol:

| Enw'r endid | Gweithgaredd | Dyddiad cyfrifyddu |
|---|---|---|
| Cyd-fentrau masnachol: | | |
| 2 entertain Limited* | Fideo/DVD | 31 Ionawr 2008 |
| UK Gold Holdings Limited | Sianelau | 31 Mawrth 2008 |
| UK Gold Services Limited | Sianelau | 31 Mawrth 2008 |
| UK Channel Management Limited | Sianelau | 31 Mawrth 2008 |
| UKTV New Ventures Limited | Sianelau | 31 Mawrth 2008 |
| UKTV Interactive Limited | Sianelau | 31 Mawrth 2008 |
| JV Programmes LLC** | Sianelau | 31 Rhagfyr 2007 |
| BBC Haymarket Exhibitions Limited | Cyhoeddi | 31 Rhagfyr 2007 |
| Worldwide Media Limited*** | Cylchgronau | 31 Gorffennaf 2007 |
| Dovetail Services (UK) Holdings Limited | Cylchgronau | 31 Mawrth 2008 |
| Ragdoll Worldwide Holdings Limited | Hawliau eiddo deallusol | 31 Mawrth 2008 |
| Ragdoll Developments Limited | Hawliau eiddo deallusol | 31 Mawrth 2008 |
| UK VoD LLP**** | Datblygu | |
| Freehand International Pty Limited^ | Cynhyrchu Annibynnol | 31 Mawrth 2008 |
| Cyd-fentrau wedi eu hymgorffori i weithredu ar ran UK Public Service Broadcasting: | | |
| DTV Services Limited^^ | Marchnata | 31 Awst 2007 |
| Insight Property Partnership | Eiddo | 31 Mawrth 2008 |
| Daunus Limited^^^ | Eiddo | 30 Tachwedd 2007 |
| Freesat (UK) Limited | Darparu gwasanaeth teledu lloeren darlledu am ddim | 31 Mawrth 2008 |

* *60% o fuddiant ecwiti.*
** *Yn gorfforedig yn UDA.*
*** *Yn gorfforedig yn India.*
**** *33% o fuddiant ecwiti. Mae gan UK VoD LLP ddiwedd blwyddyn yn Rhagfyr, gan iddo gael ei sefydlu ym mis Chwefror 2008, cyfrifwyd y canlyniadau o ran ecwiti am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008.*
^ *Yn gorfforedig yn Awstralia a 25% o log ecwiti.*
^^ *20% o ddaliad ecwiti.*
^^^ *100% o ddaliad cyfranddaliadau dosbarth 'A', yn cynrychioli 10% o gyfanswm cyfranddaliadau Daunus Limited a ddyroddwyd. Delir gweddill y cyfranddaliadau yn Daunus Limited gan y partneriaid eraill. Deil y BBC ei fuddsoddiad yn Daunus Limited drwy is-gwmni, BBC Property Development Limited.*

## 29b Partneriaethau cyswllt o bwys a'u gweithgareddau

Mae'r Grŵp yn dal buddiannau sylweddol (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol) yn y partneriaethau cyswllt o bwys a restrir isod, sydd, oni nodir yn wahanol, wedi eu hymgorffori ym Mhrydain Fawr ac wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr. Mae rhestr lawn o bartneriaethau cyswllt ar gael ar gais gan The General Counsel and Secretary, BBC, Media Centre, 201 Wood Lane, London W12 7TQ.

*Busnesau yw **partneriaethau cyswllt** y mae gan y BBC gryn ddylanwad drostynt ond nid rheolaeth lwyr.*

| | Dal cyfranddaliadau cyffredin a ddyroddwyd % | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| **Partneriaethau cyswllt masnachol:** | | |
| Partneriaethau cyswllt Discovery: | | |
| People and Arts (Latin America) LLC (yn gorfforedig yn UDA) | 50 | Sianelau |
| Animal Planet (Asia) LLC (yn gorfforedig yn UDA) | 50 | Sianelau |
| The Animal Planet Europe Partnership | 50 | Sianelau |
| Animal Planet (Latin America) LLC (yn gorfforedig yn UDA) | 50 | Sianelau |
| Animal Planet Japan KK (yn gorfforedig yn Japan) | 33 | Sianelau |
| JV Network LLC (yn gorfforedig yn UDA) | 50 | Sianelau |
| Animal Planet Japan LLP (yn gorfforedig yn UDA) | 50 | Sianelau |
| Animal Planet Canada Company ULC (yn gorfforedig yng Nghanada) | 23 | Sianelau |
| Partneriaethau cyswllt masnachol eraill: | | |
| Frontline Limited | 23 | Cyhoeddi |
| OPL Holdings Limited | 39 | Cyhoeddi |
| Origin Publishing Limited | 39 | Cyhoeddi |
| UKTV Pty Limited (yn gorfforedig yn Awstralia) | 20 | Sianelau |
| Jasper Broadcasting Inc (yn gorfforedig yng Nghanada) | 20 | Sianelau |
| Jasper Junior Broadcasting Inc (yn gorfforedig yng Nghanada) | 20 | Sianelau |
| Childrens Character Books Limited | 25 | Llyfrau |
| Woodlands Books Limited | 15 | Llyfrau |
| Educational Publishers LLP | 15 | Addysg |
| 3sixtymedia Limited | 10 | Cynhyrchu |
| Left Bank Pictures Limited | 25 | Cynnwys a Chynhyrchu |
| Cliffhanger Productions Limited | 25 | Cynnwys a Chynhyrchu |
| **Partneriaethau cyswllt a ymgorfforir i weithredu ar ran UK Public Service Broadcasting** | | |
| Parliamentary Broadcasting Unit Limited | 50 | Darparwr cynnwys |
| Broadcasters Audience Research Board Limited (BARB) | * | Ymchwil cynulleidfa |
| The Commonwealth Broadcasting Association | * | Fforwm darlledu |
| Radio Joint Audience Research Limited (RAJAR) | 50 | Ymchwil cynulleidfa |
| White City Development Partnership | ** | Eiddo |

* *Mae Broadcasters Audience Research Board Limited a The Commonwealth Broadcasting Association yn gwmnïau cyfyngedig drwy warant, ac mae'r BBC yn gyd-aelod ohonynt ynghyd â darlledwyr eraill.*

** *50% o gyfran y bartneriaeth.*

*Mae **is-gwmnïau** yn fusnesau a reolir gan y BBC.*

### 29c Is-gwmnïau

Rhestrir prif is-gwmnïau'r BBC ar 31 Mawrth 2008 isod. Mae pob un â pherchenogaeth lwyr ac wedi eu hymgorffori ym Mhrydain Fawr ac wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr, oni nodir yn wahanol. Mae rhestr lawn o is-gwmnïau ar gael ar gais gan The General Counsel and Secretary, BBC, Media Centre, 201 Wood Lane, London W12 7TQ.

| Enw'r endid | | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| Is-gwmnïau Masnachol: | | |
| BBC Commercial Holdings Limited | * | Cwmni dal |
| BBC Worldwide Limited | ** | Cyhoeddi, sianelau a dosbarthu rhaglenni |
| BBC World Limited | ** | Sianelau |
| BBC Ventures Group Limited | ** | Cwmni dal |
| BBC Resources Limited | ** | Cyfleusterau a gwasanaethau gwneud rhaglenni |
| Lonely Planet Pty Limited (yn gorfforedig yn Awstralia) | ** | Cyhoeddwr tywyslyfrau teithio |
| Is-gwmnïau a ymgorfforir i weithredu ar ran UK Public Service Broadcasting: | | |
| BBC Free to View Limited | * | Cwmni dal ar gyfer trwydded ddigidol |
| BBC Property Limited | * | Eiddo |
| BBC Property Development Limited | * | Eiddo |
| BBC Property Investments Limited | * | Eiddo |
| Centre House Productions Limited | * | Ariannu cynyrchiadau |
| Digital UK Limited*** | * | Newid i ddigidol |
| DSHS Limited | * | Newid i ddigidol |
| BBC Free to View (Satellite) Limited | * | Darparu gwasanaeth teledu lloeren darlledu am ddim |

* *Yn berchen arno'n uniongyrchol.*

** *Yn berchen arno'n anuniongyrchol.*

*** *Mae'r BBC yn rheoli 56% o hawliau pleidleisio Digital UK Limited (a alwyd yn flaenorol yn Switchco Limited). Mae ei ganlyniadau wedi'u cyfuno yng nghyfrifon y Grŵp. Mae Digital UK Limited yn gwmni sy'n gyfyngedig drwy warant y mae'r BBC yn gyd-aelod ohono. Yr aelodau eraill a'u cyfranddaliadau yn Digital UK Limited yw: ITV plc 11%, Channel Four Television Corporation 11%, Channel Five Broadcasting Limited 8.75%, National Grid Wireless 6.25%, SON Limited 3.5%, S4C 2.25% a Teletext Limited 1.25%.*

## CYSONI SAFONAU ADRODDIADAU ARIANNOL RHYNGWLADOL

(nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiadau ariannol)

Mae Siarter a Chytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC baratoi ei ddatganiad archwiliedig o gyfrifon yn unol â'r Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (UK GAAP).

Er nad yw'n orfodol, tan 2005 roedd y BBC wedi dewis dilyn darpariaethau cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol er mwyn sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail sy'n gyson â rhai cwmnïau y DU a restrwyd ar farchnad wedi ei rheoleiddio gan yr UE. Yn dilyn newidiadau yn y gyfraith cwmnïau, pe bai wedi parhau i gyflwyno adroddiadau yn y ffordd hon, byddai'r BBC wedi paratoi ei ddatganiadau ariannol cyfunol yn unol â Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd gan yr UE o 1 Ebrill 2005. Fodd bynnag, byddai cyflwyno adroddiadau o dan IFRS yn anghyson â Siarter a Chytundeb y BBC. Serch hynny, mae'r BBC wedi parhau i adolygu'r effaith y byddai mabwysiadu IFRS yn ei chael ar gyfrifon y Grŵp ac wedi cyflwyno crynodeb o'r effaith y byddai mabwysiadu IFRS wedi ei chael ar y datganiadau ariannol, yn cynnwys addasiad o £18.5miliwn i gysoni'r flwyddyn flaenorol â dehongliadau IFRS sy'n datblygu.

Ar 31 Mawrth 2008, cyfrifodd y BBC y byddai ei asedau net, pe bai wedi mabwysiadu IFRS, wedi gostwng £198miliwn i £1,322miliwn (2007: byddai asedau net wedi gostwng £181miliwn i £1,207miliwn).

| | **2008** **£m** | 2007 fel yr ailddatganwyd £m |
|---|---|---|
| Asedau net fel y'u cofnodwyd o dan safonau cyfrifyddu'r DU | **1,519.2** | 1,388.3 |
| Ailddosbarthu prydlesau | **(196.5)** | (175.9) |
| Addasiadau ewyllys da | **10.9** | 6.7 |
| Buddiannau cyflogeion | **(16.5)** | (11.9) |
| Treth ohiriedig | **0.3** | (0.7) |
| Arall | **4.3** | 0.4 |
| Asedau net fel y byddent wedi cael eu cofnodi o dan IFRS | **1,321.7** | 1,206.9 |

Byddai rhai o newidiadau cyfrifyddu IFRS, sef ailddosbarthu rhai prydlesau gweithredol yn brydlesau cyllid yn bennaf, wedi cael effaith ar gyfrifo benthyciadau Public Service Broadcasting fel y'u diffinnir gan derfyn benthyca'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Pennir terfyn Benthyca'r Gwasanaethau Cyhoeddus o £200miliwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â'r Cytundeb rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ac fe'i pennir drwy gyfeirio at UK GAAP ac nid IFRS. Byddai benthyciadau'r Gwasanaethau Cyhoeddus o dan IFRS wedi bod yn £761miliwn, o gymharu â'r cronfeydd net o £17miliwn o dan UK GAAP (2007: byddai benthyciadau'r Gwasanaethau Cyhoeddus o dan IFRS wedi bod yn £640miliwn, o gymharu â chronfeydd net o £102miliwn o dan UK GAAP). Seilir diffiniad y Cytundeb o fenthyciadau ar y safonau cyfrifyddu sy'n weithredol yn y DU ym mis Gorffennaf 2006.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 cyfrifodd y BBC y byddai'r gwarged am y flwyddyn, pe bai wedi mabwysiadu IFRS, wedi gostwng £21miliwn i warged o £81million (2007: byddai'r gwarged am y flwyddyn wedi gostwng £46miliwn i warged o £15miliwn).

| | **2008** **£m** | 2007 fel yr ailddatganwyd £m |
|---|---|---|
| Gwarged fel y'i cofnodwyd o dan safonau cyfrifyddu'r DU | **101.7** | 60.7 |
| Ailddosbarthu prydlesau | **(20.7)** | (50.2) |
| Addasiadau ewyllys da | **(0.1)** | 3.6 |
| Arall | **0.3** | 0.4 |
| Gwarged fel y byddai wedi cael ei gofnodi o dan IFRS | **81.2** | 14.5 |

Mae cysoniad manylach rhwng canlyniadau a sefyllfa ariannol y BBC o dan safonau cyfrifyddu'r DU a'r hyn a fyddai wedi cael ei gofnodi pe bai IFRS wedi cael eu mabwysiadu, ynghyd â manylion pellach am yr addasiadau, yn cynnwys polisïau cyfrifyddu IFRS a'r tybiaethau sylweddol a wnaed wrth weithredu'r polisïau hynny (megis dyddiad newid i bolisïau cyfrifyddu IFRS) ar gael ar wefan y BBC yn bbc.co.uk/annualreport/executive

**BBC Gwybodaeth**
Os oes gennych gwestiwn neu sylw am raglenni neu wasanaethau'r BBC, gallwch gysylltu â BBC Gwybodaeth.
Ysgrifennwch at:
BBC Information
PO Box 1922
Glasgow G2 3WT
Ffôn: 03700 100 222*
(24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos)
Ffôn testun: 03700 100 212
Ffacs: 0141 307 5770
Gwefan: bbc.co.uk/info

**I gael gwybodaeth am sut i dderbyn gwasanaethau digidol y BBC**
Ffôn: 03700 10 10 10*
Gwefan: bbc.co.uk/digital

**I gael cyngor cyffredinol ar dderbyn teledu a radio**
Ysgrifennwch at:
BBC Reception Advice
PO Box 1922
Glasgow G2 3WT
Ffôn: 03700 100 123*
Ffôn testun: 03700 100 212
Gwefan: bbc.co.uk/reception

**I rannu eich barn ar ein rhaglenni teledu**
Ysgrifennwch at:
*Points of View*
BBC Birmingham
Birmingham B1 1RF
Ffôn: 0370 908 3199
(yn weithredol pan fydd y rhaglen ar yr awyr)
E-bost: pov@bbc.co.uk
Gwefan: bbc.co.uk/pov

**I rannu eich barn ar ein rhaglenni radio**
Ysgrifennwch at:
*Feedback*
BBC
PO Box 2100
London W1A 1QT
Ffôn: 03700 100 400*
(24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos)
Ffacs: 020 7436 2800
E-bost: feedback@bbc.co.uk
Gwefan: bbc.co.uk/radio/feedback

**Cwynion am raglenni a chwynion golygyddol**
Os byddwch o'r farn bod un o raglenni neu wefannau'r BBC wedi methu â chyrraedd safonau golygyddol y BBC
Ysgrifennwch at:
BBC Complaints
PO Box 1922
Glasgow G2 3WT
Ffôn: 03700 100 222
Ffôn testun: 03700 100 212
Gwefan: bbc.co.uk/complaints

Neu gallwch gysylltu â'r Swyddfa Gyfathrebu (Ofcom), sef y corff rheoleiddio annibynnol, sydd, ymhlith pethau eraill, yn gyfrifol am ystyried cwynion am safonau, tegwch a phreifatrwydd wrth ddarlledu.
Ysgrifennwch at:
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
Ffôn: 0300 123 3000
Ffacs: 020 7981 3333
E-bost: contact@ofcom.org.uk
Gwefan: www.ofcom.org.uk

**Cynghorau Cynulleidfa'r BBC**
Mae'r Cynghorau Cynulleidfa yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn helpu Ymddiriedolaeth y BBC i ddeall anghenion, buddiannau a phryderon cynulleidfaoedd ledled y DU, ac i nodi ffyrdd y gall y BBC wasanaethu ei gynulleidfaoedd yn well. Os hoffech gysylltu â'r Cynghorau Cynulleidfa gallwch ysgrifennu atynt yn y cyfeiriadau isod:

Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru
Cyngor Cynulleidfa'r BBC yng Nghymru
Ystafell E5108
Y Ganolfan Ddarlledu
Llandaf
Caerdydd CF5 2YQ

Head of Governance and Accountability Scotland
BBC Audience Council Scotland
Zone G.11
40 Pacific Quay
Glasgow G51 1DA

Head of Governance and Accountability Northern Ireland
BBC Audience Council Northern Ireland
BBC Broadcasting House
Ormeau Avenue
Belfast BT2 8HQ

Head of Governance and Accountability England
BBC Audience Council England
BBC Birmingham
The Mailbox
Birmingham B1 1RF

**Tocynnau am ddim**
I gael tocynnau am ddim i sioeau radio a theledu'r BBC
Ysgrifennwch at:
BBC Studio Audiences
PO Box 3000
BBC Television Centre
London W12 7RJ
Ffôn: 0370 901 1227
Ffôn testun: 0141 307 5701
Ffacs: 0141 307 5701
E-bost: tv.ticket.unit@bbc.co.uk
neu radio.ticket.unit@bbc.co.uk
Gwefan: bbc.co.uk/tickets

**Ymweld â'r BBC**
Mae'r BBC yn trefnu teithiau o amgylch Canolfan Deledu'r BBC yn Llundain. I gael rhagor o wybodaeth ac i drefnu ymweliad
Ffôn: 0370 603 0304*
Ffôn testun: 0370 903 0304
E-bost: bbctours@bbc.co.uk
Gwefan: bbc.co.uk/tours

Gall BBC Cymru, BBC Scotland, BBC Northern Ireland a chanolfannau rhanbarthol a gorsafoedd radio lleol yn Lloegr drefnu teithiau ar gyfer myfyrwyr y cyfryngau, sefydliadau proffesiynol a grwpiau eraill. Cysylltwch â'ch canolfan leol am fanylion.

**Cynnyrch y BBC**
Gallwch brynu DVDs, fideos, llyfrau, teganau a nwyddau eraill ar gyfer rhai o raglenni'r BBC. Am resymau hawlfraint, yn gyffredinol nid yw'n bosibl cael tapiau o raglenni eraill y BBC. I gael gwybodaeth am gynnyrch a gwerthiannau
Ffôn: 0844 848 0799*

Gallwch hefyd brynu cynnyrch y BBC o www.bbcshop.com

**I gael gwybodaeth am gael profiad gwaith yn y BBC**
Ysgrifennwch at:
BBC Work Experience
MC2 C6 Media Centre
Media Village
201 Wood Lane
London W12 7TQ
E-bost: work.experience@bbc.co.uk
Gwefan:
bbc.co.uk/jobs/workexperience

**I gael gwybod am swyddi gwag o fewn y BBC**
Ysgrifennwch at:
BBC Recruitment
PO Box 48305
London W12 6YE
Ffôn: 0370 333 1330*
(9.30am–5.30pm Llun-Gwener)
E-bost: careers@bbchrdirect.co.uk
Gwefan: bbc.co.uk/jobs

**Ar gyfer ymholiadau am eich Trwydded Deledu, ymholiadau cyffredinol neu daliadau debyd uniongyrchol**
Ffôn: 0844 800 5870
Ffacs: 0844 800 5816
E-bost: tvlcsc@capita.co.uk
Gwefan: www.tvlicensing.co.uk

Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ledled y DU ac ar-lein yn www.bbc.co.uk/annualreport. Mae hefyd ar gael yn Saesneg, mewn fersiwn sain ac mewn Braille. Cyhoeddir Arolygon Blynyddol ar gyfer BBC Cymru, BBC Scotland, BBC Northern Ireland, BBC English Regions a BBC World Service hefyd.

Mae'r BBC hefyd yn cyhoeddi ei Ddatganiadau o Bolisi Rhaglenni sy'n nodi ymrwymiadau a chynlluniau'r BBC ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y BBC yn bbc.co.uk/info/statements2008.

* *Efallai y caiff galwadau i'r rhif hwn eu monitro neu eu recordio at ddibenion hyfforddi.*

*Gelwir rhifau 0370 yn 'rhifau ledled y DU' ac nid ydynt yn costio mwy na galwadau i rifau daearyddol 01 neu 02.*

Tynnwyd lluniau'r clawr a'r lluniau ar dudalennau 4-23, 28 a thudalennau 55-67 gan Mike Abrahams. Tynnwyd y llun ar dudalen 11 gan Leila Angus (h) BBC.

Mae'r clawr yn dangos rhai o'r bobl a'r gweithgareddau sy'n helpu i ddarparu rhaglenni a chynnwys gwych i'n cynulleidfaoedd bob dydd.

Rhes 1 Ch-Dd:
Lisha Gilbert, gweithredwr camera llawrydd, yn gwneud gwaith yn y stiwdio ar gyfer y cwmni annibynnol talkback THAMES

Andrew Hawes yn rhoi sylwebaeth fyw ar gêm bêl-droed ar BBC Southern Counties Radio

Chris Evans yn cyflwyno ei raglen ddyddiol yn ystod oriau teithio brig ar Radio 2 yn ei arddull ddihafal ei hun

Rhes 2 Ch-Dd:
Y Golygydd Gwleidyddol Nick Robinson yn gwylio *Prime Minister's Question Time* wrth iddo baratoi ar gyfer darllediad byw

Prif Sielydd Susan Monks yn ymarfer gyda gweddill Cerddorfa Symffoni a Chorws Symffoni'r BBC

Gabby Logan yn cyflwyno *Inside Sport*, crynodeb wythnosol o newyddion chwaraeon ar BBC One a BBC World News, a ddosberthir hefyd gan BBC Worldwide

Rhes 3 Ch-Dd:
Julia Bradbury yn darllen ei sgript ar gyfer *Watchdog* ar BBC One

Trevor Nelson gyda Zena yn rhoi dechrau da i'r diwrnod i'w cynulleidfa ar 1Xtra gyda chymysgedd o gerddoriaeth, clecs am selebs a chyfweliadau

Cyfarwyddwr Cynorthwyol 1af *EastEnders* Philip Lewis yn ystyried yr opsiynau ar gyfer golygfa yn Albert Square yn Walford

Rhes 4:
Adrian Chiles, wedi diwrnod prysur ar *The One Show* ar BBC One, yn ymarfer ar gyfer *The Apprentice: You're Fired!* ar BBC Two

Papur
Argraffwyd ar Revive 100 Offset, papur wedi'i ailgychu 100% ag achrediad yr FSC. Gwnaed y papur o wastraff ôl-ddefnyddiwr wedi'i ddad-incio 100%. Gwneir yr holl fwydion gan ddefnyddio dulliau Elfennol Di-glorin (ECF) ac achredwyd y felin weithgynhyrchu â'r safon ISO 14001 ar gyfer rheolaeth amgylcheddol.

Argraffu
Argraffwyd gan Royle Print. Gwneir yr inciau argraffu gydag olew llysieuol nad yw'n beryglus a wnaed o ffynonellau adnewyddadwy. Caiff dros 90% o'r toddyddion a'r datblygwyr eu hailgylchu i'w defnyddio eto ac mae cynlluniau ailgylchu ar waith ar gyfer yr holl wastraff arall sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchiad hwn. Mae gan Royle Print ardystiad FSC ac ISO 14001 ac mae gweithdrefnau llym ar waith i warchod yr amgylchedd drwy gydol yr holl brosesau.

**CarbonNeutral**® printing company

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan Sheppard Day Corporate (rhan o Grŵp **35**)

Cyfieithwyd gan Wasanaeth Cyfieithu Prysg


FSC 100%

**Recycled**
**Supporting responsible use of forest resources**

**Cert no. TT-COC 002228**
**www.fsc.org**
**© 1996 Forest Stewardship Council**

Mae'n ofynnol i'r BBC o dan delerau ei Siarter lunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon mewn dwy ran. Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn paratoi'r rhan gyntaf a Bwrdd Gweithredol y BBC yn paratoi'r ail ran gan adlewyrchu swyddogaethau a chyfrifoldebau gwahanol y ddau gorff. Gyda'i gilydd mae'r ddwy ran yn ffurfio arolwg ac asesiad y BBC o'i flwyddyn.





British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London W1A 1AA
bbc.co.uk
(h) BBC 2008